CERDDI YSGOL LLANYCRWYS

YNGHYD A

HANES PLWYF LLANYCRWYS

GAN

DAN JENKINS



CERDDI YSGOL LLANYCRWYS

(I ddathlu Gwyl Ddewi 1901—20)

[*Tan nawdd Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymreig*]

YNGHYD A

HANES PLWYF LLANYCRWYS

GAN

DAN JENKINS

— ALL RIGHTS RESERVED —

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER
1934

Cyflwynedig

i

Blant

Ysgolion

Cymru

Rhagair.

Cyhoeddir y gyfrol hon ar gais llu o gyfeillion ar hyd y blynyddoedd a glywodd ganu y caniadau hyn neu a'u darllenodd o flwyddyn i flwyddyn yn y rhaglenni yn ystod rhediad Cyngherddau Gwyl Ddewi Ysgol Llanycrwys. Cyfansoddwyd y cerddi hyn yn arbennig ar gyfair y Cyngherddau hynny, a rhoes y ffaith hon elfen o ddiddordeb, nid yn unig i'r cyngherddau, ond hefyd i'r caneuon eu hunain.

Cafwyd hwyl fawr wrth eu canu ar hen alawon ein gwlad gan y plant a phobl mewn oed, a rhoddwyd derbyniad gwresog iddynt gan y torfeydd a'u gwrandawent.

Ni ddywedwn ddim am deilyngdod llenyddol neu farddonol y caniadau, amgen na chrybwyll bod amryw o honynt yn waith rhai o brif-feirdd Cymru, ac yn eu cysgod waith beirdd llai, ynghŷd â phrydyddion syml cefn gwlad, a bod y cerddi oll yn anadlu ysbryd gwir Gymreig.

Teifl rhai o'r caniadau symlaf beth goleuni ar arferion a diwydiannau gwledig Cymru Fu, a chredwn fod hynny ynddo'i hun o ryw werth a diddordeb.

Fe'n had-delir am bob traul a thrafferth ynglŷn a chyhoeddi'r casgliad hwn os bydd ef yn help i ennyn, neu i gadw'n fyw yr ysbryd Cymreig, ymysg plant a phobl ieuainc Cymru.

Dymunwn ddiolch o galon i bawb a roes galondid inni ynglŷn â'r anturiaeth hon, ac yn arbennig i'r llu tanysgrifwyr oll am eu cefnogaeth garedig, canys heb eu cymorth parod hwy ni buasai'n bosibl inni ymgymeryd â chyhoeddi'r gyfrol hon.

Na roddwch fenthyg y Gyfrol. Nid oes gan rai " gydwybod llyfr ".

ANELLYDD.
DAN JENKINS.

Mehefin, 1934.



DAN JENKINS

YSGOLDY LLANYCRWYS

ANELLYDD



D. E. DAVIES, Y.H. (Ap Lewis)

Annerch yr Hen i'r Ifanc.

ANNWYL GYMRY IFANC,—

Pan yng nghwmni diddan fy hen gyfaill hoff, Dan Jenkins, yn Eisteddfod Llanelli, gwahoddodd fi i sgrifennu gair o Annerch atoch ynglŷn â chyfrol o Farddoniaeth Gwyl Ddewi, a gasglesid ganddo yng nghwrs blynyddoedd, ac addewais y gwnawn.

Anrhydedd i mi yw'r cyfle i gyfarch a chroesawu ieuenctid Cymru i fwynhau'r ddarpariaeth a wnaed gan yr Athro hoff a roddes ei oes i'w gwasanaethu, a'r hwn, er ymddeol ohono o'i swydd, a ddeil ymlaen yn ei ddiddordeb tadol ynoch.

Darllenwch y llyfr *i gyd*; ac yn gyntaf, cyn sylwi fawr ar yr hyn a feirniedir arno gan eraill. Mynnwch o'ch ieuenctid feithrin meddwl syml a diragfarn. Bydd i hynny fod o fantais i chwi ar hyd eich hoes, yn enwedig i werthfawrogi barddoniaeth. Mae rhagfarn yn y meddwl yn debig i ddallineb lliw mewn llygad—yn rhoi lliw yr edrychydd i'w wrthrych, ac nid yn canfod y gwrthrych yn ei liw ei hun. Gwnaeth llawer darllenydd barddoniaeth gam ag ef ei hun drwy dderbyn gair adolygydd rhagfarnllyd am waith awdur. Yn ei lyfr ar *Taste*, y cyngor cyntaf a ddyry Arnold Bennett i un a fynnai addaster i adnabod barddoniaeth yw ei fod i glirio'i feddwl hyd y gallai oddiwrth bob syniad blaenorol a feddai am natur barddoniaeth a mesur, "*Take a sponge and wipe the slate of your mind*". Yn ail, darllen traethawd William Hazlitt ar "*Poetry in General*". Yn drydydd, ac wedi wythnos o gyfwng, darllen y traethawd eilwaith. Yn bedwerydd, darllen Esaia, Pen. 40. Gyda llaw, dyry i Esaia glod goruchel fel "bardd mawr iawn, a'r hyn a sgrifennodd yn '*very great poem*'."

Awgryma hyn oll yr angen am i bob darllenydd o farddoniaeth glirio'i feddwl a'i galon oddiwrth ragfarn, a gosod ei hun yn agored i dderbyn yr argraffiadau a phrofi drosto ef ei hun beth sy' farddonol.

Mae amryw rywogaethau o farddoniaeth. "*Poets are born, not made.*" Dyna'r gwir cyntaf; ond nid i'r un byd y genir pob bardd. Er bod rhyw elfen sy' gyffredin i bob barddoniaeth, mae hefyd gymaint o wahaniaeth, fel y rhaid wrth feddyliau o deip gwahanol i'w gilydd i allu cynhyrchu a gwerthfawrogi'r gwahanol fathau.

Na thybiwch nad yw Ceiriog yn fardd am ei fod yn hawdd i'w ddeall; neu nad yw Islwyn yn fardd am ei fod mewn mannau'n gyfrin. Na adewch i ragfarnau am iaith, arddull, celfyddyd, na dim a berthyn i ffurf na rhywogaeth cerdd eich rhwystro; eithr dal ar yr hyn a gyffwrdd â'ch calon ddyfnaf, a thrysori hynny yn eich profiad: canys nid oes dim llygredig yn y llyfr hwn.

Wedi darllen felly, beirniedwch faint a fynnoch ar bopeth, cywirwch yr hyn a dybiwch yn wallus, a mynnwch ymberffeithio drwy hynny, a cheisio rhagori eich hunain ar y cwbl.

Ond meithrinwch yr ysbryd *Cymreig a Chenedlaethol*. Eneinier eich calonnau â'r arwyddair: "*Fy iaith, Fy Ngwlad, fy Nghenedl.*" Fy nymuniad a'm gweddi eroch Ieuenctid Annwyl, yw—

"Dan Nawdd Duw a'i Dangnef!"

PEDROG.

Gair i'r Plant am Ddewi Sant.

Gŵyr pawb mai Dydd Gwyl Ddewi yw'r cyntaf o Fawrth. Y mae gan bob gwlad ei meibion glew, a chan bob gwlad, ymron, ryw Sant a ystyrrir yn Sant y genedl: St. Padrig yw Sant Iwerddon, St. Andreas yw Sant Ysgotland, St. George yw Sant Lloegr. Felly Dewi yw Sant y Cymry.

Blodeuai Dewi yn y chweched ganrif. Anhawdd gwybod yn fanwl ymha flwyddyn y ganed ef, na pha flwyddyn y bu farw. Y mae'n debyg iddo farw tua'r flwyddyn 601. Ganed ef yn agos i'r fan y saif Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, ac wedi treulio ohono fywyd maith a gweithgar dros ei Dduw a'i wlad bu farw mewn gwth o oedran yn Nhŷ Ddewi. Dywedir iddo farw tra'r oedd ei ddisgyblion yn canu'r Pylgain. Fe'i cododd ei hun ar ei wely caled, a llefodd ei fod yn gweled yr Arglwydd, a deisyfodd arno am gael Ei ganlyn i'r Nefol Wlad.

Megis yr Iesu, yr oedd Dewi yntau o waed brenhinol. Enw ei dad oedd Sandde, a'i fam oedd Non. Ar ei henw anrhydeddus hi y gelwir Eglwys Llannon yn sir Aberteifi, ac un arall yn sir Gaerfyrddin. Y mae yn Nhy Ddewi ffynnon a elwir Ffynnon Non yn aros hyd heddiw. Dywedir i Dewi dderbyn ei addysg foreol o dan ofal Illtud yng Nghaerwrangon [Worcester]. Wedi ei ordeinio'n offeiriad, treuliodd ddeuddeng mlynedd yn astudio'r Ysgrythur Lân yn athrofa Tŷ-Gwyn-ar-Dâf [Whitland] yn sir Gaerfyrddin. Daeth ymhen amser yn athro ei hun; aeth ei glod ar led, a daeth disgyblion ato o bob parth o Gymru, a thuhwnt.

Dewi yw nawddsant Cymru. Ond pa beth a feddylir wrth nawddsant? Tybiai'r hen bobl, bod rhyw sant yn gofalu am bob cenedl. Yn wir, fe dybient bod seintiau yn gofalu am wahanol bobl: y Sant a ofalai am blant oedd St. Nicolas [" Santa Claus " y Nadolig], a Sant y cryddion oedd Crispin. Felly Dewi yw Sant y Cymry.

Eithr paham y dewiswyd ef? Am yr ystyrrid mai Dewi oedd yr esiampl orau o Gymro y sydd ar gael. Ef oedd y patrwm gorau i bob Cymro geisio ymdebygu iddo.

Y mae'n bwysig felly inni ddeall a manylu pa fath ddyn oedd Dewi, a pha beth a wnaeth.

Gwyddom iddo sefydlu Esgobaeth Tŷ Ddewi, ac iddo ddyfod yn Archesgob, fel y dengys y Calendr. Gwyddom ei fod yn ddirwestwr. Dwfr oedd ei ddiod, a Dewi Ddyfrwr y gelwid ef. Ond yr oedd tri pheth nodedig ynddo:

I. Yr oedd yn ddyn duwiol o'i febyd. Dywedir y gwelid colomen wen, lân yn sefyll yn aml ar ei ysgwydd, ac yn siarad yn ei glust. Fel y mae'r diafol bob amser yn agos atom i sisial drwg wrthym os caiff dderbyniad, felly yr oedd angel pur gyda Dewi am ei fod yn fachgen a dyn pur o galon, a glân ei fuchedd.

II. Yr oedd yn ysgolhaig. Hoffai astudio. Fel y dywedwyd uchod, bu yn y coleg ddeuddeng mlynedd yn Nhŷ-Gwyn-ar-Dâf. Ei brif lyfr oedd y Beibl. Os mynnwn fod yn debyg i Dewi ein patrwm, rhaid inni ddarllain a charu'r Beibl.

III. Casâi ymryson ac ymraniadau. Mab undeb a thangnefedd ydoedd. Yn ei oes ef ffoai'r Cymry, gyda'u hoffeiriaid a'u hesgobion o flaen y gelynion o Loegr, ac yna ar eu sefydliad yn y wlad codai ymryson. Casâi Dewi hyn. Ac am ei waith yn dwyn pawb i'r undeb, yn gwneud *un* Eglwys Gristionogol, y cafodd ei godi yn nawddsant.

Bai a gwendid Cymry drwy'r oesau yw ymrannu. Felly y gwelir ni heddiw. Y dynion sydd arnom eu heisiau eto ydyw rhai fel Dewi Sant a geisiant ddwyn ein cenedl yn un a chytun mewn undeb ysbryd ac yn rhwymyn tangnefedd.

Anellydd.

DYDD GWYL DEWI.

RHAI PETHAU Y DYLAI POB PLENTYN CYMREIG EU GWYBOD.

Pa ddiwrnod yw hwn?

Y diwrnod cyntaf o Fawrth, neu Ddydd Gwyl Dewi.

Paham y gelwir ef yn Ddydd Gwyl Dewi?

Am mai arno ef yr ydym yn coffhâu Dewi Sant, a fu farw ar y dydd cyntaf o Fawrth amser maith yn ôl.

Pwy oedd Dewi Sant?

Cymro mawr a da a elwir yn Sant Nawdd Cymru.

Beth ydyw Sant Nawdd?

Cymeriad mewn hanes a ddaeth bob yn dipyn i gael edrych arno gan y bobl fel cymwynaswr arbennig a noddwr eu gwlad, ar gyfrif ei weithredoedd da a'i fywyd pur.

Pa Saint Nawdd eraill sydd?

St. Sior, Lloegr; St. Andreas, Ysgotland; St. Padrig, Iwerddon.

Pa beth a wyddoch chwi am Ddewi Sant?

Ganed Dewi Sant yn Nyfed oddeutu'r bumed ganrif wedi Crist, ac yno y bu efe byw ac y bu farw; bu fyw bywyd da a syml a defnyddiol; gwir Gristion dreuliodd ei oes yn pregethu a gwneud daioni; ac un a gerid yn fawr gan y bobl.

Wrth ba enw yr adwaenid ef, a phaham?

Gelwid ef yn " Dewi Ddyfrwr ", am nad yfai un amser ddiod gryfach na dŵr, ac nad ymborthai ar ddim ond bwyd syml.

Pwy sydd yn cadw Dydd Gwyl Dewi?

Pob Cymro gwladgar.

Pa fath un yw gwladgarwr?

Un yn caru ei wlad ac yn ceisio ei gwasanaethu hi ym mha le bynnag ac ym mha sefyllfa bynnag y bo.

Rhowch i mi arwyddair da i wladgarwr Cymreig, hen neu ieuanc?

Yr hen un Cymraeg—" Cymru a phopeth mawr, doeth, a sanctaidd."

Pa beth yw amcan cadw Dydd Gwyl Dewi?

Adgoffa i ni ein dyledswydd at ein gwlad, ein dyledswydd at Gymru.

Pa fodd y mae i ni gyflawni y ddyledswydd honno?

Drwy garu Cymru, a phan ddaw'r adeg, bod yn ewyllysgar i'w gwasanaethu hi a'i hamddiffyn hi a'r ymerodraeth fawr y mae hi yn rhan hynaf ohoni; peidio un amser a dwyn gwarth arni drwy weithredoedd gwael neu anghyfiawn; parchu deddfau ein gwlad, a chynnal ei sefydliadau.

Pa un o'r hen Drioedd Cymreig a ddylem gofio ynglyn â hyn?

" Tri pheth y dylai pob Cymro eu cofio yn ddidorr, rhag eu amharchu ohono: ei dad, ei wlad, a'i enw Cymro."

Ennwch un o brif drysorau'r Cymry.

Yr hen Gymraeg odidog, iaith yr hen Frythoniaid, pobl gyntefig Lloegr a Chymru, iaith a siaredid ganddynt cyn i Rufeinwr na Daniad na Sais erioed lanio yn ein tir.

Pa fodd y gallwch chwi'r plant gadw'r Iaith Gymraeg?

Drwy ei siarad hi, a'i darllen hi, a'i hysgrifennu hi, pa bryd bynnag a pha le bynnag y gallwn, —gartref ac oddicartref, pan wrth ein gwaith

neu pan wrthi yn chware. Peth i fod yn falch o hono yw medru Cymraeg da, ac felly dylai plant Cymru wneud yn fawr o iaith eu mam. Uwchlaw'r cwbl, ni ddylem byth—dan unrhyw amgylchiadau—fod a chywilydd ohoni hi nac o'n cenedl.

Ennwch un arall o drysorau'r bywyd Cymreig.

Yr Eisteddfod.

Pa beth yw Eisteddfod?

Cynhulliad o Gymry lle y bydd meibion a merched yn cystadlu mewn Llên a Chân, mewn Celf a Chrefft.

Ennwch drydydd sefydliad cenedlaethol.

Dydd Gwyl Dewi Sant, ag yr ydym ni heddiw yn ei ddathlu.

Pwy arall sydd yn dathlu Dydd Gwyl Dewi?

Cymry ar hyd a lled y byd, a bechgyn a genethod yn ysgolion Cymru.

Paham y mae hi yn bwysig dathlu y dydd hwn yn yr ysgol?

Am y byddwn ni, fechgyn a genethod, yn fuan yn ddynion ac yn ferched, a rhaid i ni garu a gwasanaethu ein gwlad a throsglwyddo i eraill y traddodiadau a'r sefydliadau Cymreig sydd wedi dod i lawr hyd atom ni.

Pa gân genedlaethol a genir gan y Cymry pan gyda'u gilydd ar Ddydd Gwyl Dewi?

"Hen Wlad fy Nhadau."

Pwy gyfansoddodd y gân honno?

Hen Gymro o'r enw Evan James [Ieuan ap Iago], gwehydd o Bontypridd, yn sir Forgannwg, a'i fab James, dan gynhyrfiad eu gwladgarwch.

Pa gân arall y dymunwn oll ei chanu ar Ddydd Gwyl Dewi?

"Ar D'wysog gwlad y bryniau."

Pwy wnaeth y gân?

Dau Gymro oedd yn byw yn y ganrif ddiwethaf: Brinley Richards y cerddor wnaeth y miwsig, a John Ceiriog Hughes y bardd wnaeth y geiriau.

Am fod Saeson ac Albanwyr a Gwyddelod, ledled y byd, yn ymuno â'r Cymry heddiw i ddathlu Gwyl Dewi Sant, pa beth allwn ni gymryd yn arwyddair priodol, nid yn unig ar Ddydd Gwyl Dewi, ond ar bob dydd?

Geiriau doeth Shakespeare, bardd mwyaf y Saeson: "LET ALL THE ENDS THOU AIM'ST AT BE THY COUNTRY'S, THY GOD'S, AND TRUTH'S."

Adroddwch hynny yn Gymraeg—

"BOED I'TH HOLL DDIBENION FOD YN DDIBENION DY WLAD, DY DDUW, A GWIRIONEDD."

(*From the Booklet "St. David's Day" by permission of the Controller of H.M. Stationery Office*).



LEWIS DAVIES, Y.H., Y GELLI



THOMAS PRICE (ALAWYDD MYRDDIN)



Y PARCH. D. WILLIAMS,
RHEITHOR LLANDDYRNOG A DEON GWLADOL DINBYCH

CERDDI YSGOL LLANYCRWYS.

I DDATHLU GWYL DDEWI 1901—1920.

Gwyl Ddewi, 1901.

1.—DEWI SANT.

Mae'r Scotiaid a St. Andrew,
A'r Saeson a St. Sior,
A'r Werddon a St. Padrig,
Yr ochor draw i'r môr ;
Wrth gadw dydd Gwyl Ddewi
Fe fynnwn ninnau blant,
Ymffrostio—tra bo Cymru—
Yn enw Dewi Sant.

Mae'r plant ar hyd Sir Benfro,
'Berteifi a Sir Gâr,
Yn hoffi son amdano,
A'i gyfri i gyd yn gâr ;
Bu Dewi yn bendithio
Y wlad, bob bryn a phant,
A ninnau'n canu heno
Wrth gofio Dewi Sant.

WATCYN WYN.

2.—Y GENHINEN.

Mae'r Scotyn â'i Ysgallen
Yn son o hyd am hon,
A'r Sais yn llawn o falchter
A Rhosyn ar ei fron,
Mae'r Gwyddel â'i Feillionen
Yn canu ffordd y cerdd,
A'r Cymro'n dal i foli
Yr hen Genhinen werdd.

Yr ysgall sydd yn arw,
A'r rhos yn cario draen,
A'r meillion gânt eu sarnu
Yn sibris ar y waun ;
Y Scot, a'r Sais a'r Gwyddel
I'r rhai'n gaiff ganu cerdd,
Mi fynnaf finnau ganu
I'r hen Genhinen werdd.

WATCYN WYN.

3.—HEN BENILLION.—"CYMRU FU."

Clywais ddadwrdd, clywais ddwndro,
Clywais bart o'r byd yn beio,
Ond ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau'i hunan.

Brith yw'r ser ar noswaith olau,
Brith yw meillion Mai a blodau,
Brith yw dillad y merchedau,
A brith gywir ydynt hwythau.

Melys iawn yw llais aderyn,
Fore haf ar ben y brigyn ;
Ond melysach cael gan Gwenno
Eiriau heddwch wedi digio.

Blin yw caru yma ac acw,
Blin bod heb y blinder hwnnw ;
Ond o flinderau blinaf blinder,
Cur annifyr caru'n ofer.

Da ydyw'r gwaith, rhaid dweud y gwir,
Ar fryniau sir Feirionnydd,
Golwg oer o'r gwaelaf gawn,
Mae hi eto'n llawn llawenydd ;
Pwy ddisgwyliai canai côg
Mewn mawnog ar y mynydd.

4.—"HIR OES I'R BRENIN."

Alaw—"*Glan Meddwdod Mwyn.*"

I wisgo aur goron y byd ar ei ben,
Hir einioes i Frenin yr hen Ynys Wen ;
I chwifio prif faner y byd ar y don,
Hir einioes i Frenin yr hen Ynys hon,
O bydded brenhiniaeth yr hen Ynys Wen
Yn fendith i'r ddaear tan fendith y nen.

CEIRIOG.

5.—Alaw.—"LILI LON."

Tra bo son am blwyfi Cymru,
Llanycrwys a gaiff ei enwi,
A bydd son am Ffaldybrenin
Tra bo Cymry'n bwyta cennin.

Tra bo son am ffrydiau Cymru,
Enwir Camnant, Twrch a Chothi,
Fel afonydd anghyffredin
Yn golchi wyneb Sir Gaerfyrddin.

Tra bo son am lefydd enwog
Yn addurno'r Sir odidog,
Rhosybedw gyda'r Gelli,
A Lofftcyff a gaiff eu henwi.

Erw Ion lle magwyd Kilsby,
Wernfendigaid gyda'r Hendy,
Troedybryn wrth Ffaldybrenin,
Enwau gorau Sir Gaerfyrddin.

O bob lle dan y ne', &c.,
Ffaldybrenin Sir Gaerfyrddin
Yw'r lle gore—onide?

Watcyn Wyn.

6.—Alaw.—"HOB Y DERRI DANDO."

Yr hen Harris, Cwrtycadno—
Clywodd Cymru son amdano,
Clywsom ninnau'n Ffaldybrenin,
Beth o hanes Wil Llewelyn.

Y mae'r rheina wedi'n gadael,
Ond mae'r enwau heb ymadael,
Colled fawr i Sir Gaerfyrddin
Ydyw colli'r fath hen fechgyn.

Mae hen ardal Ffaldybrenin,
Fyth yn falchter Sir Gaerfyrddin,
Mae boneddwyr yma eto,
Gwerth eu henwi, gwerth eu rhifo.

Mae aelodau y Bwrdd Ysgol
Yn foneddwyr anghymharol.
Nid oes fwrdd yn Sir Gaerfyrddin
Fel Bwrdd Ysgol Ffaldybrenin.

Y tri Davies allwn enwi,
Walters a Williams gyda hynny
Mae pump aelod anghyffredin
Ar fwrdd ysgol Ffaldybrenin.

Watcyn Wyn.

7.—DYDD GWYL DDEWI.

Alaw—"*Dydd Gwyl Dewi Sant.*"

Fel golau haul yn erlid gwyll,
Ysgolion Dewi Sant
Ymlidiai anwybodaeth hyll
O niwliog bennau'r plant,
Ystlumod ofergoelion gant
A ffoent rhag eu gwawr
A gwenai moes, tra canai plant
Ysgolion Dewi fawr.

Ar ddydd Gwyl Ddewi dyma ni
Yn ymyl toriad gwawr,
Haul Addysg ein gororau'n fri,
I'n gwlad sy'n fendith fawr,
Bwystfilod tlodi a gormes hir
Arswydant rhag ei wên;
Tywynna llwydd mwy ar ein tir
Blodeua dysg a llên.

O fryniau Meirion cloddir aur,
O Arfon lechi drud,
Mwn haearn ym Morgannwg geir,
A phres ym Môn o hyd;
Ond addysg gloddia drysor mwy
O'n hysgolheigion mâd,
Trysorau celf a dysg—hwynt-hwy
Wnant anfarwoli'n gwlad.

Daw Cymru fach yn Gymru fawr,
A Chymru gaeth yn rhydd;
Nid gwrthrych gwawd y Sais bob awr,
Ond Cymru enwog fydd.

Hawen.

8.—"DUW GADWO'R BRENIN."

Duw cadw ar bob awr
Benadur Prydain Fawr,
Mewn hawddaf hynt.
Cylchynna'i orsedd fry
A'th ofal Tadol fu,
Yn dŵr a chadarn dŷ
I'w dadau gynt.

Watcyn Wyn.

Gwyl Ddewi, 1902.

1.—Y "SIMLI" GRASU.

Alaw—"*Ar hyd y Nos.*"

Dewch am dro i Sir Gaerfyrddin,
Ar hyd y Nos,
Os am hanes "Simli'r" odyn,
Ar hyd y Nos,
Crasu'r ŷd, ac adrodd chwedlau,
Byddai'r merched mwyn a'r llanciau,
Gyda hwyl hyd oriau'r borau!
Ar hyd y Nos.

Cai bwganod Ffaldybrenin,
Ar hyd y Nos.
A Chwm Twrch ei trin yn erwin,
Ar hyd y Nos.
Pawb yn dweud am gorau'i stori,
Nes anghofio'r ŷd, a'i losgi
Weithiau'n ngwres y tân, a'r cwmni!
Ar hyd y Nos.

Os yw oes y "Simli" heibio,
Ar hyd y Nos.
Mae hi'n felys iawn i'w chofio,
Ar hyd y Nos.
D'wedwn wrth y plant am dani,
Am ei bara ceirch a'i llymru,
A'r "Hen Amser Gynt" yn Nghymru!
Ar hyd y Nos.

"Granellian."

2.—"CYMRAEG YW'R IAITH I FOD."

Alaw—"*Dydd Gwyl Dewi Sant.*"

Nid oes wahaniaeth yn y byd
Pa beth a fyddo'r iaith,
A gaiff ei harfer gennych chwi
Wrth wneuthur ambell waith;
Wrth brynu neu wrth werthu buwch,
Neu geffyl yn y dre,
Gwna iaith y bobol nesa'r tro,—
Mae'n burion yn ei lle:

Pan fyddo Dygwyl Cymru Wen
Oddeutu fyth yn dod,
Fe ddylai'r Cymro godi'i ben
"Cymraeg yw'r iaith i fod."

Pan ewch ar bleser daith ryw dro
I Lerpwl neu Gaerludd,
Chwi ellwch ddwyn eich Seisnig iaith
I'r golwg am y dydd;
Neu pan i Gymru daw y Sais,
Heb feddu iaith ond un;
Peth purion cario 'sgwrs ymlaen
Ag ef yn iaith ei hun.

Pan dros Glawdd Offa rywbryd ewch
I dario at John Bull,
Os na siaredwch chwi'i iaith ef,
Cyfrifa John chwi'n ddwl;
'Chymerai John a welodd oll—
Y byd i gyd na'i fri—
Am droi y "Derby" yn Gymraeg,
Er mwyn eich boddio chwi.

Cymraeg yw iaith y 'Steddfod hen
I fod tra fyddo byw;
Bai cystal llawn i Gymru'i hun
Ddyweyd taw Seisnes yw;
Cymraeg gan hyny lanciau mwyn,
A chwithau ferched glân,
Hen iaith ein tywysogion gynt,
A iaith Cymroaidd gân.

W. Eilir Evans.

3.—GWLAD MYRDDIN."

Alaw—"*Lili Lon.*"

P'un yw'r benaf oll o'r Siroedd,
Naddwyd i'n gan hen flynyddoedd,
Ar ein darlunlen y fwyaf;
Yn ein hanes yr enwocaf?
Uwch y lli'r eistedd hi,
Sir Gaerfyrddin, orau'i gwerin,
Ple mae bro mor fawr ei bri?

Ynddi ganwyd prif enwogion,
Rhestr hirfaith Cymru dirion ;
Hi yw'r Sir a welodd eni,
Proffwyd clodfawr Dyffryn Towi.

Ynddi hi caed gŵr i wisgo
Coron Lloegr ar ben Cymro ;
Hi oedd Sir Syr Rhys ap Thomas—
Mae Dinefwr eto'n aros.

Dolaucothi sy'n ei hanes,
Gelliaur ac Abermarles ;
Ynddi'n sefyll megys dewrion
Mae colofnau Nott a Picton.

Sir Gaerfyrddin ! Sir Llenyddiaeth
Ardderchoca'r Dywysogaeth ;
Mwy ei werth na choron brenin
Ydyw Llyfyr Du Caerfyrddin.

Dafydd, Eos seinber Dyfed
A Glyncothi ynddi aned ;
Ficer Llanymddyfri ddoniol,
Hughes o Feidrym ei hapostol.

Am Landdowror pwy na chofia,
A man geni Charles o'r Bala ?
Peter Williams yr esboniwr,
Williams yntau'r Penemynwr ?

Yn fwy uchel fyth yr elo,
Ei Chymreigiaeth fo'n blaguro ;
Tra rhed afon rhwng ei deufin
Yn Gymraeg bo Sir Gaerfyrddin.

W. Eilir Evans.

4.—" Y BRIODAS AR GEFFYLAU.

Alaw—" *Nos Calan.*"

Ble mae'r bechgyn yn carlamu ?
I Benlan i mofyn Mary.
Ant a hi i gwrdd ei chariad,
Ar ei cheffyl at y 'ffeirad.

Beth yw'r ceffyl wrtho'i hunan
Sydd yn rhedeg fel y trydan ?
Y mae Mary wedi dianc
Ar gyfeillion ei chariadlanc !

Beth yw'r hala, beth yw'r gweiddi ?
Hala'i geisio dala Mary !
Haid o ffoliaid ar geffylau,
A'r tân yn dilyn eu pedolau !

Heibio'r Eglwys fel y fellten !
Dacw Mary a'r gaseg felen !
Ond hi ddaw yn ôl mewn eiliad,
Wedi ei dal gan gwmni ei chariad.

Wedi ei rhwymo gan y 'ffeiriad,
Y daw Mary gyda'i chariad,
Adre'n gyrru gyda'i gilydd
Heb gystadlu a'r cwmni penrhydd.

Beth yw'r gyrru tua chartref
Gan y cwmni nerth y carnau ?
Maent yn gyrru am y cyntaf
I weld pwy wna briodi nesa !

Watcyn Wyn.

5.—" Y WYDDOR A NATUR."

A. am yr Afal melyn hardd,
B. am y Blodau yn yr ardd,
C. am y Ceirios glân eu bryd,
Ch. am y Chwant eu dwyn i gyd,
D. am y Deryn ar y llwyn,
Dd. am y Ddafad ar y twyn,
E. am yr Eirin duon bach,
F. am y Fesen felen iach,
Ff. am y Ffa sydd yn y rhych,
G. am y Gwenith gwyn a gwych,
H. am yr Helyg wrth y nant,
I. am yr Iorwg yn y pant,
L. am y Lili wen a glân,
Ll. am y Llwyn o gangau mân,
M. am y Mefus melus mwyn,
N. am y Nyth yn môn y llwyn,
O. am yr Onnen Goeden gu,
P. am y Perthi gylch y tŷ,
R. am y Rhosyn coch a gwyn,
S. am y Safri fach at hyn,
Th. am y Thyme a'i arogl pêr,
U. am yr Undeb sydd rhwng y sêr,
W. am yr Wythawd ar dafod a thant,
Y. am yr Ysgol i ddysgu'r Plant.

Watcyn Wyn.

6.—" CYMRU FU."

Alaw—" *Lili Lon.*"

Main a glas yw maidd ben borau,
Mwyn ac iach yw medd brynhawnau,
Mae y maidd a'r medd yn medru
Cochi bochau merched Cymru ;
Main yw maidd, mwyn yw medd,
Main a mwyn maidd a medd ;
Ac O ! main a mwyn yw merched—
Main eu min mal y medd.

Drud a dwl yw dilyn ffasiwn,
Da a del yw pais a betgwn,
Clyd yw sanau gwlan du'r ddafad,
A'r siol wlanen goch ysgarlad,
Clos penlin tyn a main,
Gyda chot a chwt fain,
Ac het sidan oedd y ffasiwn
Pan briodai nhaid a nain.

Nid oes swn y rhôd yn nyddu
Nawr, na'r fuddai gnoc yn corddi,
Nid oes sôn am gawl Sir Benfro,
Cawl pen lletwad na chawl twymo,
Ac fe aeth succan llaeth,
Ma's o'r wlad, yna daeth,
Bara can a the a theisen
Na wŷr neb beth a'u gwnaeth.

Difyr ydoedd adrodd chwedlau,
Bob yn ail ac am y gorau,
Yn y simdde lwfer lydan,
Ac yn rhifo'r sêr tu allan,
Ond fe aeth chwedlau ffraeth
Ffwrdd er gwaeth ac fe ddaeth
Y nofelau a brefiadau
Sion Ben Darw dichwaeth.

Gwyn a glân yw bythod Cymru,
Gyda'u mwg yn mynd i fyny,
Gwynnach, glanach y calonnau
Ant i fyny mewn gweddiau,—
Gymru Wen yr Amen,
Tynnu'r nef ar dy ben,
O, " Hen Wlad y Menyg Gwynion."
Gwynnu fyth fo dy nen !

Bwrdwn :
Gymru Fu ! ble'r aeth hi,
Gymru Fu ! ble'r aeth hi ?
O mae hiraeth yn fy nghalon
Am hen ddefion " Cymru Fu."

Ap Ceredigion.

7.—" LLAETH A LLYMRU."

Alaw—" *Hob y Deri Dando.*"

Mae y Sais a'i gais am deisen,
Yntau Pat a fyn bytaten,
Ond câr meib a merched Cymru
Phiolaid lawn o laeth a llymru.

Mae fy ngruddiau i yn llwydion
Wedi 'magu ar ddanteithion,
Ond mae bochau mam yn cochi
Wedi'i magu ar laeth a llymru.

Nid oedd sôn am ddiffyg treuliad
Na phelennau 'nyddiau 'nhendad—
Pawb yn holliach ac yn llyncu'n
Eitha llithrig llaeth a llymru.

Tra bo mawn yng Nghors y Fochno,
Tra bo gwartheg blith yn godro,
Tra bo ceirch ar fronnydd Cymru,
Fe fydd sôn am laeth a llymru.

Ap Ceredigion.

8.—" CENINEN CYMRU."

Hen Gymru Wen, fe fyn dy blant
Genhinen werdd Dydd Gwyl eu Sant,
I gofio'u tadau—arwyr Cresi,
I gofio'u Sant—y duwiol Ddewi.

Fe gâr y Sais y Rhosyn gwyn,
A'r Sgod y gas Ysgallen fyn,
Fe fola'r Gwyddel y Feillionen,
Ond rhowch i mi fy hoff Geninen.

Gwyrdd yw ei dail fel bri ei Sant,
Gwyn yw ei gwraidd fel byw ei blant,
O Gymru Fydd ! dy fri fo'n glasu,
O Gymru Wen ! dy fyd fo'n gwynnu.

Mi garwn huno hun o hedd
A'm hoff Genhinen ar fy medd,
I gofio llwch un garai Gymru,
Un garai'i Sant—y duwiol Dewi.

Ap Ceredigion.

9.—" STAFELL BLAENTWRCH."

Alaw—" *Lili Lon.*"

Dewch am dro i Blaentwrchisa
(Dyn'r fan wy'n gofio gynta)
Enwaf ichwi rai o'r Celfi
Oedd mewn ffasiwn y pryd hynny ;
Celfi cain oedd y rhain,
Celfi cain oedd y rhain,
Derwen, onnen,—bob ystyllen,
Ydoedd Celfi nhaid a nain.

Cyda mam roedd " Leinpress " deri,
Nhad, a'r Cwpwrdd cornel teidi,
" Dresser gam " i ffitio'r gongol,
Dyna ran o gelfi'r gwaddol.

Tair Cist flawd—rai mawr i r'feddu,
Ddaliai'r " gynos " 'rol ei malu,
Clawr mawr, uchel, cefen crwca,
Oedd i'r cistiau'r adeg yma.

Twba derw oedd at olchi,
Twba'i wlychu toes i'w grasu,
Twba llaeth a chrochan enwyn,
" Giler " bren i ddal y 'menyn.

'Styciau oedd y llestri godro—
Nid oedd rheini byth yn tolco,
'Sgwrian rhain oedd gwaith caleta
Nany'r forwyn 'nôl brecwasta.

" Car i ddala'r bara barlys,
" Car i roddi'r llwyau'n drefnus,
A " seld goed " i roi'r " trensiwrnau "
Ac i gadw y " phiolau ".

" Gwagar crôn " a " gwagar sucan "
" Gwagar tro " i'r ŷd oedd aflan,
" Phiol lla'th " a " phiol enwyn ",
" Phiol dablen fain " o'r " gerwyn ".

Drwy nerth llaw, a honno'n ddiwyd,
" Rhôd " a droai'n chwyrn y " werthyd,"
Nyddai rolau gwlan heb seibiant,—
Llinin gwlân oedd *strap* y peiriant.

Y " Rhôd Fach " at wneuthur pinnau,
Y " Gwas dirwyn " at wneud cantâu,
" Cribau bach " i drin a rholi,—
Wyr plant 'nawr ddim byd am rheiny.

" Alch " a barrau'i bobi 'sgadan,
Crasu bara Ceirch ar " lechan "
" Rhawlech " at eu troi a'u trafod,
Dyna gyflawn waith diwrnod.

Cedwid " brale " yn y " gawnen ",
Yn y gegin 'roedd " Cist halen ",
" Car " at ddala lot o " froisau ",
Ar ddiwrnod g'neud canhwyllau.

Un tair troediog o waith natur
I ddal cannwyll oedd " Shôn segur ",
" Crochan lliw " yn ochr pentan,—
Cawsai'r gornel iddo'i hunan.

" Cloc Nhadcu "—*Big Ben* y teulu,
Dyma un sydd werth ei feddu :
Wyneb pres—mae'n hardd i'w weled,
Ac o hyd—y mae yn cer'ed.

" Cadair wellt " a " chadair freichiau ",
" Cadair " fagu yr holl achau ,
Y rhai hyn sy' gennyf eto—
Rhy gysegrus i'w defnyddio.

Llwyd Llundain.

Gwyl Ddewi, 1903.

1.—DEWI SANT.

Alaw—" *Siaradwch yn Gymraeg.*"

Mae Sant gwarcheidiol Cymru
Yn hedfan trwy y nen,
Mae'r aur adanedd heddiw
Yn noddi " Gwalia Wen " ;
Ynghanol nos cyfododd
Cyn deffro'r wawrddydd fâd,
Ein " seren unig " ydoedd
Cyn codi haul ein gwlad.

Cytgan—
Mae'n Ddydd Gwyl Dwi Sant,
Mae'n Ddydd Gwyl Dewi Sant,
Mae plant Llancrwys yn gynnes
Yn cofio Dewi Sant.

Mae'r Cymro heddyw'n moli
Ei wlad, ei iaith, a'i Sant,
Mae'r hen fynyddoedd cribog
Yn atsain cân y plant ;
Mae enw Dewi'n uno
Pob enwad ynddo'i hun,
Mae'n cynnau'r sêl wladgarol
Nes toddi pawb yn un.
Cytgan—Mae'n Ddydd Gwyl, etc.

Rhaid cofio'r Sant a'r seintiau,
Hwynthwy yw nerth ein tir,
Eu gweddi a'u cymeriad
Sy'n ymladd dros y gwir ;
Eu mantell gwisgwn heddiw,
Yn ddewr yr awn i'r gâd,
A chollwn waed ein calon
Mewn ymdrech dros ein gwlad.
Cytgan—Mae'n Ddydd Gwyl, etc.

Carolan.

2.—CAWL CYMRU FU.

Tôn—" *Mentra Gwen.*"

Gwyl Ddewi heddiw yw,
Wlad y cawl, hyfryd gawl !
Tra'r oes 'rym ynddi'n byw,
Wlad y cawl,
Yn prysur newid dulliau
Rhagorach ein hen deidiau
Wrth sychu'r wlad o'i " chawlau "—
Fwydydd maethlon, iachus gawl !

Yr oedd gan Gymru Fu
Gwlad y cawl, hyfryd gawl !
Un pryd yn werth rhyw *dri*—
Maethlon gawl !
A lwmp o " hob y deri "
A darn o'r fuwch i'w helpu :—
O ! 'r " llygaid " fyddai'n llonni
Wyneb ffôl ambell gawl !

Yn awr o hyd ceir te—
Ble mae'r cawl ? Iachus gawl !
Neu goffi byth yn lle
Iachus gawl !—
Gwneler eto gawl a chennin,
Cig eidion a chig mochyn,
A bara ceirch i'w ganlyn—
Fwydydd maethlon—iachus gawl !

Granellian.

3.—GYMRU ANWYLAF.

Alaw—" *Rhyfelgyrch Capten Morgan.*"

Gymru anwylaf gad im' ganu cân
I ti yn fyw o wlatgar dân ;
Famwlad, mae d'ysbryd ieuanc eto'n fyw,
Ysbryd a bery yn ieuanc yw.
Cymru, cwyd dy galon, na fydd mwy yn brudd,
Edrych drwy y caddug ar " Gymru Fydd ".

Mae dy Lywelyn heddiw yn ei fedd,
Ac mi welaf brudd-der yn dy wedd ;
Mae Owen Glyndwr wedi mynd yn fud,
Ond mae ei ysbryd yn dy fro o hyd,
Paid a chwyno, mwy, ond edrych ar y wawr,
Gweli'r haul yn codi, yn codi'n awr !

" I godi'r henwlad yn ei hôl " yw'r llef,
Gyfyd llengarol fyddin gref,
Ond nid disgyn wnaethost, Gymru fâd,
Esgyn i fyny wnest, fy ngwlad.
Mynna llu o ysbryd pur a diystaen
Yrru'r hen wlad annwyl yn ei blaen.

Arthur a'i filwyr godant gyda'r dydd,
Brwydrant drosot nes ei'n rhydd,
Oedant yn yr ogof yn eu gwisgoedd gwych,
Pwy â i mewn i ganu'r arian glych,
Fel daw hen ysbrydoedd enwog " Cymru Fu ",
Eto'n ôl i frwydro'n ddewr o'n tu ?

Gymru, ti äi eto'n enwog ymhob man,
Cwyd dy lân Omeriaid di i'r lan ;
Mae dy wŷr ieuainc heddiw'n fyddin gref,
Yn dy symbylu i godi llef.
Gymru, cwyd dy galon, na fydd mwy yn brudd,
Edrych drwy y caddug ar " Gymru Fydd '.

Gwili.

4.—DY' GWYL DEWI.

Tôn—" Dydd Gwyl Dewi Sant."

PLANT Cymru y'm, yn caru'n gwlad—
Pob dôl, a bryn, a nant,
A hoffwn gânu ei mawrhad
Ar ddydd Gwyl Dewi Sant ;
Gwlad crefydd bur ; gwlad bur ei moes ;
A'i dysg a'i dawn mewn bri,
Fe garodd Dewi hon drwy'i oes,
A charwn ninnau hi.
Ein hannwyl wlad fawrygwn ni,
Ar ddydd Gwyl Dewi Sant ;
A chodwn hi i fwy o fri,
Yn ddynion ac yn blant.

Os rhaid in' ddysgu iaith y Sais,
A llawer arall aeg,
Yn serch ein calon yn barhaus
Arosed y Gymraeg ;
Hen iaith aelwydydd Cymru lân,
A iaith ein Sabath yw ;
Cymraeg fo geiriau ola'r gân
O'n genau glywo Duw.
Yr hen Gymraeg a gânwn ni
Ar ddydd Gwyl Dewi Sant,
A chodwn hi i fwy o fri,
Yn ddynion ac yn blant.

Os yw ein gwlad yn loyw iawn,
Yn loywach daw ei chlod,
Yn fwy ei dysg, yn fwy ei dawn—
Ac uwch o hyd bo'i nôd.
Fe godai Cymru gynt dan droed
Y duwiol Ddewi Sant,
I'w chodi'n uwch na bu erioed
Ymroddwn ni, ei phlant.
Yn nerth ein Duw, yn nerth ein ffydd,
Yn ysbryd Dewi Sant,
Yn uwch bo clodydd " Cymru Fydd,"
Yn ddynion ac yn blant.

HAWEN.

5.—SANT DEWI.

BETH a wnei di, Gymru fechan,
Yn rhes uchel y cenhedloedd ?
Heb na brenin na phrifddinas,
Heb na llynges na byddinoedd ?
Beth a honni yw'th genhadaeth
Yn agoriad rhôl yr oesoedd ?
Pam y sefi mor ddisyfl
Ymhlith enwau hy y bobloedd ?

Draw ar ffiniau pellaf hanes,
Arwr uwch na gwron arfau,
Ddaeth â chenadwri ataf
Donna fythoedd rhwng fy mryniau,
Am ddinasfraint ddiderfynau,
Yn dwyn bywyd a goleuni—
Dyna pam y safaf yma,
Am mai Sant fy serch yw Dewi.

J. M. HOWELL.

6.—CYMRU FU—CYMRU FYDD.

Canu Penillion—" Conset y Siri."

SONNIA rhai am godi Cymru
Yn ei hôl, a'i gwella felly ;
'Dewch in' weled sut un ydoedd
Gynt 'ran bwyd, a gwaith, a gwisgoedd.

Byw ar laeth, a chawl, a llymru
Yn ei phreim y byddai Cymru ;
Enwog oedd am gaws a menyn,
Am lith hynaws, am laeth enwyn.

Bara ceirch a photen rynion
Oedd y pennaf o'i danteithion ;
Ar ei hôl mewn hiraeth wylo
Yn fy annedd y mae 'nannedd llymion heno !

Cymru gynt gai ddefnydd dillad
I'w holl blant ar gefn y ddafad ;
Hwyr a bore ceid hi'n canu
Ar ei heiste'n gwau a nyddu.

Troai 'i llaw at bob gorchwyliaeth,
Medrus oedd ymhob hyswyaeth,
Gwniai fotwn, cweiriai sanau,
Gwyddai'n eglur wrth eu sawyr rin llysieuau.

Cymru wisgai gynt am landdyn
Got o doriad ochor mochyn ;
Clos penlin, a sanau gleison,
Cymru ddewrfryd, Cymru lonfryd, Cymru lanfron.

Cymru'r ffedog las a chotwn,
Cymru'r wlanen goch a'r betgwn,
A'r cap gwyn a'r macyn inji,
Ha ! mae'n dyfod ryw ddiwrnod euraid arni.

EILIR.



KILSBY



WILLIAM DAVIES, PH.D.



EVAN DAVIES, M.A., LL.D.

7.—CYLCH YR OES.

Alaw—"*Y Gwenith Gwyn.*"

Cylch mawr y bais sydd "wedi mynd" '
O'r wlad, fy ffrind, er's meityn,
A heddiw meinder yw swyn serch,
A mwynder merch a morwyn ;
Ni cheisir cylchu godre'r gwn
A'i sïol sŵn o sidan,
Ond myn pob hogen, ar fy ngair
Gylch bach o aur yrwan.

Nid cylchu'r bais ond cylchu'r bys
A wneir ar frys yn fodlon,—
Y trydydd bys ar y llaw chwith
A'i wythi'n syth i'r galon,
A chura, cura'r galon fach
Mor iach a chalon robyn,
Ac O ! mor gyflym rhed y gwaed
Drwy'r cylch wnaed o aur melyn.

Rhaid cosi boch er mwyn y bys,
Neu esgus dal gwybedyn,—
Mae mwy o gosi byth er pan
Y daeth i'w rhan gylch melyn ;
Arwydda cylchyn bach y llaw
Mai di-ben-draw yw cariad,
A thystia'i fod heb amau mwy
Yn hwy nag oed y lleuad.

Myn merched heddiw gylchu'r bys
Ar frys 'nôl cael cariadon,
Ond buan yr ymrwymiad mwyn
Fel rheffyn brwyn â'n yfflon ;
Gwell fyddai cylchu'r siol, yn siwr
Na rhwymo gŵr yn gaethwas,—
A ! serch a synnwyr, ar fy ngair,
Yw modrwy aur priodas.

Ap Ceredigion.

8.—Y WYDDOR.

A. sydd am afal eurfelyn yr ardd,
B. am y brenin, y barnwr, a'r bardd,
C. am y ceiliog, y clacwydd, a'r cyw,
Ch. am y chwarae, y chwilio, a chwiw,
D. am y dwfr a dardd y fan draw,
Dd. am y ddalen a'r dderwen a ddaw,
E. sydd am eglwys, efail, ac erch,
F. sydd am fodrwy felen y ferch,
Ff. am y fferins gan ffrindiau o'r ffair,
G. am geffylau i gywain y gwair,
H. sydd am heulwen hyfryd yr ha',
I. sydd am ieuanc, a iechyd, a ia,
L. am y lodes, a'r lili wen lân,
Ll. am y llawenydd y llu yn y llan,
M. am y mochyn melyngoch a mawr,
N. am y newydd, neithiwr, a nawr,
O. sydd am ofyn oedran yr oen,
P. am penelin, penlinio, a phoen,
R. am y rhosyn, a'r rhedyn sy'n rhonc,
S. am y siopwr sy'n symud yn sionc,
T. am y teulu, y trafod, a'r trin,
U. sydd am unig, undeb, ac un,
W. am y wyddor a wyddoch yn wych,
Y. am yr ysgub, yr ydlan, a'r ych.

Ap. Lewis.

Gwyl Ddewi, 1904.

1.—CENHINEN CYMRU.

Alaw—"*Glan Meddwdod Mwyn.*"

Mi wisgaf genhinen yn falch ar fy mron
I gofio yn gynnes am Dewi fab Non :
Ei brig sydd yn glasu fel bri yr hen Sant,
Ei bôn sydd yn gwynnu fel bywyd ei blant ;
O ! Gymru fach ieuanc, bydd lawen a llon,
A gwisga genhinen yn falch ar dy fron
I gofio yn gynnes am Ddewi fab Non.

Ap Ceredigion.

2.—GWYL DEWI SANT.

Beth sy'n bod drwy Gymru heno ?
Beth yw dwndwr Cymru fâd ?
Ysbryd Dewi sydd yn gwefrio
Calon Cymro at y wlad ;
Yn ei fedd mae corff ein Dewi,
Yntau fry yng ngwlad yr hâ',
Ond mae'i enw gyda'r Cymru,—
Nid oes fedd i enw da.

Neddfryn.

3.—FY IAITH, FY NGWLAD, FY NGHENEDL.

Hen Gymru wen a garaf fi
O'r gwledydd sy'n y byd :
Nag unrhyw wlad mae'n uwch ei bri,
A thecach yw ei phryd :
Ei bryniau a'i dyffrynnoedd hardd
Ar lech fy nghalon sydd ;
Ymhlith y gwledydd mae fel gardd,
A darn o wlad y dydd.

Cytgan—
Fy ngwlad, fy nghenedl, a fy iaith,
O hyd fe'u caraf hwy ;
Po bella'r elwyf ar fy nhaith,
Eu caru wnaf fwy, fwy.

Hen genedl enwog Cymru fad,
Pwy draetha 'i hach a'i hoes ?
P'le ceir yn trigo'n unrhyw wlad
Ei huwch mewn rhin a moes ?
Ei thaflu ga'dd yn oesau gwaed
I lawer pair oedd boeth,
Ei phuro'n llwyr gan dân a wnaed,
Fel aur yn gwbl goeth.
Cytgan—Fy ngwlad, etc.

Hen iaith fy ngwlad, p'le clywir iaith
Mor felys ac mor fwyn ?
Er oesi drwy'r canrifau maith,
O hyd fe bery 'i swyn :
Blodeuo'n ei hacenion pêr
Y mae'r anfarwol gân :
Na phalled byth tra lloer a sêr
Ar dafod Cymru lân.
Cytgan—Fy iaith, etc.

Eilir.

4.—YSGOLION CYMRU FU.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Pwy sy'n cofio hen Ysgolion
Cymru Fu, mewn bythod llwydion ?—
Pwy sy'n cofio'r dyddiau hynny ?—
'R athraw un-fraich,—*hwnnw'n meddwi* !

O ! mae'n well 'nawr ym mhell,
O ! mae'n well 'nawr ym mhell,
Gwawr ar Gymru wedi torri,—
O ! mae'r byd ar ei well !

'Sgubor segur, neu hen gapel,
Ffenest' fechan bedwar cwarel ;
Honno'n gwasgar mwy o olau
Na'r gŵr un-fraich rhwng y muriau.
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Dyddiau'r *Welsh Not*, dyddiau'r curo,
Dyddiau'r meddwi, a'r cnoi dybaco ;—
Mwy o bopeth nag o ddysgu
Geid yn hen ysgolion Cymru !
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Pwy sy'n cofio cosbau'r henoes ?
Sefyll fyny'n hir ar ungoes,—
Gwisgo'r " cap ", dal pwysau'r *ruler*,—
Ergyd salw rhyw hen *soldier* !
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Pwy ddw'ed hanes " torri'r ysgol " ?
Ac mor bybyr yr hen bobol ;
Helpent blant yr oes a ddeuai
Gyda'u ffowls a chyda'u gwyddau.
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Ac nid oedd yr ysgol yma
Ddim i'w chael ond dymor gaea' ;
Yn yr haf, yng nghwmni'r defaid,
Byddai'r plantos fel bugeiliaid.
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Ieuan Gwynedd ieuanc welai
Wawr yn torri ar y bryniau ;
Eben Fardd, Glasynys fwyngu,
Hunai gyda'r haul yn codi !
O ! mae'n well 'nawr ym mhell, etc.

Granellian.

5.—YR HEN HAT FOWR.

Alaw—"*Siaradwch yn Gymraeg.*"

Hen " hat bob cam " ein mamau,
'Roedd hon yn hat mor fawr
Nes agos gwanu'r cwmwl,
A thynnu'r haul i lawr ;
Ond pwy wna wawd o honi ?
A phwy am dani chwardd ?
Yr ydoedd mor ddefnyddiol
Ag ydoedd hi o hardd.

Hi ddaliai ar ei hynt
Y gawod law a'r gwynt,
A byddai wedi'r ddrycin
Yn brydferth megys cynt.

Heblaw ei bod yn gadarn,
Yn syml ac yn dlws,
Hi wnai y fenyw ferraf
Yn dalach nag un drws ;
Ymgodai i'r uchelder
Fel simdde dywyll, fain,
A safai yn ddiysog
Tra safai pen fy nain.
Hi ddaliai ar ei hynt, etc.

Arswyded y boneti,
Rhyfedded hatiau gwellt ;
'Roedd hon yn dal y 'stormydd
A'u chwalent hwy yn ddellt ;
Mil henffych, hat anfarwol !
Mae'r côf am dani'n gun,
Ac fel yr hat yn hollol
Yr oedd fy nain ei hun.
Hi ddaliai ar ei hynt, etc.

Gwilym Myrddin.

6.—DEWI SANT.

Alaw—"*Ar hyd y Nos.*"

Yn Ysgoldy Ffaldybrenin,
Wele'r plant,
Er bodlonrwydd calon gwerin,
Ar Ddydd y Sant—
Heno'n parchu Sant y seintiau—
Seren gobaith diwygiadau—
Heulwen crefydd gwlad y bryniau,
Clod byth i'r Sant.

Hawlia'r Cymro wir gyfathrach
A Dewi Sant ;
Ceidw pob gwir Gymro bellach
Wyl Dewi Sant ;
Gwisgo wna ei werdd genhinen,
Fel arwyddlun fod ei pherchen
Yn edmygwr gwyrddni addien
Ein Dewi Sant.

" Cymru Fydd " yw byrdwn Cymro,
Ar wyl ein Sant ;
" Cymru Sydd,"—sydd yn heneiddio,
Lawr â hi, blant ;
I sylwedd-dir gobaith codwch,
Gwnewch baradwys o'r diffaethwch,
Ar wastadedd nac arhoswch,—
Cymru Fydd, fy mhlant !

Blant yr ysgol, mynnwch chwithau
Fel Dewi Sant,
Yn eich mam-wlad fod yn rhywrai,
Nid byth yn blant ;
Rhodiwch fel efe'n rhinweddol,
Llanwer chwi â sêl wladgarol,
A gofalwch fyw yn dduwiol
Fel Dewi Sant.

Neddfryn.

7.—DYDD GWYL DEWI.

Alaw—"*Nos Galan.*"

Unwaith eto daw Gwyl Ddewi,
Yn ei thro a'i neges inni,—
Sef atgofio gwlad y Brython
Am fab Non, o dduwiol galon.

Gwisged pob rhyw wladgar Frython
Y genhinen ar ei ddwyfron,—
Hon a'i gwyrdd-der sydd yn ardeb
Buchedd Dewi a'i dduwioldeb.

Tannau tyner ein hen delyn,
Seinied heddiw 'i hodlau dillyn,
Fel i hudo pob tramorwr,
Er o'i anfodd, garu'n harwr.

Na foed dim ond odlau moli
Miloedd Gwalia am eu Dewi ;
Ac alltudier Dic Shon Dafi
I rew'r Artic er ei oeri.

Myfyr Teifi.

8.—ATGOFION DYFFRYN TYWI.

Alaw—"*Y Fwyalchen.*"

Pan ruo'r gaeaf-wynt drwy'r glynnoedd,
A Thywi'n llifeirio yn llwyd,
Rhyw atgof am chwerwon ryfeloedd
O niwl y canrifoedd a gwyd ;
Am glodydd, am glwyfau gwladgarwyr,
Am Gruffydd, Llywelyn, a Rhys :—
Ni pheidiwn â sôn am ein harwyr,
Er chwalu eu castell a'u llys.

Pan welir y dolau'n meillioni,
Daw côf am ddiwygiad a chân ;
Am " Gannwyll " y Ficer yn llosgi,
Gan ddechrau rhoi Cymru ar dân ;
Mae salm yr amaethwr o Gaio,
A chân Pantycelyn, yn fyw ;—
Mae'r enwau yn felys i'w cofio,—
A hwythau dan gysgod yr yw.

Dychweled, o niwloedd yr oesau,
Bob peth sydd yn ddewr ac yn dda ;
A chilied, fel cysgod cymylau,
Bob drwg fu i Gymru yn bla ;
Boed ysbryd arwrol y tadau
Yng nghalon pob plentyn yn dân ;
A'r nefoedd a gadwo'u calonnau,
A'u llwybrau yn brydferth a glân.

ELFED.

9.—" CYMRU SYDD."

Alaw—"*Dyffryn Clwyd.*"

YNG Nghymru mae ein plant,
O dan swyn Dewi Sant,
Yn dringo tua'r nef bob un :
Mae'r Capel mewn mawrhad,
A'r Ysgol yn y wlad
Am wneud y Cymro bach yn Gristion ac yn ddyn.

Diflannu mae y nos,—
Daw yr haul gyda rhos
I'r hen lanerchau peraidd hyn :
Mae teyrnedd dan ein traed,
A'u hangerdd yn ein gwaed,
A rhaid yw dwyn eu baner hwy i ben y bryn.

Pwy eilw Gymru'n dlawd ?
Gwêl mor ffel yw ei ffawd,
Mae blodau ar ein ffyrdd i gyd ;
Os marw yw ein Llyw,
Mae'i chrefydd eto'n fyw,
A'i Beibl hi sy'n myn'd i bobman dros y byd.

GWYLFA.

10.—Y WYDDOR.

MAE A, fel y gwyddoch, fel *cwpwl* pen tŷ,
A B sydd yn union fel *spectal* mamgu ;
Mae C fel *pedolau* y gaseg goch, fach,
A D ydyw'r *sowdwl* dan esgid wich-wach ;
Fel *fforch* wedi torri yn gwmws yw E ;
Mae F wedi torri yn waeth, meddaf i.
G yw *clust* dehau John Harries, Tynfron,
A H ydyw'r *ysgol* sydd wrth yr un ffon ;
I ydyw'r *pastwn* sy ynghanol y llwyn.
J ydyw'r *ffon* i ddal defaid y twyn :
K ydyw *fingerpost* croesffyrdd y wlad ;
L ydyw'r *gadair* amddifad o dra'd ;
M yw'r *umbrella* i atal y glaw,
Ac N ar naill adain sy'n sefyll ger llaw ;
O ydyw'r *olwyn* sy ynghanol y nos ;
Mae P'n od o debig i 'wyall â chos ;
Q ydyw'r *porchell* â thro yn ei gwt ;
R ydyw'r *hogyn* sy'n rhedeg yn dwt ;
S ydyw'r *afon* sy'n troelli mor dlws ;
T yw y *mwrthwl* i hoelo y drws ;
U ydyw'r *cafan* a'i waelod yn grwn,—
V sydd un arall yn gulach na hwn.
W yw yr *oged* sy werth mwy na phunt.
X ydyw'r *rhod* sydd yn troi yn y gwynt ;
Y ydyw'r *arad*' o haearn a dur ;
Z yw'r *car llwyau* sydd yng nghrôg ar y mur.

Cytgan—

Dowch i ddysgu'r wyddor, dyma'r ffordd i wneud,
Dowch i ddysgu'r wyddor, dyma'r ffordd i wneud ;
Dowch i ddysgu'r wyddor, dowch i gyd yn awr,
Dyma'r ffordd i'w dysgu,—yn fach ac yn fawr.

AP LEWIS.

11.—QUITTO FACH.

[*Allan o* "*Cerddi Cerngoch.*"]

Alaw—"*Mentra, Gwen.*"

BRAWD annwyl ger Penbryn,
Quitto fach,
Quitto fach,
Pan gododd ger y llyn,
Quitto fach,
Hen " feilat " gwyllt i hedfan,
Fe'i saethodd 'n ôl i'r unman,—
Can' llath oddi wrth y geulan,—
Quitto fach,
Quitto fach.

Mae'r cŵn yn pallu'n wir
A 'mofyn hwn i dir ;
'Rwyt ti yn d'od o Lundain,*
A gwna 'n ôl arch dy berchen,
Ac enwi'r filast felen.

Fe nofiodd hon y llyn,
A'i donnau gwylltion gwyn,
Fe gydiodd am ei wddwg,
A'i dannedd 'n ddigon diddrwg,
A daeth i dir â'r hwdwg,—
Quitto fach.

'Roedd pawb yn llawenhau
'N ôl iddi ufuddhau ;
I dir daeth yn ddihangol,
Wrth weled hon mor wrol,
'Roedd cymaint yn ei chanmol.

O ! porthwch hon am hyn,
Quitto fach,
Quitto fach,
A bara gwenith gwyn,
Quitto fach ;
A hufen llaeth o'r llaethdŷ,
A gwâl o blu i gysgu ;
Mae'n gyfoeth mawr i'w meddu,—
Quitto fach,
Quitto fach.

**Jenkin Jenkins, Llundainfach, oedd perchennog yr ast.*

NODIAD.—*Cerngoch, yng nghwmni Jenkin, ei frawd, a Jenkin, ei gefnder, perchen yr ast, yn myn'd i roi tro i Blaenturch.*

Gwyl Ddewi, 1906.

1.—DEWI SANT.

Alaw—"*Nos Galan.*"

WELE eto Ddygwyl Dewi,
A'i Genhinen enwog inni ;
Dewi Sant a gofir heno
Dros y byd gan bob gwir Gymro.

Dywed rhai mai chwedl yw'r cyfan,—
Na bu Dewi fyw yn unman ;
D'wedwch wrth y bobl hynny
Am ei eang heirdd eglwysi.

Am Hen Fynyw, ger y Wendon,
A Llan Ddewi Brefi dirion :—
Am Lan Non, Llancrwys, Ty Ddewi,
Am y Sant a " Senedd Brefi."

Dweud pa oes 'roedd Dewi yma
Nawr ni ellir gan y calla' ;
Rhed ei enw 'n ôl i'r niwloedd
Trwy hanesion yr hen oesoedd.

Pryd gwnaed ef yn nawddsant Cymru ?—
Pwy all nodi'r diwrnod hynny ?—
Pwy all enwi'r Cymro llawen
Wisgodd gyntaf y Genhinen ?

Trwm och'neidia llawer Cymro
Am ei wlad a'i famiaith heno ;
Ninnau ganwn nos Gwyl Ddewi
Glodydd cynnes nawddsant Cymru.

GRANELLIAN.

2.—DYGWYL DEWI SANT.

Alaw—"*Cân Eisteddfod.*"

Mor hyfryd cofio'r dyddiau fu,
Yn hanes Cymru wen,
Ei milwyr dewr a'i beirddion lu,
Sy'n awr tu hwnt i'r llen ;
Eu hymdrech oesol dros y gwir
Goleddir gan eu plant,
A'u clodydd genir gyda hwyl
Ar Ddygwyl Dewi Sant.

Cytgan—
Trwy gydol blwyddi llawer cant,
Bu llawer tro ar fyd,
Ond coffadwriaeth Dewi Sant
A bery'r un o hyd.

Tra'r Wyddfa, teyrn y bryniau serth,
Heb syflyd ar ei sedd,
Bydd iaith y Cymry yn ei nerth,
A'u gwlad dan goron hedd ;
Datgenir byth eu hodlau pêr,
Ar lawer melys dant,
O flwydd i flwydd mewn hoenus hwyl
Ar Ddygwyl Dewi Sant.

Cytgan—
Trwy gydol blwyddi llawer cant,
Bu llawer tro ar fyd,
Ond coffadwriaeth Dewi Sant
A bery'r un o hyd.

Dewi Môn.

3.—YR HEN AMSER GYNT.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Hirnos gaeaf wedi dwad !
'Nawr am lunio llwy neu letwad :
Ac adrodded rhywun 'stori
Am y Tylwyth Teg neu Fwci !
Llawen hynt
Dyddiau gynt
Ddaw i'n clustiau trwy yr oesau
Byth ar adain y gwynt.

Pawb âg ofan, aed i'r gornel,
Dan y lwfer a'r bîm grafel ;
Yno gall anturio chwerthin
Ar ben rheibiaeth Gwrach y Rhibyn !

Tra bo'r merched gyda'r twysgi
'N prysur ddirwyn y blancedi,
Deliwch chwithau at eich llwyau,
Fechgyn annwyl, am y gorau.

Rho'er i'r heuwr ddellt drysien,
Gwellt, a'r taclau plethu, 'n gymen,
A chwch gwenyn gwell na llawer
Ddaw o'i law mewn dau " gyn-swper."

Neithiwr gwelais Jack, Bryngolau,
'N gwadnu â gwern ei hen bâr 'sgidiau :
Pedair pedol eto a chraffyn,
A bydd Jack yn gryno dipyn.

'Sgubell fedw dda—a'i gwnelo,
Mawr y clod a roddir iddo :
Nel, y forwyn, geir yn llonnach,
A cheir aelwyd fil siriolach.

'S llawer dydd 'r oedd Cymru'n ddedwydd
Ar hen ffasiwn gwaith a bwydydd ;
Nid oedd hirnos gaea'n teidiau,
Peidiwch meddwl, heb bleserau.

Os heb *phonograph* i ganu,
'R oedd ei ffidil gan bob teulu ;
A doi'r Tylwyth Teg â gwobrau
Yn y nos i'r merched gorau.

Gwisgai'r wlad ddefnyddiau cartre'
'N ddillad gwaith, a dillad gore' ;
Pawb mewn gwisgoedd o'r cynhesa'—
Nid rhyw " blowsen " denau, dila.

Heno yng nghyngerdd twym Gwyl Dewi,
Canwn glod hen fywyd Cymru ;—
Bywyd symyl, glân, bugeiliol,
Rhwng y bryniau ansymudol !

Cytgan—
Llawen hynt
Dyddiau gynt
Ddaw i'n clustiau trwy yr oesau
Byth ar adain y gwynt.

Granellian.

4.—HEN GYMRU.

Alaw—"*Glan Meddwdod Muyn.*"

Mae hanes hen Gymru yn annwyl i'w phlant
Gwroldeb y milwr,—defosiwn y sant ;
Os gwyllt ydyw Gwalia, mae hefyd yn wen,
Nid oes gennym achos i ostwng ein pen.
At Dduw y cenhedloedd dyrchafwn ein llef :—
Parhaed, fel yr Wyddfa, yn uchel a chref,
A'i phen uwch y cymyl, yn ymyl y nef.

Mae'r gŵr nad yw'n caru ei genedl a'i wlad
Yn " gâs," ac yn haeddu ein sen a'n sarhad ;
Drwy wladgar ymlyniad, daw uniad o werth,—
Yng Ngwalia boed undeb,—" mewn undeb mae nerth."
At Dduw y cenedloedd dyrchafwn ein llef :—
Parhaed, fel yr Wyddfa, yn uchel a chref,
A'i phen uwch y cymyl, yn ymyl y nef.

Mae awen grefyddol hen Gymru yn fyw,
A braich ei gwroldeb heb ewyn yn wyw ;
Hen Gymru anwylaf ! Boed ffyddlon o hyd,
Gan roddi ei gorau i Dduw ac i'r byd.
At Dduw y cenedloedd dyrchafwn ein llef :—
Parhaed, fel yr Wyddfa, yn uchel a chref,
A'i phen uwch y cymyl, yn ymyl y nef.

Berw.

5.—DYRNU A FFUSTAU.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Pawb sy'n cofio trigain mlynedd
Sydd yn cofio adeg ryfedd,
Pan nad oedd i gyd trwy Gymru
Fawr o sôn am beiriant dyrnu.
Cytgan—
Gweithio tyn oedd bryd hyn,
Gweithio tyn oedd bryd hyn :
Codi'n foreu—hir yr orieu,—
Dyna'r bywyd oedd bryd hyn.

Cysgu ma's oedd hi bryd hynny,
Lofft y stabal—towlad beudy :—
Towlad wrysg ar *gleders* hirion,
Dyma 'stafell wely'r gweision.

Hen gist cart oedd wely enwog,
Hesg yn hon—tan garthen gwrlog :
Tan dô brwyn wrth fôn y gromen
Mewn gwâl hesg ni thrigai 'hwannen.

Y forwyn fawr a weiddai'n enbyd,
" Fechgyn codwch, mae hi'n rhywbryd,
Y mae wedi mynd yn dd'weddar "—
Er nad oedd hi ddim ond pedwar.

Y gwas mawr yn rhuo " codwch "
Ar y crytsach yn y t'w'llwch,
Rheiny'n *swmpo* am eu bacse ;—
Ni chai canw'll fynd i'r fangre.

Rhifo'r 'sgubau wrth y ddrefa
Lawr o'r weisgion d'w'llwch gaea',
Rhaid oedd tolio cannwyll frwynen ;—
Ni chai'i chynnu cyn gwir angen.

Pric o'r berth a'i hollti i'r pwrpas,
Ydoedd y canhwyllbren addas,
Ar ôl dod o'r tŷ â'r golau
Y gwas mawr wnai daclu'r ffustau.

Clopa gorn wrth ben y droedffust—
Penguwch leder wrth ben 'ielffust,
Carrai wnio trwy wyth llygad,
Uno'r ddwy a wnai y tyniad.

Cnocio'i ben nes bron a'i hollti
Wnai pob crwt wrth ddysgu dyrnu ;
Os gwnai ollwng gwep fel bapa,
Chwerthin wnelai y gwas penna'.

Planciau coed oedd y llawr dyrnu—
Am bob aros clapiai'n handi ;
Ffast neu araf ddwedai'n eglur
Yn ei wely wrth y meistir !

Ysgwyd gwellt a'i wneud yn *fyrnau*
Os mewn brys ca'i wneud yn *bletiau*,
Un rhwng dwy i'r gwartheg blithion,
Plet rhwng tri roi'd i'r da hesbon.

Wrth ddwy *wragen* ar lun pedol,
Plethu pedair *gwden* gydiol :
Dyna'r *cedi* heb un hoelen
Gariai faich o fyrnau'n gymen.
Cytgan—
Gweithio tyn oedd bryd hyn,
Gweithio tyn oedd bryd hyn :
Codi'n foreu,—hir yr orieu,—
Dyna'r bywyd oedd bryd hyn.

Llwyd Llundain.

6.—Y GENHINEN.

Alaw—"*Ar hyd y Nos.*"

Cenir clodydd y Genhinen
Ddydd Gwyl y Sant ;
Molir hi mewn odlau cymen
A chân a thant ;
Llifa drosti fyrdd cyfrinion
Dyddiau fu yn gyfareddion,—
Hi ymwisga mewn hanesion
Am Ddewi Sant.

'R oedd mewn parch ar ddydd coroni
Hen Ddewi Sant ;
A chan Gymry Brwydyr Cresi
Ddydd Gwyl eu Sant ;
Trwy niwl oesau a'u caledi,
Er sen estron i'w gorthrymu,
Daliodd hi a'i bri i lasu
Yng ngwlad y Sant.

Y Genhinen îr siriolbryd,
Ffyrdd bur y Sant,
Boed yn ardeb llên a bywyd
Byth mwy ei blant ;
Myn'd ymlaen mewn eur-dorch undeb,
Glasu, gwynnu, yn eu purdeb,—
Tyfu'n nes i anfarwoldeb
Byth boed ei blant.

Ben Morris.

7.—YR WYDDOR.

Alaw—"*Morfa'r Frenhines.*"

A, Afal ; *B*, Bresych ; *C*, Cenin ; *Ch*, Chwerwyn ;
E, Eithin ; *F*, Fioled ; *Ff*, Ffenigl a Ffa ;
G, Garlleg ; *H*, Helyg ; *I*, Iorwg ; *L*, Lili ;
Ll, Llwydlys ; *M*, Meillion ; *N*, Nyddoes, ha, ha !
O, Olbrain ; *P*, Poplys ; *R*, Rhosyn ; *S*, Syfi ;
T, Tafol ; *U*, Uchwydd ; *W*, Wermod ; *Y*, Yw;
Daw'r coedydd a'r blodau, a'r llysiau dan ganu,
Yn wynion a chochion, a gwyrddion eu lliw.

Llew Tegid.

8.—HEN FWTHYN CYMRU FU.

Alaw—"*Siaradwch yn Gymraeg.*"

Yr oedd yn nyddiau'r tadau,
Rhwng bryniau Cymru fad,
Fythynnod bychain glânwedd
Yn britho yr holl wlad :
Os na bu dwylaw'r celfydd
Yn eu cynllunio hwy,
'R oedd yno bawb yn ddedwydd,—
A phwy ddymunai fwy ?

Cytgan—
Hen fwthyn Cymru Fu
Oedd annwyl iawn i mi ;
O ! golled fawr oedd colli
Hen fwthyn Cymru Fu.

Y gegin fach a'r penllawr,
A'r mur gwyngalchog glân ;
Y llydain fawr bentanau
Gaem o bob tu i'r tân ;
Caem eang fantell simdde,
A lwfer fach uwchben ;
Ac aelwyd fechan gynnes
Ym mynwes Cymru wen.

Y trwchus dô oedd arno
A heriai'r tywydd blin,
A'm gwely dan ei gromen,—
Mor ddedwydd oedd fy hun !
'R oedd iddo ddôr a rhagddôr
I'w ddiogelu'n glyd,
Tu mewn i'r follt a'r glicied
Nid ofnwn ladron byd.

O'i gwmpas, coedydd talion
Gysgodent rhag y gwynt ;
A'r nant a lifai heibio,
Gan furmur ar ei hynt ;
A blodau'r ardd a wenai
Yn siriol ar yr haul,
O ! dyna gartref dedwydd,—
Paradwys fach ddi-ail.

Hen fwthyn Cymru Fu
Oedd annwyl iawn i mi,
O ! colled fawr oedd colli
Hen fwthyn Cymru Fu.

Melinddwr.



Y Parch. JOSHUA CAUTLEY



Y Parch. HENRY JONES

THOMAS MORGAN a'i WRAIG,
PANTYSGYFARNOG

9.—DYFODIAD Y TREN I GWMTWRCH.

GWRANDEWCH—Mae'r trên yn dyfod,
Mae pawb trwy'r wlad yn barod
I redeg i gyfarfod
Trên Cwmtwrch :
Fe welodd rhyw hen ddewin,
Oedd gynt yn Ffaldybrenin,
Mor glir a haul Mehefin,
Drên Cwmtwrch.

Mae Pumpsaint yn rhyfeddu,
Mae'r Farmers heddyw'n credu
Gall glywed yn chwibanu
Drên Cwmtwrch :
Mae cŵn y fro yn udain,
Mae'r plant i gyd yn llefain,
A bloeddia'r garreg atsain,—
" Trên Cwmtwrch."

Mae hedd y Cwm ar ddarfod,
Mae'r creigiau'n teimlo cryndod,
O'r twnel mae yn dyfod
Drên Cwmtwrch ;
Ymdroella drwy y dyffryn,
Mae'r agerdd gwyn yn esgyn,
A bywyd sydd yn canlyn
Trên Cwmtwrch.

Pwy ŵyr na cheir yn ddirgel
Aur-gloddfa yn y twnel,
Na roddir clod i *rwbel*
Trên Cwmtwrch :
Mae sôn fod aur yn haenau
Yng nghrombil y mynyddau,
Boed braff, os felly, gledrau
Trên Cwmtwrch.

Fe adeiledir stesion,
A chodir tai newyddion,
A thrystfawr fydd olwynion
Trên Cwmtwrch :
Anghofir Rhiw Brynmeiog,
A thyle'r Gelli goediog,
Ar newydd ffordd drofaog
Trên Cwmtwrch.

Anghofir codi trwydded
Ar gar i fynd i Lanbed',
Gan râted a chyflymed
Trên Cwmtwrch :
Fe dderfydd anghyfleustra
Y pellder i Lanwrda—
Byd newydd tanlli grea
Trên Cwmtwrch.

Ond fydd hi'n hynod ddiddan
Gweld pobl yn mynd i bobman,
I Saron ac i Gellan,
Gyda'r Trên ?
Peth rhyfedd anghyffredin
Fydd gweled llu y werin
Yn mynd i'r siop a'r felin
Gyda'r Trên !

Fe fydd Llancrwys yn union
A Llundain yn gymdogion,
A gyrrir am y goron
Gyda'r Trên ;
Daw eilwaith gainc y delyn
I gastell Huwco Gethin,
A lloniant i bob bwthyn
Gyda'r Trên.

Daw glo a chalch dunelli,
A sachau can heb gerti,
A phob peth da i'n llonni
Gyda'r Trên :
Newidir pob amserau,
Fe lama'r hen fynyddau,
Pan gawn ein holl lythyrau
Gyda'r Trên.

Rhoir seibiant i'r ceffylau,
A denir yr eidionau,
I Loegr draw yn drofau
Gyda'r Trên :
Caiff defaid ein mynyddoedd,
Wrth fyned i'w pawrdiroedd,
Eu cludo wrth y miloedd
Gyda'r Trên.

Pan eir i ffair neu farchnad
A haid o foch anynad,
Nid rhaid ond wrth chwyrnelliad
Trên Cwmtwrch :
Pan werthir gwlan y flwyddyn,
Yr wyau a'r ymenyn,
Nid raid ond ceisio tocyn
Trên Cwmtwrch.

Fe fu yr hen drigolion
Yn gwisgo cotiau llwydion,
Heb weled ond ebolion,
Cyn bod Trên :
Fe fu y gwragedd diddan,
Dan het â chantel lydan,
Yn mynd ar draed i bobman
Cyn bod Trên.

Ond gwelir bywyd newydd,
Cyn hir, yn mynd ar gynnydd,
A'i glod yn llenwi'r gwledydd
Gyda'r Trên :
Bydd masnach yn blaguro,
A'r cwm yn llawn o gyffro,
A newydd flas ar weithio
Gyda'r Trên.

Wel, doed y dydd yn fuan,
Pan gaiff y wlad yn gyfan,
Groesawu'n llon ei hanian
Drên Cwmtwrch :
Os mynnir gwell hwsmoniaeth,
A llawnach byd a lluniaeth,
Croesawer mewn brwdaniaeth
Drên Cwmtwrch.

RHUDDWAWR.

Gwyl Ddewi, 1907.

1.—CARU CYMRU FU.

Alaw—"*Gwenno fwyn gu.*"

Chwi wyddoch bob copa am garu'r hen oes,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu,
Pa sut yr ai'r llanciau trwy ludded a loes,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu.
I wel'd y llancesi heb wybod i'w mam,
Dan nesu fel lladron o gam bach i gam,
'Nôl diffodd y golau, a'r tân yn ddifflam,
Hai ho ! Gwenno fwy gu.

Rhoid cnoc fach â gwialen i'r ffenest yn awr,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu,
A thoc fe ddoi Gwenno ffraethenau i lawr,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu,
A Dai yn llawn hwyliau, dybaco, a phoer
Yn gwasgu ar Gwenno yn wir bod hi'n oer,
A gai e fynd mewn nes y codai y lloer
Hai ho ! Gwenno fwyn gu.

Ar esgus o'i hanfodd o'r diwedd doi'r fun,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu,
I'r drws gydag ust ! fod " nhad ar ddihun,"
Hai ho ! Gwenno fwyn gu ;
Mewn congol o'r aelwyd yn ddistaw a chudd
Caent wedyn ymgomio a'i gilydd yn rhydd,
Heb sôn am y lleuad hyd doriad y dydd !
Hai ho ! Gwenno fwyn gu.

Cyn 'madael gwnai Dafydd adduned i Gwen,
Hai ho ! Gweno fwyn gu,
Pan ddelai ffair Sulgwyn mai hwy fyddai'n ben,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu ;
A diwrnod y ffair 'roedd y merched yn syn
Gweld Dafydd a Gwen gyda'i gilydd mor dyn,—
A dyna fai'r gleber yn hir ar ôl hyn,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu.

'Roedd *caru'r* hen oes bron fel caru yn awr,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu,
'Dyw natur yr ieuanc yn newid dim fawr,
Hai ho ! Gwenno fwyn gu :
Os weithiau traed gwlybion gai'r gweilch mewn rhyw ddŵr
A chwn a sŵn powdwr os cadwent hwy stŵr,
Ymlaen yr ai'r *caru* ar waetha pob gŵr !
Hai ho ! Gwenno fwyn gu.

GRANELLIAN.

2.—YR OGOFAU.

Alaw—"*Cader Idris.*"

Daw angel y gwanwyn i bentref y Pumpsaint,
A thry yr hyfrydle'n baradwys y tir,
Ei gusan adfywia ieuenctid a henaint
Y llecyn prydferthaf mewn teyrnas a sir ;
Bydd natur yn hardd dan ei choron flodeuog,
A chariad ei chalon yn deffro mwynhad,
Hawdd canu yng ngwydd yr olygfa ddihalog :
" Os dyn wnaeth y ddinas mai Duw wnaeth y wlad."

Mor ddifyr ymrodio hyd enau'r Ogofau
Lle cloddiodd y beiddgar Rufeiniwr ar hynt,
Ysprydion Traddodiad sy'n llenwi'r holl lwybrau
A swyn peraroglus yr hen amser gynt ;
Er teced yr aur a'i ddisgleirdeb diffuant
Mil gwell gennym ni am chwedleuon y fro,
Am drwmgwsg y seintiau, neu Gwenno a'i rhamant,
Y bu'r cenhedlaethau'n drysori'n eu co'.

Tra llwydni'r canrifoedd ar " Garreg y Seintiau,"
A Chothi yn berwi ar glyw Crugybar,
Gofalwn ynghanol Cymreigrwydd y bryniau
Na rydd Dic Shon Dafydd ei droed ar ein gwar ;
Tra Mynydd Mallaen yn orseddle cadernid
Gwladgarwch fo'n ennyn ein telyn a'n tant,
Cydganwn alawon Tangnefedd a Rhyddid,
I ddathlu anrhydedd Dydd Gwyl Dewi Sant !

BRYNACH.

3.—COFFA WATCYN WYN.

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Mae awen bereiddiaf hen Gymru yn fud,
A distaw yw'r ffraethaf o feirddion ein tud ;
A'r plant a ddifyrrodd sy'n edrych yn syn,
Wrth ganu dan wylo ar ôl Watcyn Wyn.

Fe ganodd hir flwyddi i lonni ei wlad,
A'i bennill i'r delyn fu inni'n foddhad ;
Ond, heno, 'does inni ond atgof am hyn,
A'r delyn sy'n cwyno uwch bedd Watcyn Wyn.

Gorffwysed yn dawel yn ymyl ei nant,
A'i goffa a gadwn ar ddydd Dewi Sant ;
Anghofio ei gerddi ein tafod ni fyn,
A'n calon anwyla yr hoff Watcyn Wyn.

GWILI.

4.—DIWRNOD Y CNEIFIO.

Alaw—"*Plygiad y Bedol.*"

Mae " diwrnod y cneifio " yn llawn o fwynhad
Bob haf i'r defeidwyr rhwng bryniau fy ngwlad ;
Bugeiliaid cymdogol a'u cŵn ffyddlon sydd
'N eu casglu i'r llocau ar lasiad y dydd.

Mae miwsig i glustiau'r mynyddwr, yn sŵn
Brefiadau'r dorf ddefaid, a chyfarth y cŵn,
" *Good bitch,*" " *Be off Lucy,*" " *Now Bruno, lie down,*"
Mae'r hen ddafad gyrnig yn gorfod d'od fewn.

Mae'r " cneifwyr," y "dalwyr " a'r " carriers " ar daith—
Yn dyfod i'w lleoedd—mae pawb wrth eu gwaith
O'n " llwdwn " neu " ddafad " a'r " llinyn " y sydd
Blith draphlith drwy'i gilydd yn rhedeg yn rhydd.

Mae awch y gwelleifiau yn uchel ei gân
Wrth redeg ystodau mor glws drwy y gwlan,
A'r " bugail " a'i " grochan " a'i " bitchmarc " a faidd
Roi'r nifer i'r perchen a marcio y praidd.

Os drwy ddiofalwch, neu frys, torrir " cwt,"—
I'w drin yn ofalus, rhoir olew i grwt ;
Ond gwylir rhag torri rhyw *lawer*, bid siwr—
Os na ellir atal, ceir *llawer* o stwr.

Mae'r " dalwyrs " a'r " carriers " yn chwysu—drip, drop,
Ust ! clywch ! " Cinio'n barod," dim rhagor—full stop ;
Mae'r byrddau yn tuchan dan bwysau y wledd
A mwyniant a chroeso yn hulio pob gwedd.

'Rôl cinio, pob cneifiwr yn ddiwyd a gawn,
Er gorffen yn drefnus yn gynnar prynhawn ;
Ac yna ceir canu a chwarae difrâd,
A'r merched yn uno ym mêl y mwynhad.

Huwcyn y bugail yn agor y glwyd
I'r defaid gael rhyddid y mynydd a bwyd,
Y praidd a ymleda nes gwynnu y bryn
Dan frefu a brefu nes datsain y bryn.

Y pell sy'n ymwisgo ym mentyll y nos,
A'r cneifwyr ânt adre' dros fynydd a rhos,
Gorffennir " y diwrnod " mewn mwyniant a chân,
A'r teulu adewir mewn cyfoeth o wlân.

BWLCHFAB.

5.—DYDD GWYL DDEWI.

Alaw—"*Dydd Gwyl Dewi Sant.*"

Gwyl Ddewi frwd a ddaeth i'r wlad
I danio'r gaeaf oer,
Mae'r plant o gylch yr athraw mâd
Fel sêr ynghwmni'r lloer ;
Mae Ffaldybrenin lon mewn hwyl,
Fel brieill mae y plant ;
Ar lwyfan glân y ddedwydd ŵyl
Mae Ysbryd Dewi Sant.

Cytgan—
Y cyntaf ddydd o Fawrth a ddaeth
A gobaith ar ei wedd,
Y gaeaf prudd, a Chymru gaeth,
A ddaw yn rhydd o'u bedd.

Gwyl Ddewi werdd a ddaeth i'r fro
Y ddaear lwyd ddaw'n dlos,
Mae cân a thelyn dan y tô,
A mynd yn llai mae'r nos ;
Mae Cymru heno'n canu cerdd,
Atseinia bryn a phant,
Gan wisgo'r hen Genhinen werdd,
A sôn am Ddewi Sant.

Gwyl Ddewi bur a ddaeth i'r tir,
Wrth glywed sŵn ei droed
Deffroi o gysgu mae y gwir
Fel gwanwyn yn y coed ;
Dihunir diwygiadau pell
Wrth glywed sŵn y plant,
Mae Cymru'n mynd at amser gwell
Dros lwybrau Dewi Sant.

Penygroes. W. Bowen.

6.—PENCADER GYNT.

Alaw—"*Bugeilio'r Gwenith Gwyn.*"

Rwy'n cofio'r diwrnod cynta' 'rioed
Y des i oed ysgolia,
A dringo grisiau'r 'sgoldy bach—
Nid lle rhy iach mi w'ranta' ;
Pryd hyn ni ruai'r ceffyl tân,
I darfu cân aderyn ;
'Roedd telyn fach y nant mewn bri
Pan oeddwn i yn blentyn.

'Roedd Ifan Dafis o Dreffwrn
A'i rymus ddwrn yn ddychryn,
Yn ysgolfeistr mawr, nid cwac,
I'r merched ac i'r bechgyn ;
Fel llygod o dan droed y gath
Oedd byw dan fath awdurdod,
A Mari'r Stafell hanner dydd
Oedd ferch go rydd ei thafod.

Ar ôl y llwynog, llawer llanc
Dros Graig y Banc gyflymai,
Ond tua'r prynhawn—rhaid talu'r pris,
Y wialen ni ddiangai ;
Rhyw hen Sâr llongau ydoedd ef
A'i fraich mor gref i daro,
Ond curo dysg i ben y plant
Ar fin ei gant—gwell ganddo.

Ces lawer gwers wrth 'hwarae'r bêl,
Nid bywyd mêl yn wastad,—
Wrth chwilio'r cnau rhwng llwyni teg
Ces lawer brêg i'm dillad ;
Fel hyn o wers i wers, yn llwyr,
Y dysgais hwyr a bore,
I gwrdd a'r byd—ei ŵg a'i wên
Wrth draed yr hen Sâr llongau.

Beilibedw. D. H. James.

7.—YSGOLION CYMRU.

Alawon—"*Nos Galan,*" "*Hob y Deri Dando,*" a "*Lili Lon.*"

Iawn yw rhoddi clod yn hyglyw
I Ysgolion Cymru, heddiw ;
Maent yn well ymhob ystyriaeth
Nag yn nyddiau'r "hen or'chwyliaeth."

Mae'r ysgoldai'n glyd ac iachus,
A phob peth yn lân a threfnus ;
Nid arbedir traul na thrafferth
Er eu gwneud i gyd yn berffaith.

Gwelid gynneu dai anweddus
Lloriau pridd a meinciau bregus ;
Ceir yn awr amgenach seddau,
Lloriau coed, a chryn welliantau.

Nid oedd sôn am *ventilation*
Yn yr hen fythynnod llwydion ;

Deuai'r gwynt i mewn yn heini
Trwy y drysau a'r ffenestri.

Ni anfonir plentyn mwyach
I'r "*black hole,*" a'i sawyr afiach,
Nac i sefyll ar ei naillglun ;
Dyna arfer ffôl a gwrthun.

Ni weinyddir cosb a phastwn ;
"Capan penbwl" aeth o'r ffasiwn ;
Aeth y "*Welsh Not*" fach i golli,
Nid oes fawr o sôn amdani.

Darfu dydd yr *hen* athrawon,
Darfu'r "poso" a'r dadleuon ;
Darfu dadwrdd "Torri'r Ysgol"
Gyda'r giniaw fawr, ddanteithiol.

Fe geir heddiw ysgolfeistri
Llawn o dalent, llawn o ynni ;
Bechgyn doeth, bucheddol, ydynt ;
Bydded urddas addas iddynt.

Dewi Hefin.

8.—OGOF TWM SHON CATI.

Alaw—"*Castell Caerffili.*"

Yn nwyrain Swydd Gaerfyrddin gun
Lle llama'r Tywi ddiflin,
Dros greigiau oesol Ystradffin
Saif clogwyn uwch clogwyni :
Ac ar y serthaf un i gyd—
Fel pe yn gwatwar "llwybrau'r byd"—
Yng nghadarn gôl y creigiau mud
Saif Ogof Twm Shon Cati.

Draw yn y dyffryn teg ei swyn,
Mae Ystradffin dan gysgod twyn,
Lle noddid gynt y feinwen fwyn
Gadwynai galon Twmi !
A dacw'r llwybyr bychan gynt
Tra'n ffoi o lawer 'stranciol hynt
Mor gyflym ag y llama'r gwynt
Y rhedai Twm Shon Cati.

Ramantus gampwr ! nwyf di-loes
Ei ddoniol "drics" a'i "droion croes"
Barha yn fyw o oes i oes
Yn hen chwedleuon Cymru—
Tra'n syth y saif y creigiau llwm
Tra cana Tywi yn y cwm,
Atseinio wna y bannau trwm
Atgofion Twm Shon Cati.

Cilycwm. Lewis Roderick.

9.—HEN ALLORAU CYMRU FU.

Alaw—"*Cwynfan Prydain.*"

Pan oedd gwyll y nos yn rhodio
Rhwng mynyddoedd "Cymru Fu" ;
Pan oedd gwawr y bore'n ymladd
Ar ei ffordd trwy gymyl du,
Gwelaf yn yr hen fythynnod
Trwy y dellt oleuni gwyn,
Golau tân yr hen allorau
Oedd yn llosgi niwl yr oesau
A chysgodion prudd y glyn.
Hen aelwydydd—nefol demlau—
Llety engyl ar eu teithiau—
Cysegredig gan galonnau—
Oedd yr hen aneddau hyn.

Gwel hen Feibl mawr y teulu—
Etifeddiaeth llawer oes,
Gwel ei dudalennau llwydion
Dreuliwyd ar y ffordd i'r groes.
Hwn agora'r tad yn wylaidd
Ar y bwrdd gerllaw y tân,
Darllen benod o'i oludoedd,—
Rhydd i'r teulu wîn ei wleddoedd
Troir "dyletswydd" heddiw'n gân.
Dwg yr aelwyd yn ei weddi
O dan adain nef i lechu,
Rhag i'r saeth a'r haint eu trechu
Ar y daith wrth fynd ymla'n.

Pan mae'r storom ar y mynydd
A'r llifeiriant ar y ddôl ;
Pan mae'r trydan yn disgleirio
Gyda'r daran ar ei ôl,
Plant yr allor sydd yn ddedwydd
Cilio mae eu hofnau hwy.
Yn y bennod—dan y weddi
Golau'r mellt sydd yn diffoddi
Gwena'r teulu yn ddiglwy'.
Gymru—cwyd yr hen allorau,
Byth parhaed eu tân i gynnau
Nes bo'r nef o'th gylch yn furiau
Cedyrn, anorchfygol mwy. Carolan.

Gwyl Ddewi, 1908.

1.—UN O "DDYDDIAU FU" ABERAERON.

Tôn—"*Mae Robin yn Swil.*"

Yn nhref Aberaeron yng ngolau y wawr,
Y wlad oedd yn llanw i "Ddydd Mercher Mawr"
Caed gambos Glan Aeron a'u *passengers* llon
Yng ngwyl y Cynhaeaf wrth wely y don.
Cytgan—
"O! Ddydd Mercher mawr,"
Y glanaf ei wawr
O ddyddiau y flwyddyn, oedd "Dydd Mercher Mawr."

Cariadon y bryniau gaed yma yn llu,
Yn llamu drwy oriau dydd gwyn Jiwbili,
Penuwch a Llangeitho oedd yma'n dorf gref
I weled ystranciau y wlad drwy y dref.

Holl dwbiau Bethania, Cilcennin, Cross Inn,
Hyd ochrau'r heolydd a wyliai'r dydd gwyn;
Longbodies Dihewyd a'r Ystrad mewn hwyl
Fu'n foreu yn cario cariadon i'r Wyl.

'Roedd tref Aberaeron yn ferw bob darn
Gan fechgyn Llanwnen a merched Talsarn;
Gwŷr Silian, Llangybi, a'r Cribin bob un
Ddôi yma i gadw y dref ar ddihun.

Plant iachus y bryniau, gwŷr cryfion y wlad
A welid yn treulio hir ddydd o fwynhad;
I'r *byd* deuai'r *Betws* am ddiwrnod yn llon
I chwyddo "Ffair Ffyliaid" wrth feysydd y don.

Ymryson carwrol—dadleuon bach mwyn
Rhwng meibion a merched, a gaed yn llawn swyn;
Am *scursions* i'r tonnau yr aent yn un *flock*
Yng nghwch "Parcybeili" a chwch 'rhen "John Clock."'

Mor hael oedd y llanciau—llogellau pob merch
A lenwid a ffeirins, gan wrthrych ei serch:
A llawer i fachgen cyn hyned a'i fam
Yn cneua dan saethu yn *standing* "Pwll Cam."

Diwrnod diniwed, yn llawn o fwynhad
I blant a fu'n casglu holl weiriau y wlad:
Dydd rhyddid y bechgyn, a'r merched mawr, iach;
Dydd gwyn "Jack y Dealer"—dydd mawr "William Bach."

Wrth fyned a dyfod rhwng bryniau y wlad,
Olwynion y certi yn troi mewn mwynhad:
Gofidiau y flwyddyn a gleddid yn awr—
Yng Ngwyl y Cynhaeaf ar "Ddydd Mercher Mawr."

Merthyr Vale. MICHAEL THOMAS.

2.—SION Y GO A SIAN.

Canu Pennillion—"*Pen Rhaw.*"

GAN Sion y Go 'roedd gwasgod flot,
A chot ag ochor mochyn,
A britsh pen-lin o frethyn gwlad,
Du'r ddafad bob edefyn;
A sanau ribs o wëad Sian
A gadwai'n lân ei bilyn.

Pais ddeulas gryno wisgai Sian,
Gŵn bach â rhuban teidi,
A siol fach war i gyd o wlan
I gadw Sian rhag oeri,
A chlocs a cheiniog ar eu trwyn,
Gwaith Sion, ŵr mwyn, i "Siani."

A'i bordfach *round* mor wyn a'r calch
'Roedd Sian yn falch fel hyswy
A'r hen stol frwyn o blethiad tyn
A'i thraed mor wyn a hynny;
'Roedd Sion a Sian yn byw eu hoes
Yn dyner heb groesdynnu.

'Roedd ganddynt fochyn yn y cwt
Yn dod yn bwt bach tordyn,
A mawr eu hwyl pan ddoi e'n dew
Wrth godi blew y mochyn:
Ond llawer blwyddyn, beth dâl sôn,
Sy er tawodd Sion a'i Fegin.

GRANELLIAN.

3.—CERDDI CYMRU FU.

Alaw—"*Difyrrwch Arglwyddes Owen.*"

Os huna'r telynor dan gysgod yr Yw
Mae miwsig yr alaw hyd heno yn fyw;
Os drylliwyd y delyn, os torrwyd y tant
Mae'r cerddi yn aros ar wefus y plant;
Tra'r Castell yn Harlech yn edrych i'r môr
A'r eiddew yn clymu yn las am ei ddôr,
A thra byddo'r gwenith yn wyn ar y ddôl
Daw cerddi'r hen Gymry i'r galon yn ôl.

Rwy'n clywed eu hatsain yn lleddf ar y gwynt
Yn sôn am wroniaid yr hen amser gynt;
Rwy'n gweled eu tlysni yn nhoriad y dydd
Wrth hela'r sgyfarnog, a dilyn yr hydd;
Fe'u canwyd wrth ddringo Plinlimon i'r gâd,
Fe'u canwyd wrth farw dros ryddid a gwlad;
Ond heddiw mewn heddwch ar wastad y ddôl
Daw cerddi'r hen Gymry i'r galon yn ôl.

Mae cerddi'r hen Gymro, fel teimlad ei fron,
I lawr ac i fyny, yn lleddf ac yn llon;
Mae ambell hen alaw yn dlos ar y bryn
Un arall yn cwynfan ar waelod y glyn;
Fy ngwlad, boed eu nodau yn bêr ar dy fin,
Mae calon y tadau yn curo 'mhob un,
Tra cysgod y deri ar laswellt y ddôl
Daw cerddi'r hen Gymry i'r galon yn ôl.

J. J. WILLIAMS.

4.—SHOL FACH CYMRU FU.

Alaw—"*Stuffwl.*"

RWY'N canu yn fynych i hyn ac i'r llall,
A chanu fel rheol ar destun go gall,
Ond synned y ddaear, a galwed fi'n ffôl,
Mi drawaf fy nhelyn am unwaith i'r Shôl.

Rhyw *Blouses* sydd bellach ers amser go faith,
O bob lliw drwy'r cread, fel enfys ar daith,
Ond am yr hen Gymry, flynyddoedd yn ôl;
'Doedd neb yn breuddwydio mynd allan heb Shôl.

Rwy'n cofio ei gweled ar ysgwydd mamgu,
Wrth fynd ac wrth ddyfod dros drothwy'r hen dŷ:
A phan ddaw'r hen amser i'r meddwl yn ôl
Y cyntaf o bopeth i godi yw'r Shôl.

Pan rodiai'r mynyddoedd yng nghanol y glaw
Fe ffoai'r cawodydd oddiwrthi mewn braw;
A phan fyddai'r eira yn drwm ar y ddôl
'Doedd dim wedi disgyn yn agos i'r Shôl.

Mi'i gwelais yn cerdded mewn storom o fellt
Wrth ddychwel o'r capel i'r bwthyn to gwellt;
Ond gwibiai y mellt i'r cymylau yn ôl
A'r storm oedd ym marw, tu allan i'r Shôl.

A phan fyddwn innau yn ofid i gyd
Fe'm codai i gysgu i'w hen fynwes glyd;
Mi roddwn yr hollfyd pe cawswn yn ôl
Y bydoedd a welais, a'm pen ar y Shôl.

Os nad yw'r penillion yn hynod o gall,
Os na wel y doeth ond brycheuyn a gwall,
Wel synned y ddaear a galwed fi'n ffôl,
Mi floeddiaf am unwaith "Hwre i'r hen Shôl".

J. J. WILLIAMS.

5.—TWM SHON CATI.

Alaw—"*Llwyn Onn.*"

MAE aml i lecyn yn Sir Aberteifi
Yn rhifo gwroniaid mewn hanes yn hardd,
Ond ni a ymffrostiwn ym mri Twm Shon Cati,
Yr enwog achyddwr, yr ustus a'r bardd,
Mae'r defaid yn pori rhwng muriau Porthffynon
A sŵn traed dieithriaid ar glôs Ystradffin;
Ond aros mae'r Dinas, a'r derw a'r Ogof,
A'r teimlad gwladgarol sy'n aros yr un.

Ymhlith arwyr Cymru fe saif Twm Shon Cati
A'i enw yn enwog ac annwyl o hyd;
Bu'n noddwr i ryddid, a threiswyr fu'n erlid:
I'r werin ormeswyd bu'n gyfaill bob pryd;
Gan estron a bradwyr ei enw ddifwynwyd,
A Dic-Shon-Dafyddiaeth fu'n cynllwyn ei frad;
Ond bellach trwy Gymru ei enw a berchir
Fel arwr ymladdodd dros ryddid ei wlad.

S. M. POWELL.

6.—YR YNYS WEN.

Alaw—"*Dy'gwyl Dewi Sant.*"

Pa ynys fel yr Ynys Wen
Ein hynys annwyl ni ;
Paradwys beirdd yw hon erioed,
A thrysor tonnau'r lli ;
Nid oes un ynys yn y môr
Cyn deced—nac oes un ;
A Chymru fach yw'r wennaf ran
O'r Ynys Wen ei hun.

Cytgan—
Tra bo cenhinen yn y tir,
A sôn am Ddewi Sant,
Parhawn i garu enw'r wlad
Garasom pan yn blant.

Pa iaith fel iaith yr Ynys wen,
Yr orau yn y byd ;
Acenion ac alawon hon
A'n swynodd yn y crud ;
Caiff llawer cainc fod ar ein min
A cheinion llawer aeg,
Ond iaith ein calon, doed a ddêl,
A fydd yr hen Gymraeg.

Pa wŷr fel gwŷr yr Ynys Wen—
Eu cadw wnawn mewn co' ;
Marchogion llys, ac arwyr cad,
A thywysogion bro ;
Bu'n werth gan feibion " Cymru Fu "
Gael marw er ei mwyn ;
Mae'u gwaed yn aros ar bob bryn,
A'u beddau dan bob twyn.

EIFION WYN.

7.—LLANGEITHO GYNT.

Alaw—"*Rhyfelgyrch Capten Morgan.*"

HYGLOD Langeitho, mae yn dy enw swyn,
Melyster yn ei acen, fydd yn ein dwyn
Yn ôl yn adfyfyriol, i ddyddiau " Cymru Fu,"
Pan oeddit gân a chywair, gorfoledd Seion gu :
Dy Sul yn swyno'r Siroedd, hyd gyrrau pellaf gwlad,
I geisio drwy anhunedd a lludded ei fwynhad ;
Ac awyr gwyl nos Sadwrn, yn donnau hiraeth cry',
Ac ocheneidiau cryfion am drannoeth oddifry—
Enwog Langeitho, wyt dant yn anthem Nef
Dy enw yn cydgordio yn fwyn a'i Enw Ef.

Fawrglod Langeitho, a Rowlands yn ei hwyl,
Yn rhoddi bloedd y cymod ar ddydd yr Wyl ;
Yn torri bara'r fendith i dlodion " llymion llawr,"
Ar uchel fryn Cymundeb, a'i weddi fawr :
Y Nef yn gwenu pardwn, a meirw'n dod yn fyw,
A'r cannoedd yn dyrchafu moliannau pur i Dduw ;
Hen Seintiau Cymru'n llamu ymron i uchter nef,
A helyg glannau'r afon, yn sïo ei Enw Ef.

Llangeitho fyth i'w chofio ar ddydd y Sasiwn fawr,
A De a Gogledd Cymru oll yno gyda'r wawr :
Cenhadon gweddaidd nefoedd seraffaidd ddawn a bri,
Yn agor maith rinweddau, drud angau Calfari :
Y cwmwl trwm yn torri, a'r cenlli gras yn dod,
Nes nofio llestri'r miloedd hyd foroedd llawnion clod,
Engyl laweroedd yn uno drachtio hedd,
Nes llwyr anghofio'r codwm, hen angau du a'r bedd :

Annwyl Langeitho, Salem Cymru gynt,
Dychweled dy glodforedd ar nwyfus hynt.

CRANOGWEN.

8.—FY IAITH.

Alaw—"*Cadlef Morgannwg.*"

HEN iaith arwriaeth Cymru gynt,
Iaith brwydrau rhyddid ar ei hynt,
Iaith gyfoed a'r mynyddoedd ban
A'u noddai hi cyn llunio llan.
Hen iaith allorau temlau'n tir,
Adanedd ysbrydoliaeth wir ;
Ni pheidiodd dy acenion pêr,
Nis peidiant tra bo lloer a sêr.

Mor groyw bêr dy sain o hyd
Yn nhwrf aflafar Babel byd !
Ni allodd brad dy lethu'n llwyr,
Daeth golau ddydd o'th drymaidd hwyr ;



Y PARCH. TIMOTHY RICHARD, D.D., LITT.D.,
CHINA

Dy glod a geir lle gwadwyd di,
A dyrchafedig wyt mewn bri ;
Rhydd dysg ein dydd it dlysau heirdd,—
Iaith gwerin fad, iaith gwlad o feirdd.

Mae ysbryd Dewi yn ein tir
Yn canmol iaith yr awen wir,
Hen iaith telynau'n gwlad ddinam,
Hen iaith y moli—iaith fy mam ;
Tydi ddug sôn am Faban Mair,
Tydi wyt rodd y Dwyfol Air ;
Tydi fu'n llafar im hyd hyn,
Bydd lafar im tu draw i'r glyn.

ANELLYDD.

9.—CYMRY YN Y NOS.

Alaw—" Gyda'r Wawr."

MAE Gwalia hen yn huno
Yn y nos, yn y nos,
Gwyll oesau yn eu chuddio
Yn y nos.
Mae sêr y wawr yn cysgu
A thrymgwsg oer yn gwasgu
Mewn hunllef, werin Cymru
Heb utgorn i'w dadebru
Yn y nos, yn y nos.

Teyrnasa hyll ysbrydion
Yn y nos, yn y nos,
A dychryn ofergoelion
Yn y nos.
Ei dewin yw'r diwinydd
Ei chwedlau yw ei chrefydd
Ei mabolgampau beunydd
Chwaraeai hyd y cyfddydd
Yn y nos, yn y nos.

Prudd wyla am y golau
Yn y nos, yn y nos,
Breuddwydia am y borau
Yn y nos.
Yng nghwmni'r " gannwyll frwynen "
Y chwilia nôd ei hangen
Nes llenwi'r holl ffurfafen
A dydd difachlud heulwen
Yn y nos, yn y nos.

CAROLAN.

Gwyl Ddewi, 1909.

COLEGAU CYMRU FU.

1.—II. YSGOL FFRWDFAL.

Alaw—" Cader Idris."

Y FRO lle bu Lewis Glyn Cothi yn canu,
A'r Salmydd o Gaio a'i fawl ar ei fin,
Yn hon y bu gynt mewn Ysgoldy diaddurn
Ddysgeidiaeth yn dal y Gymraeg ar ei glin ;
Heb na chelf na cholofnau, na mawredd mewn muriau,
Dim ond hen Ysgoldy a'i dlodi yn dlws ;
Ond y mwsog ym mesur y ffordd rhwng y meinciau
A'r defaid yn pori o gwmpas y drws.

O wanwyn i wanwyn, drwy law a thrwy heulwen,
Dros bontydd a dolydd, fe ddeuai am ddysg
Niferoedd o firain fyfyrwyr yn llawen,—
A'r Doctor yn sefyll fel sant yn eu mysg :
Ond er symled y fan, a diymffrost yr athro
I bawb o'r disgyblion rhoid digon o dâl,
Ar ôl croesi y corsydd, a rhedeg drwy'r rhosydd,
I eistedd am nawn yn Ysgoldy Ffrwdfâl.

Bu yno amaethwyr, bu yno bregethwyr,
Bu yno ysweiniaid o agos a phell ;
A heddiw mae Cymru yn cofio y gweithwyr
Fu'n cynnau eu cannwyll ar hirnos mor bell,
Ac os gwelir ysgolion â'u muriau gwych mawrion
Yn dangos yr hen hen ysgoldai yn sâl,
Ha ! ni chela na choleg, nac ysgol un adeg,
O'n golwg ogoniant hen Ysgol Ffrwdfâl.

GWYLFA.

2.—CYMRU HEDDIW.

Alaw—"*Dy'gwyl Dewi Sant.*"

Mae Cymru heddiw'n fawr ei pharch ;
Ond gresyn am ei hiaith !—
Mae bradwyr wrthi'n gwneuthur arch
I'w chladdu'n fyw dan graith ;
Arweinwyr Sais-addolgar sydd
Â'u gweddi am ei lladd,
A'i phlant yn cysgu wedi'r dydd
Heb weld ei "hisel radd."

Cytgan—
Ond lladded Sais â'i wên a'i drais,
A helped Dic y brâd,
Mi godaf lais, er brâd a Sais,
Dros heniaith fwyn fy ngwlad.

Mae Cymru heddiw'n fawr ei dysg,
A'i theitlog wŷr yn lleng ;
Am sylw a swydd ei chalon lysg :
Myn le'n y flaenaf reng ;
Wrth gwrs, rhaid canmol "yr hen iaith,"
Ond fyth â ffregod Sais,
A'i gado i "dragwyddoldeb maith"
Dan draed sarhad a thrais.

Cytgan—
Ond er holl rant Dic ffals a'i blant,
A'u gwên, a'u cusan brâd,
Mi d'rawaf dant, Wyl Ddewi Sant,
Am hwyl yn iaith fy ngwlad.

"I godi'r henwlad yn ei hôl !"
Yw cri y chwythwr corn,—
Ei "chodi'n ôl" yn estron ffôl,
Serch gwneud yr iaith yn sgorn.
Rhyw Gymru feddal, hanner pân,
Yw Cymru heddiw'n wir,
A Sais yn dduw 'mhob tref a llan,
A Chymro'n trin ei dir.

Cytgan—
Ond er pob tric, a Dic y dall,
Uwch gwely angau'r iaith,
Mi waedda' heb ball ar werin gall
I ddial cased gwaith.

IFANO.

3.—KILSBY.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Gwyddoch oll am enw Kilsby—
Gŵr o "Shirgar" eto'n Gardi—
Wedi'i fagu'n Ffaldybrenin
Aeth trwy "Goleg y Berth Eithin."

Mab dwy Sir oedd yn wir,
Mab dwy Sir oedd yn wir,
Dyfodd fyny'n arwr Cymru
Garai'i defion fel y dur.

Gyda "Star" a morddwyd mochyn,
A blawd ceirch naill ben i'r cwdyn
Teithiodd gynta'n llencyn hoyw
I Ben Banc ym mhlwyf Hen Fynyw.

Os Sir Gaer a fyn ei hawlio
Hawliwn ninnau beth ohono :
Neuaddlwyd o hyd adrodda
Wrth y plant ei droion smala.

Ar hanesion hen hen Gymru
Dotio'n lân a wnelai Kilsby :
Cynnes garai'r hen fynyddoedd,
Bwyd a dillad yr hen oesoedd.

Cawr o feddwl, cawr o berson,
Arwr Rhyddid Cymru dirion,
Gŵr i'w gofio'n hir a'i barchu,
Rhwng ein bryniau llwm yw Kilsby.

Tra'r hen wlad yn drist tan gwmwl,
Nemor un yn dweud ei feddwl,
Tros ein hawliau gweithiai Kilsby
'N galed nes i'r bore dorri.

Mab dwy sir oedd yn wir,
Mab dwy sir oedd yn wir,
Dyfodd fynu'n arwr Cymru
Garai'i defion fel y dur.

GRANELLIAN.

4.—FY NGHENEDL.

Alaw—"*Fwyalchen.*"

Mae'r Cymry yn deilwng o urddas
Fel cenedl heddychol a glân,
Mae'u bywyd yn gartref cyfaddas
I ysbryd moesoldeb a chân ;
Os ydyw eu nifer yn fechan,
A'u tir yn fynyddig a noeth,
Mae effaith eu rhinwedd yn llydan,
A'u llên yn oludog a choeth.

Ymdreigla eu hanes rhamantus
Drwy oesau o wawd a sarhad,
Fe gawsant eu trin yn ofidus
Gan luoedd gelyniaeth a brâd ;
Ond methodd gormeswyr eu trechu,
Na gosod eu rhyddid dan draed,
Fe ddalient eu baner i fyny
Yn wrol ar feysydd o waed.

Er gwaethaf y llanw Seisnigaidd
A lifa dros fasnach a dysg,
Fe erys y teimlad Cymreigaidd
Yn wresog a byw yn eu mysg ;
Mae'u calon frwdfrydig yn curo
Mor uchel dros hawliau eu gwlad
Nes ydyw seneddwyr yn deffro
I'w noddi mewn sêl a mawrhad.

Mae'u serch at farddoniaeth a miwsig
Yn gryfach na gwagedd a rhith,
Fe yfant wybodaeth yn ddiddig,
Fel blodau yn yfed y gwlith ;
Edrychant yn uwch na'r materol
I Aberth anfarwol y Groes,
A deuant drwy'r Ysgol Sabothol
Yn gadarn mewn Crefydd a Moes.

O ! bydded i'r Nefoedd eu cadw
Yn ffyddlon i'w breintiau o hyd,
A gallu i draddodi yn groyw
Eu pur genadwri i'r byd,—
A bydd eu dyfodol yn santaidd
A disglair fel bore o hâf,
Eu bryniau yn ffrwythlon ac iraidd,
A'u rhodiad dan wenau eu Naf.

BETHEL.

COLEGAU CYMRU FU.

5.—YSGOL NEUADDLWYD.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

Hen Ysgol Neuaddlwyd,
Penybanc, Penybanc,
Oedd fwthyn digon llwyd,
Penybanc :
"Prifysgol y Bryn Eithin"
A'i muriau o bridd bob tipyn,
A'i tho o wellt y tyddyn,—
Penybanc.

Os canrif lithrodd heibio
Penybanc, Penybanc,
Mae clod yr ysgol heno,
Penybanc,
Yn fyw yn hanes Cymru,
Yn hanes ei phregethu
A thaenu'r sôn am Iesu—
Penybanc.

Er na cheid fawr o gelfi
'N Mhenybanc, Penybanc,
Ar furiau'r hen Ysgoldy—
Penybanc.
Pwy sydd nad yw yn hysbys
O'r Groeg a'r Lladin grymus
A'r addysg ddiesgeulus
Ym Mhenbanc ?

'Roedd Kilsby'n un o fechgyn
Penybanc, Penybanc ;
A Silvan-Evans wedyn,
Penybanc :
"Pant-teg" fu yma, yntau,
"Glandwr," esboniwr golau,
A "Thomas Jones" y Wesle
Ym Mhenybanc.

Er nad oes tri o dystion,
Penybanc, Penybanc,
Yn fyw o hen ddisgyblion,
Penybanc :
Cenhadon Madagascar
Goffheir holl ddyddiau'r ddaear,
A'u ffyddlon offrwm cynnar,
O Benbanc.

GRANELLIAN.

Gwyl Ddewi, 1910.

1.—DEWI SANT.

Alaw—"*Dy'gwyl Dewi Sant.*"

Nid yw Llanddewi-brefi'n mhell,
Lle cafodd Dewi hwyl,—
Wrth sôn am Dduw a dyddiau gwell,
A'r Nef yn dod i'r ŵyl :
O dan ei draed fe godai'r "bryn"
Pan godai ef ei lef ;
Bu llawer Sant yn sôn am hyn
Ar hyd y ffordd i'r nef.

Cytgan—
Ust ! y mae swn ei droed o hyd
Yn dyfod i Lancrwys ;
A chwyd y wlad yn uwch i gyd
Pan fyddo'r Sant ar bwys.

Mae plant Llancrwys yn gwybod pwy
Yw Dewi Sant, eu tad ;
Ac na foed plentyn yn y plwy'
Na charo'r Sant a'i wlad.
A boed iaith Gwalia ar eu min
A'i chennin ar eu bron ;
Â llawryf Dewi byth yn grin
Tra bo cynghanedd hon.

Cytgan—
Ust ! y mae Dewi'n dod i'r ŵyl—
Adnebydd blant Llancrwys ;
Pur fo eu hiaith, pêr fo eu hwyl—
Mae Dewi Sant ar bwys !

Ni feiddiwn sôn am fedd ein Sant
A roed o dan yr yw ;
Mae yn ein plith a mae ein plant
Yn falch i'w gadw'n fyw.
A Dewi'n Sant a dania sêl
Gymreig, a miri hwyl ;
'E fyn rhai bach roi fyny'r bêl
A'u *dolls* a dod i'r ŵyl.

Cytgan—
Ust ! rhown ein clust i wrando clod
Y Gŵr drwy Gymru gerdd ;
Dihuned oes ; mae Dewi'n dod
Yn dân a chân a cherdd.

MAFONWY.

2.—YR HEN GROCHAN LLIW.

Alaw—"*Cwyd dy Galon.*"

[O Gylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Rhan 1af, 1909.]

'STALWM 'roedd yn nheiau Cymru
Grochan lliw mor ddu a'r fagddu ;
Lliwio'n lâs yng nghwrr y lludw,
Dyna swydd y crochan hwnnw.

Wrth roi lliw ar wlân y defaid,
Menyw dlawd enillai'i thamaid :
Aeth y grefft pan aeth y crochan
O flaen balchter oes benchwiban.

Weithiau troai'r gwalch i bwdu—
Dyna helynt geid bryd hynny ;
Er cael lliw o'r siopau gore,
Yn y diwedd brethyn brogle !

B'le mae'r crochan lliw'n bresennol ?
Wedi rhydu mewn rhyw gongol ;
Stwff o bant yn awr yw'r cyfan—
Byw go wachul byw heb Grochan.

GRANELLIAN.

3.—YR HEN ODYN FAES.

Alaw—"*Wyres Ned Pugh.*"

ADEILAD anghelfydd oedd odyn Gymreig,—
Y biben, y marchbren, y polion, a'r cloig :
Y polion yn gyson yn rhesi bob tu
Yn glos at ei gilydd, i'w gwneuthur yn gry'.

Yng nghornel "Ca'rodyn," yn ymyl y tŷ,
Mewn mannau mae'n amlwg hyd heddi' lle bu :
Amaethwyr glew Cymru yn crasu yr ŷd
Oedd gynnyrch eu meysydd ac ymborth y byd.

Ar ôl rhoi pob polyn a gwelltyn ynghyd,
Yr odyn oedd barod i dderbyn yr ŷd,—
Ei da'nu a chorlac ar wely cloig glân,
Ac yna'n y biben ar unwaith rhoi tân.

Rhag digwydd i'r odyn byth fyned yn fflam,
Y dŵr a'r brws gwellt wnai ei chadw'n ddinam ;
Yn gryno i'r garthen y ceid y cras ŷd,
Yr uchaf yn gyntaf, a hynny o hyd.

Am ddyddiau 'roedd crasu, yn fore a hwyr,
Gan wŷr oedd ofalus, nes darfod yn llwyr :
I'r felin ai wedyn mewn sachau'n ddilai,
Ac yna ceid bara digymar, difai.

Abermeurig. ISAAC JONES [*yn 88 oed*].

4.—Y RHOD A'R CRIBAU.

Alaw—"*Dewch i'r Frwydr.*"

Un o gelfi yr hen amser
Oedd y rhod a'r sidell gron,
A rheoli ei chyflymder
Ydoedd swydd ei deuddeg ffon.
Tra bo swyn mewn hen ddyfeisiau
Fu mewn bri yng Nghymru fach ;
Aros wna y rhod a'r cribau—
Werthyd lefn a'r chwerfan fach.

A lluosog y llancesau
Fu'n troi'r 'dafedd dros ei thrwyn,
Yn dra sionc yn nhraed eu 'sanau,
Gyda golau cannwyll frwyn.
Byddai'n chwith i ferch briodi
Mewn un rhan o Gymru lân,
Cyn y gwnelai iawn feistroli
Trin y rhod a'r cribau gwlân.

Am y rholi ac am nyddu
O geiniogau nid ai'r un ;
'Roedd pob bwthyn bach bryd hynny
Fel yn ffa'tri ynddo'i hun :
Hwythau'r gwritgoch, heirdd lodesi,
Tra yn nyddu, yn rhoi cân,
Nes i'w peraidd leisiau foddi
"Hwrr" y rhod, a'r cribau gwlân.

Ar nosweithiau oer wrth nyddu,
Bu genethod deunaw o'd
Mewn "cyn swper" yn trafaelu
Llawer milltir gyda'r rhod :
Na ollynged merched Cymru
I'r hen ddyfais farw'n lân,
Gwerth yr ymdrech fydd iawn fedru
Trin y rhod a'r cribau gwlân.

GWARNANT WILLIAMS.

5.—FY NGWLAD.

Alaw—"*Gyda'r Wawr.*"

IREIDDIAF ymadroddion
I fy ngwlad,
A nyddaf gynghaneddion
I fy ngwlad ;
O 'nghalon mi erfyniaf,
O'm henaid y dymunaf
Roi urdd y bore harddaf—
Y gorau byth a garaf
I fy ngwlad.

Bro annwyl creig a bryniau
Yw fy ngwlad,
Bro odiaeth ei bwriadau
Yw fy ngwlad ;
Gwir heddwch yw ei gwreiddyn,
O'i chymoedd cyfyd emyn,
Tŵr talent, cantre' telyn,
Dihalog lwydd fo'n dilyn
Gwalia fad.

Mae olion trwm hualau
Ar fy ngwlad,
A chorwynt hen garcharau
Ar fy ngwlad ;
Hi waedwyd gan ofidiau,
Hi dorrwyd gan flinderau ;
Yn llysoedd y pell oesau,
Duw ŵyr y gorthrymderau
Gadd fy ngwlad.

Ond diolch ddywed Awen
Wedi'r brad,
O sawr y nos ddiseren
Daeth rhyddhad ;
Daeth gwrol a doeth gewri
I'w glynnoedd, a goleuni,
Planasant ros a lili—
Ac Eden ar ôl codi
Yw fy ngwlad.

Ddraig Goch ! O ! cerdda rhagot
Mewn mawrhad,
A Duw o'i ras fo drosot,
Gwalia fad,
Dal hoen dy hen delynau,
Rho ymaith dy holl rwymau,
Rho deilwng hyfryd olau ;
O ! trwsia dant i'r oesau
Walia fad.

ALFA.

6.—SHON TEILIWR BACH.

Alaw—"*Robin yn Swil.*"

Rhowch glust, a chewch hanes rhyw ddwy oes yn ôl,
Am Shôn Bach y Teiliwr oedd yn byw yn Nhy'n Ddôl :
'Roedd pob peth bryd hynny dan dariff go drwm,
A Shôn oedd dilledydd holl ddynion y Cwm
Holl ddynion y Cwm,
Holl ddynion y Cwm,
A Shôn oedd dilledydd holl ddynion y Cwm.

O gwmpas yr ardal yn ddyfai yr ai,
A mesur, a thorri, a phwytho, a wnai ;
Ac adeg priodas neu anglądd mewn ty,
Gwnai Shôn, meddai dynion, rai troion waith *tri*.
Rai troion waith tri, etc.

'Roedd Shôn yn ŵr didwyll, a chandryll, a chall,
Ac ar ei addfwynder un amser 'doedd ball ;
A dysgai 'i brentisiaid wrth gychwyn bob un
I gadw cyfrinach fel angau ei hun.
Fel angau ei hun, etc.

A'r haearn a'r slibwt ar gefn y llanc llon,
Ei feistr frasgamai o'i flaen dros y fron,
I ben bord y gegin wrth ffenest' Frongoy,
Dan gnoi, a than boeri—dan boeri a chnoi.
Dan boeri a chnoi, etc.

Hen holwr digwilydd oedd Gwen, Parc-y-gad,
Yn rhythu am hanes teuluoedd y wlad ;
A'r prentis yn ateb pob cwestiwn o hyd—
"Yn wir, Mrs. Dafis, 'dwy'n gw'bod dim byd."
'Dwy'n gw'bod dim byd, etc.

Sut ddillad wnai Shôn? Fe gewch wybod yn awr :—
Cot hir ochor mochyn a choler go fawr,
A *gwasgod* streip goch, a *britis* pen lin :—
Dan ddwylo Shôn Teilwr doi pob un yn ddyn.
Doi pob un yn ddyn, etc.

Nos Sadwrn cai Shôn bron yn wastad dorth lân,
A chiltyn o gaws i fynd adre i Shân ;
A Shân a fendithiai'r sawl gofiai'r tylawd
Ar amser mor ddrud ar y bara a'r blawd.
Y bara a'r blawd,
Y bara a'r blawd,
Ar amser mor ddrud ar y bara a'r blawd.

Granellian.

7.—HEN FUGAIL BLAEN-Y-COTHI.

Alaw—"*Toriad y Dydd.*"

Hen Fugail Blaen-y-Cothi—
Yn nyddiau Cymru Sydd,
Mae Deio Ajax yn ei fro,
Fel darn o 'slawer dydd.
Cymraeg yw ei leferydd,
Cymreig ei wisg bob darn,
A thystia pawb a'i gwel o draw
"Hen Gymro hyd y carn!"—

Hen Fugail Blaen-y-Cothi—
Mor hoff o'i ddefaid yw !
Fe'i geilw wrth eu henwau oll,
A'r defaid oll a'i clyw.
Ond os bydd "dafad ungorn"
Am grwydro draw yn ffôl,
Mae "Quick" a "Teifi" wrth ei law
A'u dwg i'r lloc yn ôl.

Hen Fugail Blaen-y-Cothi—
A'i boni, 'n mynd a dod ;
Ac nid oes harddach iddo ef
Na'i "boni gwyn" yn bod.
Mae'n falchach fil ohono
Na phe bae'n berchen stad,
A chlod y poni erbyn hyn,
A gerddodd hyd y wlad.

Hen Fugail Blaen-y-Cothi
Y gŵr digrifa'n fyw ;
Un digrif o ran gwisg a gwedd
A ffraeth leferydd yw.
"Hir oes i Deio Ajax"
Medd gobaith Cymru Fydd
"I ddilyn defaid mân ei fro,
Fel darn o 'slawer dydd.

Gwili.



Y Parch. TIMOTHY LEWIS RICHARD



Y Parch. WILLIAM DAVIES

8.—LISA TAL Y SARN.

Alaw—"*Y Garreg Lwyd.*"

Mae sôn am lawer merch,
A sôn mae'n debyg fydd,
Tra paro swyn mewn serch
A rhoglau pêr y gwŷdd :
Ond er pob sôn y sydd,
Y glana' 'nôl fy marn,
Ar ddôl neu dwyn,
A'r pura'i swyn,
Yw Lisa Tal y Sarn.

Os cul yw Aeron fwyn,
Gwna les o gylch i'r tir ;
Os ar ei min mae brwyn,
Mae hefyd feillion ir,
A llawer derwen wech
Nad rhwydd ei gwneud yn ddarn,
Wna'r las-fro'n ddryd ;
Ond dim fel pryd
Hoff Lisa Tal y Sarn.

Rhai ant i wledydd pell
I weld hynodion byd,
Pan allent lawer gwell
Yn nhre' fodloni'u bryd.
Pe chwilient barthau byd
O hyn i ddydd y farn,
Am brydwedd deg,
Chaent ddim mor chweg
A Lisa Tal y Sarn.

Mae hon 'run iaith a'i mam,
A'i *gown* o wlanen gwlad ;
Os gofyn neb paham,
Yr achos byth ni wad ;
Ond er mor wledig yw,
Yr ebol gorau'i garn,
Braidd gwibiai'n gynt
Drwy'r awel wynt
Na Lisa Tal y Sarn.

Drwy 'roglaidd dymor haf,
Pa beth mor fyg a hon ?
A'r gaeaf beth a gaf
Mor wresog wrth fy mron ?
Dan boethaf lewych haul
Mae'n gordial 'nôl fy marn,
A pheth y nos
Rhag duaf lo's
Fel Lisa Tal y Sarn.

Tra nytha'r crychydd glas
Ar ffinwydd mawr Llan Llŷr,
Tra cenfydd llygad gwas
Afallen hardda'r mur :
Tra gwesgir merch at fron
Ar dwyn neu weiriog garn,
Pereiddiaf glod
Fydd is y rhôd
I Lisa Tal y Sarn.

O'r "*Caniedydd Cymreig.*"

9.—TELYN HEN WALIA.

Alaw—"*Syr Harri Ddu.*"

Yn encil gwig,
A chân ar frig
Deiliog bren uwch murmur nant,
Trawai llanc penfelyn
Alaw ar hen delyn
Nyddai fiwsig o bob tant,
Doed y coed dewinol, trwy'r prysglwyni breg,
Gwibiai torf freuddwydiol, dawnsiai'r Tylwyth Teg ;
Telyn fwyn Hen Walia, alwai o wlad Hud
Bobl y dywell fro ynghyd.

Ar faes y gad
Pan ddygai brad
Warth a briw i Gymru Wen,
Trawai hen delynwr
Gadlef uwch y cynnwr',
Gliriai'r cymyl du o'r nen.
Tymhestl y taranau dan ei fysedd tân,
Dorrai ar y tannau gwyllt, yn rhyfel gân,
Telyn wyllt Hen Walia gadwodd Gymru Fu
Ganwaith rhag y dynged ddu.

Ar aelwyd lon,
A bryd a bron
Rhiaint diddan fel eu plant ;
Casglent dan y celyn,
Canent gyda'r delyn,
A phenillion ar eu mant.
Plethent wae a gwynfyd, gwëent wawd a gwên
Yr alawon hyfryd ar y Delyn hên.
Telyn fwyn Hen Walia roddai galon iach
I'r hen bobol a'r rhai bach.

Dyfnallt.

10.—ATGOFION CWM TWRCH.

Melys mynd am dro'n freuddwydiol
I hen ardal bore oes ;
Cofio cylch y teulu cyfan,
Cofio byd heb awel groes,
Cofio chwilio nythau adar
A brithyllod yn y nant—
Daw dedwyddwch lond fy mynwes
Wrth atgofio bywyd plant.

Tybed yw yr adar nythau
'Nawr o fewn y fwynaidd fro,
O'r un llinach a'r rhai hynny
Nythent gynt ym môn y tô ?
Wn i ydyw'r gog lle clywais
Gyntaf gân y ddeunod tlws,
Yn dod 'nawr i gangau'r onnen
Dyfai'n dal o flaen y drws ?

B'le mae'r plant oedd yn yr Ysgol
Yn Tynewydd, ddyddiau fu ?
B'le mae'r bechgyn a'r genethod
Oeddynt gynt yn ddedwydd lu ?
B'le mae'r tadau fu'n preswylio
Yr hen " fythod llwydion " clyd ?—
Cyfyd hiraeth yn fy meddwl—
Loesion i fy nghalon ddyd.

Blaen y Waun, lle bum yn chwarae
Gyda'r plant ag ysgafn fron ;
Muriau moelion Abertridwr
Ddeffry atgof mebyd llon.
Hendre Hir a'i hen breswylwyr—
Rhys a Pegi—cul eu rhan ;
Dim ond y gerddinen erys
Yn wylofus uwch y fan !

Y Dafisiaid—rai rhagorol
Yn eu teyrnas ar y fro ;
Nid oes gennyf " gof y plentyn "
Gwell am neb na Deio'r Go',
A'r diniwaid Deio'r Enwyn,
A Wil Nano, dduwiol iawn,
Peter Lloyd a Jac y Llechau—
Dyma wŷr yr amryw ddawn.

Llecyn gwyrddlas " yn yr anial "
Erys Blaen y Twrch i mi ;
Llawer canwaith yn fy meddwl
Rhedais i'w dawelwch cu.

Capel Saron, ni ddilea
Amser mo fy mharch i ti,
A chydoesi a'r mynyddoedd
Wnelot, yw 'nymuniad i.

Boed rhinweddau'r didwyll dadau
Eto i nodweddu'r plant ;
Boed i'r heniaith gael ei siarad,
Doed y delyn i roi tant.
Caner hen alawon Cymru
Yma tra rhed Twrch i'r môr ;
Tra bo seren yn yr wybren
Bydded yma foliant Iôr.

Jenkin Lloyd [*Llwyd y Pant*].

11.—Y GWN BACH.

Alaw—" *Rhywun.*"

[Argraffiad " Dewi Sant, Alawon Cymreig," Rhan II.]

Nid oes ail i Modryb Sali
A'i gŵn bach yn dwt amdani ;
Hawdd ei hadwaen hi ym mhobman
Yn y gŵn o waith ei hunan.

Gŵn bach oedd ei gwisg briodas,
Ni fu gwisg erioed mor addas,
Ac fe fynnai 'Newyrth Shaci
Nad oedd neb yn ail i Sali.

Niŵyr Modryb fawr am ffasiwn—
Dim ond am y bais a'r betgwn ;
Ond y mae fel tywysoges
Mewn gŵn bach yn glyd a chynnes.

Gwell gan Modryb wlanen ca'tre
Na'r un gŵn o'r sidan gore ;
Fe a hi i'r ffair a'r farchnad
Mewn gŵn bach o wlân y ddafad.

Nid oes ail i Modryb Sali,
A'i gŵn bach yn dwt amdani ;
Ei roi heibio wna yn union
A chaiff un o'r gynau gwynion.

Ap Ceredigion.

12.—HIRAETH CYMRO AM EI WLAD.

Alaw—" *Sweet Home.*"

Er profi pleserau pob lle yn ddiwad,
Hen Gymru fyth garaf, yr orau hoff wlad ;
Fy nhraed wrth ei thramwy a deimla lon wres,
A'i hagwedd pan wela, i'm llygad rydd les :

Pan byddwyf ymhell, fel y g'lomen drist, trof
Fy ngolwg tua 'nghartref, nid a byth o'm cof ;
Ei bryniau, a'i gelltydd, ei hadar, a'i hwyn,—
Pob peth sydd yn annwyl, pob pren a phob llwyn :

Gwlad fy hen gyfeillion, gwlad 'nhad, gwlad fy mam,
Lle dysgais chwedleua, lle rhoes gyntaf gam ;
Lle cysgais, lle codais, lle tyfais yn ddyn,
Lle cerais ferch gyntaf, O ! wlad lon ei llun :
Wlad ! wlad ! hoff, hoff wlad,
'Does fan fel fy ngwlad, 'does fan fel fy ngwlad.
O'r " *Caniedydd Cymreig* " [*1845*].

Gwyl Ddewi, 1911.

1.—Coffa y Parch. W. EILIR EVANS.

Alaw—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

Holl Ddyffryn y Teifi mewn galar sy'n brudd;
Aeth gŵr a anwylai o'i oror dan gudd ;
Llaw angau ddiarbed fu'n tarfu ei hedd
Trwy fyned ag Eilir—ei Eilir—i'r bedd.

Y gŵr o'i hir nychdod, aeth adref at Dduw ;
Ond er iddo farw mae eto yn fyw ;
Llefaru mae'n wastad trwy'i weithiau a'i ffyrdd,
A'i lu cymwynasau fyth gadwant yn wyrdd.

Barddoniaeth a Rhyddiaith adawodd efe
Yn werthfawr gynysgaeth i Ogledd a De :
Yn swyn ei ganeuon mae ef gyda ni,
A'i nerthol ysgrifau fyth ddyrchant ei fri.

Mewn llafur diflino y gwelid ei sêl ;
O'i lafur cawn ninnau'n awr sugno y mêl :
Gwres calon gwladgarwr sy'n treiddio trwy'i waith—
Ef garai ei genedl, ei wlad, a'i hoff iaith.

Dan faner yr Iesu bu'n treulio ei oes—
Bu'n meithrin ei genedl mewn rhinwedd a moes :
A'r atgof sy'n adsain, i leddfu ein loes,
Bod marw yn elw i filwr y groes.

Y Parch. Ganon T. Edwards [*Gwynedd*].

2.—PATTENS MAMGU.

Alaw—" *Hen Ffon fy Nain.*"

I godi'r traed a'u cadw'n lân
Bu merched Cymru Fu
Yn gwisgo *pattens* cywrain, gwych,—
Rwy'n cofio pâr mamgu.
I'r isel radd 'roedd pattens clocs,
I'r canol, trybedd râd,
I'r uwch, rai *hingis* godai'r pris,—
Pob un yn ôl ei stâd.

Nid oedd gan un o fewn y plwy
Well *pattens* na fy nain ;
Ble bynnag elai, Sul a gwyl,
Hi fynnai wisgo rhain ;
Roedd clustiau iddynt, un bob tu,
A gwaddan fel cwch bach,
A chapan lleder ar y trwyn,—
A *dim* o'r hen wich fach.

Yn sionc ei gwala rhodiai nain
Hyd bedwar ugain oed,
Dros lwybrau geirwon anial fyd
Heb unwaith golli'i throed :
Chwi ferched mwynion " Cymru Wen,"
A gwragedd " Gwlad y Gân,"
Gofalwch, fel hen wraig mamgu,
I gadw'ch traed yn lân.

J. Brynog Rees.

3.—DUW CADW EIN TYWYSOG.

Alaw—"*God Bless the Prince of Wales.*"

[Pencerdd Towy.]

Duw cadw ein Tywysog,
Doed bendith ar ei ben ;
A thrwyddo ef a'i hanes,
Bendithia Walia Wen :
Wrth wisgo arfau Cymru,
Rho iddo galon bur
I garu'n gwlad a'i phobol,
Yn gywir fel y dur.
Duw cadw ein Tywysog,
Doed bendith ar ei ben ;
A thrwyddo ef a'i hanes,
Bendithia Walia Wen.

Boed atsain o'r Foel Fama,
Hyd ochrau'r Frenni Fawr,
Gan blant yr hen fynyddoedd,
Am fendith arno'n awr :
Ac os caiff hir flynyddau,
A choron aur i'w ben,
Byth nad anghofied yntau
Fawrhau ei Gymru Wen.
Duw cadw ein Tywysog, etc.

Duw cadw ein Tywysog,
Mewn hawddfyd ac mewn hedd !
Byth, byth na choded cwmwl
O gylch ei uchel sedd ;
Gwna ef yn darian rhyddid,
Gwna ef yn dŵr i'r gwan ;
Ac wrth wneud da i'w bobol
Ei enw aed i'r lan !
Duw cadw ein Tywysog, etc.

ELFED.

4.—DEWI SANT.

Alaw—"*Dy'gwyl Dewi Sant.*"

MAE llawer canrif wedi myn'd
Dros fedd hen Ddewi Sant,
Ond mae efe o hyd yn ffrind
I Gymru fach a'i phlant ;
Mae'n croesi dros yr oesau draw
Yn ysbryd llawn o hedd,
A bendith cenedl yn ei law
O hyd, o hyd, yn wledd.

Cytgan—
Mae Dewi yma'n rhoi ei bwys
Wrth fyned ar ei daith,
Yn gwrando arnom yn Llancrwys
Yn canu yr hen iaith.

Hen Gymro pur yw Dewi Sant
Yn caru'r hen Gymraeg,
Ac nid yw am i neb o'i phlant
I'w gwerthu am estron aeg ;
Mae Dewi am i'r plant i gyd
I hoffi cerdd a chân,
A byw yn ddiwyd yn y byd,
A chofio byw yn lân.
Cytgan—Mae Dewi yma'n rhoi, etc.

Ni allodd gwenwyn gelyn câs
Wenwyno Dewi Sant,—
Ac nid yw am i'r byd diras
Wenwyno neb o'i blant ;
'Roedd ef yn caru purdeb moes
A gweithio dros ei Dduw,
A chofiwn ninnau drwy ein hoes
Mai dyna'r ffordd i fyw.
Cytgan—Mae Dewi yma'n rhoi, etc.

BEN DAVIES.

5.—HEN WLAD FY NHADAU.

MAE hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri ;
Ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
Dros ryddid collasant eu gwa'd.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob clogwyn, i'm golwg sydd hardd ;
Trwy deimlad gwladgarol, mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd i fi.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.

Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad,
Tra môr yn fur, i'r bur hoff bau,
O bydded i'r heniaith barhau.

EVAN JAMES.

6.—EIN GWLAD.

Alaw—"*Rhyfelgyrch Capten Morgan.*"

HEN wlad ein tadau, gwlad ein calon ni,
Cartref y gerdd a hanes wyt ti ;
Harddaf o wledydd daear gron i gyd,
Lle mae godre'r nefoedd heb bylu'n llaid y byd ;
Gwlad a garodd mil o ddewrion ŵyd
O dawel Ystrad Tywi hyd i Ddyffryn clodfawr Clwyd.

Erot y gwaedai'n Tadau yn y gâd,—
Melys eu hun yn naear eu gwlad ;
Ninnau yn unwedd, dyled annwyl yw,
Drosot beiddiem farw, ac erot byddom fyw ;
Am a'th wado, mwy na bydded sôn
O'r Aran hyd Eryri nag o Fynwy fawr i Fôn.

Mawr fu dy glod pan oedd ein Tadau'n rhydd,
Mwy fydd dy fri mewn oesau a fydd ;
Tawer am heddiw, digon ydyw gwneud,
Am a wneler heddiw, yfory biau ddweud ;
Ond i'th garu, na ddiffygied un,
O Faelor i Gyfeiliog nag o Lywel hyd i Leyn.

T. GWYNN JONES.

7.—Y GENHINEN.

Alaw—"*Gorymdaith Gwyr Meirionydd.*"

AR y bryn gyda'i wŷr ein Cadwallon chwyfia'i gledd,
Tra mae fflam ei bur wladgarwch yn hardd wrido ar ei rudd ;
"Dewch i'r gâd, filwyr dewr ! ac ymladdwn hyd at fedd,
Ni cha Sais, er ei drais a'i draha, gario'r dydd.

Tra bo fflach ar eich cledd, a chenhinen ar eich bron,
Nid oes gelyn fyth wyneba'ch rhengoedd cryf-ion fel y dur ;
Er eu rhif, arfog cryf, i hen Walia byddwch bur,
Dyma'r dydd, down yn rhydd, rhyddion fyth, fel y don."

Ninnau blant Dewi Sant, llawen gadwn ŵyl mewn bri,
Ein gwefusau draetho foliant ein hoff nawdd-sant hyd y tir ;
Heno'n llon ar ein bron, y Genhinen gwisgwn hi,
Ymladd wnawn dros sy'n iawn, codwn fraich dros y Gwir ;

Dros ein gwlad rhown ein gwaed, Cymry bychain ydym ni,
Ein diwylliant dry'n ogoniant i hen arwyr Cymru wen,
Er pob croes drwy ein hoes, codwn Walia hyd y nen,
Milwyr y'm, fe ddaw'n grym yn fwy llym, fel y lli'.

Ysgol Sir, Aberaeron. E. O. JAMES.

8.—YR HEN FUDDAI DWMP.

Alaw—"*Yn gynnar yn y Bore.*"

MAE arnaf awydd canu cân
I un o gelfi'r oes o'r bla'n :
Un oedd ddefnyddiol ymhob tŷ—
Hen fuddai gnoc y dyddiau fu.
Yn gynnar yn y bore
Ar doriad gwawr y dydd.

Hen hirgron stond a chaead crwn,
A gordd o bren a'i choes drwy hwn,
A chylchau helyg llyfn eu gra'n,—
A'r cyfan oll yn loyw lân.

Os gwladaidd oedd ei lliw a'i llun,
Gwaith Cymro iawn, nid estron ddyn,
Er hyn gwnai fenyn blasus pur
Heb gymorth rhôd na gwerthyd ddur.

Golygfa swynol yn yr haf
Oedd gweled lodes fochgoch fraf,
A'i breichiau grymus yn ei ffordd
Ddeheuig iawn yn curo'r ordd.

Am wrid i wyneb geneth lon
Doedd eisieu gwell y fuddai hon
I wneud gewynnau'r fraich yn gry',—
Hi oedd *Dumb Bells* hen Gymru Fu.

Er maint eu defnydd yn eu tro,
Hen gelfi gynt raid fynd ar ffo :
O flaen dyfeisiau'r dyddiau hyn
Diflannu wnant fel niwl y glyn.

Llanbedr-Pont-Steffan. MAIR.

9.—CYMRU FYDD.

Alaw—"*Cader Idris.*"

Drwy'r henwlad mae cyffro hen Gymru yn deffro,
Disgleiria ei hamrant dan fedydd y wawr ;
Fel rhiain ugeinmlwydd 'rôl breuddwyd boreddydd,
A'i gwallt yn llywethau modrwyog i'r llawr.
Adrodda'n ei chalon hanesion hen oesau
Am arwyr fu'n ymladd ym mhoethder y dydd :
'N ôl dyddiau ei dolur, clyw eto am Arthur
Yn trefnu 'i fyddinoedd i faes Cymru Fydd.

Nid ofer fu cyni ei beirdd a'i phroffwydi
Wrth adrodd diddanwch y "dyddiau sy'n dod" ;
Mae plant y gwaredwyr "cynefin a dolur"
Yn codi ym mhobman i urddas a chlod.
Caiff meibion athrylith o hufen dy fendith,
Ni yrrir Goronwy byth mwy dros dy draeth.
A chariad swyn hudol, O Gymru'r dyfodol
Agori dy fronnau i feibion dy faeth.

Daw'r gân a alltudiwyd 'nôl eto i'r aelwyd,
Ar delyn hen Walia bydd bys ar bob tant.
Bydd iaith hên ein tadau yn llonni'r neuaddau
A gwinoedd y duwiau'n ei phlasau i'w phlant.
Ei meibion a'i merched yn nyddiau'r ymwared
Fydd diwair a sobr eu buchedd bob un ;
Y gorau o'r bechgyn drwy bleidlais ei gwerin
A'n Brifweinidogion i'w Senedd ei hun !

Fred Jones.

10.—TY-UNOS CYMRU FU.

Alaw—"*Grisial Ground.*"

Ar "diroedd y goron," 'nôl dull Cymru Fu
Yng nghesail y Trichrug bu bwthyn bach cu ;
Ei alw'n "dŷ-unos" wnai pobol y fro—
Mewn un nos y'i codwyd, y'i dodwyd dan do.

Un hwyr daeth i'r llecyn lle trefnwyd gwneud tŷ,
Ryw nifer o *ffrindiau*,—gwŷr dewrion a chry ;
Pob un drwy yr hirnos a weithiai fel cawr,—
Ac esgyn o hono wnai mwg gyda'r wawr.

Y mwg pan gyfodai gyhoeddai yn glir
Mai pennaeth y bwthyn berchnogai y tir ;
Fe heriai "gwnstebli" a scweier y plwy
Er bygwth, i'w symud o hono byth mwy.

Ei ddefnydd oedd clotas, grug, eithin mil gwell
Na'r *foreign materials* sy'n dyfod o bell ;
A thanwydd y teulu, gerllaw ceid y rhain—
Yr eithin, y golosg a "phen twsw" y waun.

Un bychan, un isel, heb ffenest, oedd hwn,
Un shime oedd iddo,—twll bychan a chrwn :
Un drws, ac un 'stafell, a'r mwg ai i'w hynt
Trwy'r drws, os o'r gogledd y chwythai y gwynt.

Cyn bod "deddfau iechyd" a'u hawliau diri',
O fewn y tŷ clotas 'roedd iechyd mewn bri,
Ni allai fod yno na chlefyd na chur,—
Mwg iachus y tywarch a'i cadwai yn bur.
Tal Sarn.

Enoc Evans.

11.—YR HEN STOL FAGU.

Alaw—"*Suo-Gân.*"

[Argraffiad Dewi Sant. Rhan I.]

Cofio'r wyf yr hên stôl fagu,
O mor annwyl yw i'm bron !
Cofio fel 'r eisteddwn ynddi
I roi hûn i'm baban llon,
Suwn ef â chalon gynnes,
Gan gusanu'i wefus gu,—
Suo, siglo, siglo, suo,
Suo, siglo, suo, su.

Cofio'r wyf yr hên stôl fagu,
Pan ddaw'r dyddiau gynt yn ôl ;
Cefais bleser pennaf daear,
Gynt, wrth eistedd ar y stôl.
Pan yn rhoddi'r fron i'm baban,
Calon hoff wrth galon fu ;
Suo, siglo, siglo, suo,
Suo, siglo, suo, su.

Cofio'r wyf yr hên stôl fagu,
Ac mi welaf ddeigryn mam—
Mam weddiai dros ei phlentyn,
Gyda serch fel eirias fflam.
Cadw rhagddo bob peryglon
Fynnai llef fy nghalon gu,—
Suo, siglo, siglo, suo,
Suo, siglo, suo, su.

Maesbach.

Margaret Jones.

12.—Y BRIODAS FAWR.

Alaw—"*Nos Galan.*"

Oes y priodasau mawrion
Gwneud pob peth yn daclus ddigon ;
Wedi'r "gofyn," a pheth trefnu
Cai'r gostegion eu cyhoeddi.

Yna'r "gwahodd" roid allan bellach
Gyda hwyl a chryn ysbleddach ;
A chyn mynd adre Sion Wahoddwr
Fyddai weithiau'n feddw bowdwr.

Ond pan ai a'r gwawdd ar gerdded
Anodd cael gwahoddwr cystled :
Gyda'i "ffrâs" a'i ddoniol siarad
Carai pawb ei weld e'n dwad.

Dwedai'r blawd gai yn ei gwdyn
Nad oedd i'r gwahoddwr clyn ;
A phrynhawn y neithior ddwedai
Mor effeithiol y gwahoddai.

Gwŷr *seek out*—prif ddoniau'r dyffryn,
At dŷ'r ferch a ddoent i'w mofyn ;
A phenillion digon bethma
Ar ben y drws a geid fynycha !

Nôl cael hyd i'r eneth gyfrwys
Mawr fai'r gwylltu am yr Eglwys :
Cael yr allor *beth* cyn deuddeg
Fyddai'n *orchwyl* lawer adeg.

Dyna gynt oedd dull priodas—
Pawb yn gyrru fel yr andras,
Rhai yn drefnus ar gyfrwyau,
Mwy ar ferlod heb glustogau.

Y prynhawn i "gadw neithior"
Deuai 'nghyd ugeiniau'n rhagor ;
A chyn nos fe fyddai'r ddeuddyn
Ddeugain punt yn well i gychwyn.

Granellian.

Gwyl Ddewi, 1912.

1.—YR HEN BLOW.

Alaw—"*Pant-y-Pistyll.*"

[Alawon Cymreig—Argraffiad Dewi Sant, Rhan II.]

Shôn Penlon, y Cerrig Gwynion,
Gofiaf yn awr yn eithaf da,
Cist o gorn o gylch ei berson
Gariai'i ddybaco, aeaf a ha' ;
'Chydig gelfi feddai'r henwr,—
Un oedd ei *breastplough* gloyw a llym ;
Ni ddoi neb i weundir ffermwr
Wthiai ei blow gyda mwy o rym.

Pan gai Shôn ar un o'r ffermydd
Stang o dir plow ei hwyl oedd fawr ;
Yno'n awyr iach y mynydd
Gweithiai hyd hwyr o doriad gwawr.
Er na chawsai awr o ysgol,
Fynnai'r un dyn fod Shôn yn ŵr bas :—
Ar dri thrawiad go rymusol
Cochai ryw lathen hir o'r glas !

Un o'r tair o "Gerryg Gwynion"
Safai ar ganol cae'r hen ŵr ;
Chwythodd Shôn y maen yn ddeilchion,—
Trosedd oedd hynny'n ddigon siwr.
Nodi'r ffin ym mlaenau'r plwyfi,
Dyna oedd swydd yr hen garreg wen :—
Gyda'r beting a'r arloesi
Prin yr achubodd Shôn ei ben.

Pren a rhiciau ar ei onglau
Gadwai i'r gŵr ei gownt yn driw ;
Oesai ef cyn oed dydd-lyfrau,
Eto fe fedrai'r ffordd i fyw,—
Ei bum *vote* ar bren a ddygai
Ddiwrnod etholiad cyntaf y Bwrdd ;—
"Caed y plant well addysg," meddai ;—
"Plwmpodd" i'w ddyn, a throdd i ffwrdd.

Granellian.

2.—GWYL DEWI.

Alaw—"*Dy'gwyl Dewi Sant.*"

Mae dydd Gwyl Dewi wedi dod,
A'r gwanwyn ar y ddôl ;
A Chymru'n nesu at y nôd,
Heb neb yn tynnu'n ôl :
Bu hen broffwydi Cymru Fu
Yn sôn am doriad dydd :
A chwyd yr haul heb gwmwl du,
Ar fryniau Cymru Fydd.
Mae'r hen broffwydi'n cysgu'n drwm,
Ond effro yw y plant ;
A sŵn carolau leinw'r cwm
Ar Ddy'gwyl Dewi Sant.

Y gaeaf sydd yn cilio draw,
Daw eto ddyddiau gwell ;
A dywed heulwen wedi glaw
Nad yw yr haf ymhell ;
Briallu sydd yn dringo'r clawdd,
Yn sŵn caniadau'r plant ;
A gwisgo'r cennin sydd yn hawdd
Ar Ddy'gwyl Dewi Sant.
Mae'r hen broffwydi'n cysgu, etc.

Fe garodd Dewi Gymru fad,
A'i charu wna o hyd ;
A deil ei enw'n gorn y gad,
I'n galw ninnau 'nghyd ;
Mae iaith y delyn eto'n fyw,
Ac awen ar ei thant ;
Ac ni chaiff arall flino'n clyw
Ar Ddy'gwyl Dewi Sant.
Mae'r hen broffwydi'n cysgu, etc.

Dyfed.

3.—FY NGWLAD.

Alaw—"*O Tyred yn ôl.*"

Mae cariad at Gymru yn llosgi'n fy mron,
Mae'r Alaw ar dannau fy nhelyn yn llon,
Daw gwanwyn fy ngobaith yn haf o fwynhâd
Wrth gofio gorchestion dihafal fy Ngwlad ;
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Offrymaf fy mywyd ar allor fy Ngwlad.

Mae'i dwylo'n ddihalog, a'i "maneg" yn wen,
A heulwen siriolach yn gloywi ei nen,
Mae'n cerdded yn hoyw at fryniau mawrhâd,
Ac ni ddaw 'run gelyn i rwystro fy Ngwlad :
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Offrymaf fy mywyd ar allor fy Ngwlad.

Mor hyfryd yw deffro peroriaeth y tant,
Mewn gwlatgar orfoledd ar Wyl Dewi Sant ;
A dyma'r gorfoledd all ddifa sarhâd,—
Mae'r wawr wedi tyfu yn ddydd ar fy Ngwlad :
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Rwy'n caru fy Ngwlad,
Offrymaf fy mywyd ar allor fy Ngwlad.

Cennech.

4.—GLANNAU'R COTHI.

Alaw—"*Ceinion Conwy.*"

[Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Rhan III.]

Ar lannau Cothi, wenfro deg,
Mae blodau chweg yn tyfu,
Ac ar ganghennau'r coedydd glân
Mae'r adar mân yn canu.
A mi ymhell o dir fy mro,
Byth yno mae fy nghalon,—
Cartrefle pennaf pob rhyw swyn
Yw minion mwyn yr afon :
Cyfaredd fel o nefol ryw
Sydd yma'n byw ymdorri,
Nid oes baradwys mewn un man
Mor bur a glannau Cothi.

Hudolus fro ! Mor wyn fy myd,
Yn nyddiau mebyd mwynion :
A phery'r wlad tra pery co'
Yn annwyl fro fy nghalon :
Mor ddifyr yn yr amser gynt
Fu llawer hynt orffwyllog,
Tra gwrid fy moch yn llosgi'n fflam
Wrth wylio llam yr eog,
Rhyw Eden werdd yw'r fangre hon,
A'i swynion heb rifedi ;
Nid oes trwy'r byd i gyd un man
I mi fel glannau Cothi.

Ardderchog fangre ! O bob tu
Mae bryniau lu yn amlwg,
Ac ambell graig ysgwyddog serth
Yn cynnal perth o iorwg ;

Y Rhaglaw DAVID WALTERS
[*Tudalen 76*]

Miss MARY DAVIES
[*Tudalen 71 a 105*]

ALFRED EVANS
[*Tudalen 84*]

HERBERT LEWIS
[*Tudalen 86*]

Trwy'r gaeaf oer, trwy'r haf a'i wres,
Dirodres yw'r trigolion,—
Mae hedd a chariad yma'n llawn
Yn gyflawn ymhob calon.
Er chwilio gwledydd daear lawr,
'Does orawr mewn tirioni,
Nac unrhyw fro mewn swynol fri,
I mi fel glannau Cothi.

RHUDDWAWR.

5.—Y BRITSHIS PENLIN.

Alaw—"*Pe cawn i hon.*"

Mae dull y byd o hyd, o hyd,
Yn newid drwy'r blynyddoedd,
Un newydd yw ein ffordd o fyw,
A newydd lliw ein gwisgoedd :
Mae'n rhaid yn awr i fach a mawr
Gael hyd y llawr eu llodrau,
Ni cheir yr un a "britsh penlin"
Yn harddu llun ei goesau.

Rwy'n cofio'r dydd pan awn yn rhydd
I gwmni Rhys y labrwr,
A syllu wnawn yn ddifyr iawn
Ar fritshis glân y gweithiwr ;
Un llydan mawr o'r *top* i lawr
Hyd ymyl ei benliniau,
Ac yma'n dyn chwech botwm gwyn
Ddisgleiriai oll fel perlau.

'Roedd Rhys yn hwn mor ddedwydd, gwn
A'r hedydd bach o'r mynydd,
Fe gadwai draw y gwynt a'r glaw
Rhag blino'i lon breswylydd ;
Aeth Rhys i fedd, fe haeddai'r hedd
Sy'n nghwrr y fynwent unig,
Ond ar fy nghof ble bynnag trôf
Bydd llun ei fritshis gwledig.

Myn rhai o'r plant fod Dewi Sant
Yn gwisgo britshis weithiau,
Os felly 'roedd, rhaid dweud ar g'oedd
Mai britshis wisgwn ninnau ;
Pwy ŵyr, yn wir, na ddaw cyn hir,
Dywysog Cymru dirion,
Mewn britsh pe'lin o'r harddaf lun
I Gastell hen Caernarfon.

BEDWYN.

6.—BREUDDWYD CYMRU DIRION.

Alaw—"*Breuddwyd y Frenhines.*"

"BREUDDWYD y Frenhines oedd gweld ei hun yn dlawd,"
A'r plasty wedi troi i fwthyn llwm ei brawd ;
Breuddwyd Cymru dirion er tloted yw yn awr
Yw gweld ei phlant i gyd yn berchen cyfoeth mawr ;
Cyfoeth nid o felyn aur na thwr o arian glas
Ond cyfoeth dry pob bwth to-brwyn yn fwy o werth na'r plâs :
Breuddwydio drwy yr hirnos am hyn mae Cymru wen
A chyda'r bore bach daw'r breuddwyd hoff i ben !

"Breuddwyd y Frenhines oedd gweld ei hun yn dlawd"
A'i choron aur ar goll ym mwthyn llwm ei brawd ;
Breuddwyd Cymru dirion yw gweld gorseddau fyrdd
A hithau yn frenhines yn ei sidan gwyrdd ;
Pleth o flodau fydd ei choron—coron berta'r byd
Ac ni bydd gwywo i flodeuyn yn y bleth i gyd ;
Breuddwydio drwy yr hirnos am hyn mae Cymru wen
A chyda'r bore bach daw'r breuddwyd hoff i ben !

'Breuddwyd y Frenhines oedd gweld ei hun yn dlawd"
A'i thelyn falch yn fud ym mwthyn llwm ei brawd ;
Breuddwyd Cymru dirion yw gweld ei thelyn fach
Yn crynu gan y gerdd ar lawr pob aelwyd iach ;
O mor llawen fydd y galon, mwynedd fydd y gân
Pan welir Cymru'n taro'r tannau gyda dwylo glân ;
Breuddwydio drwy yr hirnos am hyn mae Cymru wen,
A chyda'r bore bach daw'r breuddwyd hoff i ben !

WIL IFAN.

7.—GWLANA.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

Cyn diwedd Mehefin—ar droiad y dydd
Mawr ydyw y gleber am wlana y sydd
Gan "wartheg" mawr Llanarth a hwntws y Cai
Menywod Dihewyd a'r Cribyn bob rhai.

Am dopsten o wlân
Yn uchel eu cân ;
Am wlana pen mynydd
Am dopsten o wlân.

Cytunent i huria rhyw geffyl a chart
Ar ôl penderfynu ar amser y *start* :
Hwy aethent yn llawen hyd droed Mynydd Mawr—
'Madawsent a'r cerbyd fan hynny yn awr.

Yng ngwaelod eu sachau yn lloches y gwlân
Y cadwai pob menyw ei thoc ar wahân,—
Bara chaws barlys, te, siwgir, wrth gwrs,
A chydig geiniogau yng ngwaelod y pwrs.

'R ôl cyrraedd yr annedd—eu llety i fod,
[Roedd mwy na ddisgwylid i'r lan, wedi dod],
Un gwely oedd yno yn ddigon i dair,
Ond gwâl oedd i'r gweddill ar dowlad y gwair.

Drannoeth yn fore, i gael achub y bla'n
Dechreuodd y gwlana—pob un ar wahan
Ond Radi ferch Pegi—un ifanc lawn swyn
A gollodd y cwmni drwy fynd dros y twyn.

Fe gwrddodd a'r bugail—lanc gwridog ac iach
Dangosodd y ffordd iddi lanw ei sach ;
A'r cwmni pan ddaethant fethasant yn dêg
Gael gwybod gan Radi ble ca'dd hi'r gwlân teg.

Y defaid yn fore gaent godi ar frys ;
Os ceid un yn hepian fe gollai ei grys :
Pan fyddai rhyw *sprilyn* yn agos i ffôs
Cai gynnig ar groesi gael crap ar ei go's.

Yn nhraed ei hosanau pob lodes a gwraig
Ddringadai yn 'hwimwth bob clogwyn a chraig ;
Y trumiau oedd noethion heb frigyn o goed
Fel nad oedd un *dansher* i ddra'n fynd i'r droed.

Pan dorrid rheolau y gwlana gan rai
Hen "wartheg" mawr Llanarth bob amser gai'r bai ;
Er, dichon na fuasent yn agos i'r fan,—
Yr oeddent mor onest a neb ar y lan.

Y perchen pan welai fod *ginio* yn bod,
Ar garlam yn fore i'r hysfa wnai ddod :
Ceryddai bob copa yn uchel ei gri—
Bygythiai yn enbyd y bastwn a'r ci !

Daeth amser ymadael : heb geffyl na char,
Ond pob un a'i phwn yn groes ar ei gwar ;
I gwrddyd a'r cerbyd hebryngodd hwy i'r lan,
Ar lan afon Brefi—yn agos 'run man.

Cael newid dwy safle ar bynnau oedd bryd,
Ac eistedd ar rheini a wnaethent i gyd :
Pob un a sedd esmwyth yn hidio dim grot
Sut gyrrai y *driver*—ar galap neu drot.

Mewn hwyl wedi gosod eu hunain i lawr,
Yn adrodd y gwlana ar ben Mynydd Mawr ;
Ond Radi, yn dawel, drwy gaead ei cheg
A gadwodd gyfrinach y cŵd a'r gwlan têg.

Mae'r Mynydd yn aros a'i ben yn y gwynt
A defaid sy'n britho'i lechweddau fel cynt :
Ond menyw yn gwlana ni welir yn awr
Lle gwelid ugeiniau ar doriad y wawr.

Llwyd Llundain.

8.—DYFFRYN AERON.

Alaw—"*Y Fwyalchen.*"

Yng Nghymru ddihafal ei swynion
Mae harddaf ddyffrynnoedd y byd,
A dolydd anghymar Glan Aeron
Yw'r tecaf a'r tlysaf i gyd ;
Fan yma daw'r gwcw yn gyntaf
I ganu ei dau nodyn llon ;
Fan yma yr oeda hi hwyaf,
Cyn hedeg ymhell dros y don.

Er cefnu ar dangnef hên Walia,
Am ddwndwr anorffwys y dref,
Mae atgof o'r dyffryn yn para,—
Anwylfan fy nghalon yw ef.

Hen Aeron a'i swynol gyfaredd
A'm dena yn ôl i'r hên fro,
Hiraethaf am wrando cynghanedd
Ei thincial ar feini a gro.

Drwy Walia ceir sôn am y Dyffryn
Fel cartref hên gewri a fu ;
Ac yma bereiddied fu'r delyn
Drwy'r oesau yn llonni y llu.
Mae amal awenydd yn huno
Yn dawel dan gysgod ei goed,
Ond adlais eu cathlau'n yr henfro
A erys mor bêr ag erioed.

Gwilym Aeron.

9.—YR HEN GÂTS.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Darfu'r adeg flin annedwydd
Pan oedd clwydi hyd yr hewlydd,
Na cheid pasio un adegau
Ond trwy gymorth y ceiniogau.

Cytgan—
Heol rydd heddiw sydd
Heol rydd heddiw sydd :
Torri'r clwydi megys rhwydi
Wnaeth plant Beca 'slawer dydd.

Pan ym mynd i'r ffair a'r farchnad
Rhaid oedd talu'r Gât yn wastad
Grot y pâr am yr olwynion
A dwy geiniog am bob eidion.

Byddai talu'r Gâts yn beichio
Yr amaethwyr gynt wrth galcho :
Rhaid oedd rhoi'r ceiniogau beunydd
Yn y Gât wrth odrau'r mynydd.

Gwaeddai'r gâtman am ei elw
Gyda'i wyneb weithiau'n welw—
Ac yn derbyn ar adegau
Bwys y dwrn yn lle ceiniogau.

Diolch byth i feibion Beca
Am 'neud ambell Gât yn rhaca ;
Wedi blwyddi maith o ormes
Caed cyfiawnder drwy'r ysgarmes.

Cododd heulwen rhyddid amlwg,
Aeth y clwydi coed o'r golwg
Megys adar ola'r ddunos,
Heb ond y tai bach yn aros.

Dim un Gât yn nyffryn Sawdde,
Dim un Gât yn Llandybie,
Dim un Gât yn poeni'r Cardis,
Na Chwm-Ann na Phentre Dafis.

Gellir erbyn heddiw deithio
I Lanwrda a Llandeilo,
Ac i Lundain ar ein hunion
Heb weld Gât ond Gât y stesion.

Heol rydd heddiw sydd
Heol rydd heddiw sydd :
Torri'r clwydi megys rhwydi
Wnaeth plant Beca 'slawer dydd.

Gwilym Myrddin.

10.—Y DDRAIG GOCH.

Alaw—"*Mwynen Gwynedd.*"

Ddraig Goch fy ngwlad ! mewn cadau fil y'th gaed
Yn moedro'r Sais a'i frâd i fedd drwy waed ;
"Buddugoliaeth !" oedd dy gân :
Hon enynnai ysol dân
Saeth a chledd y Brython glân,
A'i elyn dan ei draed.

Ddraig Uthr fawr, ac Arthur fwy, a'i foes !
Diofn dy gam ymlaen o oes i oes ;
Coch dy waed mal coch dy wedd,
Coch dy hynt drwy drais i hedd,
Coch dy glwyf, a choch dy gledd ;
Ond heddiw'r cledd yw'r Groes.

Fry llam, fy Nraig ! a fflam dy lygad têr
Yn arwain Cymru fyth o wyll at sêr ;
Aed dy blant o bant a bryn,
Mynydd ban, a chwm, a glyn,
Ar dy ôl i'th ryddid gwyn,
A'th iaith, a'th delyn bêr.

Ifano.

11.—BRETHYN CARTRE.

Alaw—"*Hob y Deri Dando.*"

Pwy sy'n cofio 'Newyrth Dafydd—
Patriarch y Felindre,
Nad yw'n cofio'n burion hefyd
Am ei frethyn cartre,
Aeth ei got yn hen heb golli
Dim o'i gra'n,
Roedd hi'n llwyd pan gas ei phannu
Brethyn gwlân y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r bla'n.
Cytgan—
Brethyn gwlân y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r bla'n.

Felly'r elai gynt i garu
Yn ei frethyn cartre,
Ac ar fore ei briodas
Gyda Neli'r Hendre ;
I ffair G'lamai a chymanfa
'N ddi-wahan—
'Run hen wisg a'r un hen grefydd,
Brethyn gwlân y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r bla'n.
Cytgan—Brethyn gwlân, etc.

Gwelodd 'Newyrth lawer ffasiwn,
Do yn enw'r annwl,
Ond effeithiodd 'run o honynt
Ddim ar ddillad nwncwl,
Ni freuddwydiodd am wisg newydd
Mwy na'r frân,
'Run hen dorrad yn dragywydd,
Brethyn gwlân y defaid mân,
Dyma fel y gwisgai'r oes o'r bla'n.
Cytgan—Brethyn gwlân, etc.

Gwisg o lian main a derw
Sydd am dano heno,
Ac mae'r awel yn yr ywen
Dan yr hon mae'n huno ;
Ond mae defaid eto'n pori
'Ngwlad y gân,
Ac mae arnynt wlân yn tyfu,
Brethyn gwlân y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r bla'n.
Cytgan—Brethyn gwlan, etc.

W. Crwys Williams.

12.—DEWI SANT.

Alaw—"*Y Bardd yn ei Awen.*"

Tra bo awen gan y bardd,
A golau haul ar Walia hardd,
A thelyn fwyn a'i thant,
Megys seiniau swynol gân
Y gwanwyn mwyn gan adar mân
Daw sôn am Ddewi Sant.
Dyma ŵyl hen Walia Wen
I ganu mewn gwladgarol fri :
Dewi bur a gwyd ei ben
Yn nawdd i'n huno ni.

Oesau'n ôl fel gwas y nef
Yn wawl dibaid i'w wlad bu ef,
Ac annwyl gan ei phlant :
Nawdd diffael ym mhlaid y ffydd,
Mewn hwyl y deil tra haul y dydd
Y sôn am Ddewi Sant.
Dyma ŵyl hen Walia Wen, etc.

Dewr a fu a phur ei foes,
Yn urdd i'w wlad trwy dduwiol oes ;
Ac wedi oesau gant
Ennyn bri o fewn ein bron,
A swynion clau i'n lleisiau llon,
Wna'r sôn am enw'r Sant.
Dyma ŵyl hen Walia wen, etc.

Penfro.

13.—COFFA T. MELINDDWR DAVIES.

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

O cenwch delynau drwm alar fy ngwlad !
O cenwch ein hiraeth am Gymro difrad
A ganodd o galon ei gariad bêr gan
Oedd olud i'r awen a chynnud i'w thân !

Fe dawodd ei delyn, ond atsain ei chân
Yn hafnau'r mynyddoedd a'r bryniau achlân ;
Mae Marlais a Chothi ac Annell ar dant,
Yn cofio Melinddwr, y salmydd a'r sant.

Di Gristion addfwynaf, gymydog mor bur,
Fyth siriol dy ysbryd, er cymaint dy gur ;
Ti giliaist o'n golwg i ganu gwell cân
Nefolfyd a hawddfyd y dorf ddiwahân.

Anellydd.

Gwyl Ddewi, 1913.

1.—CYMRU FU.

Alaw—"*Toriad y Dydd.*"

Mor galed ydyw cofio yr anhawsterau lu
A'r stormydd geirwon fu'n pruddhau ffurfafen Cymru Fu,
Mae cofio'r hen Dderwyddon a'u mawl dan gangau llon
Yn dwyn tangnefedd a mwynhad fel bore gwyn i'r fron :
'Roedd camre y duwiolion yn wynion yn y gwawl
A chamre y gelynion hy, yn pallu'n sŵn y mawl ;
'Roedd dydd a nos ar brydiau yn croesi bryn a phant :
Yr oedd ochenaid drom a chân yng Nghymru Dewi Sant.

Mae cofio'r tywysogion ar laniad glân y wawr
Yn paratoi i'r frwydr erch yn clwyfo'm serch yn awr ;
Galarus yw atgofion fy annwyl, annwyl Wlad
Pan syrthiai plant yr Ynys Wen i fedd dan gledd y gad ;
Atgofion gamre Glyndwr yn ysgwyd seiliau'r bryn,
A chofiwn gledd Llewelyn Fawr fel gwawr yn fflamio'r glyn ;
Daw llawer cân a deigryn o'r hen atgofion lu ;
Ac wedi'r nos daw Alaw dlos wrth gofio Cymru Fu.

Cymylau Trais a Gorthrwm oedd drymion ar y wlad,
A'i chreigiau'n wylo yn ei chlyw uwchben y briw a'r brad ;
Yr eos bêr alarai'n ofidus ar ei hynt :
A'r hen Eryri'n plygu fel helygen yn y gwynt ;
Ond hedai Gobaith beunydd fel c'lomen yn y wawr
I uchelderau dua'r nos o orsedd Arthur Fawr ;
Fe anwyd Cymru Newydd ar fedd yr hirnos ddu,
Ac at y Cymru orau awr, er mwyn hen Gymru Fu.

Alfa.

2.—CYMRU Y PLANT.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

Ar noson aeafol ger tanllwyth o dân
A rhuad y corwynt yn rhuthro'n ei fla'n,
Rhyw hogyn dibrofiad, talentog o hy
Sy'n dala pen rheswm a'i hybarch dadcu.
A'i hybarch dadcu, etc.

Pa Gymru yw'r gorau i'r plant 'wedwch chwi ?
Ai Cymru yr hogyn, ai Cymru'i dadcu ?
Mae profiad yr hendad yn dweud "Cymru Sy',"
Trae haera yr hogyn mai gwell "Cymru Fu."

'Roedd Cymru y tadau yn Eden ddifai,
Nid Aifft o gaethiwed fel heddi'n ddiau :
Mae hanes yn dysgu a hynny'n bendant
Mae Cymru y tadau oedd Cymru y Plant.

Paid siarad am ormes, ni wyddost beth yw,
Mor wyn yn dy fywyd, mor hyfryd yw byw !
Nid ysgol ond mynydd ges i dan fy nhroed
A mynd i fugeilia cyn mod i'n wyth oed.

Heb bapur, heb lyfyr, heb wybod A.B.,
Ar goll yn unigedd y mynydd bum i
Heb ddim o fewn cyrraedd i leddfu fy nghŵyn
Ond unawd yr hedydd a phicnic yr ŵyn.

Mor flasus dy damed—nid sych fara haidd,
Mor felys dy lymed—nid ffioled o faidd :
Mae pluf yn dy wely mewn palas o dŷ,—
Ni wyddost dy eni, nawr creda di fi.

Cei orffwys a chysgu heb rifo yr awr,
Nid codi i ddyrnu cyn toriad y wawr :
Rhyw ddysgu a chwarae a chanu o hyd
Yw trindod pwysicaf dy fywyd i gyd.

Nid cwyno'n anfoddog a wna dy dadcu ;
Ond balch ein calonnau wyf fi a d'famgu
Fod "Hen Wlad Fy Nhadau" yn newid y tant—
A tharo cyweirnod i Gymru y plant.

J.D.J.

3.—HEN BORTHMYN LLANCRWYS.

Alawon—" *Pen Rhaw.*" " *Mae Robin yn Swil.*"

1.
Mae Cymru a'i helynt yn annwyl i mi
Ei chymoedd feithrinodd enwogion o fri,
Ymhlith y rhai hynny sy heddiw dan gwys
Myn hanes gofnodi hen borthmyn Llancrwys.

Cytgan—
Da, dewrion a dwys,
Da, dewrion a dwys,
Difyrrus eu hanes
Oedd porthmyn Llancrwys.

2.
Mae " Ffair Ffaldybrenin " yn ango ers tro,
A darfod yn gyflym mae ffeiriau y fro :
'D'oes sôn am " Ffordd Lloegr " yn awr na'r
" trwhê "—
Y trên a'u diddimodd, daeth Sais yn eu lle.

3.
Am " Fechgyn Llangurig " does nemor o sôn ;
Bron darfod bob copa mae " Porthmyn Sir
Fôn."
Fe gollodd Tregaron ei jocys yn llwyr,
Pa beth yw y rheswm, oes undyn a ŵyr ?

4.
Wrth 'neud eu cyflogau 'roedd gweision y plwy
Yn hawlio, i Loeger, ryw siwrne neu ddwy ;
Y crydd gyda'r teiliwr a'r gweydd fyddai'n câl
Siwrneion bob hydre' i chwyddo eu tâl.

5.
Cyfnewid mae ffasiwn yn gyflym o hyd,
Cyfnewid, ran hynny, mae pobol y byd :
Y rhaff rawn, a'r pincas sy'n awr heb un iws,
A'r fforch at bedoli, yr hoelion a'r ciws.

6.
Cychwynnai y porthmyn yn writgoch ac iach
I ddilyn y ffeiriau, tua dechrau Mis Bach :
Ac yna trwy'r flwyddyn, ar hyd ac ar led,
Yn prynu a gwerthu tra " mynd " ar y trêd.

7.
O ffeiriau Sir Benfro da mawrion i gyd,
A'u cyrnau gan mwyaf yn llathed o hyd :
O Hwlffordd, Treletert a Narberth, rhai braf
O Crymych, Maenclochog a Thy-Gwyn-ar-Daf.

8.
O Lanarth, o Lambed, Ffair-rhos a Thalsarn,
O Ledrod, Llandalis, y delent yn garn :
O Ffeiriau Llanbyther, Penuwch a Chross Inn,
Da duon, da gleision, ac ambell un gwyn.

9.
O ffeiriau Caerfyrddin da perton ac ir,
Ac ambell f'ewynog o waelod y Sir ;
Doi da Castell-Newydd a Chynwil i'r lan
At dda Dyffryn Tywi i gyd i'r un man.

10.
'Nôl cael at ei gilydd y nifer yn llawn
A'r gofiaid bedoli pob ewin yn iawn :
Cychwynai y fintai yn hwylus eu bron,
Y *guide* yn bryderus, a'r haliers yn llon.

11.
'Roedd nifer o haliers dan ofal y *guide*,
A hwn oedd yn trefnu y cyfan, gan wneud
Yr oll o'r taliadau am gaeau a tholl
A chyfrif amdanynt yn gyflawn heb goll.

12.
Yr haliers rai troion yn borthmyn yr aent
Os benthyg peth arian yn rhywle a gaent :
A llawer hen geffyl rôl ffaelu'n ei waith
Ddoi'n ebol lled hoyw cyn terfyn y daith.

13.
Drwy dref Llanymddyfri, dros Lwydlo a'r Wy :
Ymadael â Chymru i ddychwel byth mwy,
Mae ffyrdd yn ymledu a'r borfa'n brashau
Yr haliers yn llaesu, a'r da yn tewhâu.

14.
Un tro pan oedd Rhysyn yn halier i'w dad,
Fe syrthiodd yn sydyn dros ymyl y bâd
I ganol yr afon, ond glaniodd yn iach
Wrth gynffon yr eidon yng nghafan-Twm-Bach.

15.
Cychwynai y porthmyn cyn toriad y wawr
I'r ffeiriau yn Lloegr, ar ben y " Coach Mawr,"
Drwy Henffordd a Ledbury a " thiroedd y
gwair "
I Gent neu Northampton, 'nôl fel byddai'r ffair.

16.
Os " digon o mofyn," fe werthid yn rhwydd
Da mawrion yng nghynta' ac yna rhai blwydd :
'Rôl talu amdanynt a'u danfon yn iawn,
'Roedd pob un yn llawen a'i logell yn llawn.

17.
I blith yr aneirod ym merw y ffair
Aeth ambell i fustach—un dwy-flwydd neu dair,
A dwedid fod weithiau gyfnewid yn bod—
'Roedd llawer ym methu adnabod y nôd.

18.
Am cynta i fynd gartre yn awr fyddai'r gamp
Yn hwyr ac yn fore ar ddwytroed—yn dramp.
Ceid tê a pheth licer, ond peidiwch a sôn
Cyfrwyau a ffrwyni, neu ddillad o'r pôn.

19.
Tra'n croesi yr afon i'r gweydd rhoddwyd sen
Am ddychwel i Gymru a dimai dros ben :
" I bob gwlad ei harian," medd William, bid
siwr,
Gan daflu y ddimai yn ôl dros y dŵr.

20.
Wrth ddod at "Dŷ Hetti" yn fore rhyw ddydd,
Fe'i clywsent hi'n gweiddi yn rhuddgoch a
rhydd :
" Does gen i ddim diod, darfyddodd yn llwyr,
A phryd ca'i beth yto, y mowredd a ŵyr."

21.
" O wel," ebe William, " yr oedd hi'n go wan
Pan o' ni'n mynd heibo y ffor' hyn i'r lan,
Mi wedes i wrth Dafydd mab Teimoth y go
Ma darfod y neithe'i os na cheise'i dro."

22.
Ar ddiwedd y ffeiriau pan ddaethent ynghyd
I wneud y cyfrifon dan gronglwyd fawr glyd :
Ceid adrodd helyntion am oriau'n ddi-ball—
Pob un ar ei orau i drechu y llall.

23.
Ar derfyn yr hanes dymunol im' yw
Fod coffa amdanynt hyd heddi' yn fyw :
A boed y rhinweddau oedd eiddo hwynt-hwy
Fyw eto ym mywyd trigolion y plwy'.

'Roedd Tomos Phillips Ochorbryn
Yn ŵr go dyn am fargen :
A Jones 'Ro-wen wrth brynu da
Enillodd lawer sofren :
Am ddaoedd mân a phrisoedd is—
Ben Lewis Cwmcelynen.

Rhown enw Davies Troedybryn
I lawr fan hyn fel porthmon,
A William Davies gynt o'r Llwyn
A dau o'i fwynaidd feibion :
Bu Price Werndigaid gyda hwy
Yn tramwy gwlad y Saeson.

Nathaniel Edwards—enwog un,
A'i fechgyn yn eu helfen :
MISTIR Morgans o Blaentwrch
A'i *guide* o Bwlch-y-gilwen :
A Gŵr y Siop gylymai'n dyn
Y gadwyn am y goden.

'Roedd Dafydd Harries Blaen-y-Clawdd
Yn borthmon hawdd i " daro " ;
A John Walters Esgercrwys
Fu'n borthmon dwys yn delo :
A Joseph Jones, un annwyl oedd—
Gan luoedd gaiff ei gofio.

Caed Lewis Lewis Pantycrug
Yn ddeler diddig ddigon :
Gŵr Brynmawr ddanfonodd lu
O dda i wlad y Saeson ;
'Roedd Godre Rhos yn brynwr ta'r
A gŵr Brynarau-Gleision.

Bu Daniel Davies o Dynant
Do droeon gant yn Lloeger.
Daeth Howell Jones a gŵr Ddolwen
Yn berchen arian lawer.
A Tomos Blaen-cwm-pedol fu
Am flwyddi lu yn ddeler.

Pedolwyr gwych am isel bris
Oedd Isaac Rees a'i fechgyn ;
Tra Dafi'r go a Jaci'r Ram
Ni hidient fawr am undyn :
Ond nid oedd gwell rhai yn y trêd
Na gofiaid Ffaldybrenin.

Ni chlywir mwy am " borthmon clust "
Na chwaith am *list to order*,
Na chlinc y ciws ar draed y da
F'ai mynd bob ha' i Loeger.
Ni welir mwy y ffrwst a'r brys
Am hoelion Rhys y Nailer.

Pa le mae " Barnet " fawr ei bri
A Naseby a West Haddin,
Neu Harley Bush a Harley Row
Ac Ingaston a Maldin ?
Y ffeiriau aeth, eu meth a'u moes,
Darfyddodd oes y porthmyn.

Ap Lewis.

4.—COFFA BEN MORUS [Myfyr Teifi].

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Mae'r awen yn glwyfus dan gangau yr yw,
Fel gweddw golomen yn trydar i'n clyw
Am gefnu mor gynnar athrylith llawn gwaith,
Fe blyga ei haden a'u gruddiau yn llaith.

Mae'r Teifi'n arafu dan gysgod y pren,
Gan holi'n hiraethus,—" pa le y mae Ben,
Y Myfyr dwys-bruddaidd fu'n rhodio fy nglan,
Fel meudwy mewn ymchwil rhwng beddau y llan ? "

Rhwng cloriau y " Cymru " mae llên yn ei du,
Yn wylo yn athrist am awdur mor gu ;
Hynafiaeth ar ddwy-ffon a'i gwallt fel y gwlân
Gymysga ei dagrau â hiraeth y gân.

Mae llais cyfeillgarwch yn crynu yn llwyr,
Fel deilen yr eithnen yn Llanfair fin hwyr ;
Er tynned y cwlwm rhwng Ben â myfi,
Greuloned fu angau'n ei ddatod mor hy.

Ben Morus ddirodres, wyleiddied â'r wawr,
Er nychtod ei babell, mewn meddwl oedd gawr ;
Ehedodd o'i lesgedd i nwyfiant di-loes,—
I sŵn cynghaneddion arwrgerdd y Groes.

E. O. James.

5.—DIWYDIANNAU CYMRU FU.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Rhowch wrandawiad hoff gyfeillion
Am wau sanau—hen hanesion ;
Pan oedd llawer dynes fedrus
Wrth ei gweill yn byw'n gysurus.

Rhoddwn gân i'r sanau gwlân
Rhoddwn gân i'r sanau gwlân :
Llu o famau wrth wau sanau
Gadwent deulu, tŷ a thân.

Rhaid yn gyntaf dynnu'r brychau
Cyn i'r gwlân gael mynd trwy'r cribau :
Cribau cyffion mawr at chwalu
Dwy grib lai oedd at y rholi.

At y sidell ar ôl rholi
Llond y wyntell a'u cordeddu :
Dirwyn dwy dwysg eto'n bellen,
Dyna'r 'dafedd wedi'i orffen.

Dechrau'r brigyn oedd gelfyddyd—
Newid lliw neu ar naill ergyd :
Taclu'r wain a bach y bellen
Yn rhwym wrth linyn ffedog wlanen.

Llawer gwrhyd am y cynta
Weuwyd ambell hirnos gaea ;
Gweill yn clician gweiniau'n tano,
Dyna wau i sôn am dano !

Codi'r iraid ac ysgwrian,
Rhoddi lest ymhob rhyw hosan :
Tan yr astell *bress* a phwysau,
Dyna wedyn wneid â'r sanau.

Ffwrdd i'r ffair i gwrdd y porthmyn,
[Deg i bymtheg pâr mewn macyn]
Yn y bore, mynd yn barau
Dyna'r ffordd i werthu sanau.

Sanau cwta—dim ond coesau
Oedd gan rai, heb draed na brigau ;
Sanau ribs o wlân du'r ddafad
Drechai'r oll oedd ar y farchnad.

" Ma' nhw'n arw, Marged Watcyn ! "
'Neitha mên ddywedai'r porthmyn :
" Mechgyn bach i," meddai honno
" Se chi'n gweld nhw cyn 'u deifo ! "

O Landdewi aent yn gyson,
Ffair a marchnad, i Dregaron :
Gweill sy'n rhydu 's llawer blynedd
Nid eu rhwd yn eu anrhydedd.

Llwyd Llundain.

Y Cadfridog
Syr JAMES HILLS-JOHNES, v.c., g.c.b., ll.d.
dolau-cothi
[*Tudalen 84*]

Arglwyddes ELIZABETH HILLS-JOHNES
dolau-cothi
[*Tudalen 64*]

6.—TWM DYRNWR.

Alaw—"*Cân Eisteddfod.*"

Hen garitor derbyniol iawn
Yn Nyffryn Aeron gynt,
Oedd Twm y Dyrnwr, ffraeth ei ddawn,
Pan ddelai ar ei hynt :
Sguboriau'r fro—o un i'r llall
Yr elai ar ei daith,
A thybiai'r plant nad oedd yn gall—
Ond gwyddai Twm ei waith.

Cytgan—
Daeth dyfais feiddgar hyd y fro,
Distawodd sŵn ei ffust ;
Ond eco'r dyrnu yn ei dro
O hyd ddaw ar fy nghlust.

Yr Yswain Huws, yn Llanbed gynt
Gynhygiai swllt i Twm
Os gwelai rywun ar ei hynt
A'i wyneb yn fwy llwm :
Ac er fod Twm a'i drwyn yn gam
A digon garw'i foch,
Cadd salwach gŵr, ni wn paham
Yn Siaci Craigymoch !

Cytgan—
Mae buddugoliaeth gyfrwys Twm
Ar wron Castell-du,
Yn gwneud y cof a'i lwyth yn drwm
O gofion " Cymru Fu ".

Caed llawer ffrwgwd boeth ei gra'n
Rhwng Twm a Dai y gwâs,
Pan yn Nhrecefel neu Bontf'an
Y daliai'r gwalch di-ras
Yn dwyn ei ŷd cyn dod i'r sâch
I ffido'r gaseg goch—
A rhaid oedd gwylio'r forwyn fach
Rhag mynd a pheth i'r moch.

Cytgan—
Daeth dyfais feiddgar hyd y fro—
Distawodd sŵn ei ffust,
Ond eco'r dyrnu yn ei dro
O hyd ddaw ar fy nghlust.

Mwy, nid yw'r hen bererin hwn,—
Roedd iddo'i ddydd a'i waith—
Ei oriau celyd dan ei bwn,
A'i oriau digon llaith :
Ei weinidogaeth, pan mewn hwyl,
Oedd tynnu sylw'r plant,
A'i gapel ef ar Sul a gŵyl
Oedd 'Sgubor fawr Tynant.

Cytgan—
Daeth dyfais feiddgar hyd y fro—
Distawodd sŵn ei ffust,
Ond eco'r dyrnu yn ei dro
O hyd ddaw ar fy nghlust.

Beilibedw. D. H. James.

7.—DEFFROAD GWYL DDEWI.

Alaw—"*Breuddwyd y Bardd.*"

Mae'r fwyalch yn llonni y dyffryn ;
Mae'r hedydd yn deffro y bryn ;
Mae blodau mis Mawrth yn y gerddi,
A llygaid y dydd yn y glyn.
Daeth bywyd o newydd i'r bryniau a'r bronnydd ;
Diflannu mae'r gaeaf a'i nos a'i drist-had :
Caniadau Gwyl Ddewi ddihuna y wlad.

Mae gwanwyn yn torri ar Gymru ;
Mae dydd ei anrhydedd yn dod ;
Blaguro mae blodau'i gogoniant ;
Dadebru mae meusydd ei chlod.
Mil gwell na'r gorffennol a fydd ei dyfodol ;
Mae'r gwanwyn yn gwenu uwch gaeaf ei brâd ;
Breuddwydion Gwyl Ddewi ddihunant y wlad.

Mae nodau ei beirdd a'i chantorion
Yn mynd yn felysach o hyd ;
Mae meibion hen wlad y mynyddoedd
Yn lledu ei pharch drwy y byd.
Chwaraeant delynau dihafal eu tadau,
A chanant ganiadau fu gynt mewn mawrhâd,
Gobeithion Gwyl Ddewi ddihunant y wlad.

Os gaeaf ddaw eto ar Gymru,
Gan dannu ei niwl ar y tir ;
Fe ddeffry alawon ein tadau
Oleuni y gwanwyn cyn hir :
Ac hen wlad y Cymry a gwyd i'r goleuni,
A chyfyd drachefn wladgarwyr tra mâd ;
Atgofion Gwyl Ddewi ddihuna y wlad.

Sarnicol.

8.—CHWARAEON MEBYD.

Alaw—"*Nos Galan.*"

Mawr yw bendith chware "Bando":
A chael cwrs o "Gŵn a Chadno":
Beth sy'n well pan ddelo'r gaea
Na chael *bout* o "Belto Eira"?

Pwy a'i "Farbles" ddaw i f'erbyn?
Deg y tro—fe gaiff ei dderbyn:
"Herc a cham a naid" a "Chwinten"
"Spy" a "Chamalei" 'n y fargen!

"Pêl mewn Cap" a "Rounders" bywiog,
"Dog a Chat" a "Thop" bach troiog:
"Dip dap do" a "Phwyso Menyn,"
"Skipo'n" gloi a "Crecstons" wedyn.

Cofiwn chwarae'n llon a llawen,
Chwarae'n deg heb wg na chynnen,
Cadw'n tymer pan y collwn
A dal ati nes enillwn:

H.T.J.

9.—FFOLANTAU.

Alaw Gwerin—"*Mae nhw'n d'wedyd.*"

Hen arferiad gynt yng Nghymru
Pan oedd nhaid a nain yn caru,
Roddai hwyl i'r merched mwynion
Pan ynghanol eu gorchwylion,

'Roedd Ffolantau hanner Chwefror,
Rheiny'n costi swllt neu ragor;
Wedi'u gwneud o flodau tlysion—
Cwlwm cariad neu lun calon.

Os yn ddwfwn gariad Ifan
Elai dolen fawr o ruban:
Rhaid cael hefyd bennill teidi
I ddarlunio'i serch at Mari.

"Tra bo mor a thra bo mynydd,
Ffyddlon fyddaf i ti beunydd,"
Fel 'na rai o'r hen benillion
Roddid gynt gan hoff gariadon.

Gyrrai'r feinwen at ei chariad
Folant brydferth mewn atebiad:
Ond os gwrthodedig rhywun,
"Molant salw" yrrai wedyn.

Cawsai llawer un ei gymar
Ym mis Chwefror, fel yr adar:
Ond aeth heibio oes y Folant
Gyda'i phennill mwyn a'i rhamant.

Bellach telephone a gwifrau
Neu Marconi am negesau,
I gariadon lunio'u stori
Picture post card nawr amdani.

Glantegwen.

10.—Y GWELD.

Alaw Gwerin—"*Wrth fynd efo Deio i Dywyn.*"

Gynt mewn teulu pan ddoi baban
Tyrrai'r gwragedd yno'n fuan;
"Gweld" yw'r enw oedd i'r arfer
Oedd hen gwstwm gwell na llawer.

Cyn Lloyd George, lliniarwr angen,
Nac i un wraig gael "deg-ar-hugain,"
Medrai gwragedd mwyn Hen Gymru
Doi aelwydydd rhag tylodi.

Dyma'u ffordd:—Medd Sian wrth Mali,
"Ddewch chi i weld i'r Fron yfory?"
Fory ddaw, a dyna gychwyn,
Un a'i basged, llall a'i phecyn.

Torth ffwrn fach, a phwys o fenyn,
Swmp o de, a siwgwr wedyn,
Gludai Sian, tra dygai Mali
Ffroc a brat a chap i'r babi.

Tua'r Fron am ddyddiau meithion
Cyrchai'r gwragedd gyda'u rhoddion;
A danfonai'r scweier fyny
Dincwd tal o flawd i'r teulu.

Drared llawn o fân ddilladau
Fyddai ffrwyth yr ymweliadau:
A chyflawnach fyddai'r ymborth,—
Fel yr angen felly'r cymorth.

Granellian.

11.—COFIO DEWI.

Alaw Gwerin—"*Y Gwcw Fach.*"

Os yw'r gaea ar y bryniau, Ffal di ral di rw,
dw ri rai tai to,
Os yw'r rhew am doi y llynnau. Ffal, etc.
Gwelais ddoe friallen felen,
Am Wyl Ddewi'n holi'r heulwen:
Bellach canwn ninnau'n llawen. Ffal, etc.

Daw, fe ddaw y gwanwyn tirion. Ffal, etc.
Mae'n ysbio allan weithion. Ffal, etc.
Teifl ei flodau hyd y perthi,
A llawenydd drwy y llwyni—
Dyna'n union fel gwnaeth Dewi. Ffal, etc.

Pan fo'r anial yn blodeuo. Ffal, etc.
Fe ddaw'r gog i ganu eto. Ffal, etc.
Mwyn yw cofio'r teg flodeuyn
Dyfodd gynt yng Nglyn-y-Rhosyn—
Adar Cymru oll a'i hedwyn. Ffal, etc.

Yfwn ddŵr o'r ffynnon loyw. Ffal, etc.
Dyna'r sut i bara'n hoyw. Ffal, etc.
"Yd y Wlad" fo'n ymborth inni,
"Gwisgo'n blaen"—yn null y Cymry—
Dyna'n union fel gwnaeth Dewi. Ffal, etc.

Yfwn ddysg y pum Cyfandir. Ffal, etc.
Eto, byddwn Gymry pybyr. Ffal, etc.
Byth na wadwn Iaith y Brython,
Na defodau gwyliau'i galon—
Dyna'r fel gwnaeth Dewi'n union. Ffal, etc.

Calon bur eill ganu orau. Ffal, etc.
Canu'r hwyr, a chanu'r bore. Ffal, etc.
Dyna'n union fel gwnaeth Dewi—
A thrwy'r oesoedd heb ddistewi
Tardd ei gân yn lân eleni. Ffal, etc.

John T. Job.

12.—Y BALEDWR PEN FFAIR.

Alaw—"*Cader Idris.*"

Rwy'n cofio ers dyddiau am hen gymeriadau
Yn canu baledau mewn marchnad neu ffair:
Hwy ganent mor ddoniol, mewn gair mor gartrefol
Nes twyllo o'r bobol eu harian a'u haur;
Hwy gawsent eu gwala o dablen a bara
Am ganu mor 'smala, mor iachus a rhydd:
Ond hyn sydd yn ddoniol, anfynych fel rheol
Adwaenent yr heol ar ddiwedd y dydd.

'Rwyn cofio yn burion am Tomos Bryntirion
Ar fanc Capel Cynon a Llanarth fe'i cair
Yn cwafro a sponco nes denu y dynion—
Efe ydoedd eilun a ffefryn y ffair:
Fe gawsai wrandawiad heb undyn yn siarad,
Wrth ganu galarnad yr hen "Fochyn Du."
Ysgydwai ei ddwylo'i gymwyso y miwsig
Nes gwneud y menywod a'u llygaid yn lli.

Fel hyn elai Tomos ymhell ac yn agos
Yn ffyddlon i ffeiriau i ddangos ei ddawn
Ac nid oedd un pryder, doi adre bob amser
Yn fachgen a'i fola a'i logell yn llawn:
Ni chlywais neb wedyn yn rhoi "Merch y Felin"
Mewn miwsig mor felus, a wnaethai efe,—
Mae Twm wedi marw, a pharch mawr i'w enw,
Ac ar fanc y ffair y Cheap Jack sy'n ei le.

Isfoel.

Gwyl Ddewi, 1914.

1.—OGOF ARTHUR.

Alaw—"*Gruffydd ab Cynan.*"

O gadfaes Camlan, gyda'i lu,
Aeth Arthur Fawr yn llwyd ei wedd
I'w ogof yn y Mynydd Du,
Ac yno hunant hûn o hedd:
Mae cledd pob marchog wrth ei glun
Yn loyw erbyn newydd gad
Pan gân y gloch, fe ddaw pob un
Yn ôl i ymladd dros ei wlad.

Ac eisoes glân arwyddion sydd
O gilio'r nos, a nesu'r wawr ;
A daw i'r ogof lef " Mae'n Ddydd !
Deffrowch farchogion Arthur Fawr " !
Daw Arthur eto'n ôl i'w wlad,
I ymladd brwydrau Cymru wen ;
A Chymru, wedi dydd y gad,
A fydd ar wledydd byd yn ben.

GWILI.

2.—COFFA LLWYD LLUNDEN.

Alaw—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

LLWYD Llunden, ŵr golau, o graffder a phwyll,
Ag wyneb agored, a chalon ddi dwyll ;
Mor sydyn y'th dorrwyd o blith y rhai byw,—
Y'th gludwyd i orwedd i Erw oer Duw.

Dy ffrindiau sy'n aros yn drist yn y glyn
Lle croesaist yr Afon, a'u hwyneb yn syn ;
" Mor gynnar," medd rhywun, " mor ddwfwn y clwy,"—
" A'r bwlch," medd un arall, " nis llenwir byth mwy ! "

Hen fynydd Dihewyd wnai'r pellter yn faith,
A'r rhiwiau i'w dringo wnai'n drymach y daith ;
Ond hwyliog yr ymgom, pan ddeuem ynghyd,
Wrth drin cwrs y Senedd a throion y byd.

Pan welais di olaf, ar hafaidd brynhawn,
Dy law ac un frawddeg yn unig a gawn ;
'Roedd Mai dan ei goron, ond *ti*'n wyw dy wedd,—
Yr haf yn dychwelyd, ond *ti*'n mynd i'r bedd !

Hebryngem di'n araf i fyny y rhiw,—
Gartheli, Macpela dy deulu di yw,—
Ac yno a'th henfro yn agor ei chôl,
Y rhoisom di'n dyner i'w mhynwes yn ôl.

GRANELLIAN.

3.—COFFA D. H. JAMES.

Alaw—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

O FARW ein Dafydd troes Myrddin yn brudd,
Bu farw a nwyfiant yn gwrido ei rudd :
Ond melys yw atgo yr amser a fu
Ariannodd ei Lusern yr afon oedd ddu.

Mor llednais a'r awel a chwery'n y llwyn,
A phured a'r gwlithyn ar lesni y twyn :
Etifedd yr Awen mewn heulwen a glaw,
Ac aeddfed oedd cynnyrch y pin yn ei law.

Hiraethus am Lenor fydd Llwni y rhawg
Felysed y rhuddwin ddiferai o'i gawg ;
Murmuron ein nentydd oedd islais ei gerdd
Ac Amaeth a welwa'n yr hendre oedd werdd.

Ymrannau ei fywyd a gaeodd y nos
'Rôl plannu drwy'i einioes liliau a rhos :
At lannau y Duar y tro i gael hedd,
A glannau y Duar gadd fod iddo'n fedd.

GWARNANT.

4.—MARI REES O'R BRONFE.

Alaw—" *Deio Bach.*"

YR oedd Mari Rees o'r Bronfre
Gan y plant yn annwyl iawn ;
Pan y delai ar ei siwrne
Hi gai ganddynt roesaw llawn ;
Ar yr aelwyd, hoff oedd ganddi
Adrodd hanes yr holl fro,
Pranciau'r " tylwyth teg " a'r " toili,"
Gaent ei sylw yn eu tro.

Pan yr elai Mari allan
Yn feunyddiol ar ei hynt,
Syth y cerddai fel polisman
Gyda'i thrwyn yn snuffo'r gwynt ;
Trwch o farf o amryw liwiau—
Coch a melyn, gwyn a du—
Ei wynepryd llon addurnai—
Ffond o'i thrwsio ydoedd hi.

Ar ei chefn yn sionc y cariai
Shop genteel o nwyddau mân,
Megis pinnau a nodwyddau
Edau lin ac edau wlân,
Braid ac incil cul a llydan,
Bach-a-llygaid yn ddiri',
Pwynt i steiso'r merched gwiwlan,
Cadis coch a chadis du.

Hobble skirt o sach giwano
A gyrhaeddai hyd ei gar ;
Clogyn coch a du wnai wisgo
Haf a gaeaf am ei gwar.

Yn dra chywrain am ei choesau
Dwy shôl fach a rwymai hi ;
Yn y gwynt eu frensh chwareuai
Pan yr ai o dŷ i dŷ.

Ei dwy glocsen wnai'n hatgofio
O hen fadau'r oesau fu :
Gyda gwellt a gwair eu leino
Wnai pan ddelai'r gaeaf du ;
Dros ei chap o flodau gwisgai
Jim-crow wen, henafol fawr,
A phen barlad glas osodai
Arni'n drimming teg ei wawr.

'Nôl a blaen hi wisgai'n daclus
Ffedog wlanen gartref, fraith,
I'w diddosi yn gysurus,
Cyn cychwynai ar ei thaith ;
Felly yn ei ffasiwn wychaf
Ai i'r capel ar y Sul,
Ac fe rodiai gyda'r blaenaf
Ar serth riwiau'r llwybr cul.

Ar ychydig bu yn ffyddlon,
Yna hunodd gyda'r llu ;
Ond mae'n aros hoff atgofion
Am ei hardd rinweddau hi :
Ni ddywedodd air enllibus,
Am ei brodyr tra'n y byd :
Drwy ei bywyd llwm, anghenus
Gwel'd y gorau wnai o hyd.

E. CEREDIG JONES.

5.—YR EISTEDDFOD.

Alaw—" *Llwyn Onn.*"

ANWYLAF Eisteddfod ! mor hen ! ond mor heini,
Tydi fu yn siglo crud Barddas ein gwlad.
I'w llên, ac i'w lloniant parhei di i weini
Yn Fanon gan fonedd a gwreng ga fawrhad.
Ein breichiau a blethwn am d'wddw, Eisteddfod.
Yn nawdd drwy'r blynyddau i'n hiaith sefaist ti—
Os hen, mae dy swynion yn ieuanc, Eisteddfod !
Hynafiaeth dy ddefion yw addurn dy fri.

Athrofa ein gwerin mewn dawn a daioni,
A'r ffynnon lle'r yfant eu cariad at ddysg,
Dy wenau sy'n denu ein gwŷr i ragori,—
Olympia llenyddiaeth wyt ti yn ein mysg.
Y gain gelf i ganu ; a'r ddawn i farddoni
Wna'n enwog feib Cymru, a'u bri a fawrhawn.
Yn d'wydd fwyn Eisteddfod 'does neb i'w adnabod
Fel ti, am hyfforddi meib Cymru 'mhob dawn.

O fewn cylch dy " Feini " yn dirion cawn Dori
Yn frwd â Rhyddfrydwr yn siarad yn llon.
Rhyw ben Annibynnwr ymdodda'n Fedyddiwr
A'r Sectau a'u dwndwr ddistawant fan hon.
Ar fanlawr Eisteddfod ni cheir neb i'w nabod
Ond *Cymro* sy'n caru daioni ei wlad
Ail uno gelynion mewn hedd, a'u mwyneiddio
Yw clod ein Heisteddfod, ei rhin a'i mawrhad.

HAWEN.

6.—GORSEDD Y BEIRDD.

Alaw—" *Y Fuyalchen.*"

MAE utgyrn y seindorf yn effro,
A'u hadsain yn llamu o'r graig ;
Mae awyr y bore mewn cyffro,
Ar lluoedd yn dilyn y Ddraig ;
Mae'r awen Gymreig yn ei hafiaith,
A'i phlant yn eu gwisgoedd mor heirdd,—
Llysg ysbryd Gwladgarwch yn oddaith
O amgylch Hen Orsedd y Beirdd.

Dadweinia'r Archdderwydd urddasol
Y Cleddyf, yn ddifrif ei wedd :
I'w ateb o'r dyrfa gylchynnol,
Daw taran ar daran o " HEDD " !
Englynion ehedant fel gwreichion
O'r Maen—lle dyrch bardd ar ôl bardd :
Ceir yno areithiau rhy hirion,—
Ond ofer i Dyfed wahardd.

O ! Delyn, hen Delyn y Cymry !
Mae bysedd a'i deffry i gân ;
Alawon fy ngwlad sy'n cynhyrfu
O'i thannau mewn nodau o dân ;
Ysbrydion henafiaid awengar,
Breswylient ein Bryniau hen, heirdd,—
Cant ddisgyn o'r Nefoedd i'r ddaear,
Am wyliau yng Ngorsedd y Beirdd.

PEDROG.

7.—BWGANOD CYMRU FU.

Alaw—"*Ar hyd y Nos.*"

O MOR ddifyr yr Hen Gymry, Ar hyd y Nos
Mewn tywyllwch fel y fagddu : Ar hyd y Nos
Caent eu blino yn druenus
Gan ryw ysbryd ofergoelus,—
Roedd eu hofnau yn arswydus. Ar hyd y Nos.

Aent yng ngherbyd y "toiluod" : Ar hyd y Nos
Credent ym modolaeth "gwrachod," Ar hyd y Nos
"Jack y Lantarn" mewn siglenau :
"Ladi Wen" yn gwylio'r llwybrau ;
Gyda "Canwyll Gorff" yn olau. Ar hyd y Nos.

Casa' peth oedd gweld bwciod : Ar hyd y Nos
Yn ymsymud yn y cysgod : Ar hyd y Nos
Yn "Pengarn" oedd bwci enwog,—
Rhithiai weithiau fel sgyfarnog,
Yna megis mochyn bywiog. Ar hyd y Nos.

Pentan efail hoff Blaencelyn, Ar hyd y Nos
Am storiau i beri dychryn : Ar hyd y Nos
Hen storiau am "ysbrydion,"
Dybiwn gydiai yn fy nghynffon
Wrth fynd adre—O, mor wirion ! Ar hyd y Nos.

SIORONWY.

8.—FERCHED CYMRU.

Alaw—"*Cwynfan Prydain.*"

FERCHED Cymru, gwyn fu'ch cerdded
Hyd lanerchau Cymru lân
Lle'r oedd golau'r Nef yn myned
Dilyn wnai eich "diolch" gân ;
Cerddai'r atsain hyd y dolydd
Codech Gymru at ei gwaith,
Cerddai'r adsain hyd y dolydd
Croesai'r moli fron a mynydd
Gyda "diolch" hyd y daith.
Gwybod oech yn eich calonnau
Pan fai'r "gwynt yn troi i'r dehau"
Clywai Cymru eich caniadau
Fel dyfnderau moroedd maith.

Ferched Cymru, aeth eich llwybrau
At y cysegr hen yn llu ;
Tyfodd blodau'n ôl eich camre,
Blodau harddaf "Cymru Fu" :
Ferched Cymru, chwi fu'n dilyn
Sŵn "diwygiad" yn y tir :
'Roedd eich canu hen yn esgyn
A bendithion nef yn disgyn
Fel y bore-wlith yn ir :
Gwelech gamrau cynnar Iesu
Galwech Gymru i'w goroni
Nes bai'r miloedd eto'n tyrru
Ac yn "llefain am y gwir."

Ferched Cymru, dewch a'r nodau
Eto'n ôl i "Gymru Sydd" :
Cenwch am y rhyfeddodau
Wnaeth ein gwerin gynt yn rhydd ;
Ysbryd "Nansi Jones" sy'n eiriol
"Pegi o'r Bala" gyda hi ;
"Pegi o'r Banwen," "Kati'r Ysgol"
"Grace o Watford"—eiriol, eiriol
Am eich deffro'n arfog lu :
Mae goleuni ar y bryniau,
Addewidion am roi'u gorau :
Ferched Cymru a'ch gweddiau
Dewch a'r nef i'n Cymru ni.

PENAR.

9.—GLYNDWR AR BLUMLUMON.

Alaw—"*Ymdaith Gwyr Harlech.*"

CLYWCH y waedd o enau'r gelyn,
Clywch acenion trwm y delyn,
Corn y Gâd sy'n taro dychryn
Hyd y bryniau 'mhell ;
Cryna'r mynydd gan daranau,
Llosga'r mellt trwy'r tew gymylau,
Nid oes ball ar awch calonnau
Am y frwydyr hell :
Estron sydd yn herio
Baner goch y Cymro
Nid yw'r Ddraig ar fryn na chraig
I gael ei gwaradwyddo.
Awn i'r gad ym mraich y daran,
A Glyndŵr, ein tŵr, a'n tarian,
Dros iawnderau Cymru gyfan,
A thros Gymru well.

Gwelsom olau ar Eryri
Golau'r seren ddydd yn codi,
Ac ni pheidia'n calon losgi
Nes cael Cymru'n rhydd :
Pwy na ffy rhag llanciau Arfon ?
Meib y dewr o Fôn i Meirion
Law yn llaw â Cheredigion
Deithiant at y dydd
Llosgi mae'r coelcerthi,
Fflamio mae y perthi
Treiddia'r floedd, âg eco goedd,
O Deifi draw i Dywi.
Ac ar Fannau pell Brycheiniog
Wele'n fflam y Ddraig adeiniog
A than Glyndŵr Ben Coronog
Wele Gymru Fydd.

DYFNALLT.

10.—YMDAITH CYMRU.

Alaw—"*Gwnewch bopeth yn Gymraeg.*"

MAE Cymru'n ymdaith rhagddi
A'i cherddi yn y gwynt ;
A'i Baner wedi'i chodi
I'r nefoedd ar ei hynt.
Mae rhengau'i phlant yn dringo
A'u llygaid ar y wawr,
A thros ei bryniau eto
Mae'r golau'n dod i lawr.
Cytgan—
Mae Cymru fach yn rhydd,
Mae Cymru fach yn rhydd,
I dramwy yn ei chryfder
Ymlaen at decach dydd.

Mae'n tywys plant y Werin
Hyd lwybrau Dysg a Dawn ;
A gwell na deddf y Brenin
Yw gweld ei themlau'n llawn.
Daeth dydd i weinio'r cleddyf,
Daeth dydd i adfer Hedd ;—
Mae Cymru dan y Llawryf,
A'r gelyn yn ei fedd.
Cytgan—Mae Cymru fach, etc.

Mae blodau addewidion
Yn tyfu'n ôl ei thraed,
Lle bu ei Thywysogion
Yn ymladd hyd at waed.
A rhwng y blodau hynny
Mae Cymry'n taro'r tant,
Gan ymdaith ar i fyny
Yn Ysbryd Dewi Sant.
Cytgan—Mae Cymru fach, etc.

CENECH.

11.—GEIRIAU GWERIN SIR ABERTEIFI.

Alaw—"*Pen Rhaw.*"

MAE *pwer* o sôn am foys Llancrwys,
A'u caru dwys i *r'feddi,*
Does neb yn *cyrraedd pen y gatsh*
Nes *gwneuthur matsh* a ladi :
Yn enw grymodd, mi ro'i hâr
I'r bechgyn *scwâr* a *lysti.*

Pan glywa sôn am Jane Tŷ Twt
Y mae y crwt *bron rhefro* ;
A *dim ond cluste i gyd* o'dd Sam
Wrth rondo'i fam yn *rhico,*
Fe'i troiodd dros y drws *mewn clic,*
Nôl *tynnu stric fach drosto.*

A'th Jane *i spengan mab i fam*—
Gwrandawai Sam fel *lleba* :
Mor *ddilyfelieth* oedd wrth tân
Nes gneud i Shân *fangnheitha,*
A rhaid fu rhannu'r *sciw* i'r ddau
Am oriau *ar 'anera.*

Ond fe ddouth *trwshal* ar y ddau
Nôl oriau o *hun o ludu* ;
A dyma Jane yn taflu her
Swchsyber cyn *darfodi* :
Ond eto roedd, ar air ei fam
Gan Sam *ryw afel arni.*

Daeth *clamp* o *grwt* i mhoilid 'i gar,
I Shirgar ar 'i *shercel,*
A *thipyn o Jones* o dan 'i ên
I geisio Jane i'w gesel.
Sgego a *drelo* byth ma'i fam
A Sam yn ddigon *Shengel.*

FRED JONES.

12.—COFIO DEWI SANT.

Dewch a changau'r dderwen
Dewch a blodau'r pant ;
Dewch a'r hen genhinen—
Cofiwn Dewi Sant.

Deilia llwyni'r dyffryn,
Glasa min y nant ;
Cân y pêr aderyn
Goffa Dewi Sant.

Tyrd a'r nabl a'r delyn
Taro wlatgar dant ;
Rhaid cael cân ac englyn
Byth i Dewi Sant.

Tra bo maig ac adail
I'r Cymroaidd chwant,
Rhaid yw plethu gwiail
Bywyd Dewi Sant.

Tra bo cawl a chloron
Yn fwyd iach i blant,
A thra medd a moron
Byw fydd Dewi Sant.

Byw—a byw yn loyw
Ar Gymreigaidd fant,
Byw i beidio marw
Byth fydd Dewi Sant.

Gwisgwn ei flodeuyn ;
'Delyn ! taro'th dant ;
Glasa bythol wanwyn
Goffa Dewi Sant. ALFA.

13.—Y DELYN GYMREIG.

Alaw—"*Y Deryn Pur.*"

Hen delyn leddf y Cymro mwyn,
Mae swyn yn llond ei seiniau ;
Rhyw hen gantores ydyw hi,
Ac arni fri'r canrifau.
Marwnadau'r prudda'r oesau,
Serch ganiadau mwyn galonnau
Fu yn symud dros ei thannau
A barddoniaeth lleddfa'r oesau
Sydd ar bob tant ond myn ei thant
Gael sôn am Sant y tadau.

Fe fu'r hen fardd yn mynd i'r plas
Wrth flas y gwin a'i delyn ;
A thrwy y miwsig deuai hedd
Wrth gofio bedd y gelyn.
Aeth i'r frwydyr pan oedd ei frodyr
Yn fuddugwyr ac yn arwyr ;
Sŵn ei delyn oedd yn eu dilyn
Ddydd yr ornest a thrais y gelyn ;
Pan oedd y gân a brad dan draed,
A'r gwaed ar dannau'r delyn.

Daeth golau'r wawr ar Gymru fach,
Ac iach yw sain y delyn ;
Mae enw annwyl Dewi Sant
Yn swyno tant ac Emyn,
Does galargan na sŵn cwynfan
Ar y tannau heddiw'n unman,
Ysbryd Dewi sydd yn caru
Llonni'r delyn fu'n galaru ;
A sŵn y gân sy'n dod o bell
Ddwg ddyddiau gwell i Gymru.
MAFONWY.

14.—FY IAITH.

Alaw—"*Hafod y Wraig Lawen.*"

Iaith yr aelwyd, iaith y tir
Yw'r Gymraeg i'r Cymro gwir.
Iaith y delyn, iaith y dôn
Yw o Fynwy fawr i Fôn.
Caraf hi er gwg a sen,
Hi wna Walia'n Walia wen.
Iaith fy ngenau fyth fydd hon
"Tra bo calon dan fy mron".
Hen yw miwsig Gwlad y Gân,
Hen yw iaith y Cymro glân ;
Ieuanc yw ei hacen hi
Heddiw ar fy ngwefus i.

Swyna su ei hudol sain
Blentyn pur hen Gymru gain.
Iaith ei fam yw iaith y byd
Glywodd gyntaf yn ei grud ;
A Chymraeg a leinw lef
Adar nefoedd iddo ef.
Hi yw iaith y môr a'r maes
I bob Cymro a Chymraes.
Hen yw miwsig Gwlad y Gân, etc.



SAWEL ACADEMI
[*Tudalen 99*]

YSGOLDY FFRWDFAL
[*Tudalen 25*]



YSGOLDY NEUADDLWYD
[*Tudalen 27*]



YSGOLDY LLANYCRWYS
(NATURE STUDY)

Iaith fy henwlad ydyw hi,
Melys fel y mêl i mi.
Y mae golud yn ei swyn,
Bywyd yn ei miwsig mwyn.
Aros gaiff ei geiriau gwin
Hyd fy marw ar fy min.
Byw fo heniaith Dewi Sant
Tra bo Cymru'n Gymru'r Plant.
Hen yw miwsig Gwlad y Gân, etc.

T. H. Parry-Williams.

15.—Y GANNWYLL FRWYN.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

A raid, â gwawdlyd wên, Gannwyll frwyn, etc.
Dy weld, oleuad hen? Gannwyll frwyn.
Er gwanned fu'th dywynnu
Na foed i aelwyd Cymru
O wagedd dy ddirmygu, Gannwyll frwyn, etc.

Tydi lafrwynen wan, Gannwyll frwyn, etc.
I'th oes fu'n gwneud dy ran, Gannwyll frwyn.
Canhwyllharn pur anghelfydd
A'th ddaliai yn wyliedydd
Trwy wyll hyd wawr y cyfddydd, Gannwyll frwyn, etc.

Mae cof am danat ti, Gannwyll frwyn, etc.
Liw nos, i'n meddwl ni, Gannwyll frwyn.
Yn dywedyd am hen dadau
Yn edrych am belydrau
Was'naethai i'w nosweithiau, Gannwyll frwyn, etc.

Mae'r oes yn mynd ymlaen, Gannwyll frwyn, etc.
A llewych gwell ar daen, Gannwyll frwyn.
Goleuni nwy a thrydan
Enhudda'th olau weithian—
Diwylliant a'th dry allan,
Nos da! gannwyll, gannwyll frwyn.

Er nad ŷm ni ond gwan, Gannwyll frwyn, etc.
Dymunem wneud ein rhan, Gannwyll frwyn.
Ac er nad ŷm yn heuliau,
Ymorol a wnawn ninnau,
Was'naethu'n hoes fel tithau,
Nos da! gannwyll, gannwyll frwyn.

Penfro.

Gwyl Ddewi, 1915.

1.—EIN RHYDDID.

Alaw—"*Difyrrwch Arglwyddes Owen.*"

Mae edyn yr awel yn llwythog a phrudd,
A dagrau ein teyrnas yn drwch ar ei grudd,
A'i chalon glwyfedig yn drist yn ei chôl
A gobaith yn gwibio ymlaen ac yn ôl:
Yn welw ei gruddiau heb gwmpas na llyw
Ei llygaid hiraethus ddyrchafa at Dduw—
Fel plentyn y tonnau yn gweiddi am lan,
O Dduw Hollalluog, bydd iddi yn rhan.

Yr utgyrn a seinia yn groyw a chlir
Fod dewrder y glewion yn fyw yn ein tir;
Er terfysg y gwledydd dibynna ar Dduw
I gadw anrhydedd ei rhyddid yn fyw—
Gwell marw i ryddid na byw mewn sarhad,
Ar feddau y dewrion chwŷf baner ein gwlad:
Mae ysbryd Llewelyn, Glyndŵr, Dewi Sant
Yn fyw ym mynwesau di-ildio y plant.

Tant Rhyddid enillwyd i'n telyn â gwaed,
Pa elyn a feiddia ei roddi dan draed,
Anwylach a drutach yw heddiw i ni
Na gwaed ein calonnau a ffrydia yn lli;
Ei gadw a fynnwn rhag gormes y cledd,
O'i blaid yr ymladdwn hyd angau a'r bedd,
Anrhydedd ein rhyddid drosglwyddwn i'n plant
Medd ysbryd Llewelyn, Glyndŵr, Dewi Sant.

Isfryn.

2.—CYFARCH ARWR DOLAU COTHI.

Alaw—"*Siaredwch yn Gymraeg.*"

Erglywch y gân arglwyddi,
A gwerin Cymru i gyd,
I arwr Dolau Cothi
A Phrydain ar ei hyd,—
Cadfridog Sir Gaerfyrddin,
Deilynga fawl-gân bur,
Diffynnydd bro a brenin
A gwron dros y gwir.

Dyrchafwn glod a chân
I'n gwiw Gadfridog glân,
Anwylddyn gwreng a bonedd,
A ennyn wlatgar dân.

Ei ddewrder, bu'n ysbrydiaeth
Ar lawer cadfaes blin,
A heddiw ei wroniaeth,
Gwisg gledd ar lawer glun ;
Ei ysbryd sy'n y rhyfel
Yn Ffrainc a Fflandrys draw,
Lle deil yr ymdrech ffyrnig
A'r Ellmyn coch eu llaw.

Dyrchafwn glod a chân, etc.

Mae Croes Victoria'n llefain
Oddiar ei galon rwydd,
Bod ysbryd pedwar ugain
Mor gryf a 'r ugain mlwydd
A heriodd waethaf angau
Dros faner Prydain Fawr,
Gynt yng Ngwrthryfel India,
A'r cledd ryw enbyd awr.

Dyrchafwn glod a chân, etc.

Ei gyfaill gwych a orffwys
Ar ôl ei ddiwrnod gwaith,
Ond gwylia ym Mharadwys
Ein hagwedd ar ein taith ;
Lord Roberts a dyletswydd
Yn wastad oedd ynglŷn,
A dyna, hefyd, hanes,
Syr James Hills-Johnes ei hun.

Dyrchafwn glod a chân, etc.

Dilynwn ôl eu camre,
Wroniaid nef a llawr ;
Gwladgarwch a'i daranau
Sy'n galw o'r trumau'n awr
Am ddewrion dros y famwlad,
Dros ryddid, gwir, a hedd,
Yn erbyn gormes anfad
Yr Ellmyn dig, dihedd.
Dyrchafwn glod a chân, etc.

Ar gyfnos ein Cadfridog
A'i fwyn Arglwyddes wen,
Boed gwenau heddwch serchog,
A bendith orau'r nen.
Rhinweddau bywyd swynol
Ein hoff Arglwyddes sydd
Yn hardd gydweddu a'n gwrol
Gadfridog, fab y dydd.
Dyrchafwn glod a chân, etc.

Anellydd.

3.—EIN GWEDDI.

Alaw—"*Yr Hen Gant.*"

Tosturia wrthym dyner Dad,
Ac adfer heddwch ym mhob bro,
Yn raslawn edrych ar ein gwlad,
A'n dig elynion gyr ar ffo.

O ! atal rwysg pob creulon drais
Sy'n magu dig, sy'n ymlid hedd,
Ac atal ynfyd hunan gais
I lwyddiant gwlad sy'n cloddio bedd.

O Dduw ! cysegra gyfoeth dyn
Ei bleser ef, ei ddysg a'i ddawn,
I'th fwyn wasanaeth Di dy hun,
Gan fyw i wneud yr hyn sydd iawn.

Dwg ni O Dduw i'th garu Di,
A chael yn hyn ein prif fwynhad,
A'n hedd a'n cysur redo'n lli
O fawl yn ôl i Ti, ein Tad !

Hawen.

4.—GWRONIAID EIN GWLAD.

Alaw—"*Ymadawiad y Brenin.*"

Llifa Tywi ar ei hynt,
Heibio i lawer castell hen,
Gan syganu megis cynt ;
Ac o'r muriau llwyd diwên
Clywir eto leisiau lu
Hen wroniaid Cymru fu,
Trwy ein Sir, enwog Sir,
Treiddia adsain glir,
"Flodau Myrddin, dewch i'r gâd
Dros eich brenin, dros eich gwlad."

Crud i ddewrion roddaist ti,
Swynol Sir y Dywi lwys,
Cefaist ganddynt fythol fri ;
Ac er huno dan eu crwys
Deil eu hud ar fryn a phant
Fyth i ysbrydoli'th blant.
Trwy ein Sir, enwog Sir
Treiddia'r adsain glir,
"Flodau Myrddin, dewch i'r gâd
Dros eich brenin, dros eich gwlad."

Rhys ap Tomos, ddewraf un
Pictwn, arwr llawer cad,
Nott, a'i gleddyf wrth ei glun,—
Dewrion fu yn dŵr i'w gwlad.
Y mae'r utgorn wrth eu min,
Ac yn galw'r dewr i'r drin,
Trwy ein Sir, enwog Sir
Treiddia'r adsain glir,
"Flodau Myrddin, dewch i'r gâd
Dros eich brenin, dros eich gwlad."

J. Lewis.

5.—YR YSBIWR.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

Adwaenoch chwi'r sbiwr sy'n cerdded y fro ?
Bu yma fel cyfaill yn aros am dro :
Dan fantell gwladgarwr tramwyodd y wlad
A'i galon yn mygu gan ddichell a brad.
Gochelwn y *spy*, gochelwn y *spy*,
Mae'n anodd ei nabod, mae'n fachgen mor *sly*.

Bu'n chwilio dirgelion y glannau a'r môr,
Yn anrheg i'r gelyn cyflwynodd ystôr :
Ond druan o'r bradwr, er dued ei fron,
Bydd gallu Britania'n rheoli y don.
Gochelwn y *spy*, etc.

Os atom daw'r 'sbiwr a'i eiriau yn deg,
Rhown esgid i'w grwper a dwrn yn ei geg,
Danfonwn ef adref ymhell dros y don,
Ond mynnwn ei nodi a chlopa ein ffon.
Gochelwn y *spy*, etc.

Bedwyn.

6.—Y WLADGARWCH NEWYDD.

Alaw—"*Gyda'r Wawr.*"

Gwladgarol ysbryd gerdda
Trwy y wlad, etc.
Calonnau'r dewrion dania
Dros eu gwlad.
Yn brwydro mae ein meibion
Gynddaredd eu gelynion :
Dros urddas gwlad a'i defion
Y collant waed eu calon,
Dros eu gwlad, etc.

Gwladgarwch pur ymwada
Dros ei wlad, etc.
Ei berlau drutaf rodda
Dros ei wlad.
Y bywyd ieuanc prydferth,
A'r gorau yn ei anterth
Dan serch y fron yn goelcerth
Ar allor hunan aberth
Dros ei wlad, etc.

Gwladgarwch bura'n moesau
Trwy y wlad, etc.
Mae'n magu heirdd rinweddau
Trwy y wlad.
I'r bwthyn dwg ddigonedd,
O'r palas gyr oferedd,
Cyfiawnder fyn i'r orsedd—
Daw dilyw o dangnefedd—
Dros ein gwlad, etc.

Carolan.

7.—YR ALWAD.

Alaw—"Dydd Gwyl Dewi."

Clywch lais ein Teyrn :—" I'r Gad ! I'r Gad !
Yn fyddin ddewr a chry,
Yn fur, yn dŵr i noddi'n gwlad
Rhag gelyn creulon hy."
I'r cais ateba'r Cymry'n llu,
Pob llaw ar garn y cledd.
" I gwrdd a'r gelyn awn yn hy
A chloddiwn iddo fedd."
Ein baner chwifiwn ninnau blant,
Yn ysbryd dewr Glyndŵr,
Yn enw'n Duw a Dewi Sant
I fod i'n gwlad yn dŵr.

Ein gwlad a dyn o'r wain ei chledd
Yn nerth a nawdd i'r gwan,
Er rhoi yn ôl ei thir a'i hedd
I Belgium yn y man.
Yn enw Iawnder cryf yr awn
Yn erbyn creulon drais,
I gadw'r Rhyddid a fwynhawn
Ymladdwn yn barhaus.
Ein baner chwifiwn, etc.

Yn enw Cred ym moes ein Crist,
Yn enw hawliau dyn—
Yn erbyn Gorthrwm draws yn dyst
Yr awn i'r gad bob un.
Hyn geidw'n gwlad yn Brydain Fawr—
Yn fawr ei nerth a'i bri,
O Dduw ! ein gweddi clyw yn awr
A chadw, cadw hi.
Ein baner chwifiwn, etc.

Hawen.

8.—CÂN CODIAD GWYR.

Alaw Gwerin—" Yr Eira."

Fel gynt yn nyddiau Dewi,
Mae rhyfel blin eleni,
Yn difa'r bobloedd megis tân,
A meibion glân hen Gymru.

Mae ysbryd ein Llewelyn
Yn galw ar ein bechgyn
I ddod a'u cleddyf gloew llym
I dorri grym y gelyn.

Ei ffordd ei hun pe cawsai
Pob gwlad a ddarostyngai ;
A phe cai ddod i'r ynys hon,
Ei phobl o'r bron lofruddiai.

Chwi fechgyn dewr pob treflan
Yn gryno deuwch allan,
I ddysgu gwers i'r Teuton cas
Ac yntau'i was, y Sultan.

Fel gwnaed â'r hen Napoleon,
Pan gollodd hwnnw'i goron
Alltudier Wilhelm brwnt am byth,
A'i griw o blith Cristnogion.

Ar ynys anghyfanedd
Boed iddynt gael eu diwedd
Heb gâr na chyfaill yn y byd,
Na golud nac anrhydedd.

Ac yno cânt fyfyrio,
Ar erchyll waith eu dwylo,
A phan fo'u cyrff ym mhridd y glyn
Bydd Rhyddid yn blodeuo.

Dewch fechgyn yn ddi-ddychryn
I gadw i bant y gelyn ;
A ninnau blant hen Walia Wen—
Rhown hoelen yn ei goffin.

E. Ceredig Jones.

9.—EIN TEYRNGARWCH.

Alaw—" Rhyfelgyrch Cadben Morgan."

Creulon farch rhyfel heddiw ddaeth yn rhydd,
Ewrop gyfan yn crynu sydd,
Lliwiwyd ei garnau, cochion ynt gan waed,
Bwthyn ac eglwys sydd dan draed :
Chwilio am gyfle mae i groesi'r don,
Carai ddamsang yr ynys hon.
Cyn caiff Gwalia fynd o dan ei draed
Cochion fydd ei garnau gan ein gwaed.

Hogwn y cleddyf : Walia byddwn bur,
Rhwystrwn y gelyn ddifwyno'n tir ;
O fedd Gogerddan dyma'r wys a ddaw—
" Gymru i'r frwydr a'th gledd yn dy law.
Cofia dy hanes, dy filwyr a dy saint
Ymladd heddiw ydyw dy fraint."
Cyn caiff gelyn ein mathru dan ei draed
Rhaid fydd iddo gerdded trwy ein gwaed.

Horeb.

Y LLAN A'R FFALD
[*Tudalen 97*]

FFYNNON FORGAN
[*Tudalen 88 a 90*]



CAPEL FFALDYBRENIN

Y RHOD NYDDU
[*Tudalen 31*]



Y LLAN A'R FFALD
[*Tudalen 97*]

FFYNNON FORGAN
[*Tudalen 88 a 90*]

CAPEL FFALDYBRENIN

Y RHOD NYDDU
[*Tudalen 31*]



Y Parch. MORGAN GRIFFITHS
FICER LLANYCRWYS
(LLYWYDD Y GYNGERDD GYNTAF)
[*Tudalen 107*]

HEN FUGAIL BLAEN-Y-COTHI
[*Tudalen 32*]

MODRYB JEM
[*Tudalen 73*]

WILLIAM DAVIES, Llwynwermod
(UN O HEN BORTHMYN LLANYCRWYS)
[*Tudalen 46*]

10.—BRETHYN LLWYD.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

Fe wisga llanciau'r wlad
Frethyn llwyd,
Fe hoffant yn ddi-wad
Frethyn llwyd,
Does frethyn tebyg iddo,
Mae'n wlân y ddafad drwyddo,
Dewch, fechgyn, dewch i'w wisgo
Bob un,—gwisgwn frethyn llwyd.

Y dillad gorau yw
Brethyn llwyd,
Byth ni heneiddia lliw
Brethyn llwyd,
Ni all y tân ei ruddo,
Na'r gwynt a'r glaw ei lwydo,
Dewch, fechgyn, dewch i'w wisgo
Bob un,—gwisgwn frethyn llwyd.

Mae'n ffasiwn newydd—spon—
Brethyn llwyd,
Fe wisga'r dewr ei fron
Frethyn llwyd,
Ei fonwes sydd yn chwyddo
A gwisg ei Deyrn am dano,
Dewch, fechgyn, dewch i'w wisgo
Bob un,—gwisgwn frethyn llwyd.

AP CEREDIGION.

11.—GWELL ANGAU NA CHYWILYDD.

Alaw—"*I Blas Gogerddan.*"

A'r Ellmyn creulon ar y maes,
A'u gwanc am drechu'r byd ;
A gwledydd Ewrop dan eu sang
Yn goch gan waed i gyd !
Pwy feiddia lechu yn ei gell
Heb ymladd dros ei ryw ?
Mae angau'n well gan fron y dewr
Na chywilydd, er cael byw.

Mae gwaedd yn galw'n glir " I'r Gâd—
I'r gâd dros freiniau'r gwir " ;
Ni chaiff y gelyn tra fo haul,
Roi troed ar gwys o'n tir,
I'r gâd cyflyma'n dewrion oll—
Pob Brython glân a glyw,
A gwell yw marw yn y drin,
Na than gywilydd fyw.

Mae calon y ddynoliaeth fawr
Dros Iawnder yn rhoi llef,
A llwyddo raid i gledd y gwir
Wrth raith gorseddfa'r Nef.
Mae buddugoliaeth wrth y drws,
A'r prawf o hynny yw
Fod marw'n well ar faes y gâd
Na thrwy gywilydd fyw.

RHUDDWAWR.

12.—YN Y FFOS.

Alaw—"*Ar hyd y Nos.*"

CYNNULL mae ein milwyr dewrion
Yn y ffos.
Mewn pryderon a pheryglon
Yn y ffos.
Barrug oer yn gwrlid drostynt,
Hwythau yn y llaid a'r cerrynt,
Tra mae'n troed yn winrew danynt,
Yn y ffos.

Ymladd dros eu gwlad a'i brenin
Yn y ffos.
Mewn enbydrwydd dwfn a gerwin
Yn y ffos
Pan mae'r nen uwchben yn duo,
A'r cyflegrau yn ymruo,
Y maent hwy yn dyfal wylio
Yn y ffos.

Ddydd a nos yn manwl warchae
Yn y ffos.
Eofn, hwy wynebant angau
Yn y ffos.
Dyma arwyr gwerth eu cofio,
Ni a'u haberth fyth yn ango
Nawdd y nef a'u hamddiffyno
Yn y nos.

BARLWYDON.

13.—ANGYLES Y GROES GOCH.

Alaw—"*Dyffryn Clwyd.*"

I dân y Frwydr fawr
Lwys ei gwedd, dlos eu gwawr,
Anturiodd gyda'r milwyr mâd,
A miwsig ar ei min
Yn well na defni'r gwin,
A safodd yn ei rhan dan Faner hardd ei gwlad.

I ymyl llawer ffôs
Drwy y niwl, drwy y nôs ;
Tramwya at y Gwae a'r Cur,
I ganu melys salm
A rhoi ei esmwyth falm
I wella llawer bron fu yn ei gwaed mor hir.

Fel Florence Nightingale
Dedwydd yw, doed a ddêl,
Ni chefna hon ar faes y gâd,
Tra clyw ddolefus gri,
Tra gwel y gwaed yn lli,
Abertha'i hedd yn llon dros Filwyr dewr ei gwlad.

O dân y Frwydr fawr
Iach ei gwedd, gwych ei gwawr,
Caiff ddychwel o'i pheryglon fyrdd.
A'i hanes tlws gaiff fyw
I anfarwoli'i rhyw,
A phan ddaw dyddiau gwell caiff wisgo'r llawryf gwyrdd.

CENECH.

14.—RHES URDDAS LLANYCRWYS.

Alaw—"*Rhyfelgyrch Cadben Morgan.*"

GWISGWCH eich arfau, fechgyn dewr fy ngwlad
Gelwir amdanoch oll i'r gâd :
Brenin yr Almaen haerllug yn ei lid
Goeg orfoledda, heria'r byd :
Gylch ei ddwylaw heddiw yn y gwaed—
Belgium yn gelanedd o'i herwydd gaed.
Dewch yn effro, dewch i gyd yn awr,
Dewch yn fyddin gref a cheir ef i lawr.

Rhwyged tan-belenau yr awyr yn ddwys
Rhua magnelau gwŷr Llancrwys,
Llanwer y ffosydd o ddwfr a llaid
Eto yn wrol ynt ddibaid.
Nerth y fagnel, archoll ddofn y cledd
Dyna'r unig ffordd i ni gael hedd.
Fyddin ddewraf, bydd i'r fro dy fri,
Fyddin orau gwŷr yw ein byddin ni.

Lieutenant Walters gyda'i wrol wŷr
Hyrddiant y gelyn mas o'r tir—
Evan Tanyresgair, Tom Llwyncelynbach,
A Tom Gelly—fechgyn iach,
John Pantyscwarnog, John Pantffynonlas,
Dafydd Rhosybedw a Dafydd Llwynglas,
Atynt eto Rhys o'r Erw-wen—
Dyma'r bechgyn ddaw a'r rhyfel i ben.

Teflwch y Kaiser i waelod y Spree,
Gyrrwch ei lynges dan y lli,
Nac ymataliwch ddewrion filwyr cyn
Cyhoeddi heddwch yn Berlin.
Buddugoliaeth lwyr fo'ch eiddo chwi—
Bronnau yn disgleirio—pawb a'i V.C.
Gwlad sy'n galw, gwlad sy'n dwedyd rhaid
Pwy a ddywed af ? Pwy yw a baid ?

AP LEWIS.

15.—TORRI'R NEWYDD.

Alaw—"*Dyffryn Clwyd.*"

BU farw yn y gad
Unig lanc mam a thad,
A sôn amdano'n hir a wneir :
Ewch at y bwth di-nam,
A dwedwch wrth ei fam,
Ond cofiwch fod yn dyner pan yn dweud y gair.

Fe'i maged, febyn mwyn
Lle'r oedd serch, lle'r oedd swyn,
Ynghanol hedd hen Walia fad :
Ond clybu sŵn y corn
Yn galw gwŷr i'r orn,
A llamodd tuag yno er mwyn Cymru'i wlad.

Fe ruthrodd fel y dur
Tua'r bwlch, Gymro pur,
Ofnadwy oedd y daith bob cam :
A'i orau ganddo wnaed
Nes trengodd yn ei waed,
O ! cofiwch ddwedyd hynny wrth ei hen, hen fam.

GWYLFA.

16.—MILWYR Y GROES.

1814—1878 : 1800—1887.

SAFASANT yn wrol dan faner y Gwir
Heb ofni'r galluoedd gyferbyn.
Codasant yn fore, brwydrasant yn hir,
Nes ydoedd y nef yn ei derbyn.
Eu prydferth nodweddion amlyced a'r creig,
A gofir mewn mil o aneddau,
A chlywir hyfrydlais y bywyd Cymreig
Yn siarad o hyd ar eu beddau.

Mae'r atgof am Tomos trwy'r ardal ar daen,
A'i forthwyl a'i drywel mor heini ;
A'i "Ffedog Feisiwnol" a wisgai o'i flaen
Fel arwydd o'i hawl ar y meini.
Mae olion ei ddwylaw ar lawer hen fur,
A llawer dywediad o'i eiddo
Yn aros yn berlau o aur yn y tir
Na ddichon y fynwent eu cuddio.

Er cymaint o gerrig a chymrwd a roes
Ei ddwylaw o fewn ein magwyrydd,
Hen Gristion oedd Tomos gysegrodd ei oes
I godi'r Jerusalem Newydd ;
Ei orchwyl ganolddydd, a daflai i ffwrdd,
Ni thyciai pwy fyddai'n wahanol ;
A gwelwyd ef ganwaith yn dyfod i'r cwrdd
A'i ffedog yn gylch am ei ganol.

Bu'n ddiacon ffyddlon, a selog ei fryd
Dros gadw "hen ffurfiau" yr "Achos" ;
'Roedd ereill yn symud ymlaen gyda'r byd,
Ond dal at yr hen wnelai Tomos.
Ei briod ac yntau fu'n hyfryd fwynhau
Blynyddoedd eu llafur defnyddiol ;
A melys i ninnau yw'r cof am y ddau
Fu byw yn Gymreig ac yn dduwiol.

GWILYM MYRDDIN.

17.—YR ABERTH.

Alaw—"*Tros y Garreg.*"

FEIBION ieuanc Cymru fad,
Ewch dan arfau dros eich gwlad,
Collwch waed er mwyn cyfiawnder,
Ac ar elor rhoddwch frad.
Geilw'r tadau arnoch chwi,—
"Dros eich rhyddid buom ni
Farw yn ein clwy a'n gwaed
I gael gormes ddu dan draed" ;
Hogwch chwithau eich cleddyfau,
Yn sŵn buddugoliaeth gaed.

Dewrion fechgyn "Cymru Sydd",
Mynnwch droi y nos yn ddydd :
Cofiwch frwydrau ein Llywelyn,—
Ysbryd hwnnw danio'ch ffydd.
Ewch i ymladd fel gwnaeth ef
Dros eich gwlad yn enw'r Nef.
Bydd aberthu i chwi'n glod,
Try mor wŷn a'r newydd ôd
Sy'n cylchynnu copa'r mynydd,
Odfa bri i'ch cwrdd sy'n dod.

Geilw Glyndwr fel o'i fedd,—
"Gadewch gân a miri gwledd,
Brysiwch, rhuthrwch ar y gelyn
Gwnewch ei fron yn gartre'r cledd :
Nid yw ef yn haeddu byw,
Mae *gwareiddiad* dan ei friw
Yn prudd alw, eto'n gry',
Mynnwch goncro'r llofrudd hy',
Gara ing ac ochneidiau
Fel mae'r môr yn caru'r lli."

J. SYMLOG MORGAN.

Gwyl Ddewi, 1916.

1.—ELIZABETH HILLS-JOHNES. (1834—1927).

Er Cof Annwyl a Pharchus am Yr Arglwyddes o Ddolau-Cothi.

Llywyddes Cyngherdd Gwyl Ddewi, 1916.

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Ciliodd goleuni prydferthwch o'n byd,
Ciliodd goleuni graslonrwydd o'i thud,
O fachlud ei haul gwedi hirddydd ei hoes,—
Nid machlud i hwyr, ond i hirddydd diloes.

Fe wyddem o'r blaen am hawddgarwch ei rhyw,
Ni wyddem ei eithaf nes gweled ei byw ;
Ni bu yn ein bro a fucheddodd fel hon,—
Brenhines pob rhinwedd a balchter ein bron.

Grasusau y nef a diwylliant a dawn,
A chalon o gariad yn llosgi yn llawn
At Dduw a'i chyd-ddynion a'i gwnaeth yn ei dydd
Yn eilun ein serch a'n hedmygedd di-ludd.

Bu'n nodded i Gymry, ei heniaith, a'i llên,
Anwylai'n halawon a'n barddas hen, hen ;
Bu'n darian i'r Eglwys, i addysg a moes,
A hael oedd ei rhoddion i dlodion y groes.

Os tywyll yw'r fro heb ei lleufer rhad hi,
A gwreng yn dyrchafu mewn hiraeth eu cri,
Fe erys ei henw'n oleuni o hyd,
A'r coffa am fywyd oedd waddol mor ddrud.

Anellydd.

2.—ARWYDDAIR Y BOY SCOUTS.

Alaw—"*Yn Nyffryn Llangollen.*"

Bydd wrol fy machgen wrth gychwyn y daith,
Gwregysa dy lwynau, ymafael mewn gwaith,
Yn awr mae gorchfygu, tra'r cleddyf yn llym,
Cyn dod o bleserau, a difa dy rym,
Meithrina yn fore arferion y Ffydd,—
Gwna dro er daioni i rywun bob dydd.

Mae natur yn droion caredig i gyd,
Mae'n plygu i weini ar rywrai o hyd.
A welaist di'r afon yn mynd ar y ddôl ?
Mae'n gadael pob cwmwd yn well ar ei hôl.
Dal dithau yn lew ar bob cyfle y sydd,—
Gwna dro er daioni i rywun bob dydd.

Oes rhaid i'r anialwch fod byth fel y mae
A bywyd yn llawn o drueni a gwae ?
Na, cerddodd yr Iesu o amgylch y rhain
A phlannodd berlysiau lle tyfai y drain,
Cerdd dithau yn llwybrau Tywysog y Ffydd—
Gwna dro er daioni i rywun bob dydd.

Nantlais.

3.—YN YR YSBYTY.

Alaw—"*Llwyn Onn.*"

Anesmwyth a gwannaidd ar wely gorweddaf,
A sŵn y magnelau i'w clywed o draw ;
O ! diolch, ynghanol y Rhyfel a'r ddrycin,
I'r dduwies Trugaredd am estyn ei llaw !
Tydi'r Hwn y dysgodd fy mam fi i'w garu—
A'th gariad yn cofio aderyn y to,
Mi wn dy fod heno o'th Nefoedd yn edrych
Ar filwr clwyfedig sy'n alltud o'i fro.

Ynghanol y ddunos, yn ffaelu a chysgu,
Rhyw hiraeth a gyfyd am hen "Fwth fy Nhad."
Os byth y caf wella, O ! gymaint fydd imi
Gael rhodio mewn rhyddid heolydd fy ngwlad,
Ymhell, bell o'r tanio, y distryw a'r griddfan
Mor felys fydd clywed chwerthiniad y plant,
Neu wrando yn ddistaw ar fiwsig yr adar
Yn mwyn gynghaneddu â murmur y nant.

Pwy ŵyr nad ynt heno yn yr hen Gapel bychan
Yn ymbil am gadw eu meibion rhag cam :
Mi wn fod cyfeillion yn meddwl am danaf,—
Gwn nad âf yn ango yng ngweddi fy mam.
Fy hen Gymru annwyl ! os byth caf dy weled,
Fy llygad yn ddisglair, fy nghalon ar dân,
Mi droaf yn ddiddig yn ôl tua'r ffosydd,
Rhag gwarth a gorthrymder, i'th gadw yn lan.

Pte. Idwal Jones.

LLWYD LLUNDEN
[*Tudalen 52*]



D. H. JAMES
[*Tudalen 52*]



LEWIS RODERICK, Cilycwm
[*Tudalen 83*]

CAROLAN
[*Tudalen 77*]

4.—BACHGEN Y TABWRDD.

Alaw Gwerin—"*Gwn Dafydd Ifan.*"

Mae bachgen y tabwrdd yn cychwyn i'r gad,
Tan guro a churo i ddeffro ei wlad :
Ei fysedd yn ysgafn ar wyneb y drwm,
Heb gofio fod calon ei fam fel y plwm.

Mae bachgen y tabwrdd yn gadael ei wlad,
Gan arwain y milwyr i drothwy y gad :
"Ymlaen," ebe'r swyddog, "rat-rat," ebe'r drwm,
A chalon ei fam yn ei bwthyn fel plwm.

Mae bachgen y tabwrdd yn mhoethder y gad,
A'r Cymry yn ymladd yn deilwng o'i gwlad :
Eu gynnau yn clecian rhwng seiniau y drwm,—
Paham y bydd calon ei fam fel y plwm ?

Mae bachgen y tabwrdd ar lawr yn y gad,
Ynghanol gwroniaid di-ildio ei wlad :
Ond er wedi disgyn, mae'i law ar y drwm,—
Hawdd deall fod calon ei fam fel y plwm.

Mae bachgen y tabwrdd yn niwedd y gad
Yn fyw,—ac yn dyfod yn ôl tua'i wlad :
Os collodd ei frodyr fe gadwodd y drwm :
A'i fam erbyn hyn heb ei chalon o blwm.

GWYLFA.

5.—ARWYDDAIR EIN TYWYSOG.

Alaw—"*Y Gadlys.*"

DEFFRÔDD Tywysog Cymru
Yn ysbryd Arthur gynt,
Mae dewrion yn ymdyrru
I'w ddilyn ar ei hynt ;
Heb rodres pan yn crwydro
Iachau y dewr wna llais "EICH DYN,"
A'i arf sy draw ar faes y drin
Yn gwneud i'r gelyn gilio.

Tair pluen nertha galon
Ein gwron yn y gad,
Pereiddiant yr awelon
Fel gleision gennin gwlad ;
Pan gyfyd utgorn rhyfel
Ei uchel floedd ar ffriddoedd Ffrainc,
Fe rydd "EICH DYN" i'r gelyn gainc
Am egni cledd a magnel.

Ysbrydion y gorffennol
A dyrrant am "EICH DYN"
Yn dorf, â bri milwrol
Maes Cressy wrthi 'nglyn :
A thân y dewr Frythoniaid
Gynhesai fynwes Cymru Fu
Gynheua eto'n Nghymru Sy
Dan wên yr hen wroniaid.

BRYNACH.

6.—RHYWLE YN FFRAINC.

Alaw—"*Galar Gwraig y Morwr.*"

YN wylo dŵr heli mae'th fam a dy dad,
Am danat fy machgen sy'n mhell o dy wlad ;
Mae pryder yn difa ein cysur a'n hedd ;
Mae hiraeth yn gorffwys yn drwm ar ein gwedd.
O ! Arglwydd fy Nuw,
O ! cadw fy machgen anwylaf yn fyw !

Yn ymladd yn rhywle yn Ffrainc yr wyt ti,
Dros Iawnder a Rhyddid, gwyn roddion ein Rhi,
"O ! Iesu n'âd gamwaith !" Bendithia yn awr
Ymdrechion ein milwyr, a'n gwlad—Prydain Fawr
Mor felys y gainc
Pan ddychwel ein bechgyn o Rywle yn Ffrainc.

Mae gweddi bob bore, a gweddi bob hwyr,
A gweddi yn amal, yr Arglwydd a'i gŵyr,
Yn cael ei hoffrymu gen i, a dy fam,
Ar Dduw i dy gadw fy mab, yn ddinam.
Mor felys y gainc
Pan ddychwel ein bechgyn o Rywle yn Ffrainc.

Pan fyddost yn gwylio ar waelod y ffos,
'R ym ninnau'n dy wylio trwy gydol y nos ;
Yn gwmni mae gennyt ar adeg mor drist,
Dy fam fach a fine a'th ffrind Iesu Grist.
Mor felus y gainc
Pan ddychwel ein bechgyn o Rywle yn Ffrainc.

CRYMLYN.

7.—SCRAP O BAPUR.

Bu rheol aur ym mro Berlin
Yn rhodio cyn y frwydyr,
Ac " arwydd llaw 'n " hyrwyddo'r llw
Rhag bradwr cydrhwng brodyr ;
Ond tân diwygiad dôdd y tir
I losgi " scrap o bapur ".

Mae Bethman-Hollweg deg ei dôn
Yn sôn yn hyglyw eglur :—
" Ein hangen ni, a'n dwrn ynghau,
Nid moesau'n awr sy'n mesur ;
Nid yw moesoldeb ddim ond *trap*
I achub " scrap o bapur " !

FRED JONES.

8.—GWYLIAU'R FLWYDDYN.

Y PASG a'r Sulgwyn a'r Nadolig
Ydynt Wyliau gosodedig ;
Gall pob Cymro gadw rheini
Heb anghofio Dygwyl Dewi.

Gwyl y sant yw gwyl y Cymro,
Yn ei arwr gall ymffrostio ;
Os aiff rhai o'n gwyliau i golli,
Cofiwn gadw Dygwyl Dewi.

BRYFDIR.

9.—COFFA'N GWLAD.

[Gan yr ARCHDDERWYDD DYFED].

Tôn—" *Abertawe.*"

Tr, Frenin y brenhinoedd,
Addewaist yn Dy ras,
Roi terfyn ar ryfeloedd,
Hyd eithaf daear las ;
Cyflawna'th hen addewid
Fu ar ei thaith cyhyd,
I ddiarfogi'r gofid
Sy'n torri calon byd.

O ! cofia wlad ein tadau
O dan y bedydd tân ;
I'w harwain, dyro'r golau,
A chadw'i gwisg yn lân ;
Yn wyneb ei gelynion,
Mewn cyfyngderau blin,
Rho weddi yn ei chalon,
A moliant ar ei min.

Os cosbi a cheryddon
Ei hanwireddau hi,
Dysg iddi droi ei chalon
Afradlon atat Ti ;
Er mwyn yr hen bwerau,
A'th geidw mewn coffhad,
O ! Dduw y diwygiadau,
Amddiffyn Di ein gwlad.

10.—DEWI SANT.

Alaw—" *Dydd Gwyl Dewi.*"

ER fod ein tir dan fedydd tân
Yn sŵn y fagnel groch,
Ac er fod gwaed ein meibion glân
Hyd lawer maes yn goch ;
Daw Dewi Sant i gadw'i ddydd
Rhwng bryniau Cymru fad
Gan ddweud am oruchafiaeth ffydd
Wrth fyd yn llawn o frad.

Cytgan—
Bydd sôn ar dant am Blant Llan'crwys
'Mhen llawer blwyddyn gron,
Yn gloewi bri Llanddewi ddwys
Wrth ganu'r alaw hon.

Er bod y cleddyf ar ddihun
Mewn dialeddol nwyd,
Ac er bod crefydd Mab y Dyn
Mewn llawer gwlad yn llwyd,
Daw Dewi Sant ar waetha'r drin
Drwy niwl canrifoedd pell,
A'i eiriau'n fiwsig ar ei fin
Wrth sôn am ddyddiau gwell.
Cytgan—Bydd sôn ar dant, etc.

Bu dichell front a thrachwant fall
Yn ymlid Dewi gynt,—
Cenfigen ddu a rhagfarn ddall
Gai'n harwr ar ei hynt ;
Enillodd oruchafiaeth gref
Ar anawsterau gant,
Ac arwain Cymru tua'r nef
Yw hanes Dewi Sant.
Cytgan—Bydd sôn ar dant, etc.

BRYFDIR.

11.—BATALIWN FANTAMS CYMRU.

Y Gainc—" *Ymdaith y Capten Llwyd.*"

ARWYR chwimwth hen Walia !—
Gewri pwt ei Thylwyth Têg !—
Hyd y trensh a'i noddfa
Gwibiwch oll â bron ddi-frêg !—
" Beth yw'r gelyn sy'n y grwn ?—
'Dyw ond bidog ar flaen gwn !—
Ysbryd ydyw ! " llefa'r Hwn—ffiaidd Hwn !
Cytgan—
Ac yna smash
I'w ddig fwstash !
Wedyn crash i lawr â fo ! Tali-ho !
Chwithau yn llu
O Fantams hy
Oll yn canu " Go-co-go ! "

I Ber-lin, er eich byrred,
Fechan fil y fyddin fawr,
Rhuthrwch oll !—er cryfed,
Tynnwch gastell Trais i lawr !
Rhedwch !—taniwch ar eich hynt !
Tân i ormes !—eto'n gynt !
Pawb â'i sbardin i'w gŵd gwynt—gás a gwynt !
Cytgan—Ac yna smash, etc.

Torrwch grib Caisar Ellmyn,
Chwi, geiliogod ymladd taer !
Wele " Ddydd " ! a'i derfyn
Wedi dod i'r bâl a'i gaer !
Trech nâ'i faint yw'ch metel pur :
Rhowch i'w gorpws dân a dur !
Yna Potsdam fyddo'ch mur rhag ei wŷr.
Cytgan—Ac yna smash, etc.

IFANO.

12.—YR AWYRLONG A'R SUDDLONG.

Alawon—"*Ar hyd y Nos,*" "*Mentra Gwen.*"
[*Yn nhafodiaith Dyfed.*]

AR hyd nos beth welai'n dringad
Lan yn yr â'r
Fel caretshus dyn y llouad ?
Lan yn yr â'r.
Wedi ffeulu mentro'r tonne'—
Mynd i hedfan 'na'th y tacle',
Er mwyn lladd plant bach a'u mhame'
Lan yn yr â'r.

Ma'r un drwg yn llywodraethu
Lan yn yr â'r,
Tad y Ceisar a'i holl deulu
Lan yn yr â'r,
Eto peidiwch cymryd ofan
Ma' John Bull yn galler hedfan
Ac yn drech na ciwed Satan
Lan yn yr â'r.

Ma' llonge' Germani
Tan y dŵr, etc.,
Yn watsho'n llonge' ni
Tan y dŵr.
Mae'r Ceisar wedi gorffod
Troi'i longe' i gyd yn bysgod
I fwrw tân o'r gwaelod
A'u torpedos, Tan y dŵr.

Mae'r Ceisar fel rhyw Sant
Tan y dŵr, etc.
Fel Herod am ladd plant,
Tan y dŵr,
Ond wir, ma' Shôn Pen Tarw
Yn tyngu :—" 'Tawn i marw
'Rwy'n penderfynu'i gadw
Fe a'i ragrith Tan y Dŵr."

FRED JONES.

13.—COFFA " CEREDIG."

Alaw—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

MAE telyn yr Aeron a'i thannau yn brudd,
A'r Dyffryn a'i alar yn ffrŵd ar ei rudd,
Wrth gofio'r boneddwr, fu'n gymrawd i'r llu,
A'r Sant, fu yn gloywi'r blynyddodd a fu.

Er cyrraedd uchelion Diwylliant a Dysg,
Gorfoledd ei galon oedd byw yn ein mysg.
A gwynfyd ei awen berorol o hyd
Oedd canu gobeithion yng nghystudd y byd.

Mae'r Deml a gododd yn addurn i'r wlad,
A'i geraint yn arddel ei bri a'i mawrhâd ;
A'i fedd yn ei chysgod yn dweud wrth bob un
Mai'i bregeth bereiddiaf fu'i fywyd ei hun.

O ganol y blodau a garodd mor fawr
Tramwyai ei fendith, mor loyw a'r wawr,
Bydd miwsig ei fywyd am byth ar ein clyw,
A'r atgof yn cadw Ceredig yn fyw.

CENECH.

14.—"MAE'R OLL YN GYSEGREDIG."

Alaw—"*Gyda'r Wawr.*"

Mae'r oll yn gysegredig,
Gymru wen, etc.
I'r ysbryd eneiniedig,
Gymru wen :
Mae difyr gainc y delyn,
Mae awen cân ac englyn,
Mae gweddi sant ac emyn,—
Maent oll o fewn y rhwymyn,
Gymru wen, etc.

Mae'r bechgyn yn y brwydrau,
Gymru wen, etc.
Ac ocheneidiau'r mamau,
Gymru wen :
Yr holl aberthau diddig
Wnair gan wladgarwch eiddig
Dros Ryddid bendigedig,—
" Mae'r oll yn gysegredig,"
Gymru wen, etc.

Mae'r gweinyddesau tirion,
Gymru wen, etc.
Yn gwneuthur gwaith angylion,
Gymru Wen :
Y meddyg a'r clwyfedig,
Gweinidog ordeiniedig,
A'r milwr arfogedig,—
" Mae'r oll yn gysegredig,"
Gymru wen, etc.

PEDROG.

15.—MARW YN NHIR ESTRON.

Alaw—"*Breuddwyd y Bardd.*"

O GYMRU ! paradwys fy nghalon,
'Rwy'n marw ; ni'th welaf byth mwy :
Anturiais i'r maes gyda'th ddewrion,
Tywelltais fy ngwaed gydâ hwy ;
Ffarwel i'th fynyddoedd, a'th dirion ddyffrynnoedd
Ffarwel : 'rwyf yn marw ym mhoethter y gâd—
Ym *Mesopotamia*—ymhell o fy Ngwlad.

Ymleddais yn achos Cyfiawnder,
Ymleddais—a'm cleddyf yn fflam ;
A melys, wrth farw, yw'r pader
A ddysgwyd i mi gan fy mam :
O heded yr awel i'r bwthyn bach tawel
Wrth ochor y Capel—i ddweud wrth fy nhad :
Ym *Mesopotamia* rwy'n marw'n y gâd.

Yn dirwyn yn brysur mae f'oriau
Yng nghanol y griddfan a'r loes ;
Ond ust !—dyna Gymro'n ei boenau
Yn f'ymyl, yn sôn am y GROES :
O ! diolch i'r Meichiau ! mae Bywyd i minnau—
Ffarwel, Wlad fy Nhadau ! 'rwy'n marw mewn ffydd :
O *Fesopotamia* mi godaf rhyw ddydd.

JOHN T. JOB.

16.—ALLOR Y GWERSYLL.

Alaw—"*Dowch i'r Frwydr.*"

DACW'R milwr dewr yn ymdaith
Heibio dagrau mam a thad,
Gedy gylch yr hen allorau
Cana ar y ffordd i'r gâd.
Heddiw'n mhell yng ngwlad yr estron—
Yn y gwersyll gyda'r llu,
Adeilada'i allor yno,—
Cofia Dduw ei aelwyd gu.

Wedi dod i drem y gelyn,
Yn y ffôs ar noson oer ;
Cyfyd yno feini'r allor
Dan belydrau gwelw'r lloer.
Dwyfol dân yr allor heno
Sydd yn llosgi oerni'r nos,
Ac yn difa ofnau'r milwr—
Gwena'r nef ar lawr y ffôs.

Os am weld ei ffordd i'r cadfaes,
Dilyn ei allorau ef ;
Dwed pob maen am weddi ddyfal,
Am yr angel, am y nef.
Ar yr allor hoga'i gleddyf,
Heibio hon daw'r goncwest ddrud,
Nerthoedd anorchfygol gerddant
Gylch allorau Duw o hyd.

CAROLAN.

17.—GOBAITH.

Alaw—"*Gwnewch bopeth yn Gymraeg.*"

MAE arwyr Cymru heddiw
Yng nghanol mwg a thân
Yn ymladd brwydrau gwaedlyd
Dros ryddid Prydain lân ;
A llawer bron drywenir
Gan saeth o bryder blin
Rhag na cheir dyfod adref
Yn iach o faes y drin.
Cytgan—
Ond wele falm o hedd,
Er brad y gwn a'r cledd
" Mae gobaith gŵr o ryfel
'Does obaith neb o'r bedd."

Mae'r fam yng Nghymru heddiw
A'i chalon fel y plwm,
Ei bachgen sy'n y ffosydd
O dan y curlaw trwm ;
" Gwell angeu na chywilydd "
Medd ei gwladgarwch pur,
Nid hawdd, er hyn, rhoi plentyn
I farw ar estron dir.
Cytgan—Ond wele falm, etc.

Mae'r gân yng Nghymru heddiw
'N fwy lleddf nag erioed,
A'r delyn genedlaethol
Yng nghrog ar gangau'r coed :
Mae cariad yn ei glwyfau
A hiraeth ym mhob bron,
Nes delo buddugoliaeth
Ffarwel i'r cywair llon.
Cytgan—Ond wele falm, etc.

CAERON.

18.—CYFLAFAN, ARWRIAETH, DYNGARWCH.

Alaw—"*Yn Nyffryn Clwyd.*"

CYFLAFAN erchyll sydd
Yn ei rhwysg heddiw'n rhydd,—
A'i dwylaw'n goch dilyna gâd ;
I'w halog awchus fin,
Y ffrydiol waed sy' win,
A chaniad yn ei gwledd yw ocheneidiau'n gwlad !

ARWRIAETH flin ei rhan
Heria gur, nodda'r gwan,
A'i hebyrth byw wrth borth y bedd :—
Gwroniaid rhyddid cu
Sy'n archolledig lu
Na sibrwd yno gŵyn,—a'u hysbryd yn eu gwedd !

DYNGARWCH wen ei llaw,
Yn nydd ing, yno ddaw,
Yn ddyfal un, i leddfu loes ;
Hi wena ar y trist
A dwyfol wên y Crist,—
Ymddyga drwy y grym a ddaw i gyd o'r Groes !

BERW.

19.—CARTREFI SIR GAERFYRDDIN.

Alaw—"*Bugeilio'r Gwenith Gwyn.*"

DAN adfail hen flynyddoedd pell
Mae llawer castell heno ;
Mae'r iorwg gwyrdd am furiau'r plas
A'r ffordd yn lâs ddaw ato.
Ond aelwyd gynnes, cartref clyd
Sy o hyd yn NOLAU COTHI,
A'r Cymro dros y trothwy ddaw
A chroesaw i'w sirioli.

Mae llawer ysgol yn ein gwlad
Ac addysg rad i'r werin,
Ac os yw'r gwersi weithiau'n drwm
Nid llwm yw'r plant o chwerthin.
Os llwybrau Cymru sy'n fwy rhwydd
I ennill llwydd a thrysor,
Cofied pob ysgol yn y wlad
Eu tad fu yn LLANDDOWROR.

Os rhaid i fechgyn Cymru fad
Ar faes y gad ymdrechu,
Cânt weithiau'n unigfeydd y ffos
Ganolnos, sibrwd ganu.
Wrth gofio yno Gymru lân
Dan raeadr tân y gelyn,
Y galon fach a ŵyr bryd hyn
Werth emyn PANTYCELYN.

ELFED.

20.—BWCH GAFR CYMRU.

Tôn—" Y Mochyn Du."

Mawr yw'r sôn am Eryr Rhufain
Ac am Lew rhuadwy Prydain,
Beth pe bai ni'n awr yn canu
Clodydd hen Fwch gafr Cymru.
Cytgan—
Chware teg i bob dyn byw,
Chware teg i bob dyn byw,
Nid oes lwc i arfau Cymru
Heb fod Billy wrth y llyw.

Un corn cad sydd gan y Kaisar,
Ond mae deu-gorn gan yr afar,
Ac ar rheiny gyrnau amlwg,
Heb sôn dim am gorn ei wddwg.

Pan utganodd corn y Rhyfel
Porai Bill ar greigiau uchel,
A chan sêl o blaid dynoliaeth
Brefodd dros y greadigaeth.

Melldith ar Newyddiaduron
Na chroniclent ei orchestion,
Lladdodd Billy gyda'i gyrnau
Fwy na'r lleill â'i holl fidogau.

Sôn am ddrylliau mawr y German !
Y mae Billy'n drech na'r cyfan,
Ni raid iddo ddim ond brefu
Ac mae'r fagnel yn tawelu.

Nid yw dyfais y *barbed wire*
Werth dim byd ers misoedd lawer,
Nid oes rhwyd all fachu Billy
Wedi'i eni yn y drysi.

Mae'n awdurdod ar *retreato*,
Ac yn lladd a'i gyrn pan gilio,
Synnai ddim ei weld a'i gyrnau
'N briwio'r Zeppelins yn ddrylliau.

Ac o'r holl ysbiwyr dawnus
Billy yw y mwyaf medrus,
Os yw'n edrych yn ddiniwed
Nid oes fawr nad yw'n ei weled.

O dan esgus chwilio am welltyn
Aiff i ganol llu y gelyn,
Yna gartref i'w Head-quarters
Gyda'r *News* i'r Fusileers.

Rhaid cael utgyrn pres a baner
Pan ddaw Bill yn ôl i Dover,
A rhoi iddo gan law'r Brenin
Y V.C. ar flaen ei gydyn.
Cytgan—Chware teg, etc.

Crwys.

21.—TOMMY ATKINS A'R CENSOR.

Alaw—" Pen Rhaw."

Annwyl Mari, weli fi'n
Dod atat unwaith eto,
Nid yw sŵn y megnyl chwim
Yn gwneud i'm dy anghofio—
Po agosaf yw y tân
Agosach rwy'n dy geisio.

Daeth y " pecyn " gyda'r llith,
Ond wfft i'r dyn anhapus
Dynnodd ddarnau crwn i ffwrdd
O lythyr mor gariadus :
Aed i ——— a rhaid fod
Y *censor* ma's o'i ———.

Annwyl Mari, dyma le !
A dyma de a diod ;
Rhoddwn unpeth am gael pryd
O'ch lluniaeth chwi'n y " Llinod ".
Mae gwell lle a bwyd na hyn
Yn Lloegr gan y ———.

Mari annwyl ! mae y tân
Yn hwtian o fy neutu,
Ond mae'th lythyr cynnes di
Rywfodd'n ei arafu—
Gresyn byth na sychai'r Iôr
Y môr sy rhyngom Mari.

Mari annwyl, carwn fod
Gerllaw y " Llinod " yna ;
Ni roes i erioed fy nghrêd
Ar fwled na rhyfela,
Anodd marw rhywle'n Ffrainc
A nghalon i yng Ngwalia.

Danfon eto, Mari fwyn,
'Rwyt yn cynhesu'r *trenches* ;
Ti a'th ryw yw'r heuliau sydd
Yn twymo byd y Tommies :
Cawset gusan, ond pa les
Mae'r *censor* ma's o'i ———.

Isfoel.

Gwyl Ddewi, 1917.

1.—Clod i Miss MARY DAVIES am ei Gwroniaeth yn y Rhyfel.

Daeth golau'r groes o wlad Llan'crwys
I nôs y gâd drwy aberth dwys
Y feinir lwys fydd mwy mewn co'
Tra gloywa dyfroedd Twrch y gro.

Ar allor aberth rhoes ei hun,
Wynebodd angau yn ddigrŷn,
Er diwenwyno clwyfau llym
Y fidog erch a'r fwled chwim.

Dynoliaeth a'i bendithia hi,
Gwyddoniaeth a ledaena'i bri,—
Gwrones benna' Gwalia Wen,
Rhydd byd y goron ar ei phen.

Pe rhoid *Victoria Cross* i'w rhyw,
Hi gawsai'n hawdd yr arwydd gwiw ;
Ei dewrder bery mewn mawrhad,
O oes i oes, o wlad i wlad.

Anellydd.

2.—DEWI SANT.

Alaw—" Ar Hyd y Nos."

Clod i Dduw yn enw Cymru
Am Ddewi Sant ;
Mae ein cenedl heddiw'n canu
Cân Dewi Sant.
Clywyd llais ei genadwri,
Gynt ar lasfryn yn Llanddewi,
Ac mae'r adlais heb ddistewi—
Hoff Ddewi Sant !

Tra bo llif yn afon Teifi,
Deil Dewi Sant
Ar y bryniau i gyhoeddi
Hedd, hedd i'r plant.
Ti golomen wen, fu'n hedfan
Uwch ei grud pan oedd yn faban,
Deued sŵn dy adain arian
I glust y plant.

Cerdded heddiw dros y tonnau
Gân Dewi Sant,
At y bechgyn yn y brwydrau—
Medd gweddi'r plant,
Ar y moroedd, yn y ffosydd,
Duw fo'n darian iddynt beunydd ;
Duw a'u dygo'n ôl o'r stormydd—
Duw Dewi Sant !

Elfed.

3.—DALIAF Y FANER.

Alaw—" Ymdaith Cadben Morgan."

Daliaf y faner yn awelon nen,
Baner anrhydeddus fy Ngwalia wen ;
Chwifiaf hi'n uchel yn y bore glân,
Canaf yn ei chysgod fy ngwlatgar gân :
Chwythwch awelon ar ei glendid hi,
Baner y banerau yw hon i mi.
Baner fy nhadau a fy mamau yw
Baner o dan fendith gyfoethog Duw.

Daliaf y Faner yn anialwch oes,
Mynnaf fyth ei chanlyn er dioddef loes ;
Pleidiaf ei hawliau ; brwydraf dros ei chlod—
Nid oes Baner dlysach na hon yn bod :
Heulwen y Nefoedd ! Gwena arni hi—
Baner Hedd a Rhyddid yw hon i mi.
Baner fy nhadau a fy mamau yw
Baner o dan fendith gyfoethog Dduw.

Daliaf y Faner yn ystorm y cledd ;
Byddaf yn ffyddlon hyd fy medd :
Cathlaf alawon yn ei breiniol fri,
Odlaf gynganeddion i'w moli hi ;
Taenwch y palmwydd ar ei gyrfa lon,
Mae'r teyrnasoedd heddiw yn ffrind i hon.
Nef a daear blyga wylaidd ben
I roi parch i Faner hen Walia Wen.

Alfa.

CYFRES CRWYDRIAID GWLAD. Rhif 3.

4.—BILI TOM O SIR ABERTEIFI.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

'Roedd Bili yn berson poblogaidd ei ddawn,
Mae Sir Aberteifi o'i hanes yn llawn ;
Dan faich o ddiogi yn ŵyrgam yr âi,
A rhedeg, i achub ei fywyd, ni wnai.
Mae'n calon yn drom,
Mae'n calon yn drom,
Wrth feddwl mai marw yw'r hen Fili Tom.

Ei wyneb oedd ieuanc er crymu ei war,
A'i gorff ydoedd luniaidd er llaesed ei ar ;
Pan gawsai ei foddio, mor hardd oedd ei wên !
A chydyn *imperial* addurnai ei ên.

Ei ddillad o ffwstian oe'nt lymrig eu llun
A charpiog, yn ôl ei ddewisiad ei hun ;
Fe gredai o'i galon fel doethion y dre,
Fod *full ventilation* yn beth yn ei le.

'Roedd ganddo gyflawnder o wallt o liw cŵyr—
Pa bryd ca'dd ei gribo 'does Gristion a ŵyr ;
'Run lliw oedd ei locsis sidanaidd y rhai
Orchuddiai ei wyneb fel egin mis Mai.

Ei het fawr beltopper a wisgai efe
Yn ôl ar ei wegil fel ladis y dre' ;
Er fod ei gerddediad yn araf a llesg
'Roedd Bili'n ei drwsiad yn dra *picturesque*.

Fe dreuliai'i nosweithiau'n nhowladydd y wlad
A'i lety a gawsai bob amser yn rhad :
Ar ôl eu forefwyd o sopen a llaeth
Âi nôl i'w orweddfa gan ddiolch yn ffraeth.

O dowlad i dowlad y crwydrai drwy'i oes,
Heb deimlo na blinder, na galar, na chroes :
Fel adar yr awyr, heb ofal, ai ef
Drwy'i fywyd, a'i bwys ar haelioni y Nef.

Fe ganai emynau'n ddidaw ar ein cais
Ac anodd i'r byddar anghofio ei lais ;
Oernadai fel rhywun yn wallgof gan boen
Neu ddafad yn Chwefror yn galw ei hoen.

I'r oll o'i emynau fe ganai'r un dôn,
A honno o ddiwyg *completely his own*—
Rhyw fath o "Eifionydd," os gwelwch yn dda,
A'r oll o'i linellau'n diweddu yn *Lah*.

Am flwyddyn neu ragor i'r Gogledd yr aeth
A dwedid ei fod yn ei feddrod yn gaeth :
Gofynnodd, pan glywodd y newydd ei hun—
"A raid imi gredu 'rhyn ddywed pob dyn ?"

Daeth 'nôl i'r gymdogaeth i weled ai gwir
Y stori amdano a basiodd drwy'r Sir ;
Pan welodd dowladydd Cilwgan a'u gwair
Dywedodd, "Hen gelwydd yw'r stori bob gair."

Fel plentyn diniwed aeth Bili drwy'r byd
Ai ogwydd ar lonni ein hysbryd o hyd ;
Lle gorffwys ei ludw ym mynwent y Llan,
Rhown bwysi o flodau i harddu y fan.

E. Ceredig Jones.

5.—ARWYDDAIR SIR GAERFYRDDIN.

[Rhyddid Gwerin : Ffyniant Gwlad].

Alaw—"*Nos Galan.*"

Rhaid yw canu ar Wyl Ddewi
Nid yw'r gwir yn digalonni.
Nid yw'r cledd yn rhwygo'r delyn,
Ddeil gyfiawnder ar bob llinyn.

Os ar fryniau Cymru dirion
Bu sarhâd a llid gelynion,
Ar ei llwch mae'r iaith yn canu,
A'r genhinen heddiw'n gwenu.

Ffyniant gwlad a rhyddid Gwerin
Yw arglwyddiaeth Gwlad y Cennin,
Wele'r cestyll yn adfeilion,
Hithau'r Werin dan ei choron.

Y mae dewrion Gwlad y Bryniau
Heddiw'n ymladd dros ein hawliau ;
Rhoed i'r tannau eu gwrhydri ;
Anorchfygol ysbryd Dewi.

Doed yr Ellmyn i'n gororau,
Tafled ddifrod o'r cymylau,
Tŷf, ar waetha'r fflam a'r ddrycin,
Ffyniant Gwlad a rhyddid Gwerin.

D. Emrys James.



CEREDIG
[*Tudalen 67*]

BEN MORUS
[*Tudalen 48*]

MARGARET JONES, Maesbach
[*Tudalen 88*]

6.—MODBYB JEM.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

Da ydoedd a gweddeiddlwys,
A charai hon Llanycrwys.

Un annwyl oedd i mi,
Modryb Jem, Modryb Jem,
A da y cofiaf hi,
Modryb Jem ;
Ar gopa mynydd Llanbed
'Doedd eisieu diodde syched,
Hi gadwai dŷ a thrwydded ;
Modryb Jem, Modryb Jem.

Un fer a chwim ei throed
Modryb Jem, Modryb Jem,
A bywiog fu erioed
Modryb Jem ;
Mewn dillad del y gwisgai,
Yn lân ei thŷ a fynnai,
A chroeso serchog roisai
Modryb Jem, Modryb Jem.

Hi safai fel y dur,
Modryb Jem, Modryb Jem,
Dros egwyddorion pur,
Modryb Jem ;
Rhyddfrydig ei daliadau,
Brwd enbyd oedd ar brydiau,—
Ymron hyd at y dyrnau,
Modryb Jem, Modryb Jem.

Cadd llawer teithwyr llon
Number One Modryb Jem,
Digonai bawb o'r bron
Number One ;
Yr araf yn ei lesgedd,
A'r eiddil welai 'i fawredd,
I'r mudan rhodd hyawdledd
Number One Modryb Jem.

Mae Modryb wedi mynd,
Modryb Jem, Modryb Jem,
A chollodd llawer ffrind
Modryb Jem ;
Y tŷ sy'n aros eto,
Mae sôn o hyd am dano,
Ac enw nid yw'n ango',
Modryb Jem, Modryb Jem.

AP LEWIS.

7.—SWN Y RHYFEL.

Alaw—"*Llwyn Onn.*"

MAE'R tabwrdd yn curo i alw i'r ymgyrch,
Mae'r gelyn yn 'mosod ar ddinas a gwlad,
A gwaed y diniwed yn blant ac yn wragedd
Yn galw ar Gymru i ganol y gad :—
Pa ddrwg wnaeth y plentyn wrth ddilyn ei chwarae
I haeddu tanbelen lofruddiog yr *Hun* ?
Neu'r fam yn ei ffwdan yn gweini i'w theulu
Mewn bwthyn bach unig ar ochor y bryn.

Na weinier y cleddyf heb lwyr fuddugoliaeth—
Prydeiniwr a Ffrancwr a Rwss yn gytûn,
O blaid cenedl fychan dan draed y gorthrymwr
Ergydiwn yn wrol hyd farw bob un.
Mae'r diafol a'i ddyfais yn suddo ein llongau
Gan hyrddio i angau y cannoedd ynghyd,—
Medrusrwydd trin arfau sydd ar ei fan eithaf
A'r brwydro yn awgrym o ddiwedd y byd !

" I Baris," medd Wilhelm, o hyd fel un gwallgof,
A Phrydain mor gadarn a'i gwaedd, " I Berlin,"
A gobaith ar adain yr awel yn teithio
A'r wawr lwyd yn torri dros ysgwydd y bryn.
Prif gadair yn holl gynadleddau'r cenhedloedd
A fynnwn, neu ffosydd yr estron yn fedd,—
Gwell angau na chwilydd yw dysg y ddihareb,
Gawn ninnau fel llwfriaid i'w llwch daflu'r cledd ?

Daioni a Heddwch fynwesai'r hen Ddewi,
A Chrefydd trwy'i oes oedd ar faner y Sant,
Ond heddiw'r cenhedloedd mewn gwaed a chelanedd
Ddifwynant bob iawnder yng ngolwg y plant.
Ond Duw o'r uchelder all drefnu ei ddaear,
A pheri a'i Fydded ddwyn Heddwch i'w le,
A theimlwn yng nghanol tywyllwch ein pryder
Fod popeth yn iawn tra fo Duw yn ei Ne'.

Gan gredu'n ddiysgog yn nhegwch ein hachos,
Awn rhagom yn gadarn a'n dwylaw yn lân ;
Chwiorydd a mamau rônt nerth yn ein breichiau
I gwrdd a'n gelynion ym mhoethder y tân.
Os colli ein gwaed fydd ein rhan yn y ffosydd,
Os bedd mewn estronwlad a gawn pan fo rhaid,
Na sonier am danom os na cheir ein henwi
Fel dewrion fu farw i ryddid yn blaid.

GRANELLIAN.

8.—YR HEN BWLL LLIF.

Alaw Gwerin—" Deio Bach."

Un o ddiwydiannau Cymru
Cyn bod ager, trydan, nwy,
Ydoedd llifio ynn a deri
Mewn pwll llif chwe' llath wrth ddwy,
Tair o ddyfnder yn y ddaear,
Mewn rhyw gornel tawel clyd ;
Dau bren croes a chwiplif lachar—
Dyna'r felin lif i gyd.

'Sgwario'r ochrau, bachu a phlymio,
A llinellu at y trwch :
Gwisgo cuddlen denau i rwystro
At y llygaid, ddim o'r llwch ;
Y pen-llifiwr ar ei union
Gydiai 'nghyrn y chwiplif fawr,
A'r is-lifiwr dynnai'n gyson
Yn y gwaelod, tua'r llawr.

Dyna dinc fach felys, swynol,
Dyna ddawns, a dyna gnul,
Dyna fiwsig atyniadol
Chwerid yn y llwybr cul :
Seiri'r wlad a orfoleddai
Wrth weld rhwygo coed y plwy ;
Gweithiau cyflawn llifwyr oeddynt
Ddefnydd gweithiau iddynt hwy.

Llawer astell dderw a lifiwyd
Er dodrefnu bwth a phlas :
Yn eu " coffin deri " claddwyd
Teulu'r fro, dan dyweirch glas :
Ac os glas yw heddyw'r beddau—
Beddau'r llifwyr—heb eu rhif,
Rhydlyd goch yw y chwiplifiau :
Glas yw lle yr Hen Bwll Llif.

Dafydd Huws.

9.—JIM Y RHACS.

Alaw—" Tarw'r Esger."

Masnachwr mewn pridd-lestri
Oedd Jim yn nhref Llanddewi,
A chasglwr esgyrn, rhacs a rhawn,
A difyr iawn ei stori.

Wrth fynd trwy leoedd geirwon
Un tro ger Pantyffynnon,
Y cart a'r llestri dreiglodd lawr
I ddyfnder mawr yn ddrefion.

Wrth weld y fath drueni
Dywedodd Jim—" Gwell imi
Fydd mynd i'r afon ar fy mhen
Na chael gan Gwen fy nghosbi.

" Pe bawn i'n mynd i draethu
Y gwir, ni wnâi fy nghredu ;
Ei chalon sydd fel calon craig,
A gwaeth na draig am grafu."

Pan oedd heb gart a'r asyn
Rhoi Jim y crwyn mewn cwdyn ;
A'r siop mewn basged, 'n syth ei war,
A gariai ar ei gorun.

'Roedd Jim o nodwedd lawen,
A chyfrwys wrth wneud bargen,
Un tenau, gwyddyn, gwrol, ffel
Ac ystwyth fel llysywen.

Pe codai tramp neu bwli
Ryw gweryl yn Llanddewi,
'Doedd eisiau dim ond galw Jim,
Fe giliai'n chwim i golli.

Anghofiwn ei ffaeleddau—
Ni anwyd heb ei feiau ;
Mae'n gorffwys mwy yn nhir y fro
Er's llawer o flynyddau.

Prysgoed.

10.—FY IAITH.

Alaw—" Gwnewch bopeth yn Gymraeg."

Anwylyd wen fy mywyd
Yw iaith fy mam a nhad ;
Aeth trwy aeafau celyd
I wasanaethu'm gwlad :
Bu'n sôn am hen ganrifoedd,
Ac am wroniaid glân ;
Bu'n cario lamp y nefoedd
Yn sŵn aberoedd cân.

Anwylyd dlos y bryniau
Yw merch fy ngwerin gain ;
Gwnaeth lawer gardd o flodau
Lle gynt y tyfai drain ;
Bu'n hau goleuni'r Bywyd
Yn nifwl llawer cwm :
A chariodd win dedwyddyd
I lawer enaid llwm.

Anwylyd lân y nefoedd
Yn yr anialwch yw
Yn gwasanaethu'r oesoedd
Ar lwybrau dyn a Duw ;
Iaith wen yr hen adnodau :
Iaith hoff y salm a'r gân :
Brenhines ieithoedd oesau
Yw iaith fy Nghymru lân.

Brenhines lwys ddilen
A'r goron ar ei phen,
Anwylyd serch a chalon
Yw iaith fy Ngwalia wen.

Alfa.

11.—DEWINIAETH CYMRU FU.

Alaw—" Siaredwch yn Gymraeg."

Dyn Hysbys Cwrt-y-Cadno
Fu gynt yn enwog iawn,
Ac ambell hen ddewines
Oedd gystal 'mron ei dawn.
'Roedd un yn " darllen llyfrau "
A'r llall yn " darllen llaw,"
A rhwng y ddau ceid golau
Ar fu neu eto ddaw !

Yr hen ddewines ddu
Drwy nerth " ysbrydion " lu,
Farchogai ofergoeliaeth
Gwerinos Cymru Fu.

Pan gollodd John Caeiago
Ei ebol melyn, gwych,—
Ca'dd weld, yn Cwrt-y-Cadno,
Y lleidr, yn y drych :
Dim menyn oedd, i'w bwyso,
Un haf, gan Sal Benuwch,—
Y llaeth oedd wedi 'i reibio
Cyn dod o dethau'r fuwch.

Yr hen ddewines ddu, etc.

Arferai gynt, medd hanes,
Yr eneth ieuanc, dlos,
Fynd at yr hen ddewines
Dan lenni gwyll y nos,
Er gwybod a oedd gobaith
Gwnai rhywun roi, ar frys,
A serch ei fron yn oddaith,
Y fodrwy ar ei bys !

Yr hen ddewines ddu, etc.

T. Gwernogle Evans.

12.—RHAI O HEN GARTREFI SIR ABERTEIFI.

Alaw—" Pen Rhaw."

Brogynnin gynt oedd le o nôd
Yng nghyfnod bardd Rhianedd,—
Cae Bedw wnâi i " Forfudd fain "
O blethiad cain cyfrodedd,
A chywydd gloyw fel y dŵr
Sy'n cadw'r hanes rhyfedd.

'Roedd Ieuan Hir, y prydydd tal,
A'i ardal yn ei barchu—
Cynhawdre oedd ei gartref hen
Lle'r awen wnâi achlesu :—
Ac Iorwerth Rhisiart, felys fin,
Ail gwin ei olau ganu.

Yn Maesymynach Daniel Ddu
Yn rhwydd gai lu o ffrindiau ;
A brigo byth mewn bwth a phlas
Wna'i wyrddlas hoff ganiadau ;
A Chastell Hywel, ganwr pur,
Fyn fyw trwy'r hir flynyddau.

Cranogwen gollwyd gyda'r hwyr,—
Llangrannog ŵyr lle'r huna :—
A'i " Modrwy " 'n dal mewn clod a pharch
Tra hi mewn arch orffwysa :
Tylotach hebddi yw y byd
A thlotach pulpud Gwalia.

Granellian.

13.—Y CRYMAN BACH.

Alaw—"*Y Gwenith Gwyn.*"

O ffordd y *reaper* miniog hyll
A'i estyll yn anniben
Yr aeth y cryman bychan cam,
Gan roddi llam i'r gromen ;
Fan honno mae dan rŵd yn drwch,
Mewn dudew lwch yn llechu ;
Y carn yn grin a'r llen heb un ;
Does unrhyw un wna'i barchu.

Bu adeg ar y cryman bach
Mewn dwylaw iach, gwnai fedi
Y meysydd mawr i gyd i lawr,
Ond, ble yn awr mae rhei'ni ?—
Yng nghudd ac angof oll y maent
Mewn henaint, " wedi blaenu "
A'r cryman bach ym môn y to
Yn gwrido—wedi rhydu.

Y cryman bach tra'n torri'r ŷd
A gadwai'n glyd ein goror ;
Yn awr mae'r pres yn mynd bob dydd
Am ŷd o'r gwledydd tramor.
Y *Basic Slag* a chrwt o Sais
A ddeil ein trais yn eglur ;
A ninnau'n mynd o âch i âch,
A'r cryman bach yn segur.

Mae gwaith i'r cryman eto'n ôl :
A gwiw ddyfodol disglair
I'r meysydd ŷd yng Ngwalia i gyd
O hyd i ddiwedd amser.
Ymaflwn ynddo yn ddilai
I dorri iau gormeswyr,
A'r Cymry'n wir a ddont cyn hir
Yn werin dir-feddianwyr.

D. Ehedydd Jones.

Gwyl Ddewi, 1918.

1.—Y Rhaglaw DAVID WALTERS.

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Mae'r byd yn ymferwi mewn bedydd o waed,
Byddinoedd dynolryw yn rhengoedd dan draed ;
O faes y gyflafan derbyniwyd y wŷs
Yn ebrwydd gan feibion dewrfrydig Llan'crwys.

Anturient yn eofn mewn hoender a bri,
Gadawsant bob gorchwyl i ateb y cri,
Ymwelwai y wefus tra'r llygad yn fflam,—
O galon eiddunem eu cadw'n ddinam.

Ein Dafydd—un annwyl, ni welwn yn ôl,
Derbyniodd estrondir e'n gynnar i'w chôl :
Yn aberth ei fywyd enillodd y clod
A draethir mewn hanes i'r oesoedd i ddod.

Mae'n coffa yn bruddaidd a'n hiraeth yn ir
Rôl colli gwroniaid—anwyliaid ein tir ;
Ai gormod yw gofyn os rhaid yw o hyd
Roi taliad mor gyflawn i alw y *byd* ?

Ap Lewis.

2.—HIRAETH AM FFALDYBRENIN.

[*Adroddiad*].

Slawer dydd pan grwydrai merlyn
Wedi cymryd rhaff,
Rhoed ef, hyd nes cael ei berchen
Yn y ffald yn saff ;
Neu pan gaffai'r ffarmwr ddafad
Ddierth gyda'i stoc,
Gyrrid hithau i ffald y brenin,
Gyda'r merlyn broc.

Crwydryn, crwydryn ydwyf finnau
Fel y ddafad ffôl ;
Crwydrais holl aceri Cymru
Hyd dref a dôl.
Bodlon fyddwn pe doi rhywun
O'r hen ardal dlos
Im rhoi innau'n Ffaldybrenin
Cyn delo'r nos.

Wil Ifan.

3.—Y GADAIR YN YMYL Y TAN.

Alaw—"*Y Fwyalchen.*"

Pan rua y gwynt yn y simddau
A'r noson yn drom ac yn ddu,
Felysed yr aelwyd wen, olau,
A ffrindiau y dyddiau a fu :
Cawn heno eu cwmni yn ddiddos,
Swynyddion yr emyn a'r gân,
Lle dedwydd i dreulio yr hwyrnos
Yw'r gadair yn ymyl y tân.

Daw Alun a'i " Fugail Cwmdyli "
A " Rhywun," a'r mêl ar ei min,
Cawn grwydro " lle treigla'r Caveri,"
Lle tyf y " pomgranad a'r pîn " ;
Daw bardd Glan Geirionydd a'i geinion,
A thry " Forfa Rhuddlan " yn gân,
A gwelwn hen " fryniau hael Arfon "
O'r gadair yn ymyl y tân.

Daw Ceiriog a'i " Gant o Ganeuon ",
Cawn fiwsig per " Oriau yr Hwyr ",
Yng nghwmni yr hoff " Alun Mabon "
Anghofiwn ein hunain yn llwyr :
Ac yna cawn ddringo y mynydd
I grwydro drwy " ardd Dinas Brân ",
A syllu ar " Godiad yr Hedydd ",
O'r gadair yn ymyl y tân.

Ac atom daw Islwyn brudd-felus,
Ei " Nos " sydd yn glaer a di-len,
Mae'n caru y " gwyntoedd hiraethus ",
A'r wlad lle y mae " gloewach nen " ;
Cawn brofiad yr " Hapus Luddedig ",
A theimlo cyfaredd ei gân,
Fel adlais o fyd anweledig,
O'r gadair yn ymyl y tân.

Anthropos.

4.—COFFA " CAROLAN ".

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Telynau Glyn Aeron sy 'nghrôg ar y gwŷdd,
Troes colli " Carolan " bob calon yn brudd ;
Pan giliodd o'r golwg, fe giliodd y gân,
Hyawdledd pob tafod ddistawodd yn lân.

Frawd gwylaidd, di-dramgwydd, di-ddichell ei fron ;
Ei siriol wên chwalai bob cwmwl a thon :
Pan guddiwyd ei babell, datguddiodd y tro
Na roed un anwylach erioed yn y gro.

Mae'r awen yn wylo o'i briddo efe,
Ym mhwlpud ei enwad mor wâg yw ei le,
Distawodd y mwynlais—mae'r tafod yn fud,
Ond erys ei bregeth a'i garol o hyd.

Doeth iawn oedd ei gerydd, ei gyngor, a'i foes :
Byw'n gyfaill i bawb fu arwyddair ei oes :
Ei anian ddiwenwyn a'i cododd i fri :
Bydd cofio am dano'n fyth felys i ni.

Neco.

5.—DEWI SANT.

Penillion Telyn.

Cofio Dewi sydd fwynhâd,
Rhoes dros ei wlad ei orau :
Un mawr ei aidd efe ymrodd
Ac a'i deffrodd yn forau :
Athraw'n tir, ei theyrn a'i thad
A brenin gwlad y bryniau.

Am Dewi Sant gwnawn gadw Gwyl
Mae'i enw'n annwyl inni,
Mae'i gof yn wyrdd a heddiw gwn
Fod myrddiwn yn ei foli :
Gwnawn ninnau'n rhan drwy gofio hwn
A charwn un o'i chewri.

Myn Brythoniaid ymhob gwlad
Roi gwir fawrhad i'w defion :
Arwyr gaed gan Gymru'n rhodd,—
Hon fagodd bendefigion,
Arwyr dewrion dewr diri'
A roddwyd inni'n rhoddion.

Ymhlith y llu mae Dewi Sant
Ei blant a ganant iddo :
Mewn cerdd a chân mae Cymru lân
Yn gyfan yn ei gofio
Ac ni gawn Gymry rif y sêr
Yn dyner sôn am dano.

Barlwydon.

6.—GLANNAU'R TWRCH A'R FANO.

Penillion Telyn.

Ardal enwog, rhed haelioni
Ei chynoeswyr i'w chynhesu :
A mwyn heddwch y mynyddau
Yn rhoi hud i'w chymeriadau.

Agor ffiniau y gorffennol
A rhoi dawn i'w harwyr doniol,
Dyna faes a dynnai fiwsig
O fyw nodau nef-anedig.

Gwlad bugeiliaid bywiog, hylon,
A cheid lawer o'u chwedleuon,—
Arwyr bro yn gwylio'r gelyn
Yn y rhwydwaith dan y rhedyn.

Torri tanwent ar y twyni,
Cael yn barabl, gawl yn berwi,
Uwch hyawdledd uwd a chodlach
Y rhôd nyddu redai'n hawddach.

Pwy o'i hil fel Wil Llewelyn
Gadwai flawd o fewn ei goffin,
Coed ei arch yn cadw hyder
Uwd a sopas at ei swper.

Cofir pregeth Tom Tynllether
Yn rhoi nef i werin ofer :
Hwn a'i dirion genadwri
A dywysodd lu at Iesu.

Codai bwlpud ar ben coeden ;
Llwybra engyl lle bo'r angen ;
Hawliai'i dringo i dir engyl—
Haf eangach i'r efengyl.

Daear annwyl Deio'r enwyn,
Gwyro adref wnai'r hen grwydryn,
O'i grwydriadau wedi blino,
I'w hoff faes daeth i orffwyso.

Pen y pinacl oedd Penpoenyn
Geid i gario sgidie gwerin ;
Mynd daith hirfaith oedd ei arfer,—
Cario'i bac o weithdy'r " Bâker ".

Roedd yn fwriad rhoddi'n foreu,
Ddawn negesydd yn ei goesau,
A mwy ystwyth i'w hymestyn
Ni bu pennach y Penpoenyn.

Yr esgidie'n ddyrys gadwen
Gariai'n gyfyng ar ei gefen :
A'i dâl hyfryd oedd delifro
Ar ogoniant yr awr ginio.

Rheinallt.

7.—SIWRNAI'R CARRIER I FERTHYR.

[*Adroddiad*].

Dacw fe'n mynd yn y bore bach
Yn y cart i Ferthyr tan ganu'n iach,
O Dalfan, Caericed, neu Dynycwm,
A'i galon yn ysgawn, a'i lwyth yn drwm.

Cyrhaedda Lanbed' rhwng naw a deg
A'i enau'n sych gan y tywydd teg ;
Ac yn y Bush y mae'n tynnu lawr
I'r ceffyl gael ffido am ryw awr.

Ymlaen a'r ceffyl o glun i glun
A chyrraedd Brynmeiog wna cyn un ;
A hanner diwrnod o daith rydd hawl
I'r carrier gael hoe a bolied o gawl.

Daw i Landdyfri ar derfyn dydd
Ac yn y Swan ei arosfa fydd,
Dan gronglwyd Williams, ni fu ei well
Am gadw cartre i wŷr mor bell.

Yn fore drannoeth rhaid dala'r cart
A mynd am Drecastell yn weddol smart ;
Yno ceir brecwast cryf a phlaen,
A glased o gin cyn mynd ymlaen.

Daw Tafarn y Mynydd cyn dau o'r gloch—
Llwyth od o sychedig yw cig moch :
Ac wedi dringo y rhiw i'r lan,
Mae'r carrier a'r ceffyl yn flin a gwan.

O'r diwedd daw'r ceffyl yn flin ei droed
Â'r llwyth o facwn drwy Gefn Coed
A thyna Ferthyr a Dowlais Top—
Wedi dod yr holl ffordd o Nantcwnlle ! Stop !

Sarnicol.

8.—GARDD Y BWTHYN.

Alaw—" *Lili Lon.*"

Yr hen fwthyn bargod isel,
A'r nyth gwennol dan ei gesel.
Llwybyr llydan heibio'r talcen
I'r hen ardd oedd yn y cefen.

Wrth y gât a'i wyrdd ddalennau
Megis glas y ffurfafennau
Mae'r pren bocs yn lledu aden,
Ac yn cadw'r ffordd i eden.

Mwswm gwyrddlas fel yr wybyr,
Lili wen o bobtu'r llwybyr.
A rhosynnau'r ber ddrysien
Yn prydferthu gwal y cefen

Tatws mawr yn llond y rhychiau,
Hir a gwynion fel fy mreichiau ;
A wynwnsyn bach i'w dreio
Gyda sleisen o gig ffreio.

Pŷs a ffâ a chabbage breision,
Gwelyed braf o gennin gleision.
Safri fach a phersli yno
Er cael llysiau cawl i ginio.

Hen bren falau Morgan Niclas
Rhwng y gât a'r gwely panas.
Syfi ber ac afan gochion
Rhwng y prennau cyrens duon.

Teim a mint a'r twffyn gawmil
Gydag organs yn yr ymyl ;
Dyma foddion gorau'r " Border "
At y stumog maes o order.

Yr " hen ŵr " yn llawer pinsied
Ddygai'r hen wraig yn ei neisied
Bob prynhawn dy Sul i'w helpu
Yn y Cwrdd i beidio cysgu.

Yr " hen ardd " oedd nerth ein llwythau,
Hi fu'n magu'r cenhedlaethau.
Pwy a ddwed pa sawl amheuthun
Ddaeth erioed o ardd y bwthyn ?

Cytgan—
Bwydydd iach llawer âch,
Bwydydd iach llawer âch,
A phob llysiau oedd yn eisiau
Yno gaed i'r teulu bach.

Gwilym Myrddin.

9.—Y TICED SHWGIR.

Alaw—" *Mae Robin yn Swil.*"

Fu neb yn barotach na Beti a fi
I wneud unrhyw aberth dros Brydain a'i bri ;
Bwytasom, heb rwgnach, er speito'r hen Fil,
Y bara llwyd cymysg, a'r daten trwy'r pil.

Ni bu i'n gwladgarwch 'chwaith gyrraedd ei ffin
Pan am yr ymenyn bu raid Margarine ;
Ni hidiem mo'r Caiser, er taered oedd ê,—
Tra llwyaid o shwgir, a phinshaid o dê.

Ond gwelais un hwyrnos fod cwmwl a siom
Dros geinwedd fy Meti, ei chalon oedd drom ;
Ac meddai, bron crio,—" Er hela 'mhob lle,—
Er chwilio 'mhob cornel,—dim shwgir, dim tê! "

Mae'n wir ar y ford fod 'na fara a chaws
A digon o sucan, ond beth oe'm ni haws ?
Yr oedd pethau'n dywyll,ond cariad ddug wawr,
" Pw ! Bet," meddwn wrthi, " tyrd eistedd i lawr."

Cyd-eistedd a wnaethom, a chawsom fod maeth
Cynhaliol mewn enllyn, a sucan, a llaeth ;
A byth wedi hynny, ar silff ucha'r seld
Mae'r tebot yn segur,—dewch acw i'w weld.

Yn *segur* ddywedais ? Na ! Beti a'i lond
Sydd bellach o sylltau at brynu *War Bonds*,
A thystia o hono na lifa byth dê
Nes byddo i'r bechgyn mewn hedd ddod i dre.

A minnau yn awr yn di-to-tal o'r tê,
Am diced y shwgir—na'i ddim byd ag ê ;
Mae'n stoc gan fy Meti, a deued a ddêl,
Gelyrnaid o flawd, a dau lestraid o fêl.

Cledlyn.

10.—JOHN CAESAR YR AUTOMATON.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

John Caesar y clocau adwaenech i gyd,
Hen frawd gwir ddiniwed ond trwblus ei fyd :
Ei syched oedd gwendid amlyca'r hen law,
A'r ddiod a'i taflai yn fynych i'r baw.
O druan o John,
O druan o John,
Bob amser yn sych a phob amser yn llon.

Un medrus oedd John i drin clocau y wlad,
A gweithiai yn wastad yn hynod o rad,
Yn fynych cai 'i ginio a swllt yn ei boc,
A dyna'i holl dâl am roi hwyl ar y cloc.

Ond campwaith dyfeisiau John Caesar erioed
Oedd modur i'w gario a yrrai a'i droed,
Am hyn cai ei nabod drwy'r cylchoedd o'r bron
Yn bennaf dyfeisiwr—automaton John !

Difuddiodd ei amser, bu *fyw* yn ddinawdd,
Bu *farw'n* ddiswcwr yn ffôs oer y clawdd :
'Does neb edwyn heddiw ei feddrod dinod,
Na neb ŵyr i sicrwydd y lle y mae'n bod.

Ryw dro fe drodd allan o'r grechwen i'r nos
I farw'n ddisylw yn oerni y ffôs ;
Yn awr y mae'n gorffwys yn dawel mewn hedd,—
Cyd-stad y cyfoethog a'r tlawd yn y bedd.

Granellian.

11.—CYNHAEA SIR HENFFORDD.

Alaw—"*Siaredwch yn Gymraeg.*"

Hen borthmon—Bili Olmarch, ddaeth adre ar ei dro
A'r newydd i Lord Brougham—arweinydd mintai'r fro,
Fod meysydd llydain Henffordd dan felyn addfed gnwd
Yn disgwyl ar y cryman i dynnu ffwrdd ei rwd.

Cytgan—
Ond nid yw "Andrew" bach
Oedd hwnnw, bobol fach !
Ond dwrn o onnen ddurfin
A llafn fel bwa'r ach ! !

Rhybuddiodd Lord ei fedel—Jack 'Refel, Mocyn Rhys,
A Tomos o Dangoyallt—[ei well ni wisgodd grys],
A John Pantglas di-ildio, Jack Hughes y corffol gawr
A Dai Tirbach a Shaci—rai godent gyda'r wawr.

Cychwynwyd o dŷ Beynon a phastwn yn ein llaw,
Hyd llwybyr dros y mynydd, drwy Abergwesyn draw,
Fe groeswyd Mynydd Epynt, cyrhaeddwyd gwlad yr ŷd :
A'r nos ar wellt mewn sgubor gorweddem yn ein hyd.

Pob cryman dorrai erw, un rwymai ar ôl dau
Wyth swllt a gwlyb yw'r fargen, ai weithiau beth yn llai,—
Os na chawn "dywydd llwybrus", bach iawn yr ennill fydd—
Rhaid treio'r Sais am newid gael gweithio wrth y dydd.

Fe dystiai Shoni'r Mountan am ddŵr y "garreg goch"
Na ddylid ei ddefnyddio ond at wneud golchan moch ;
Roedd ambell i ddirwestwr yn meddwl yr un fath,—
A llawer stori seidir adroddid wrth y llath.

Mhen mis roedd gennyf bumpunt i fyned tua thre',
A theimlwn yn fy nghalon y byd yn dod i'w le,—
Caf glirio Shop y Voelallt, ro'dd fwyd ar dryst i'm plant :
A medi dyled tato i Daniel Llwyd y Pant.

Ai bechgyn Sir Berteifi yn dyrrau, er cyn co,
I Henffordd, oedd gynarach, i fedi, o do i do :
'Rôl gorffen, nôl y deuent, i dorri ŷd eu tir ;—
Hen gwstwm gwir ddarbodus, manteisiol i'r ddwy sir.

Jenkin Lloyd.



WATCYN WYN
[*Tudalen 1*]



EILIR
[*Tudalen 35*]



JOHN PRICE
[*Tudalen 107*]



EDWARD JENKIN DAVIES
[*Tudalen 105*]

12.—SWYDDOGAETHAU Y SIR.

Alaw—"*Winnie Wen.*"

MAE'R bara'n brin ofnadwy, a'r menyn, tenau yw:
Y llongau'n suddo beunydd a'r Ceiser wrth y llyw:
Mae'r wlad ar fin dioddef, daw newyn yn ddinâg,
Y plant fel brain yn llefain o gylch y cwpwrdd gwâg,
A'r ŷd wrth y tunelli yn mynd i'r crochan brag.

Mae'r arian fel mieri trwy'r wlad ar hyd a thraws,
Ond beth yw aur at fenyn! nac arian gwyn at gaws!
Rhaid dewis diaconiaid yn llawn gwladgarol aidd
Er gwasgu ar y ffermwyr i osod mwy o haidd,
A pheri difa'r eithin a thynnu'r drain o'r gwraidd.

Mae deucant gyda'r costau yn ddigon bach i rhain
Beryglant eu bywydau trwy'r glaw a'r awel fain:
Mae'r wlad yn llwm ac eang a'r dydd yn fyr ac o'r,
Rhaid hurio modur cyflym—mae'r *petrol* fel y môr,
A'r *permit* wedi'i selio dan law y brenin Siôr.

Chwyrnellant trwy'r rhigolau hyd ddrws y tŷ yn dyn,
A rhoddant mewn awdurdod y gorchymynion hyn,—
"Er mwyn ein diogelwch a'n bechgyn yn y ffôs,
Rhaid troi y ddôl eleni, a hanner ucha'r rhôs."
Tra'r ffermwr bach yn griddfan fel crwydryn ar y clôs.

Ar hyn daw'r wraig i'r golwg a'i hwyneb fel y gwawl,
Gan ofyn i'r boneddwr ddod efo'r gŵr gael cawl:
Daw yntau ma's o'i lifrai cyn eistedd wrth y bwrdd
Addawa leihau'r *quota*, pan fyddai'r pennau'n cwrdd,
A diolchant hwythau'n gynnes i'r teiliwr wrth fynd ffwrdd.

D. ISFOEL JONES.

13.—"CANU YN Y TYWYDD GARW DDENGYS ARWR GWERTH YR ENW."

Alaw—"*Cwyd dy Galon.*"

Y MAE rhai yn byw dan gwyno,
Hw, baich yw y byd,
Ar y byd a phawb sydd ynddo,
Hw, gofid o hyd;
Llawer gwell yw byw yn fodlon
Hei, ho, llawen ei fryd,
Yn y golau; cwyd dy galon.
Hael fron, gwyn yw ei fyd.

Oer yw'r gaeaf yn eu rhynu, etc.
Yn yr haf daw'r gwres i'w llethu, etc.
Calon lawen dawdd yr eira, etc.
Ac a gana haf a gaea', etc.

Gwersi'r ysgol sydd yn galed, etc.
Nid yw'r gwyliau'n werth eu gweled, etc.
Calon lawen lonna lafur, etc.
Try y byd i gyd yn gysur, etc.

Mae y byd yn llawn helbulon, etc.
Gofid, galar, a thrallodion, etc.
Ond daw hwyliog olau heulwen, etc.
Drwy y niwl i'r galon lawen, etc.

Mae yr ymborth bron a darfod, etc.
Newyn du yn taflu 'i gysgod, etc.
Ond mae merched Cymru'n codi, etc.
Yd a thatws dirifedi, etc.

Mae y byd yn drysu drwyddo, etc.
A'r cenhedloedd yn ymrwygo, etc.
Beth am Brydain ddewr, fyddinog, etc.
Gyda Chymro'n Brifweinidog, etc.

Bygwth wna yr Ellmyn creulon, etc.
Foddi'r byd yng ngwaed ei feibion, etc.
Ond mae dewrion fechgyn Cymru, etc.
Gyda'r Faner sy'n gorchfygu, etc.

Digon hawdd yw torri calon, etc.
Dan drallodion a gofalon, etc.
Canu yn y tywydd garw, etc.
Ddengys arwr, gwerth yr enw, etc.

LLEW TEGID.

14.—TROWCH YN OL.

Alaw—"*Serch Hudol.*"

O SIMDDE fawr y dyddiau gynt
Daw gwynt y cawl cig eidion,
Ac yspryd hen y fuddai batsh
Sy'n treio'r latsh yn gyson ;
A thystia oes y bara haidd
Fod maidd yn well na moddion.

Mae'r badell bres ym môn y berth
Yn treulio'i nerth mewn anfri,
Ac yspryd gwyn y canfas caws
Sydd am ei thraws yn rhegi
Wrth weled cenedl lwyd ei lliw
Yn byw ar gaws yr Ianci.

Mae " cryman medi " 'r " Bara Can "
Yn cripian dan y bargod
Wrth weld " trychiolaeth " ym mhob bro
Yn beindo'r anibendod :
Rhaid cyrchu'r ffust o ben y mur
Ar gefnau'r gwŷr diddarbod.

Mae'r bladur hithau yn ei phŵd
Mewn " rhwd " yn awr yn hongian.
A'r hen " gorn bloneg " yn ei fedd
Yn nhawel hedd yr ydlan,
Ac ysbryd y medelwr mwyn
Ar frig y llwyn yn cwynfan.

Yn ôl at arfer Cymru Fu
I godi gyda'r heulwen
A byw ar gynnyrch hael y wlad—
Yr " Enwyn " rhad a'r daten
A'r " Ready Made " o'r ffordd yn troi
I'r " Corduroy " a'r " glocsen ".

RHEINALLT.

15.—COLEGAU CYMRU FU.

HEN YSGOL PONTSHÂN.

Alaw—"*Plygiad y Bedol.*"

CHI fechgyn o'r Coletsh, a'ch siens a'ch dysg,
Gadewch i hen ffarmwr weyd gair yn ych mysg ;
Ble gwelwd sgwlheigion amgenach 'u grân
Na'r bechgin a godwd yn Ysgol Pontshân ?

Pontshân gynt odd Coletsh holl bigion y fro,
Hen filding fel sgubor, lled ddiran i do ;
Ond nid odd y sgube un tipyn yn wâth,
'Rôl " dyrnu " a " chrasu " ceid llafur difâth.

Fe ddysgid Groeg, Llatin a Gramer i gryts
A'u dwylo yn arw o'r twarch a'r clyts ;
Bu rhain wedi hynny'n bregethwyr o nôd
Ffeiradon, masnachwyrs, a sgolers o glod.

Rodd yno grotesi a'u boche yn goch
Yn dod o Gwmhuar, Pwllffein, neu Bantmoch ;
A'r morwyrs ddoi yno yn fowr ag yn fân
I ddysgu morwriaeth yn Ysgol Pontshân.

Chi blant sy'n cal addysg, ffrwyth gore'r hen wlad,
O peidiwch anghofio ym mhle cawd yr hâd
Sy heddy'n gynhaea dros hen Gymru lân—
Mewn hen ysguborie fel Ysgol Pontshân.

Cytgan—
O dewch fawr a mân, ac unwch a'r gân
I foli'r hen ddewrion fu'n Ysgol Pontshân.
I foli'r hen ddewrion fu'n Ysgol Pontshân.

SARNICOL.

Gwyl Ddewi, 1919.

1.—COFFA Y DIWEDDAR LEWIS RODERICK, CILYCWM.

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

TYWYLLWYD neuaddau, aeth bythod yn brudd,
Daeth deigryn disymwth i wlychu ein grudd.
Mae calon cymdogaeth yn ymdaith yn drwm,
A Roderick yn huno yn naear Cilcwm !

Serchowgrwydd ei wyneb a gofir yn hir,
Ei fyrdd cymwynasau sy'n fyw yn y tir,
Ac ysbryd ei genedl enynnir yn dân
Wrth gofio cyfaredd ei araith a'i gân.

Collasom athrylith cyn loywed a'r lloer,
Mae'r galon garedig yr awron yn oer !
Doed gwanwyn a blodau, bydd bywyd yn llwm,—
Mae Roderick yn huno yn naear Cilcwm !

GWILYM MYRDDIN.

2.—DEWI SANT.

Alaw—"*Ar Hyd y Nos.*"

Câr y byd wrth garu Cymru,
Ddydd Dewi Sant ;
Ceri hedd os ceri felly,
Ddydd Gwyl y Sant.
Paid a dysgu câs i'r galon,
Ceri'th frawd wrth garu'r estron,
Duw i'r byd yw'r " Duw a Digon,"—
Duw Dewi Sant.

Boed dy fyw fel grisial gloyw
Dŵr Dewi Sant ;
Nâd i ddim wenwyno hwnnw,
Byw pur y plant.
Gwylia rhag i waed lychwino
Gwyn dy wisg a gwyn dy ddwylo,
Ystyr filwaith cyn it daro
Câr Dewi Sant.

Gochel farn y gwn a'r cleddau,
Fel Dewi Sant ;
Arwr Hedd, nid gwron brwydrau,
Oedd Dewi Sant.
O ymryson crêir camwedd
O gytuno megir rhinwedd,
Duw y plant yw Duw Tangnefedd,—
Duw Dewi Sant.

T. H. PARRY-WILLIAMS.

3.—GWYN EI FYD.

IN LOVING AND REVERENT MEMORY OF
LIEUT.-GEN. SIR JAMES HILLS-JOHNES,
V.C., G.C.B., LL.D., DOLAU-COTHY.

O HEART, who can sing for the sadness,
O heart, who can sing for the pain ?
Earth's losses, bereavements, and partings,
Attune but for sorrow's refrain.
Death's legions have wrought desolation
In Europe, war-weary and faint,
But *he* slept in peace whom we honour
And mourn as great soldier and saint.

What tongue can forthtell of his greatness
In love, and devotion, and grace ?
What tongue can forthtell all his gladness
Of service to God and the race ?
Exemplar of noble endeavour
Of valour, and sweetness, and truth,—
His life shone with high inspiration,
In fullness of age as in youth.

From morn to life's sunset he laboured
For others, true servant of God ;
And now from earth's toil and endeavour,
The pathway of stars he has trod.
Sleep soldier and saint ! by the Annell,
Till angels of glory shall smile
To welcome thy glad resurrection,
Our waiting is but for awhile.

ANELLYDD.

4.—DISTAWODD Y FAGNEL.

Alaw—"*Cadair Idris.*"

Distawodd y Fagnel—Mae Hedd yn yr awel :
A dychwel o'r Rhyfel wna glewion ein gwlad :
Os trwm fu'r cymynu, *mae'r Faner i fyny* !—
Fe drechodd eu hynni holl gyni y gâd ;
Os trom fu'r alanas ar flodau y deyrnas,—
Blodeuo mewn urddas wna Iawnder y Ne' :
O'r ddwys Armagedon—mae bechgyn dewr-galon
Ein Harthur Bendragon yn dyfod i dre !

Cyweirier y tannau o fewn ein trigfannau,
Ac uned banllefau y bryniau o'r bron :—
Byw byth fo'r gwroniaid, a thân y Brythoniaid—
Fu'n gloywi eu henaid ar dir ac ar don ;
Ond cofier am *feddau'r* pellenig dueddau,
Ac am yr aneddau, a'r bronnau sy brudd—
A'u hiraeth yn crwydro mynwentydd y brwydro
Fel stormus erfyniad am Doriad y Dydd !

Dywysog Tangnefedd ! tydi wyt Etifedd
Pob gallu a mawredd drwy'r nefoedd a'r llawr :
O marchog mewn urddas ar ludw'r alanas—
Pan ddelych i'th Deyrnas, fe gyfyd y wawr :
Cydganed y gwledydd ar delyn ehedydd
I gyfarch y Wawrddydd, a bedydd y byd ;
A thardded Gwirionedd o lennyrch creulonedd,
A thôer â'i ogonedd y ddaear i gyd.

John T. Job.

5.—Coffa ALFRED EVANS [Welsh Guards].

Alaw—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

O Gymru anwylaf mor friw yw dy fron,
O golli dy feibion ymhell dros y don ;
Mae sŵn "buddugoliaeth" ac "ennill y dydd"
Yn chwerw lawenydd, a llaith yw dy rudd.

Hiraethu mae ceraint yng Nghefen-y-Bryn !
Am Alfred anwylaf mae'u calon yn llyn.
Un llednais, didwrw a thawel ei fryd,
A hoff gyda chyfoed ei ardal i gyd.

Pan alwodd corn rhyfel y dewrion ynghyd,
Ymrestrodd i sefyll rhag distriw y byd.
Ymladdodd yn wrol dros ryddid ei wlad,
Daeth adref i farw o ingoedd y gâd.

Rhuthriadau y gelyn, yn don ar ôl ton,
A loesion y ffosydd fu'n archoll i'w fron.
Arafodd ei gamre, dychwelodd i'w wlad,—
Ca'dd fedd gyda'r teulu, nid beddrod y gad.

Ap Lewis.

6.—GWYN EI FYD.

Mewn Cof Annwyl a Pharchus am Y Cadfridog Syr JAMES HILLS-JOHNES, V.C., G.C.B., Ll.D., Dolau-Cothi.

Alaw—"*Y Fwyalchen.*"

Pa galon all ganu gan drymder
Ei galar a'i hiraeth o hyd ?
Tyrd yma fwyalchen, gad inni
Gyd-drydar ein galar ynghyd ;
Mae telyn hen Gymru a'r Awen
Yn wylo am noddwr eu cân ;
Arwriaeth hoff Brydain alara
Am golli ei gwiw farchog glân.

Pwy blymia ddyfnderoedd yr hiraeth
Orlenwa ei geraint a'i wlad,
Am gilio'r Cadfridog anwylaf,—
Fu'n darian a thŵr Cymru fad ?
Wr dewrwych o filwyr y deyrnas,
Mor dyner ei galon a gwraig,
Bydd annwyl ei goffa gan fonedd
A gwreng tra bo afon ac aig.

Llon gyfaill plant bach oedd y gwron,
Hael noddwr athrawon a dysg,
Maent hwy ac mae rhinwedd a chrefydd
Fil tlotach o'i golli o'u mysg ;
Ond colled y ddaear fu ennill
Paradwys, fro wiwlwys ddiglwyf,
Mae Eglwys y nef yn gyfoethog,
Os gwacach hen Eglwys ei blwyf.

Taw Awen, taw dithau fwyalchen,
A'ch trydar o alar ynghyd !
Cydganer y gân orfoleddus
Am fywyd mor brydferth i fyd ;
Cydganu, cyd-ddiolch yw'n dyled,
Am wron a'n dysgodd i fyw.
Ond cofiwn mewn dwys gydymdeimlad
Y dirion Arglwyddes hoff wiw,
Sy heno a'i chalon yn friw.

Anellydd.

7.—CROESAW JAC.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

O Jac fy machgen glân, Dyma ti, etc.
Yn ddistaw bu fy nghân, Hebot ti :
Aeth pedair blynedd heibio
Er pan yr est i frwydro,
Ond ni ddychweli eto, Machgen i, etc.

Fe ganai'r delyn gainc, Ambell waith, etc.
Pan ddelit ti o Ffrainc, Ambell waith :
Ond beth oedd prin bythefnos
I'th weld saith gwaith yr wythnos ?
A hir, a hir fu aros, Blwyddyn faith, etc.

Yn brudd y bu pob tant, Hebot ti, etc.
Wrth goffa Dewi Sant, Hebot ti :
Nid oedd dim blas ar gennin,
Na chawl, na chig, na phwdin,
A thithau yn y Fyddin, Machgen i, etc.

Mi'th welais di yn flin, A didrefn, etc. ;
A baich o arfau'r drin, Ar dy gefn :
Ond collais di'n rhy fuan,
A minnau wrth fy hunan
Mewn ofn na chawn dy gusan Di drachefn, etc.

Ond heddiw, dyma ti, Wedi dod, etc.
I *aros* gyda ni, Wedi dod :
Mae heulwen Hedd eleni
Ar draws y byd yn codi,
Cei ganu Ddydd Gwyl Ddewi, Wedi dod, Wedi dod.

Brynfab.

8.—Y CIW YN Y DRE.

Alaw Gwerin—"*Mae Robin yn Swil.*"

Pan oeddwn yn grwtyn yn byw yn y wlad,
Roedd cannoedd o *gywion* ar fuarth fy nhad ;
Ond dyma beth newydd—daeth llynedd i'r lle,
Giw newydd na welsoch—*Ciw Bwyd yn y dre.*

Y gwragedd a'r merched, ac ambell hen lanc,
A godent ben bore, mewn newyn a gwanc :
A rhuthrent heb frecwast dros waered a rhiw,
I aros fel soljwrs *yn rejment y Ciw.*

Cyn prynu ymenyn, caws, ham, na dim byd,
Rhaid aros am oriau ar ymyl y stryd ;
Ond cysur i'r gwragedd tra'r fusnes mor ddeir
Yw'r stori, a'r newydd, a'r *gossip* a geir.

Yn Sir Aberteifi bu'n ffasiwn yn hir,
I'r wraig roi bwyd ambor i'w gwr ar y tir,
Ond yma bu'n ffasiwn i'r gŵr, [fel rwy' byw]
Roi tocyn o fara *i'w wraig yn y Ciw.*

Rwy'n nabod un bachgen fu'n caru'n ddifai,
I'r ciw er cael chocolates i'w gariad yr ai ;
Mae'r ferch heddiw'n briod, ac yntau nid yw,—
Do, collodd ei gariad *tra'n oedi'n y Ciw.*

Bedwyn.

9.—"NEWYDDION DA A DDAETH I'N BRO."

Alaw—"*Llwyn Onn.*"

Hen delyn fy nghalon cyweiria dy dannau !
Paham 'rwyt yn crogi yn fud ar y mur ?
Ein Tad yn y Nefoedd a sychodd y dagrau
O ruddiau y gwledydd fu'n wylo mor hir.
Mi glywaf sŵn chwerthin, sŵn dawnsio a chanu,
A'r clychau yn seinio y newydd drwy'r lle ;
Edrychaf ar ddeigryn rhyw Fam mewn llawenydd
Am fachgen ei breuddwyd ddaw eto i dre.

Boed dyner dy alaw a lleddf dy acenion
Am rai a syrthiasant cyn toriad y dydd.
Goreuon dy fynwes yn ieuainc a phrydferth
Aberthwyd, fy henwlad, i'th gadw yn rhydd.
Mewn llawer bro estron, mewn aml i ddyfnfor
Gorweddant o derfysg a blinder y byd,
Ond cariad fyn gredu mai dedwydd ynt hwythau
Wrth weled y diwrnod a gostiodd môr ddrud.

Do, ciliodd y ddrycin, mae'r haul ar gyfodi,
Ac er bod delfrydau a themlau ar lawr,
Mae'r niwloedd a welaf yn cilio i'r bryniau
Yn sôn am lawenydd a ddaw gyda'r wawr,—
Am ddryllio cadwyni, am frawdol dosturi,
A llwybr y gweithiwr heb risiau o boen ;
Am gynnydd rhinweddau, am rwd ar gleddyfau
A ffyniant y gwledydd mewn llawnder a hoen.

Pte. Idwal Jones.

10.—" CWYN Y FORWYN."

Alaw—" *Bedd fy Nghariad.*"

Mwyn oedd ef ym min y mynydd,
Cyn mynd i'r drin ;
Nid adwaenai ond llawenydd,
Cyn mynd i'r drin ;
Serch oedd duw ei dyner galon,
Minnau'n lliwio'i holl freuddwydion,
Byth ni choeliai fod gelynion,
Cyn mynd i'r drin.

Prudd oedd ef yn canu ffarwel,
Wrth fynd i'r drin ;
Cas oedd gan ei galon ryfel,
Wrth fynd i'r drin ;
Poeth ei gusan yn yr orsaf,
Tyn ei freichiau cryf am danaf,
Mari—dyna'i air diweddaf,
Wrth fynd i'r drin.

Ni ddaw'n ôl o wlad yr estron,
Ar ôl y drin ;
Daear bell sy'n cuddio'i ddwyfron,
Ar ôl y drin ;
Dywed dyfnder siomedigaeth
Ni ddaw neb o fro marwolaeth,—
Minnau sydd o 'ngho' gan hiraeth,
Ar ôl y drin.

T. H. Parry Williams.

11.—Coffa Pte. HERBERT LEWIS.

Alaw—" *Cwynfan Prydain.*"

Rhaid i hiraeth dywallt deigryn
A chymdogaeth ddweud ei chŵyn ;
Rhaid i obaith ganu emyn
Ar ôl dy fyfyriwr mwyn ;
Ti oedd gwanwyn y dyffryndir
Briget ymhob gwyrddlas bren ;
Ti oedd heulwen y mynydd-dir ;
Ti oedd cân y Stafell Wen.

Dlws anwylyd y clogwyni !
Bywyd oeddit ti i ni ;
Miwsig adar yn y llwyni
Dyna oedd dy galon di.
Gennad Iesu ! Arwr Gwalia !
Est yn gynnar hwnt i'r llen !
Gyda'r storm o Salonica
Daeth y nos i'r Stafell Wen.

Daeth y gaeaf i'n mynyddoedd,
Daeth a garwach un i ni ;
Torrodd drosom erch dymhestloedd—
Ennill arch, a'th golli di !
Ond er garwed yr ystorom
Ac er trymed niwl y nen !
Gwelwn ddydd ar ymdaith atom
Gyda'i Salm i'r Stafell Wen.

Alfa.

12.—HEDDWCH.

[Gan yr Archdderwydd Dyfed.]

Tôn—" *Alexander.*"

Diolch, Arglwydd am dawelwch,
Wedi'r chwerw storm a gaed ;
Ac am gwrdd Tywysog Heddwch,
Ar geulanau môr o waed ;
Dyro foliant yn ein genau,
I'th gynteddoedd, tywys ni ;
Ac offrymwn ein haberthau
Ar dy sanctaidd allor Di.

Ciliodd cwmwl y taranau,
Mae yr wybren eto'n glir ;
Ac fe droir yr holl gleddyfau
Yn grymanau cyn bo hir ;
Ymlonyddwn yn Dy heddwch,
Cadwed gras y llwythau'n un ;
Ac fe welir yr anialwch
Eto'n ardd i Ti Dy hun.

Ti fu'n gobaith mewn cyfyngder,
Dan y trwm gawodydd tân ;
Wedi'r gawod, ar y sychder,
Dyro wlith yr Ysbryd Glân ;
I galonnau dy elynion,
Tyrd i mewn, fendigaid Iôr ;
A bydd heddwch fel yr afon,
A chyfiawnder fel y môr.

13.—CÂN Y MEDD.

Y Gainc—" *Lili Lon.*"

Yn y mynydd mae'r gerddinen,
Yn y mynydd mae'r eithinen,
Yng nghwpanau'r grug a hwythau,
Haul ac awel dry yn ffrwythau,
Awel iach, heulwen lon,
Heulwen lon, awel iach,
Delir rhinwedd haul ac awel
Yng nghwpanau'r blodau bach.

Prysur yno fydd yr hela
Pan ddaw'r gwenyn fil i fela ;
Awel haf â haul cynhaeaf,
Mêl a fyddant cyn y gaeaf,
Melyn fêl, melys fêl,
Melys fêl, melyn fêl,
Haul ac awel yn y diliau
Wele'n felyn felys fêl.

Gwedi'r hâf a'r hael gynhaeaf,
Yn yr hendre hirnos gaeaf,
Wrth y tân yn sain y delyn,
Melys fydd y meddlyn melyn,
Melys fedd, melyn fedd,
Melyn fedd, melys fedd,
Haul ac awel, mêl y gwenyn,
Wele'n felyn felys fedd !

T. Gwynn Jones.

14.—NI DDYCHWELANT MWY.

Alaw—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

Fel taran yn torri yn sydyn uwchben
Disgynnodd y newydd a dduodd fy nen ;
Fe syrthiodd fy meibion i ddychwel byth mwy,
Trywanwyd fy nghalon, a thorrodd yn ddwy.

Dau filwr gwirfoddol, dau frawd bach di-nam
Dau gyfaill mynwesol, dau lygad eu mam ;
Does neb all ddistewi ond Iesu y don
O hiraeth aflonydd sy'n rhwygo y fron.

Mae hiraeth yn para i daro ei dant,
Mae f'enaid yn griddfan am danoch fy mhlant ;
Mor wâg yw yr aelwyd, mor llwm yw y tŷ,
Mae rhywrai yn eisiau, O Dduw gwyddost Ti !
Ffarwel i chwi Tudor, ffarwel Walter Gwyn,
Cawn gwrddyd serch hynny, rhyw ddydd ar ôl hyn
Pob arf wedi darfod, pob cystudd a chlwy,
Mor felys fydd cwrddyd heb fadael byth mwy.

Crymlyn.

15.—YR HEN GORN MEDI.

Alaw Gwerin—" *Hefo Deio i Dywyn.*"

Galw medel a'r corn medi
Oedd hên arfer gynt yn Nghymru,
Ac ar noson loergan olau,
Pwy na charai ei hoff seiniau.

Pan fai argoel ' tywydd fory '
Nawr am glywed cyrn yn canu :
Pawb yn galw yn blith draphlith,
I gael torri'r ' pisin gwenith ' !

" Beth a wnawn " medd Jac wrth Mali—
Pawb yn galw ' gydai'i gili ' :
Ebe Mali'n ddigon parod—
" Cer di i'r Fron, af fi i'r Gwastod."

John y Wig—hen ganwr *champion*,
Yn Glanwern Tom Parry hylon :
Yntau Siencyn Castell-Hywel
Yn Lloyd-Jac a alwai'r fedel.

Cadwodd rheini heb ddim gorchest
Lawer lodes yn y ffenest,
Do, am oriau i golli'i chysgu,
Pan gaent hwyl ar gorn i ganu.

Shaci'r *Tinman* oedd wr enwog
Am ddarparu corn dihalog ;
Ac am hanner coron ' parod '
Seinber gorn a gaech, heb sorod.

Sain y corn sy wedi tewi
Ac arabedd yr ' hoe hogi ' :
Ar y fron ac ar y doldir
Dim ond sŵn peiriannau glywir.

Henfynyw. D.E.

16.—CROESO.

Mae'r goelcerth yn fflam ar y mynydd,
A'i llewych ar lechwedd a chwm,
A gwyllt orohian yn neuadd y plas,
Ac ar aelwyd y bwthyn llwm.

Mae'r fagnel ddidostur yn ddistaw,
A lluoedd y gelyn ar ffo,
A ninnau'n croesawu'n gwroniaid yn ôl,—
Yn ôl i fythynod y fro.

Mae croeso ar wefus yr henwr,
A chroeso yn llygad y fun,
A chwerthin ac wylo ar ruddiau'r fam,—
Heb wybod yn iawn pa'r un.

Ac onid yw'r adar eleni
Yn burach eu sain yn y coed,
A'r blodau yn llonnach nag oeddynt gynt
O amgylch y llwybr troed?

Ond O, trwy'r llawenydd a'r cyffro
Daw atswn ochenaid ddwys,
Wrth gofio am rywun nas gwelir mwy
Yn ôl yn ardal Llan'crwys.

Ond wele, trwy ganol y dagrau,
Oleuni y wawrddydd well,
Sydd eisoes yn torri ar newydd fyd,
Dros feddrod yr allfro bell.

Pencader. EIRWYN.

17.—COFFA MARGARET JONES, MAESBACH.

Alaw—"*Blodau'r Drain.*"

Angyles y teulu a noddes y tlawd,
Arglwyddes y gwragedd o amglych ei rhawd,
A chysur a llonder ddylifai o'i gwedd,
Addfwynder ei hysbryd goronai ei sedd.

Ei dwys ymadroddion oedd radlon a chun,
A'i hawen eneiniwyd gan anian ei hun:
Ni chaiff yr aderyn mwy bennill mor gain,
Na'r blodyn ei emyn mor swynol ei sain.

Bu'n selog a ffyddlon dros achos Mab Duw,
Llond calon o'i gariad arweiniodd ei byw,
Maesbach a adawodd am feysydd y Nef,
Ond erys emynau ei mawl "Iddo Ef."

IOAN O'R NANT.

18.—YR HEN WIDWITH.

Alaw Gwerin—"*Yr Eira.*"

Ai cannoedd i Cilcennin
At Mari i'w hymofyn,
Ni fu ei gwell a chwilio'r byd
Am ddod i'r crud a'r plentyn.

Ni welwyd neb yn debyg
Yn deall llwybrau'r Trichrug;
Fel canol dydd yn nyfnder nôs,
Heb ofni ffos na cherrig.

Dros fynydd ac i'r gwaered
Dros glawdd, hyd lwybrau defaid;
Heb sôn am anffawd iddi ei hun,
Gael achub un diniwed.

A phan y gwnai gyrhaeddyd,
I'r teulu rhoddai wynfyd,
Ei gorau wnelai i'r dinam
Rhyddhai y fam heb ofid.

Heb foddion na'r un botel,
Y fam a'r babi'n ddiogel,
A'r feddyginiaeth oedd ei llaw,
A chadwai'r braw yn ddirgel.

Roedd gwaith i Mari'n bleser,
Heb ffwdan byth nac offer;
Ni ddaw ei gwell i Gymru fad,—
I'r tlawd yn rhad bob amser.

Mae Mari o Gilcennin
Mewn bedd ers llawer blwyddyn,
Ond bydd ei henw'n barchus byth
Fel gwidwith anghyffredin.

FFYNNON FORGAN.



JOHN JONES, ABERAERON
[*Tudalen 106*]



MAIR LLAMBED
[*Tudalen 106*]



DAVID EDWARDS (Y DERYN DU)
[*Tudalen 105*]



GRANELLIAN
[*Tudalen 106*]

Gwyl Ddewi, 1920.

1.—GWYL DEWI SANT.

Alaw—"*Nos Galon.*"

Atom eto ar ei hadain
Fe ddaeth Gwyl y werdd Geninen,
Gwyl wresoga galon Gwalia—
Hên wyl Dewi Sant anwyla'.

Pan oedd caddug anwybodaeth
Yn gordoi ein Tywysogaeth,
Cannwyll yn goleuo Cymru
A'i dduwioldeb ydoedd Dewi.

Heddiw ôl ei hyfforddiadau
Geir yng nghalon Gwlad y Bryniau,
Gwaith â Hedd sy lond ei chalon—
Hi yw "Gwlad y Menyg Gwynion."

Hoffi'r awel mae'r aderyn
Hoffi'r afon mae'r brithyllyn,
Hoffi gwên yr haul mae'r blodau,
Gwyl Sant Dewi hoffaf innau.

Tra bo'r Wyddfa ar ei sodlau
Yn cusanu y cymylau,
Tra bo beirdd a chennin Cymru
Cael ei dathlu fydd Gwyl Ddewi.

GWYROSYDD.

2.—DEWI SANT.

'R OEDD Dewi Sant yn hoff o blant,
A phlant yn caru Dewi :
Pregethai'n gall er addysg pawb,
Ac aros byth mae'i wersi.

Llanddewi-Brefi ga'dd un tro
Gan Ddewi bregeth ryfedd,
A'r pant lle safai'n cychwyn hon
Yn fryn drodd cyn ei diwedd.

Ar grystyn sych y mynnai fyw,
A dŵr yn ddiod yfai,
A chan ei awydd i wneud lles
Ychydig iawn orffwysai.

I gofio'r Sant mae Cymry pur
Yn gwisgo cennin heddiw,
A'r duwiol Sant yn enwog sydd
O Benfro i Henfynyw.

Er niwl yr oesoedd pery'r hwyl
I ddathlu dydd Gwyl Dewi,
A phlant ein plant a gadwant gof
O'r felys fabinogi.

GRANELLIAN.

3.—PLANT CYMRU.

Alaw—"*Tros y Garreg.*"

TROS y Garreg aem yn blant—
[Yn y bwthyn ger y nant]
Bwthyn siriol a chysurol—
Carreg aelwyd tad oedd sant—
Yno mam a'n magai'n fwyn,
Llawn o serch a llawn o swyn—
Gwyliai ni rhag taro'n troed
Wrth un garreg arw erioed,—
Fyth i {Ferched / Feibion} Cymru roed.

Tros y trothwy aem o'r tŷ,
Tua'r Ysgol hwyliem ni,
Chwerthin ! chware ! ar ein gore
Nes i'r Ysgol aem yn llu.
Yn yr Ysgol yn y wlad—
Dysgu ! Dysgu ! o'r mwynhad !
Dysgu dan athrawon da
Droant aeaf oer yn ha'—
Gwersi buddiol yn feunyddiol,—
{Merched / Meibion} Cymru'n gyson ga.

Tros y garreg awn ryw bryd—
Carreg trothwy'r Ysgol glyd.
A llafurio raid, er curio
I hyrwyddo masnach byd.
Ond daw gwersi'r aelwyd gynt
Fyth i'n dilyn ar ein hynt,
A chawn wersi'r Ysgol fwyn
I'n hamddiffyn fel â swyn—
Hyn a gweddi {Merched / Meibion} Cymru
Tros beryglon wnant ein dwyn.

HAWEN.

4.—CENWCH HEN ALAWON CYMRU.

Tôn—" Tanymarian."

Cenwch hen alawon Cymru !
Rhowch eich bysedd ar y tant,
Dyna'r miwsig mwyn a ddeffry
Gofion gwlad am Dewi Sant ;
Bellach aeth " Nos Galan " heibio,
" Toriad Dydd " yw hi yn awr,
" Tros y Garreg " awn i wrando
Cân yr hedydd " Gyda'r Wawr ".

Cenwch hen alawon Cymru !
Bythol newydd yw y rhain,
Chwery " Clychau Aberdyfi "
Odlau hudol swynol sain ;
Y mae " Ymdaith Capten Morgan "
Yn atseinio trwy y nen,
Yntau'n dod ym mraich " Merch Megan "
Gan chwibanu—" Mentra Gwen".

Cenwch hen alawon Cymru !
Cenwch yn y cywair llon,
Daw'r " Fwyalchen " eto i ganu
Ar las gangau tlws " Llwyn Onn " ;
" Cwynfan Prydain ", sych dy ruddiau,
Hedd deyrnasa ar bob bryn,
A'r cleddyfau droir yn " sychau ",—
Cymru feda'r " Gwenith Gwyn ".

ANTHROPOS.

5.—COFIWCH WISGO'R HEN GENHINEN

Alaw—" Ar Hyd y Nos."

Cofiwch wisgo'r hên genhinen
Ar wyl ein Sant !
Boed holl gyrrau'r wlad yn llawen
Ar wyl ein Sant !
Cofier am y cennin gwyrddlas
Ym mhob cwmwd ym mhob dinas,
O Dŷ Ddewi i Lanandras
Ar ddydd ein Sant !

Cofiwch am y dewr sy'n huno
Yn nhir y Sant !
Cofiwch am y rhai fu'n brwydro
Dros dir y Sant !
Pan fo gwyntoedd Mawrth yn chwythu
Yn y coedydd moel oddeutu,
Cofiwch am anwyliaid Cymru
Ar wyl y Sant !

Na foed i chwi naws dialedd
Ar ddydd y Sant !
Llid na malais nac eiddigedd
Ar ddydd y Sant !
Ond ar wyl y cennin gwyrddion
Boed ei dangnef ym mhob calon
Trwy ardaloedd Cymru dirion,
Trwy dir y Sant !

W. J.

6.—LLADD Y FUWCH.

Alaw—" Nos Galan."

Prynu buwch yn Ffair Lanfechan :
Gwelid wrth ei gwedd a'i hoedran
Os cymerai 'i bwyd yn ddibaid
Byddai 'i chig yn ffres bob tamaid.

" Twmi, beth yw pris 'r hen garen ? "
" Dyl'swn gael rhyw dair a 'hweigen,"
" Taro bant hi, nid yw'n ormod,
Swllt o lwc, a thâl am ddiod."

Myn'd a'r fuwch yn araf adre,
Wedi hyn, dau fis o adle ;
Ceirch du bach a chrafion tato
Roddai gig a gwêr ar honno.

Deio'r Go' yn Abermeurig
Oedd yn fwtsiwr buwch nodedig :
Ninnau blant oddiar y storws
Yn ei wylio'n trin ei chorpws.

Wedi 'i thorri, rhoid i aros
Yn yr halen am dair wythnos :
Rhain yng nghrog dan lofft y gegin
Oedd y *rations* am y flwyddyn.

Cawl i ginio drwy y flwyddyn,
Gyda darn o'r fuwch a'r mochyn :
Carcai'r forwyn siriol, Nani,
Fod " cawl Enoc " yn serennu.

FFYNNON-FORGAN.

7.—YR HEN BISTYLL.

Alaw—" Siaredwch yn Gymraeg."

Hen bistyll Ffynnon-dderwen !
Dyledwr wyf i ti ;
Pe meddwn rywiog awen
Dy glodydd ganwn i :
Mewn cilfach neillduedig
Heb chwennych clodydd gwlad,
Arllwysi yn rhyddfrydig
Dy wên i bawb yn rhad.

Ti gymwynaswr ffyddlon !
Fe'th gofir mewn mawrhâd :
Teilyngu gerdd dwymgalon
Am roi mor ddinacâd ;
Diodaist genedlaethau
A'th ddyfroedd grisial iach,
Tra'r ffrydiau'n troi'n storiau
O'th gylch : " *Y Pistyll bach* ".

Os pallodd llawer ffynnon
Dan dreth yr Hafau sych ;
Tra'n aml clywid holion
Am fodd " rhoi'r blawd yn wlych " ;
Ti bistyll bro fy mebyd
Di-ball fu'th fendith glir,
Mewn hawddfyd ac mewn adfyd
I bawb o fewn y tir.

Pan yrrid plant yr ardal
I gyrchu'r " siwrne ddŵr " ;
I'r fintai yn ddiatal
Dy groeso oedd yn siwr ;
Mae rhyngot ti a'r ffynnon
Gyfrinach o dan sêl,
Ond tywallt dy fendithion
Yn ddibrin wnei'n ddigêl.

Fel tithau, carwn innau
Gael treulio f'oes yn lân,
Yn ffrydio'i leddfu eisiau
A'm bywyd oll yn gân ;
A phan ddêl awr noswylio,
Hyfrydwch i mi fydd
Rhyw atgo am ymgeisio
I Roi, fel tithau'n rhydd.

GUTO.

8.—SWYDDOGION ESMWYTH.

Alaw Gwerin—" Beth wneir a'r Ferch Benchwiban."

Beth wneir o'r llu swyddogion
Sy'n pori gwarrau'r tlodion !
Paham y teflir cyfoeth cu
I fagu pendefigion !

Asynod moel y senedd
Sydd oll wrth wraidd y maswedd,
A Bonwr Lô a'i ben ar lan
Yn *foss* yr amryfusedd.

Beth wneir o'r swyddog 'redig
Sy'n cario cest chwyddedig
Hyd rosydd gwlybion, grug a brwyn,
A'i gadwyn fendigedig ?

Gadawer iddo yno
A'i fapiau a'i bortmanto,
A geir y rhos a'r curyll del
Yn fedel ddont i'w fwydo.

Beth wneir a dyn y *grado*
Sy'n fawlyd iawn ei ddwylo
O fârt i fârt o'i draed i'w geg
A'i floneg yn ei flino ?

Caiff lonydd yn bresennol
I fyw yn wyllt fel ebol :
Caiff yntau 'i *grado* cyn bo hir—
Fe'i dofir yn y dafol.

Beth wneir o'r heliwr hirbig
Sy'n rhodio'r heol unig
A'i lygad craff fel cath neu gi
Yn ffroeni llygod ffrennig ?

Caiff balas y cwningod
Yn gartref taclus parod :
Caiff wisgo'u crwyn a bwyta'u cig.
A llwgu gyda'r llygod.

ISFOEL.

9.—TE LLYSIAU CYMRU FU.

Alaw Gwerin—"*Y Cyntaf o Ebrill.*"

Tê llysiau, rhâd a llesol
  Oedd gan hen Gymry gynt ;
Pob clwyf a chlefyd marwol
  A yrrai ar ei hynt.

Am ddognau dŵr meddygon,
  Ni wyddai Cymru Fu ;
Ond llysiau rhag clefydon
  A gedwid ym mhob tŷ.

Y Milddail a Ffa Corsydd,
  Dant Llew a Wermod Lwyd,
Criafol, Llin y Mynydd,
  A durol, faethol fwyd.

Rhag clefyd Serch, mae Collen
  Yn fuddiol iawn, medd rhai,
A dogn o frig y Fedwen,
  Wellhaodd lawer bai.

Tê cryf o ruddin Derwen
  A wella galon wan ;
At 'stwytho tafod—Aethnen
  Yw'r orau ymhob man.

Pen gwyntog, poen ac antics,
  Llin Onn a wella'r clwy' :
Ac os daw ffit o 'sterics,
  " Tê Teim " am awr neu ddwy.

Cerddinen ddaw â iechyd,
  A dywed pwy fydd byw ;
Ac os am godi Ysbryd,
  Yr orau ydyw'r Yw. LLEW TEGID.

10.—GYMRU WEN.

Alaw—"*Mentra Gwen.*"

Am danat ti mae sôn,
  Gymru Wen, Gymru Wen.
O Fynwy fawr i Fôn,
  Gymru Wen :
Os yw dy Sant yn huno,
Mae'i ysbryd ef yn effro,
A'th gennin yn egino—
  Da di, cofia, Gymru Wen.

O'th flaen mae cynnydd maith,
  Gymru Wen, Gymru Wen ;
A bri sydd ar dy iaith,
  Gymru Wen.
Wel, cod dy ben gan hynny,
A dal fel cynt i ganu,
A dring yn uwch i fyny—
  Da di, cofia, Gymru Wen.

Ti biau'r diwrnod hwn,
  Gymru Wen, Gymru Wen ;
A byddi byw, mi wn,
  Gymru Wen :
Cei fod yn wlad yr Awen,
Cei glod fel bro'r genhinen,
Cei'n cariad ni'n y fargen—
  Da di, Gymru Wen.

Cyfaddaswyd gan EIFION WYN.

11.—GWYLLT WALIA.

Alaw—"*Cân Eisteddfod.*"

Hen fro y tywysogion pur,
  A'r breiniau syml eu swyn,
Ti gefaist feibion wrth y fil
  I farw er dy fwyn :
Gwell gan dy blant dy erwau blin
  Na pharthau'r gwinwydd pêr ;
Ac yn dy iaith, trwy'r oesoedd maith,
  Hwy folant enw eu Nêr.

Hen fro y delyn er cyn cof,
  A bro'r alawon gwin ;
Ar nôs y wledd a dydd y gâd,
  Dy fawl oedd ar dy fin :
A thra bo bardd o'th fewn yn byw,
  Ac yn dy dymer dân,
O'th fythod llwm, mewn tref a chwm,
  Fe gyfyd llif o gân.

Hen fro y werin bur ei serch—
  Fel pawb a gâr dy fri,
Ar Dduw gweddïaf yn Gymraeg
  Am oes y byd i ti :
O, cadw ffydd dy gyntaf Sant,
  A ffydd dy olaf Lyw ;
A heddwch hir a fo i'th dir,
  Dan nawdd a thangnef Duw !

EIFION WYN.

12.—GLANNAU'R TWRCH A'R FANO [PARHAD].

Y Gainc—"*Mae Robin yn Swil.*"

Daw hanes nodedig am Deio Landŵr,—
Roedd cyfnod y gwyrthiau heb ddarfod bid siwr,
Rhyw sgwarnog a heriodd holl filgwn y wlad
Ond Deio a'i daliodd a'i glocs am ei dra'd.

Yr hen Ddafydd Saunders ddireidus ei nwyf
Yn symud pregethe offeiriad y plwyf
Ac am eu cymysgu fe haeddai gael ffon
Can's ceid yr un bregeth ddau Saboth o'r bron.

Y gloch a gywirai am gwrw'n bur smart
A witchai hi wedyn er mwyn arall gwart,
Ond er ei ddireidi a'i driciau annhêr
Fe ddaliodd i forio i " gartref ei Ner."

Wil Whibi ddiniwed fu'n dod ar ei dro,
I ofyn am gardod hyd ffermdai y fro :
I'w hynt dan chwibanu fel mwyalch mewn llwyn
A'i ddiolch a'i ganmol yn difa pob cwyn.

Dyn bychan oedd Ogley 'run fath a Zacheus,
Un diwrnod yn cywain ar dir Madam Price,
A hithau, bryd cinio, ofynodd : " Sawl llwyth ?"
" Saith arall," medd Ogley, " a'u gwnelsent yn wyth ".

Er bod yn ddigartref mewn ardal yn byw,
Fe elai yn gyson i gysegr ei Dduw ;
Rhai troeon bu gorfod—pan weddïai'n rhy hir—
Roi llaw ar ei ysgwydd a'i dynnu i dir.

Roedd Harri Tycanol, er ennill ei dorth
Yn dod a llwyth sgadan o fôr Aberporth,
Ar dyle Talfedw fe safodd fel plwm—
Y cel yn rhy ysgafn neu'r llwyth yn rhy drwm.

I Ferthyr bu'n gyrru yn ôl ac ymla'n
Dan gludo geir tewion i wŷr y gwaith tân,
A llawer cyffyrddiad diddorol a wneir
Wrth adrodd helyntion " tywysog y geir ".

Bu'n gweddïo yn ddyfal ar Dduw, meddent hwy,
Am beidio a rhoi ceffyl i'w feddiant byth mwy,
A chafodd wrandawiad fel y tystiai ei hun,—
" Does gen i ddim arian i brynu dim un."

Roedd Roger Penderyn yn dilyn gwŷr mawr,
O Waterlw waedlyd dychwelodd yn gawr,
Yng ngrym y plât arian a guddiai ei glwy'
Ymffrostiai na fyddai heb arian byth mwy.

Yn llogell ei wasgod, troed sgwarnog a geid
I " actio'r llygoden "—[mae hanes yn dweud],
Nid ef oedd y cyntaf na'r olaf a'i fryd
Ar actio'r llygoden wrth fyned drwy'r byd.

Fe gofir Twm Simon fel dychryn y fro,
Am wneud coes celynnen un cywrain oedd o,
Ar bentan yr efail ddiwrnod o law
Ei bib yn ei ben a " cho's whip " yn ei law.

Ei wisg ar y Saboth yn hynod o dwt—
Y britis plush coch a'r gôt cynnydd heb gwt,
Botymau mor ddisglair â'r sêr yn y nen
Mewn Wellington Boots, a'r het silk ar ei ben.

Roedd Tomos drwy'i oes yn proffwydo gwell byd,
A dwedai bob amser ei bod yn ei fryd
'Rôl marw pawb arall o holl ddynol ryw
I fyned i balas Rhydodyn i fyw.

Gŵr tyn am y geiniog oedd Harri Nantllyn
Mae'r ddau focs dybaco'n dystiolaeth o hyn.
A chadwai'r "drudaniaeth" ei gwpwrdd yn llawn
Wrth wneuthur bargeinion o'r tyweirch a'r mawn.

Yr hen dorrwr beddau o'r " Ywen a'r Gloch "
Fu a'i ben yn y pridd nes i'w drwyn fynd yn goch,
Ym myd cyrff ganhwyllau'n awdurdod o nod
Fe welodd ugeiniau tua'r fynwent yn dod.

Mewn ffrae a gŵr corffol yn Llanbed ddydd ffair
Ei ddychryn wnaeth Tomos pan ddwedodd y gair
" Rwyf wedi rhoi llawer oent fwy na thydi
Yn dwt ar eu cefne, paid cellwair a fi."

Yr hen gymeriadau amrywiol eu byd !
Daw melys atgofion amdanynt o hyd.
Ac hyd nes eu deffro wrth alwad eu Duw
Gorffwysent yn dawel dan gysgod yr yw.

RHEINALLT.

13.—DEWI SANT.

Y DDAEAR gododd dano ar ddydd yr uchel-ŵyl
A'r nefoedd blygodd ato i nerthu'i ysbryd gŵyl ;
Ar faes cymanfa Brefi dechreuodd Cymru fyw ;
Yn llewych pregeth Dewi adnabu'n gwlad ei Duw.
Mae Cymru'n esgyn beunydd ac emyn ar ei mant,
Wrth lynu gyda'r grefydd bregethodd Dewi Sant.

Pawl Hen o'i bruddaidd ddellni adferwyd, gennad nef,
O blygu ac ymolchi yn nwfr ei fedydd ef ;
Mae ffynnon yn bwrlymu drwy'r oesau ar y fan,
Lle bu Apostol Cymru yn crynu'n faban gwan.
Cryfhau mae ysbryd-olwg y wlad dywyllodd chwant,
O roi ufudd-dod amlwg i symledd Dewi Sant.

Bu cynllwyn i'w wenwyno, o weled llwydd y llanc,
A'r " Bara " roddwyd iddo i'r drwg gyhoeddai'i dranc ;
I'r fran a'r ci nid ennill fu profi bara brad,
Bwytaodd Dewi'r gweddill heb niwed na sarhad.
Ni ddichon llid amharu etifedd ffydd ; mae tant
Gwirionedd clir yn canu hyd lwybrau Dewi Sant.

Bu'r Sant ar daith yn Rhufain, a chlychau'r ddinas gref
Ohonynt hwy eu hunain a ganodd " Iddo Ef" ;
Daeth engyl iddo'n gwmni ryw fore gyda'r wawr,
A gwag fu cartref Dewi o hynny hyd yn awr.
Mae clychau aur pyrth Seion yn llon groesawu'i blant ;
Bedd gwag yw bedd pob Cristion ddilyna Dewi Sant.

BRYFDIR.

14.—SHÂN FACH.

Alaw—" *Y Stwffwl.*"

MAE natur yn tywallt bendithion yn garn
Ar ardal Tyngwndwn, ac ardal Talsarn ;
Pob calon fel Aeron sy'n symud yn iach,
Ond hiraeth fyn aros wrth gofio Shân Fach.

Os ydoedd ei bwthyn yn llwydaidd ei dô,
Hwn ydoedd Ysbyty anwylaf y fro ;
Fflamwydden, darwden, a phob un o'u hach,
Ddiflanent fel cysgod dan eli Shân Fach !

Fe wyddai gyfrinion holl lysiau y tir,
Bu Natur a hithau'n gariadon yn hir ;
Y caeau, y cloddiau, a'r gerddi mwyn iach,
O'ent werthfawr shop druggist lle'r elai Shân Fach.

Derbyniodd ei haddysg mewn coleg dinam,
Ar aelwyd Tyreithin dan ofal ei mam.
Dwy enwog ddoctores a gadwodd o hyd
Ddirgelwch yr Eli o afael y byd.

'Does heddiw yn aros ond olion o fur
Y gwledig Ysbyty fu'n elyn i gur ;
Y bwthyn, pan gollodd y dyner ei gwedd,
A dorrodd ei galon, a chwympodd i'w fedd.

BEDWYN.

15.—YR ALWAD HEDDYW.

Alaw—" *Gyda'r Wawr.*"

YN sŵn a fflam y Rhyfel, Gymru fwyn, Gymru fwyn,
Y gwnest dy ran aruchel, Gymru fwyn,
A'r holl allorau'n llawnion
O buraf waed dy galon ;
A'th hen gymeriad tirion
Yn dal i gario'i goron, Gymru fwyn, etc.

Ar ôl y gerwin frwydrau, O fy ngwlad, etc.,
Pwy rwyma dy ddoluriau, O fy ngwlad ?
A oes ymysg y bechgyn,
Fu yn trywanu'th delyn,
All edrych arnat wedyn
Ym marw ar y terfyn, O fy ngwlad ?

Chwi fu yng nglyn marwolaeth, Er ei mwyn, etc.
Yn cipio'r fuddugoliaeth, Er ei mwyn :
Mae eto yn eich galw
I gwrdd â gelyn chwerw,
Eich HUNAN ydyw hwnnw,—
A'i goncro'n ail i farw, Er ei mwyn.

GWYLFA.

16.—TOMOS SIORS,—YR HEN HOSIER.

DYMA'R ffetan ar fy nghefen,—
Un *blue* bach cyn mynd ;
Sane glâs a gwyn Swyddffynnon
Sydd yn drwm, fy ffrind.
Cario sane glâs y crochan
Yn Llandysul gadd eu gwau
Sydd yn gofyn un *blue* arall,
Yna, ffrind, *good-bye.*
Rhaid yw cychwyn i Dregaron,
Hendre braf y Gors ;
Yna palu drwy Gwmhwybren
Raid i Tomos Siors ;
Llyn-y-ffrwd ac Esgair-gelli,
Nantystalwyn draw,
Nant-yr-hwch, hen riw fileinig
I fy ngolwg ddaw,
Lawr i Ben-rhydd-fa rhaid teithio
Mae y baich yn drwm :
Heibio Rhys Llancarfan wedyn
Obry yn y cwm ;
Wedi cyrraedd Abergwesyn,
Hyfryd yw'r Grouse Inn ;
Y mae newyn mawr a syched
Arnom erbyn hyn.
Yna landio yn Llanwrtyd,
Yn nhŷ Cati Fach ;
A cheir cysgu trwm am noswaith
Wedi'r daith a'r sach.
O Lanwrtyd heibio'r Gorwydd,
A thros Epynt awn,
I gael spel lle bu Da Bifan
Yn cael Ffynnon lawn.
Yna heibio Ifi'r Hooper,
Dros ryw anial le ;
Ac i Felin Ysgir—fechan
Awn i yfed tê.
I Bontfaen, ac wedi hynny
Teithio i Benoer,
A chyrhaeddwn Aberhonddu
Yng ngoleuni'r lloer.
Eto'n esmwyth am un noswaith
Rhoir y baich i lawr ;
Ond rhaid cychwyn dros y Bannau
Gyda glâs y wawr.
Wedi dringo dros y mynydd
Syched eto ddaw
Hyfryd meddwl bod tafarndy
Storey Arms wrth law.

Ysgawnhau mae'r baich wrth ganfod
Teiau Cefn-y-Coed :
Ac ymlaen yr awn am Ferthyr
Gydag ysgawn droed.
Croesaw deiliwr hoff Pontmorlais,
Dyma Tomos Siors,
Wedi cyrraedd a'i faich sane,
Draw o Hendre'r Gors.
Sane glâs a gwyn Swyddffynnon
Wnaed o wlân di-ail ;
Glâs y Crochan, o Landysul,
Dyna'r lliw a ddeil.
Gwisgwyr sane'r greadigaeth
A ddaw yna 'nghyd ;
Sane glâs a gwyn y Cardi
Geir ar goesau'r byd.

SARNICOL.

17.—Y 'SGUBELL FEDW.

Alaw—" *Pen Rhaw.*"

Y 'SGUBELL fedw gynt a fu
I Gymru'n gelf anhepgor ;
Yng nghwmni'r ffust gwnai orchwyl mawr
Bob dydd ar lawr y 'sgubor ;
Ple bynnag mae mewn bri o hyd
Gwna'r " gynnos ŷd " yn rhagor.

Celf râd o frig y bedw mân
Wna'n lloriau'n lân a gloyw ;
Hi erys yn ei chlod o hyd,
Er dyfais byd a'i dwrw :
Pa le ceir heddiw gyfrwng gwell
Na'r hên ysgubell fedw ?

Fe weithid hon yng Nghymru gynt
Yn dra di helynt, cofier ;
Mewn hwyl wrth dân y gegin dlos
O ddechrau nôs hyd swper,
Gwnai gweision ffermydd, ar fy ngair,
Mewn nôs, o dair i bedair.

A'i chwaer,—disgybles bur ddifeth
Yw'r " wialen bleth " ga'i chuddio
Yng nghorn y simdde uwch y tân
O fawr i fân sy'n cofio,
Am roi ufudd-dod llwyr mewn braw
Wrth awgrym llaw at honno.

OSLWYN.

18.—YR HEN STOL FRWYN.

Alaw—"*Hafod y Wraig Lawen.*"

Yn y bwthyn yn y wlad
A'i dô gwellt y magwyd fi,
Ar hen aelwyd mam a nhad,—
Dyna'n Heden fore ni ;
'Roem yn llond y tŷ o blant,
Ac yn fyw ac iach i gyd,
Nid oedd yn y delyn dant
Wedi torri, gwyn ein byd !
Mam a'n magai, un ac un,
A su-suai serch a swyn
I ni gysgu ar ei glun
Dan su-siglo'r hen stôl frwyn.

Saif y bwthyn gwyn o hyd,
Ond yr aelwyd, nid yw'r un,—
Mae y plant ar hyd y byd,
A 'nhad huna'i olaf hûn
O dan ywen Llan y plwy,—
Y mae tant yn awr ar goll,
Nid yw'r cylch yn gyfan mwy
Ond yn ein croesawu oll.
'Nôl i'r aelwyd, un ac un,
Y mae mam o hyd, yn fwyn
Ac yn serchog fel ei hun
Sigla, sigla'r hen stôl frwyn.

Ap Ceredigion.

CERDDI YCHWANEGOL.

1.—Y DURYN.

Alaw—"*Mae Robin yn Swil.*"

Pensmociwr Glan Aeron flynyddoedd yn ôl,
Ym marn pawb ymhobman oedd Jac Coty'r ddôl ;
I danio ei bibell mewn hindda neu law,
Fe gadwai, yn wastad, *ei dduryn wrth law.*

Bryd hynny, anaml oedd *matches* yn bod,
A'r *modern pipe-lighter* oedd eto heb ddod ;
Ond Jac daniai'i bibell â'i lludw yn hawdd,
Os cai recsyn, a fflinten, *a duryn, a chlawdd.*

'Rôl tempri ei recsyn yng ngheudod ei law
Drwy'i rwbio'n y lludw rhyw wyth tro neu naw,
Gwnai'i ddal wrth y fflinten rhwng deufys, neu'n nes,
I'w taro â'r duryn, *a'r rhecsyn ai'n rhes.*

Os na fyddai rhecsyn i'w gael, pan mewn brys,
O *lining* ei wasgod neu gornel ei grys
Fe dorrai ddarn bychan,—o herwydd 'roedd Jac,
Ym myd yr ysmociwr *i'r lan a phob cnac.*

Neco.

2.—HYSBLOG Y PENTRE.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Hi oedd gorsaf fach y Pentre,
A heolydd lawer cantre
Ati'n troi eu trwynau hirion,
Ac yn arllwys eu trigolion.
Cydgan—Ffrind ceffylau slawer dydd,
Orsaf fach y trenau rhydd,
Mawr y llwytho a'r dadlwytho
A fu arnat slawer dydd.

Dim ond pedair gris o feini
A'r ceffylau mwyaf heini
Ati'n troi yn ufudd weision,
Megis trenau'n dod i'r Stesion.

Pan ddoi'r henwr ar anifail
Tua'r siop a thua'r Efail,
Troi i'r Hysblog oedd y drefen
I fynd adref ar ei gefen.

Gyrrai nain ar geffyl dwylath
Tua'r Cwrdd bob bore Saboth,
A disgynnai ar yr Hysblog
Oddi ar y cyfrwy corniog.



Y Parch. DAN EVANS, D.D.
[*Tudalen 108*]



Y Parch. DAVID ADAMS, D.D. (Hawen)
[*Tudalen 105*]

Gwedi'r Oedfa byddai'n fuan
Eilwaith ar yr Hysblog lydan,
Ac ar gefn ei cheffyl nerthol
Gydag untroed yn y warthol.

Gorau ceffyl,—ceffyl hyfol
Pan fo'r Gof yn hoelio pedol,
Wrth yr Hysblog—rhoi ei gefen,
Neu fe'i gwerthid—dyna'r drefen.

GWILYM MYRDDIN.

3.—Y FFALD.

Y Gainc—"*Nos Galan.*"

Clywais gan yr hen fugeiliaid
Sydd yn gwylio'r praidd a'r defaid
Ar fynyddoedd geirwon Gwalia
Am rai troeon digon smala.

Codai'r bugail gyda'r wawrddydd,
Ai ar frys i ben y mynydd,
Gyrrai'r defaid i'r pen pella
Dros y ffin i gadw'r *hysfa*.

Dau neu dri o gŵn oedd ganddo, —
Ci i ddal a chŵn i *gwrso*,
Gwyddant hwy eu gwaith *o'r gore*
Hel ym mhell, yn oriau'r bore.

Llawer dafad tra yn pori
Wedi crwydro aeth i golli,
Ac er cuddio'n nghilfach dywell
Gaed yn ôl i'w hen ddeadell.

Yn y lloc ar ddiwrnod golchi
Ceid rhai defaid heb eu nodi ;
Ffwrdd i'r ffald a'r rhai diarddel
Dan law'r bidl yn ddiogel.

Ethol llys o ddeuddeg Jiwri
I roi cyfrif i'w Fawrhydi,
Prisio'r eiddo yn rhesymol
Oedd eu harfer hwy, fel rheol.

Holai Stiwart llym y Faenor
Yn dra ffyrnig yr Offeror,
Haerai hwnnw nad oedd rhinwedd
Mewn hen ddafad heb ddim dannedd.

Holai eilwaith am y cnufyn
Ond doedd hwnnw ddim ond cydyn
Wedi colli'r oll fu arni
Yn y drain neu rhwng y drysi.

Rhaid oedd talu at y *Westfa*,
Talu ddwywaith i'r *cymhortha*,
Oes, mae costau anghyffredin
Fyth am gynnal Ffald y Brenin.

Os gofynnwn i'r bugeiliaid
Sut yr edwyn hwy eu defaid,
Hwy ddywedant yn ddiamau
Nad yw'n anodd nabod nodau.

Carrai step, a bwlch tri thoriad,
Picwarch fer a stwmp neu fachiad,
Torri'r bla'n a bwlch a grisiau
Ydyw enwau rhai o'r nodau.

Hollti'n dair gan rai'n arferol
Canwer twll a sciw neu wennol,
Torri ar y dde neu aswy
Ydyw nodau praidd y Cymry.

Rhowch i'r Sais ei silc a'i satin,
Rhowch ei bais i bob Ysgotyn,
Rhowch i minnau'n werth ei brynu,
Frethyn cartre—gwlanen Cymru.

AP LEWIS.

4.—CARU'N GWLAD.

Y Dôn—"*Cwm Rhondda.*"

CARAF i hen wlad fy nhadau ;
Cariad cywir un o'i phlant ;
O'r Eryri draw i'r Bannau
Caraf hi bob bryn a phant ;
Câr fy nghalon
Holl lanerchau Cymru Wen.

Mwynaf iaith yw iaith y Cymro,
Myrdd trysorau sy'n ei llên ;
Nid a'i rhamant fyth yn ango,
Nid a'i hemyn fyth yn hen ;
Câr fy nghalon
Acen bêr yr hen Gymraeg.

Caraf ddefion hoff fy Ngwalia,
Caraf fyth ei cherdd a'i chân,
Ei Heisteddfod a'i Chymanfa,
Gydai' themlau gwynion glân ;
Câr fy nghalon
Foli a byw yng Nghymru fach.

BEN DAVIES [Pan-teg].

[O "Gerddi ac Emynau" Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg—trwy ganiatad].

5.—RHYFELGAN CYMRU NEWYDD.

Alaw—"*Rhyfelgyrch Capten Morgan.*"

Clywch, clywch y cyffro sydd rhwng bryniau'n gwlad
Cymru sy'n galw'r plant i'r gâd,
Chwifiwn ein Dreigiau yn awelon hedd,
Brwydrwn heb ddeffro'r gwaedlyd gledd :
Os aeth seren Cymru fach i lawr,
Mae ei hwyneb eto tua'r wawr ;
Gymru annwyl ! na foed heddiw un
Wrthyd daro'n ddewr dros ei wlad ei hun.

Hen iaith y Brython ymgeleddwn hi,
Iaith gysegredig yw i ni ;
Lledwn ei baner ar bob bryn a phant,
Plannwn ei geiriau'n serch ein plant :
Ffaglwn goelcerth y Frythoniaith lân
Ar aelwydydd cynnes "Gwlad y Gân" ;
Ym mhob calon cadwn hi yn fyw,
Bendigedig iaith "Gwlad y Bryniau" yw.

Nid yw ein dewrion yn eu beddau'n fud
Clyw'r galon wlatgar hwy o hyd ;
Gloywn ein harfau ar eu beddau hwy
Teilwng o'u glewder fyddwn mwy
Bywyd newydd angherddola'r tân
Ar yr hen allorau'n Nghymru lân ;
Gwlad y dewrion, bendith ar ei phen,
Cadwn ninnau hi yn hen Walia Wen.

Brynfab.

[O "Gerddi ac Emynau" Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg—trwy ganiatad.]

6.—Y BWTH TO GWELLT.

Y Gainc—"*Mae Robin yn swil.*"

Ar ddyffryn hardd Aeron mae'n bwthyn bach ni,
A *Thames* sydd yn rhedeg wrth dalcen y tŷ :
Mae'n nesu dan sisial i Aeron môr dlws,
O dan bont fach Llundain gyferbyn a'r drws.
Ar waelod y fro
Mae'r bwthyn tŷ tô
Ar ddyffryn hardd Aeron
Mae'r bwthyn tŷ tô.

Anfynych wrth deithio dros ben y bont hyn
Ceir gweled wrth groesi, yr un ceffyl gwyn ;
'Does fawr o sŵn teithio i'w glywed ar hon,
Dim ond ambell hogyn, sy'n whiban yn llon.
Ar waelod y fro.

Mewn bwthyn bach gwelltog fan yma rwy'n byw,
Mewn iorwg o'r golwg 'run fath a nyth dryw,
A'i fur fel nyth gwennol, a wnaethpwyd o glai,
Llawn digon o annedd i'n cynnwys ni'n dau.
Ar waelod y fro.

Fe byncia yr adar o'i amgylch yn llu,
Ac o môr berseiniol a swynol eu twi,
Tywynna yr heulwen mo'r fore fan hyn
Ag ar unrhyw balas a welir trwy'r glyn.
Ar waelod y fro.

Dwy waith bob diwrnod i'r bwthyn dinod,
A phob math ar newydd mae'r postman yn dod ;
Gwyr Caron a Cheitho, eu gweled a gâf
Wrth fyned a dyfod i'r môr dymor hâf.
Ar waelod y fro.

Pan fyddo'r ystorom yn rhuo'n ein plith,
Hên dderwen ganghennog gysgoda y nyth,
Hi leda ei breichiau o'n hamgylch mor glyd—
'Does fwthyn mwy diogel na hwn yn y byd.
Ar waelod y fro.

Mi deithiais i Gymru ar hyd ac ar groes,
Ond dyma lle hoffwn gael gorffen fy oes :
Pan roddir Llwyd Llunden i orffwys mewn gro,
Mi garai gael myned o'r bwthyn tŷ tô.
Ar waelod y fro.

Llwyd Llunden.

Trech na chyfraith, trech nag arfau,
Trech na phopeth gân a thannau,
D'weded ef amheuo hynny,
P'odd mae'n fyw hên delyn Cymru ?

7.—'SLAWER DYDD.

Alaw—"*Hela'r Sgyfarnog.*"

Corn y fedel ddydd cynhaeaf !
Clywwch oslef y Corn Hir !
Geilw'r Fforman ar y fedel
Gyda'r wawr i ddod i'r tir :
Ond melysach gennyf elwch
Cyrnau byrion buwch neu hwrdd,—
Pan y byddo rhain yn galw,
Bydd y cinio ar y bwrdd.

Rwyf yn cofio gweled ambell
Fiwgl melyn tlws a chrwn—
Tebyg oedd i sarff felyndorch
[Llefydd cefnog oedd a hwn] :
Pw ! yr utgyrn ar y meysydd
Dynnai ato bawb o draw,
Dros y cloddiau 'nglas y bore,
A'r crymanau yn ei llaw.

Gyda'r wawrddydd pan y canai
Brathu nghalon wnai ei sŵn,
Ac fe elai trwy fy nghlustiau
Megis udo lleddf y cŵn ;
Ond pan alwai adre i ginio
Swynol ydoedd ei bŵ pŵ,
A'r holl fedel fawr yn chwerthin—
Chwarddwn innau gyda nhw.

Distaw ydyw yr hen utgyrn,
Ni adseiniant trwy y fro ;
Hwrr peiriannau glywir mwyach,—
Rhyda'r cryman dan y to ;
Heddiw nid oes eisiau utgyrn
Er cael medel fawr ynghyd,
Fory, ni fydd un a fedra
Daflu cryman am yr ŷd.

Gwarnant.

8.—SAWEL ACADEMI.

Yr ysgol hên ar lan y lli*1,
A'r meirw llonydd am y mur,*2
Ond tyrfa fyw sydd ynddi hi,
Ar riniog oes—â'r fron ddigur.

Mae llwydni henaint ar y tŷ,
A'r ffenest fach yn llwyd ddi-wên,
Ond nwyfiant ifanc ynddo sy'
Fel newydd win mewn costrel hên.

Y Proffwyd Jona*3 ger y tân
Â Groeg a Lladin ar ei fin—
Ei sisial mwyn a'i wyneb glân
A'r bechgyn oll mor hawdd i'w trin !

Mae gwasg blynyddoedd ar y tô,
Daw ambell ddarn o'r nen i lawr,
Ac yn yr hollt ar ambell dro—
Mae wyneb rhyw ysgolor mawr.

Wrth gofio'r "ysgol" llwyd ei gwedd—
Y dysgu brwd, a'r chwarae iach—
A llawer bywyd—llawer bedd—
Rhaid gwenu—ac wylo deigryn bach.

Llundain. Ben Davies.

(Un o blant yr ysgol hon yn 1885.)

---

* (1) Llifai nant heibio'r Ysgoldy.
* (2) O'r ochr arall iddo yr oedd mynwent yr Eglwys.
* (3) Y Parch. Jonah Evans,—Yr Athro (1836—1896).

CYFRES CRWYDRIAID GWLAD.

TIM PENPONTBREN.

Alaw—"*Just before the battle mother.*"

Mae yr hen gyfeillion hynod
Hoffem weld yn dod i'r tŷ,
Wedi myned oll i'w beddrod,
Ond eu cofio wnawn yn gu :
Yn eu plith 'roedd Tim Penpontbren
Sydd ers talm yng ngwlad yr hedd :
Dan ei gesail ei ddwy glocsen
Gariai'n dyner hyd ei fedd.

Cytgan—
" Rwyf yn cadw'r clocs bach yma "
Meddai, " nes yr af i bant
Lle ni flina rhew nac eira
A chaf ganu gyda'r plant."

Troednoeth, coesnoeth, ym mhob tywydd
Elai ar ei daith o hyd,
Fyth yn diolch, fyth yn ddedwydd
Er tyloted oedd ei fyd ;
Rhoddai hanes digwyddiadau
Yr holl sir, o ben i ben ;
A gwnai goffa am rinweddau
Pawb a elai hwnt i'r llen.

Cytgan—
" Rwyf yn cadw'r clocs bach yma,"
Meddai, " nes yr af i bant,
Lle ni flina rhew nac eira
A chaf ganu gyda'r plant."

Pawb yn serchog a'i croesawai
Fel yr ai o blwy' i blwy' ;
Yr *un* dalent a feddiannai
Geisiai'n ddyfal wneud yn *ddwy*.
Pan ei gorff mewn dae'r osodwyd
Ac na welwyd mwy mo'i wedd,
Llawer deigryn hiraeth gollwyd
Gan y plant ar fin ei fedd.

Cytgan—
Gadael wnaeth ei glocs bach yma
Pan yr aeth ryw ddydd i bant,
Uwch cyrhaeddyd rhew ac eira,
Lle mae'n canu gyda'r plant.

E. Ceredig Jones.

DEIO'R ENWYN.

Alaw—"*Lili Lon.*"

Unwaith yn yr haf bob blwyddyn
Y caem weled Deio'r Enwyn,
Pan yr elai i Landdewi (Aberarth)
Gyda'r gentris i ymdrochi.

Cytgan—
Hen fab unig ydoedd Dai,
Hen fab unig ydoedd Dai,
Am na cha'dd amgeledd gymwys
Arno ef ei hun bu'r bai.

Cofiwn Dai yn ŵr tra gwisgi,
Tal a main, a'i wâr yn crymu,—
Gwallt ei ben gan oed yn britho
A'i ddwy locsen las yn matsho.

Ar ei daith fe wisgai'n wastad
Ddillad clyd o " wlân du'r ddafad ",
Het Jim Crow ei ben addurnai ;
Yn ei law ffon onnen gariai.

Nid yw'n od ei fod yn henlanc—
Ni wnai edrych ar ferch ifanc ;
Pan y byddai un yn pasio
Troai'i gefn nes elai heibio.

Megis llu o feibion Adda,
Colli wnaeth ei gariad cynta' ;
Wedi caru ugain mlynedd
Dim priodas yn y diwedd !

Wedi cael ei siomi'n galed,
Nid ai mwy i gwmni merched ;
Gwell oedd ganddo fyw yn fynach
Na chael siawns o brofiad chwerwach.

Rhwng Cwm Twrch a môr Llanddewi,
Mynych iawn 'roedd Dai'n sychedu,
Bob dwy filltir byddai'n gofyn
Am ddŵr berw neu la'th enwyn.

Pan yn nesu at dŷ annedd
Fe chwibanai drwy ei fysedd,
Fel y trên pan bo yn dyfod
Tua'r *station*, mewn awdurdod.

DYFED
[*Tudalen 105*]

LLEW TEGID
[*Tudalen 103*]

Y BWTH TO GWELLT

[*Tudalen 98*]



HIRFAEN GWYDDOG

(HYNAFIAETHAU PLWYF LLANYCRWYS)

Owns o dê a phound o siwgwr
Ddygai ar ei daith yn swcwr ;
Fe gai laeth a bara 'menyn
Gan y gwragedd heb eu gofyn.

Gyda gofal pan ymdrochai,
Mewn dŵr bâs yn llonydd safai,
Fel rhyw grychydd mawr yn spio
Am lysywen dew i ginio.

Fe ddywedodd, un diwrnod
Wrth *first-mate*, y carai wybod,
B'le cai'r morwyr eu cynhaliaeth
Gan eu bod yn foys mor helaeth.

Dwedai'r *mate* yn foesgar ddigon
" Am ein gwaith cawn dâl yn brydlon,—
Yn gapteniaid, *mates* a morwyr,
'Nôl ein gwaith pob un a delir."

" Pan yr af mewn cwch bach teidi
Gyda Deio Parcybeili,
Ni chaf ddimai, ond mae'n chargio
Grot neu ragor am fy nghario."

Fe aeth un Gorffennaf heibio
Heb in' weled wyneb Deio ;
Ond fe glywsom cyn pen blwyddyn
Fod ei gorff ym mhridd y dyffryn.

Uwch ei feddrod boed i'r awel
Ganu cerdd o glodydd uchel,
A chofnodi ei rinweddau
Yn oleuni ar ein llwybrau.

Cytgan—

Hen fab unig ydoedd Dai,
Hen fab unig ydoedd Dai,
Gadael wnaeth ofidiau'r ddaear,
Am lawenydd pur didrai.

E. Ceredig Jones.

DAI LIW.

Adroddiad.

Wele ŵr a phecyn symyl
Yn dynesu dros y rhiw,
Byrr ei gam a'i sang yn gadarn—
Dod ar gylchdro mae Dai Liw ;
Wedi masnach fawr ar binnau
Glân pob pibell, sicr pob sach,
Ac yn rhinwedd hyd ei nwyddau
Herio'r gwynt wna'r Siolau bach.

Cofir ef am ei ddawn eithriadol
Pan eisteddai wrth fwrdd tê,
Deg a phedwar llond ei gwpan
Yfai ef heb ddim o'i le,
Dywed hen ddiareb ddiod
" Ar ôl yfed syched sy ",
Ond gorchestwaith Dai oedd torri
Bwa enfawr dros ben tŷ.

Gŵr cyfarwydd iawn a'i Feibil,
Yn ddiwinydd tŷn ei sgwrs,
Er nad oedd yn ŵr deg talent
Llawnach oedd ei ben na'i bwrs,
Ac er clod i'r gŵr diniwed
O Lanwenog a Thalsarn,
Cofier iddo gyrchu ganwaith
Orsedd gras cyn gorsedd barn.

Rheinallt.

DEIO LANDUDOCH.

Adroddiad.

Arwr hen y wasgod lewys,
Gwisg melfared fel yr ôd,
Dacw fe ar heol Llanbed
Gweithdy Shaci'r Crydd ei nôd,
Shaci roddai fin i'w ellyn,
Yna'n union elai'r gŵr
I gael shâvo yng Nghwmrodyn
Wedi'i Hannah ferwi'r dŵr.

Drannoeth ai i'w daith yn fore,
Trwm ei sang mewn pâr o glocs,
A rhyw bentwr o faledau
Gariai'n ddiddos yn ei focs ;
" Dai Bocs Coch " ei enw gorsedd,
Coch ei focs a choch ei sain,
Ond 'roedd mynd ar ei ganeuon
Dim ond enwi'r " Bachgen Main ".

Pwy nas carai glywed eto,
" Deio Bach " gan Ddeio Mawr,
Gweld " Y Ferch o blwyf Penderyn "
Yn dod mas o enau'r cawr,
Gwrando gŵr mewn dillad gwynion
Yn clodfori'r " Blotyn Du "
Ond mae'r hen faledwr ffyddlon
Heddiw'n huno gyda'r llu.

Rheinallt.

MORUS Y SWEEP.

Y Gainc—" Mae Robin yn Swil."

Ai Morus o amgylch dan gludo ei bac,
Fe regai fel giach pan fyddai yn grac,
A phwy fu yn 'sgubo simneiau 'sgwn i
Fu'n lân ei wefusau *a'i wyneb mor ddu.*

Fe ddywed Kate Roberts mewn stori reit dda,
Os byddai i ungwr ar aeaf neu ha'
Roi modrwy 'n nhrwyn mochyn heb godi ei lef
Na cholli ei dymer—*gŵr perffaith fai ef.*

Maddeuer i Morus fod llw ar ei fin,
Gan hogiau direidus fe'i temtiwyd yn flin,
Ag ef yn y simnai cynneuent fawr dân
A'r sgubwr yn dianc *drwy'r nen megis brân.*

Yn ffatri Cwmcafan c'ai orffwys yn glyd
Ac yn Rhydypandy 'roedd croesaw bob pryd,
'Rôl cronni o'r tropas hyd enau y cŵd,
Ar fuarth Trecefel *ai'n fargen go frwd.*

Bu arw ei helynt wrth ymladd rhyw gawr,
Bu agos i hwnnw ei daflu i lawr
Dros ganllaw Pont Menai i'r tonnau dihedd
A'r weithred esbonia *ei " atal " hyd fedd.*

Ymdroi yn yr huddigl fu tynged 'rhen frawd,
Ond nid oedd ei galon cyn ddued a'i gnawd,
A chlod i'r Goruchaf, daeth gwawr cyn yr hwyr
Yn nhân y diwygiad *fe'i purwyd yn llwyr.*

RHEINALLT.

YR HEN SOLWR TEITHIOL.

Adroddiad.

Gŵr teilwng o'i gofio oedd Dafydd Bryncrach,
Arweinydd Cerddorol, y gorau o'i ach,
Drwy fedr diamau y dyddiau a fu,
Fe gododd yr Emyn a'r Anthem i fri.

Unionsyth ei berson mewn côt gynffon hir,
Ymwelai â chorau ym mhob rhan o'r sir,
Ac ni welwyd undyn o'r Fannog i'r môr
Ym medru perffeithiach disgyblaeth ar gôr.

Fe swniai ei seinfforch drwy daro'i benlin,
A chodai hi wedyn i'w rhoi wrth ei fin ;
Y cywair i'r *treble* a fwriai i'r glas,
Ond plygai fel enfys at nodyn y Bâs.

Pob cantor i sefyll yn syth " fel cas cloc "
Ag ef yn y canol yn arwain Dic Doc,
Y côr oedd i ddechrau " fel ergyd o ddrŷll ",
A gorffen yn feinflaen " fel dellten o gŷll ".

I'w daith fore Llun gyda'i becyn a'i ffon
Ai Dafydd yn gyson a chân dan ei fron,
Er mesur milltiroedd yn nerth ei ddwy droed,
'Roedd Dafydd yn brydlon yn cyrraedd i'r oed.

Wrth fynd i Landdeusant bu helynt rhyw dro,
Heb bont dros y Tywi yn cydio'r ddwy fro,
I drechu'r anhawster, fe groesodd y gŵr
A'i draed tan ei gesail a'i goesau'n y dŵr.

Er tyfu o'r eithin hyd drothwy ei ddôr
Diofal oedd Dafydd—a'i fryd ar ei gôr,
Os bu yn esgeulus o'r aradr a'r had
Rhoes gân ar wefusau ieuenctid ei wlad.

Chwi wŷr gogledd Myrddin, o barch i'w goffâd
Trosglwyddwch ei enw yn wresog i'ch hâd,
Er huno o'r cerddor tan gysgod yr Yw,
Mae'r ffrwyth ar ei ganfed a'r gân eto'n fyw.

RHEINALLT.

YR HEN BEDLER.

Adroddiad.

Pwy welir ar y tyle
Yn cludo'i faich mor fore
Heb gymorth olwyn, mul na chart ?
John Edwart o Nantcwnlle.

" Beth ydych chwi yn werthu
John Edwart," meddai Mali,
" Cyllyll, cribe, fawr a mân,
Sisyrnau glân a llestri."

" Pedyll at wneud pwdin
A dysglau at y Roundin,
Padell ffrio heb ei threch,
Hi rostia chwech 'sgadenyn."

Fel hyn ai John o gwmpas
Gan werthu nwyddau addas,
Ei air yn ddeddf, a'i bris yr un
Mewn bwthyn, fferm a phalas.

I'r Ysgol Sul bu'n ffyddlon,
Roedd bri ar ei atebion,
Ac Abermeurig gofia'n hir
Am bedler oedd wir Gristion.

RHEINALLT.

WIL PLWY.

Y Gainc—" Mae Robin yn Swil."

Nid oedd er ei enw yn byw ar y Plwy,
Mwy cywir fuasai ei alw'n Wil Pwy ?
Gwas amaeth oedd, hoffai yn aml newid lle,
Rhaid felly mai'r Plwy oedd *yn byw arno fe.*

Bu ddigrif ei gastiau yn nydd cyrchu glo,
Un cyflym i ddal ar ei gyfle oedd o,
Hen fritis arbennig a gariai dros ben,
O'i ôl nid oedd peran *nac afal ar bren.*

Yng ngwallt y cawr Samson 'roedd cuddiad ei nerth
Ond nid oedd i hwn yr un cudyn o werth,
Dyweder a fynner am wallt Wil a'i dw'
Un blewog ei ddwylo *oedd ef medde nhw.*

Cof am ei wrhydri sy'n frwd yn ei fro,
Fe gariodd ei aradr i efail y go'
Am bellter dwy filltir heb fulyn na men,
Mae'n rhaid fod ei gorpws *yn gryfach na'i ben.*

Pan ddaeth y diwrnod i hebrwng 'rhen ffrind
Does neb yn rhy siwr ble 'roedd Wil wedi mynd,
Ond soniodd y Person wrth agor y rhôl
Am law ar yr aradr *heb edrych yn ôl.*

RHEINALLT.

COFFA.

" BARLWYDON."

Wylai Barddas o'i chalon,—heb wyneb
Ei hawenydd tirion ;
Drwy ei braw dyry i'w bron
Berlau hudol Barlwydon.

PEDROG.

" BERW."

Swynwr tant y synnwyr têr—a phurddoeth,
Â'i gyffyrddiad tyner ;
Ceiniai bwnc â'i awen bêr,
Oedd brifardd heb air ofer.

PEDROG.

" LLEW TEGID."

O ! orhoenus Arweinydd—yr Henwyl,
Rhiniwr ei llawenydd :
Chwithdod o'i feddrod a fydd,—
Mae'r Llew annwyl mor llonydd !

PEDROG.

" CADWGAN."

Llyfr a chwrdd, llafur a chân—fu ei fywyd,
Fu'i wynfäoedd diddan ;
Mawr ei lwydd : dros Gymru lân
Mynnai'i offrymu'i hunan.

CENECH.

" EIRWYN."

Wedi'r ing fu'n llwydo'r wedd,—a'r canu
'Nrycinoedd unigedd,
Eirwyn ga'dd le i orwedd,
A'i awen lân dan wawl hedd.

CENECH.

" MICHAEL THOMAS."

Dan gangen lâs y gwelais ei fedd
Ar ochr y ffordd i'r fynwent hen,
'Rôl bywyd diwyd a hoffi hedd
A charu ei wlad, ei hiaith, a'i llên.
Yn ei wely oer, mor dawel ei hun
A'r llwybrau yn wâg ger y coed a'r ddôl,
A'r awen yn wylo ar bob un
Fel yn ei ddisgwyl i ddyfod yn ôl.

BEN DAVIES, [*Pant-teg*].

" GWYDDERIG."

Fardd annwyl : ddifyr ddoniau,—hael luniwr
Yr englynion gorau,
Ym miri oes rhaid mawrhau
Gwydderig a'i gudd eiriau.

Ben Davies, [*Pant-teg*].

" PENFRO."

Awenydd mwyn a swynol,—ei odlau
A'u hadlais eneiniol,
Heddiw'n wir a ddaw yn ôl
O gaer ffun y gorffennol.

Isfryn.

" EIFION WYN."

Ffefryn gwlad, ymado,—dyna wnaeth
I dynnu'n nes ato ;
Mwy, ni phaid ei enaid o
A'i gu lais i'n gogleisio.

Isfryn.

" DEWI MEDI."

Cau amrant Salmydd Cymru—gwneud yn fud
Genad nef, a'i ganu :
Cloi isod oracl Iesu,
Heb ado'i fath,—enbyd fu.

Gwylfa.

" BETHEL."

Tawel oedd Bethel y bardd ;—gŵr o bwyll,
Yn ysgoi'r byd anhardd ;
A hynt ddifrif y Prifardd,
Dydd a nos ydoedd yn hardd.

Gwylfa.

" Trydydd troed i hen, ei ffon."

" GWYROSYDD."

Awenydd byw'r Mynyddbach
A'i flesyn pwy'n felysach ?
A'i lein lwys i " Galon Lân "
Ar gôf gan Gymru gyfan.

Lewys Dafydd.

" Profais ni fethais yn faith,
O brif ieithoedd braf wythiaith :
Ni phrofais dan ffurfafen,
Gwe mor gaeth a'r Gymraeg wèn."

Edmwnd Prys.

" Gorau cannwyll pwyll i ddyn."

CASTELL HYWEL.

Yn ddolennog rhwng gwyrdd lannau
Y cyniwair Cletwr Fach ;
I ororau Meini Gwynion
Yn ei nwyf mae'n canu'n iach.
Llon ei hwyl rhwng llwyni helyg
Dawnsia beunydd ar ei hynt
Fyth mor ieuanc ag yn nyddiau
Hywel a'i farchogion gynt.

Fu'r awenol ŵr o Wynedd
Mewn " gorhoffedd " ger ei thòn
" Wen orewyn " ? Fu ei delyn
Gynt yn atsain miwsig hon ?
Pery nwyfiant awen Hywel
Wedi'r oesoedd brochus fâr,
Ond dros olion gwelw ei gastell
Wele'r ôg yn chwalu'r âr.

Telyn Dewi a glybuwyd
Yma'n canu'n felys-glaf
Hyd y glannau diog-lonydd
Pan lesmeiriai hwyr o haf.
Ei bêr gerdd hyd lwybrau gwyrddion
Gynt a grwydrai fryn a gwaun
Rhwng aur eithin Bwlch-y-Fadfa,
A than wyngyll Allt-y-Maen.

" Ar oer arffed dae'r i orffwys "
Dewi a " ddodwys bwys ei ben " ;
Ond mae Cletwr Fach yn murmur
Cerdd dros lawer carreg wen.
" Dawn a dwylaw diwnai delyn "
Sydd yn llonydd yn y gro ;
Hithau'r delyn sydd ar helyg
Llwyd ei hen werinol fro.

Gwae dy galon, Geredigion,
Pan nad erys un o âch
Bonedd awen, beunydd ieuanc,
It' yn Nyffryn Cletwr Fach.

Sarnicol.

J. M. HOWELL, Aberaeron
[*Tudalen 109*]



T. J. EVANS, Llundain
[*Tudalen 107*]



LLWYD Y PANT
[*Tudalen 148*]



BEN EVANS, Brithdir
[*Tudalen 106*]

DYFED.

Di-ail yw ei awdl a'i waith—yn dwyn nôd
Awen wir a pherffaith,
Awenydd a'i gywreinwaith,
A'i emyn o'n emau'n hiaith.

Ap Ceredigion.

JOHN HUMPHREYS DAVIES [J.H.].

Prif Athro Coleg y Brifysgol, Aberystwyth

[1919—1926].

Wele wyneb annwyl inni—a gŵr
Garodd wlad ei eni :
Carodd wres ei hanes hi,
A chwarddodd gyda'i cherddi.

Mae Gwalia'n sôn am dano—a rhaid mynd
I Gwrtmawr i gofio
Helynt dêg ei dalent o—
Ganwyd un enwog yno.

Bedwyn.

EDWARD JENKIN DAVIES.

Lonnaf frawd, af i'w lân fro—a heibio
Llety-Cybi rywdro,
Swynol f'ai aros yno
Ennyd fer i'w wrando fo.

Canu a fu ei fywyd,—a'n denu
A dawn ei lon ysbryd ;
Heddiw cerddi Dedwyddyd
A gân efe—Gwyn ei Fyd.

Gwilym Aeron.

COFFA'R " DERYN DU ".

Dyn fu'n ei flodau'n fwynaf weledydd,
A difyr gerddor hyd farrug hwyrddydd ;
Dibryder enaid, a brwd arweinydd,
A'i holl ddigrifwch yn llwydd ei grefydd ;
Di-ofid fu cân Dafydd—hyd y glyn,
A chlir ei delyn uwchlaw'r dialydd.

Sam Griffiths.

MARY KATHERINE GWENDOLEN DAVIES.

We honour her who, with all valour girt,
Went forth to battle, not to wound and slay,
But with a woman's hand ill to allay,
Hurting herself to heal her brother's hurt.

Wil Ifan.

JOHN THOMAS, Llanwrtyd.

[1840—1921].

Tywysog moliant Iesu—noswyliodd
Hynaws eilun Cymru ;
Sant llednais di-falais fu,
A'i ddofn gynneddf yn ganu.

Dyfed.

THOMAS JOHN EVANS [T.J.].

Y Gainc—" *Dafydd y Garreg Wen.*"

" Yn ôl i'm cynefin dychwelaf," medd ef,
" O hynt y blynyddoedd, yn ôl tua thref."
Yn hendre'i ieuenctid i orwedd fe'i rhoed
Lle llifa Ffrwd Cynon dan gysgod y coed.

Fe gafodd i'w ddyddiau bob mwynder y sy'
Ym mro ei gyndadau a chof am a fu ;
A Chymru a'i hanes a'i harwyr a'i chân
A'i cheinder fu'n llanw'i freuddwydion achlân.

A'i holl garedigion o Fynwy i Fôn
A'i hebryngodd i hendre hen deulu Tynlôn,
I'r fro sydd yn huno drwy'r oesau di-nwyd
Dan gysgod Caer Forys a Moel Rhydderchlwyd.

Heb lyfyr na memrwn na'r mwynder a fu
Yn ôl daeth y llenor i uno a'r llu
Sy'n rhwymau mudandod yn huno'n ddi-oed
Lle llifa Ffrwd Cynon dan gysgod y coed.

G. J. Williams.

" HAWEN."

Yn fore y llafuriodd,—a'i aidd oll
I'w ddiwylliant blygodd ;
Ei nerth i'w grefydd grynhôdd,
A'r gwir yn gywir garodd.

Elfed.

JOHN JONES, Llyfrwerthwr, Aberaeron.

"Jones Bach y Cantwr" gwrol!—o'i lafur
Caed lefain effeithiol;
Drwy'r Solfa, daeth Ha' o'i hôl,
A'r gerdd mewn bri angherddol.

Athro trylen,—awenydd,—a'i ddenol
Fyw ddawn fel arweinydd,
Gyffrodd wlad ar doriad dydd—
A'i chwynnu er ei chynnydd.

John Humphreys Griffiths.

BEN EVANS.

Cymeriad merth fel *Arwerthwr*,—oedd "*Ben*",
Nawdd i bawb, boneddwr;
A phennaf amddiffynnwr
Ar y Fainc, cywiraf ŵr!

Hwn i'w Swydd oedd fwy na'i Sir,—wyla byd,
Ar ôl "*Ben-y-Brithtir*"!
Da was hael, hyd oesau hir,
Yn ei *Walia* anwylir!

"Gwernogle."

"Cyrn byr i'r eidion barus
A gallu bach i'r drwg ei 'wyllys."

"GRANELLIAN."

Gŵyl ydoedd, unig wladwr—yn coledd
Encilion di-ddwndwr,
Gwir awenog werinwr
Odlai gân i dawel gwrr.

I dawel gwrr odlai gân—fer, anaml
Yn ei fryniog drigfan;
Euraidd glod hen froydd glân
A enillodd Granellian.

Sarnicol.

"BRYNACH."

Meistr fu ym maes tyrfaoedd—anwylodd
Hen Walia a'i gwleddoedd;
Noddwr llên, a'i awen oedd
Yn aur delyn ardaloedd.

Rheinallt.

"GWYNEDD."

"Gwynedd" frwd ganodd i "fraint—a defod,"
Y dyfal ŵr cywraint;
Gwladgarwr gludai'i geraint
A gwir sêl i gôr y saint.

Daw o'i hanes dihenydd—i'r Eglwys
Aroglau gwir grefydd;
A choron serch arian sydd
Ar lif aur ei leferydd.

Bryfdir.

"MAIR LLAMBED."

Y Gainc—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Mae'r henfro dan wanwyn a haf yn ei tro,
A Dulais a Theifi'n priodi ar ro,
A'i difod y gyneddf a diddim y ddawn
A wybu orfoledd y frodir mor llawn.

A gollwyd y golau a gedwid yng nghyn
Gan loywder doethineb yn nhymestl y glyn,
A'r praffder a safodd tros lendid heb grŷn
Na ŵyrodd nes gŵyro yn angau ei hun?

Oni welsom d'athrylith yn wrid ac yn dân
Drwy'r corffyn a gefaist? nid pridd oedd dy gân,
Na daear a'th fwydai,—fe'th gollodd yn llwyr,
A chenaist o'i gafael am byth ryw fin hwyr.

Eirug.

"DEWI MON."

Gŵr hardd a garai urddas,—a'i ddirnad
Addurnodd lên barddas;
Swyn ei farf fu'n gymwynas,
A'i ddawn gref fu'n foddion gras.

D. Miall Edwards.

Ar ber iaith henfro'r Brython—hwn a fu
Yn feistr ei chyfrinion;
A thlodwyd ei theleidion
Am dewi mwy Dewi Mon.

"Brynawen."

"RHUDDWAWR."

Wylwn o droi i'r dulawr—weinidog
A chaniedydd clodfawr;
Awenydd mwyn, o aidd mawr
O wiw wreiddyn oedd Rhuddwawr.

Job.

LLEWELYN WILLIAMS.

Y Gainc—"*Dafydd y Garreg Wen.*"

Disgleiriodd ei dalent yn gynnar a chlir,
A gwisgodd lawryfon Gwybodaeth ein tir:
Ond tynnodd i'w galon ei bennaf fwynhad
O garu ei Genedl a charu ei Wlad.

Efe oedd Seneddwr y cleddau llym fin,
Efe ydoedd Llenor melysber y gwin.
Ein pen Eisteddfodwr Cymroaidd ei hwyl,
A'i enw mor felys ar wefus yr Wyl.

Os drylliwyd yr utgorn, mae taran ei lais
Hyd eto yn chwalu gorthrymder a thrais.
A thra byddo'i enw ar lenni coffâd,
Bydd ysbryd Llewelyn yn arwain ei wlad.

Gwilym Myrddin.

"DEWI HEFIN."

Feirdd Llancrwys! dan gŵys i gyd—yn y bedd
Y byddwn, mhen ennyd;
Eithr byw'n cyngan! *Dan* a'i dŷd
Ar iach gwrr uwch y gweryd.

Mewn border yng ngardd gwerin,—dyd eto
"Daten" f'awen libin,—
Yn ymyl rhos, aml ei rin,
O haf dwf Dewi Hefin!

Cledlyn.

"Ni fâl y felin byth â'r dŵr
Adawodd bwll y rhôd."

COFFA JOHN PRICE.

Athro fu, gweithiwr o'i fodd—A! pa le
Mae'r plant bach a ddysgodd?
I oes lwys fe'u cymhwysodd
A'i law; yna draw fe drodd.

Price, un o deip yr Iesu;—rhoi ei hun
Dyna'i reddf; gwas'naethu
Hyd elor; cyn ei dalu,
Ein dedwydd frawd hedodd fry.

James Evans.

"Gorau bach, bach gwair."

AWDUR "HEN WLAD FY NHADAU."

Môr sy'n "fur i'r bur hoff bau,"—huda mawl
"Tad" a "mab", ein glannau,
Canu "Hen wlad fy nhadau"
I newydd oes, fyn y ddau.

Mafonwy.

"BRYNFAB."

Oedd athro beirdd, a thra bo—odli cân
Deil cenedl i'w gofio;
Er rhoi trist farmor trosto
Difarw ei wawd a'i fri o.

J. J. Williams.

Parch. MORGAN GRIFFITHS.

Offeryn oedd y 'ffeirad—yn llaw Duw
Bu'n "Llyw" dwys addoliad:
Er y dôn bu'r gorau dad
A'i gerydd llawn o gariad.

Gŵr i Dduw a garai ddyn—ei anian
Oedd llonni byd cyd-ddyn;
Hen gyfaill hael i'n gofyn—
Serch o'r trwch wrth ei lwch lŷn.

"Oslwyn."

"SYMLOG."

Er mynych wendid, echrys boen
Y prydydd melys ar ei rawd,
Yng ngerddi'r awen yfai hoen,
Ac nid oedd mwyach yn y cnawd,
Canai am wanwyn ac am nef,
A'r gwanwyn yn ei galon ef.

Uwch glesni dôl a fforest werdd
Yng ngodidowgrwydd ieuanc Mai,
Neu gyd â'r gôg y deuai'r gerdd,
A'i anian leddf a lawenhâi,
Canai am wanwyn ac am nef,
Ac eiddynt, mwy, ei galon ef.

Gwili.

Hau ar y sych-hin, plannu ar y gwlyb-hin.

T. J. EVANS [T. J.].

Llon gyfaill—ei wên a gofiwn—a'i sêl
Dros Walia fawrygwn:
Y brawd llengar, hawddgar hwn
Yn y gweryd a garwn.

Elfed.

Y Parch. DAN EVANS, D.D.

Dewr llathraidd, siaradwr llithrig ;—doethor
O deithi barwnig ;
Cymwys gynghorwr pwysig,
A chroesaw o draw i'w drig.

Hyfwyn, ond nid ofnai undyn ;—cariad
Cawraidd ei wreiddyn ;—
Dan bob cur c'ai gysur gwyn
O'i deulu, fel y delyn.

Yr oedd ef yn or-ddifyr,—a gallai
Gellwair mewn rhyw ystyr,—
Cario 'i bwnc a'i eiriau byr
Heb frad i neb o'i frodyr.

Gyrrai wae, [er yn garuaidd]—ar ffos
Proffeswr anweddaidd ;
O'i Hawen braf arweiniai'i braidd
Â'i hapus steil Apostolaidd.

Fryngwenith, dy fron gwyna—o guddio
Gweddus gawr d'Areithfa ;—
A'i drem ar dy ro yma
Daw ing fyn nad angof â.

Ifan Afan.

PEDROG.

Pedrog, bardd enwog o Wynedd—nyddai
Yn hawdd y gynghanedd
O grebwyll ac arabedd,
A'i enw'n fwy na maen ei fedd.

Ap Ceredigion.

TIR PORI Y GYFRES.

LLEN.

Myfyrian Archaiology.
Cymru Fu.
Cannwyll y Cymry.
Ceiriog.
Mynyddog.
Pennillion Telyn. [*W. J. Thomas*].
Storiau Cymru. [*Watcyn Wyn*].
Caniadau Cymru. [*Lewis Jones*].
Hwian Gerddi. [*Hughes a'i Fab*].
Diarhebion. [*Cyfres y Fil*].
Hwian Gerddi Cymru. [*O. M. Edwards*].

CERDD.

Y Delyn Gymraeg. [*J. D. Jones*].
Cydymaith y Cerddor. [*J. D. Jones*].
Gems of Welsh Melodies. [*Owain Alaw*].
Songs of Wales. [*Brinley Richards*].
The People's Welsh Songs. [*Emlyn Evans*].
Alawon Gwalia. [*Dr. Parry a Dewi Môn*].
Y Caniedydd Cymreig. [*Ieuan Ddu*].
Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin.

Y GYMRAEG.

Welsh as a Specific Subject for Elementary Schools, Stage i. and ii. [1889, 1891].
Welsh and English for Day Schools. The Scholar's Handbook. [*Thomas Bowen, C.M., Cwrtnewydd and Llanuwchllyn*].
Guide to Welsh.
Cant o Hanesion. [*Hughes and Son*].
Cydymaith y Cymro. [*Evan Thomas Davies—Dyfrig*].
Cymorth i Gymro. [*James Rhys Kilsby Jones*].

ANNERCH YR ARCHWILWYR AC ERAILL.

[1904]

"Many thanks for sending me a copy of your St. David's Day Concert Programme. I only wish that more teachers followed your example in this respect."

[1912].

"Its contents seems to me to be quite equal to those of previous years. I am sure the neighbourhood quite appreciates what you do to foster a healthy national feeling in the minds of the rising generation.

Welsh is now gradually making its way into our elementary and other schools—to you it is a distinction [and a privilege] that you are one of the small band of teachers who years ago brought Welsh into practical use in schools. I should like to see Welsh taught in every school in Wales so that all our young people would be able to read, write, recite and sing Welsh as well as English."

[1916].

"It is a training to the children which they will never forget, and I am very glad to see that such entertainments in the elementary schools are now getting to be quite common, and to you must be given the credit of being one of the first to start them."

Thomas Jones.

[1919].

"These Concerts of yours must be very delightful to a Welshman aflame with the "Cymru am byth" passion. You are building stalwarts by the series, and I have had your programme now for years. I envy you the fame which is yearly accumulating, and when the Welsh language dies, if ever it do, there at Llancrwys its last rites will take place. 'Da was da a ffyddlon' must be your epitaph. You, at any rate, keep the torch of the Welsh blazing bright." Tom John.

[1914]

"Yn ol eich hynawsedd bob amser, daeth y Rhaglen eleni eto. Mawr lwydd ar eich ymdrechion i godi yr Hen Wlad."—Eifionydd.

[1908]

"Mae'r drefnlen yn ddiddorol y tu hwnt. 'Rwy'n hoffi eich cynllun o gynnal yr Wyl. Rhwydd hynt i chwi yn eich llafur cariad i ddwyn Llên ac Addysg Cymru i agosach cyswllt a'u gilydd."—Eifion Wyn.

[1908]

"Diolch yn fawr am wledd Gwyl Ddewi. Ni bu erioed well os cystal moethau ar y bwrdd. B'le cest ti 'Un o ddyddiau fu Aber-Aeron?' Pert ofnadw!

Yr wyf yn eiddigeddu at eich gwladgarwch. Yr ydym ni yma yn feirw mewn camwedd a phechod Sosialiaeth.

Cof gennyf gadeirio y Michael Thomas yma yn un o 'Steddfodau'r Ffynnon, pan enillodd ei gadair gynta' rywle yn y De.

Dy ufudd was yn Archdderwydd, Jones Mynydd-islwyn yn Geidwad y Cledd, ei frawd o Templeton yn Gofiadur, Ben Davies, Annerch o'r Maen Llog, Ysgrifennydd, L. J. Roberts, a thithau yn canu Cân y Cadeirio. Hapus dyrfa."—J. M. Howell. [J.M.H.].

[1912]

"Diolch yn fawr i chwi am raglen eleni eto. Mae'n ardderchog.

Cofion gore,
Owen Edwards.

Drannoeth Dygwyl Ddewi, 1912."

[1916-19]

"Diolch yn fawr am gofio am danaf unwaith eto. Darllenais bob gair o'r Rhaglen. Y mae yn gasgliad rhagorol. Yr ydych chwi wedi bod ar y blaen i bawb, chwi, yn wir, arweiniodd y

ffordd i'r mudiad Cenedlaethol ynglŷn â dathlu Gwyl Ddewi yn yr Ysgolion, a A.T.D., Syr O.E., minnau ac eraill yn dilyn ar eich ôl. Yr ydych yn cadw safon [safon uchel Llanycrwys] i fyny yn rhyfeddol."—L. J. ROBERTS [AERON].

[1917]

" DIOLCH am gofio am danaf eleni eto. Mae yn drueni nad yw pob ardal yn y wlad yn cael yr un chwarae teg ag yw ardal Ffaldybrenin. *Pioneer* ydych chwi yn y gwaith. Yr wyf yn eich llongyfarch o galon ar eich llwyddiant yn cadw y faner i fyny mor ardderchog am gymaint o amser. Y mae y farddoniaeth yn cylymu y gorffennol wrth y presennol ac yn cadw ar gof y peth na ddylai un genedl ei anghofio.

Dylasech gyhoeddi y Rhaglenni yn un llyfr er mwyn hyfforddi pawb eraill yn y gwaith."—DAVID THOMAS [D.T.].

[1917]

" 'RWY'N diolch o ddyfnderoedd
Fy nghalon, iti frawd,
Am ddal i anfon program
I hen bererin tlawd ;
Mae'r darnau oll fel arfer,
Yn ddoniol ac yn lân,
A minnau yma'n smocio
A pheswch wrth y tân."

Cofion fyrdd,
Fyth fel arfer,
JOHN.

[*Y cyfeiriad ar yr amlen*] :

P.O Llanwrtyd Wells.

" *Dan Jenkyn*, sydd ddyn mewn swydd dda,—
mewn Ffald
Mae'n hoff *feistr* ysmala ;
Ffald Brenhin a'i hin yn ha',—ddihafal
Tawel hen ardal hwnt i *Lanwrda*."

[1918]

" Cân diolch roddaf i chwi
Am hymnau eich Gwyl Ddewi ;
Mae'r byd yn flin mewn helynt dwys,
Ond yn Llan'crwys mae canu."

Yr eiddoch yn wirioneddol,
DANIEL DAVIES,
Ton, Ystrad, Rhondda.

[1904]

" DIOLCH yn fawr i chwi am y ' Gynllunlen '. Y mae fy nghalon yn gwresogi wrth feddwl am freintiau plant Llanycrwys.

O na fyddai ysgolfeistri eraill yn medru deall a gwerthfawrogi effeithiau daionus cyngherddau fel eich rhai chwi.

Fel casglydd cywreinion o'r fath, mae'n dda gennyf gael copi fel yma o flwyddyn i flwyddyn."

Yr eiddoch yn bur,
J. H. DAVIES.
21, Old Square, Lincoln's Inn, W.C.

HANES PLWYF LLANYCRWYS.

RHAN o flaenau gogledd Sir Gaerfyrddin ydyw plwyf Llanycrwys. Cwmpesir ef gan blwyfi Pencarreg i'r gorllewin, Cellan i'r gogledd a Chaio i'r dwyrain a'r de.

Plwyf bychan ei arwyneb ydyw, ar ffurf hetyr, gyda'i big yng nghymer y Camnant a'r Twrch. Cynnwys 3,366 o gyfeiriau o weryd amrywiol ei ansawdd, yn ddoldir, gwaundir, grwndir a mynydd-dir, gyda'r fantais i fwynhau " gwegil gorllewin a gwyneb y de ". Am ei ddaearegg

Dywed un o'r hen *Surveys* : " No coal—indications of copper and lead ore."

Ag eithrio Llwyn-wermod, Gelli, Blaen-nant ac Esgair-crwys, tyddynod bychain—Small Holdings—ydyw.

Mae'r trigolion yn bobl weithgar, gynnil a darbodus, â glanweithdra yn un o erthyglau blaenaf ei byw.

Rhennir y Plwyf yn ddwy Hamlet—Fforest Hamlet a'r Mynachty Hamlet.

Ar y Fforest Hamlet yr oedd y berchenogaeth yn rhydd-ddaliad [Freehold] ac yn y Mynachty Hamlet yn ddeiliadaeth wrth Gopi o Roll-llys. [Court Roll]. Yn 1925 diddymwyd y Court Roll.

Yn *1866* yr oedd nifer y tai cyfaneddol yn 115.

Yn *1900* cymerais gyfrifiad o'r Plwyf. Tan adran o'r *Code* ceid *Grant* oddiwrth y Llywodraeth pan fyddai y boblogaeth heb fod tros 400. [" Seen—Thomas Darlington 14.iv.'oo."].

Nifer y tai cyfanedd oedd 95 gyda 350 o breswylwyr.

1920. Rhif y tai cyfannedd oedd 86 gyda 304 o breswylwyr. Yn *vacant* ar " lyfr y tale "—13. yn adfail 28, yn garneddau 26, dim o'u ôl 8—ys dywedai Nathan Jones, " Yr oedd tŷ ar Waun-pant-y-fuwch fan 'na, ond welais i ddim o'i ddylith e."

Yn gefndir ac yn gysgod gwynt y Gogledd iddo mae parhad o'r fynyddres—Y Mynydd Mawr [o'i gymharu a'i gyflinell Y Mynydd Bach yn Sir Aberteifi—tarddle yr Aeron a henfro " gwŷr y cotiau llwydion."]

Dyma dor dŵr y Tywi " A'r luniaidd Deifi, afon decaf Dyfed."

Wrth ddilyn y cyffin rhyngom a Chellan yn Sir Aberteifi, awn o Glog y Gelli heibio y Garreg Lwyd, Carreg y tri phlwy'—[Pencarreg, Cellan a Llanycrwys] Pyllau Llwydion, Carn-gwar-pyllau-pedyll, Hirfaen Gwyddog Gadant, [yn swyddol warchae y clawdd terfyn] Cerrig Cedni, Cerrig Crwys, Y Byrfaen [gynt], Yr Orfa domlyd, Ffwrch y ddwylan, Banc y Bwlch, hyd y Maen-Prenfol-gwallt-gwyn.

A ni ar y bannau grugog uchaf 1232 troedfedd uwch lefel y môr, mae ymestyn y gorwelion o Fau Aberteifi hyd Fynydd Du Caerfyrddin a

" Lle mae'r Bannau serth yn gwgu ar y
Fforest
A'r Eppynt draw yn bygwth ymladd gor-
nest."

ac o ororau yr Eryri arw hyd at Garningli a'r Frenni ddefeidiog ym Mhenfro.

O'r corstir anwastad hyn daw nifer o fan ffrydiau, ys d'wedai " Melinddwr " :

" I lawr o gilfachau 'run mynydd maent hwy
Yn dod ar eu hunion i fynwes y plwy'."

gyda'r enwau—Nant-yr-erw, Nant-rhyd-odyn, Camnant, Nantygarn, Gorddogwy [Gorddigwy], Nant-glyn-nith a Nant-y-gorden-wen, a dyma

" Lle mae'r ffrydiau'n murmur odlau."

Mae " sisiai ganu " y rhain ar eu cwrs ddwy filltir trwy y brwyndir, murmur bwrlwm eu hebyr yn y Twrch a rhaiadrau pell y Cothi ar eu dyfrhynt i'r Tywi draw, yn dwyn i'm cof ddwy linell o eiddo y diweddar Sais-Gymro " Glan Ceri "—

" Rwy'n caru su dy nentydd cu
A rhu dy wyllt raiadrau."

I wahanu y goferoedd hyn mae Mynydd Llanycrwys wedi esgor ar esgeiriau cefnog—chwech o honynt yn dwyn yr enwau—a'u

sillafu yn yr hen ddull—Eskeir-maen-y-corn, Eskeir-y-crwys, Eskeir harloyne [hardd lwyn ?], Eskeir-Goch, Eskeir-y-Gelli [Maescoy], Eskeir-y-Derlwyn.

Ar ganol y plwyf ac ar groesffordd sydd a'i phwyntiau yn unffurf a'r cwmpawd, saif pentre Ffaldybrenin. Yn onglau'r groes mae y Tŷ Cwrdd—[Ffaldybrenin], Tŷ'r Ysgol—[Bronydderwen], Yr Ysgol Gyngor, Y Gody, a saith o aneddau.

Ar y scwar gosodwyd Cofgolofn yn 1921 ag arni y geiriau

CORONAT
FINIS OPUS

Y golofn gyfodwyd gan y Plwyfolion i ddathlu buddugoliaeth y Rhyfel Mawr ac ymdrech ddi-arbed y brodorion—

1914—1919.

Syrthiodd :
2nd Lieut. David Walters, Dub. Fus.
Corpl. Alfred Evans, Welsh Guards.
Pte. Herbert Lewis, R.A.M.C.

Gwell angau o rwymau'n rhydd
A cholofn na chywilydd.

1894. *Y Cyngor Plwy Cyntaf* :
David Evan Davies, Gelly.
David Davies, Bryneirian.
John Davies, Tynwern.
John Morgan, Hafod.
Titus Griffiths, Gwndwngwyn.
Tom Davies, Tycanol.
William Lewis, Blaenau Fforest.

Gwarcheidwaid :
Lewis Davies, Y.H., Gelly [Ex-Officio].
Thomas Price, Wernfendigaid.
William Lewis, Blaenau.
1905—David Davies, C.D., Bryneirian.

Casglwyr Trethi : [Dyn y Tale] :
Thomas Harries, Pentre Davis.
James Walters, Alltgoch.
Annie Morgan, Penrhiwcelyn.

Llanwrda oedd y llythyr-dref hyd oni newidiwyd hi am Llandilo yn 1924.

Llythyr-was Llanycrwys oedd ein cyfaill gonest ei wên a pharod ei ateb, Walter Jones, Bell & Yew. Elai ei ferlen—Fany sâff ei sang—ag ef yn y dog-cart bob bore—deg a garw, i'w daith bedair milltir i Bumpsaint i gwrdd â'r llythyrglud.

Ym mis Ebrill, 1927, daeth y newydd i mi bod yr hen bostman wedi " hela'i getyn ", yn 79 oed.

Efe oedd frodor o Lansawel, a saer coed wrth ei alwedigaeth, a bu'n gweithio wrth Ysgoldy Ffaldybrenin [1873]. Sefydlodd yn Llanycrwys, fel Tafarnwr, yn y Bell & Yew. Efe oedd y clochydd a'r " hen godwr canu " yn y Llan.

Wild Life—rarer wild animals of the district—Ring ousel [mwyalch gadwynog], Kite [Barcutan], Grouse [Grugiar], Buzzard [Bwncath], Raven [Cigfran], Night-jar [Nyddwr], Wheat-ear [Tinwen y cerrig], Black cock [math ar Grugiar].
Badger [daear-fochyn], Polecat [ffwlbart].

Vegetation—Snakeweed [llys neidr], Globe Flower [cronell], Ivy leaved Bell Flower [clych-lys iorwg-ddail], Dyers Greenweed [glaslys y lliwydd], Moonwort [Lloer redynen], Royal Fern [rhedyn cyfrdwy], Stag's Horn [corn y carw].

Llan-Ddewi-Crwys.

Llan—Lle wedi ei gau fel yn ydlan, corlan, etc. Golygai y fynwent—y gorff-lan yn gyntaf, yna daeth i'w arfer am Eglwys—yr adeilad ar y Llan.

Ddewi—Yr Eglwys wedi ei chyflwyno i Ddewi Sant.

Crwys—lluosog o croes.
Atgyweiriwyd yr Eglwys yn 1892.
Architect—Evan Christian.
Contractor—David Davies, Bryn Eirian.



PEDROG
[*Tudalen 108*]



RHUDDWAWR
[*Tudalen 147*]



MAFONWY
[*Tudalen 56*]

In his report on the old building, the Architect states :—

" This little Church, or rather mountain Chapel, is a very simple structure erected apparently in the 12th century. It measures internally about 48 ft. 8 ins. long by 19 ft. wide, and at present there is no division to mark the relative extent of the Nave and Chancel.

In ancient times, however, there was evidently a Screen and Rood-Loft, the staircase to which still exists on the north side, and it is quite possible that the name by which the church is known was derived from the Rood or Crucifix which stood upon the loft.

The Rood-loft and staircase were probably additions in the 15th Century. The ancient Font Bowl exists, but it is fixed on a wooden stem in the S.W. corner of the nave."

Dywed traddodiad fod yr Eglwys gyntaf ar bwys Esgairgoch [yn awr]. Gwnaed honno o gledrwy neu bawlgae [wattle and daub]—gwiail a mwd.

Gerllaw y fan yr oedd y " Garreg Tair Croes ". Disgrifiai Nathan Jones [1831—1921] hi fel yn 27″ o hyd a 6″ o lêd gyda thair croes ar y wyneb :

Cofiai [Mrs.] Mary Davies, Y Gelli, weld darn o honi yn Aberdeuddwr flynyddau 'nôl. Myn rhai taw hon roddodd yr enw—Llan-y-crwys, tra dywed eraill mai hon oedd " carreg y tri phlwy ".—Croesfaen—*Maen terfyn—Merestone marked with a cross.*

Eto, dywedir fod yr ail Eglwys wedi ei hadeiladu o " wal gerrig sychion " ar gae perthynol i fferm Penbanc, o'r enw Cae-garreg-lwyd. Pan yn was yn Penbanc 60 mlynedd 'nôl, daeth John Davies, Ty'reithin, ar draws yr hen welydd wrth gloddio ar y fan. Mae gweryd yr ysmotyn hwnnw o liw tywyll hyd heddiw.

Yr oedd y Persondy yn ymyl Bwlchmaencorn gyda llwybr oddiwrtho at ac heibio yr ail Eglwys.

Wedi codi yr Eglwys bresennol aeth y llwybr hwnnw yn lâs. Yr oedd rhyw *abweth* ar y trigolion i fynd heibio'r adfail a'r fynwent.

Bu'r Persondy yn annedd wedi hynny dan yr enw Bwlch-bach.

Mae fferm o'r enw Esgair-crwys ryw filltir o'r eglwys bresennol. Cawn " Cerrig Crwys " yn uwch i fyny, y Wern-ddu-gâd heb fod ymhell, a Brynaerau wedyn nes i lawr. Yr ochr arall i Dwrch, ym mhlwyf Caio, mae Cae Caradog, ac ar y ffordd i'r lle hwnnw rhaid yw mynd dros Bontbren Rhydycyrff.

Ai nid yw'n bosibl i'r enw ddeilliaw o crwys neu gwrŷs [brwydrau-aerau] ymladdwyd yma yn yr hen amser ?

Dywed traddodiad y byddai yma lety ffordd-olion—Ysbyty—i Fyneich Tal-y-Llychau ar hanner eu taith bererin i Ystrad Fflur. Mae'r enwau sydd ar gaeau yn y *Grange of Llanycrwys*—Cae'r Mynach a Cae-llwyn-du Abbot yn ateg i'r traddodiad.

Saif yr Eglwys mewn lle tawel a dymunol ar lan yr afon Twrch, tua dwy filltir o'r briffordd sydd yn arwain o Lanwrda i Lanbedr-Pont-Steffan, rhyw ddeng milltir o'r blaenaf, a chwech o'r olaf—tref farchnad y rhanbarth.

John Bowen, Penlan, oedd noddwr y berson-iaeth yn 1748. Claddwyd ef dan allor yr Eglwys.

Yn 1920, a chyn hynny, yr Arglwyddes Hills-Johnes oedd y noddwraig. Dywedai hi wrthyf bod yr Eglwys bresennol wedi ei hadeiladu yn y 12fed ganrif.

RHESTR O'R FICERIAID.

1830-1838—Thomas Jones [Curad mewn gofal].
1838-1843—D. Price Lewis [Curad mewn gofal].
1843-1845—William Williams [Ficer Llanfair].
1845-1852—D. Price Lewis [mewn gofal yr ail waith].
1852-1854—Thomas Jones [Ficer Pencarreg].
1854-1866—Watkin Herbert[claddwyd yn Llan-ycrwys].
1866-1868—T. B. Nichol [Curad Caio].
1868-1872—J. Morgan [Curad Caio].
1872-1877—William Hughes [Curad mewn gofal ; mab Pantcoy, Silian].

1878-1887—D. D. Evans [Ficer Pencarreg].
1887-1891—Hugh Evans [Ficer presennol Whitechurch, Penfro].
1892—1894—Evan Davies [Ficer presennol Llanfair Orllwyn].
1894-1929—Morgan Griffiths [Claddwyd yn Llanycrwys].
1929- —D. R. Lewis.

Ymneilltuaeth.

Ni ellir gosod i lawr amser penodol dechrau Ymneilltuaeth hyd lannau y Twrch a'r Cothi, ond mwy na thebig bod Walter Cradoc, Vavassor Powell a Stephen Hughes wedi hau egwyddorion Ymneilltuaeth i gynulliadau dirgelaidd mewn ambell ogof a phant anamlwg o Bwlchyrhiw i Grugybar, Esgair Dawe a Chrofft-y-cyff yn gynnar yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Dan ddylanwad doniau Daniel Rowlands, aeth nifer o Grugybar i ddechrau achos y Methodistiaid yn y Garreg, Caio [1760].

Yn Crofft-y-cyff* aeth yn ddadl ynghylch bedydd babanod, rhwng dau aelod—William Samuel, Blaenau Fforest a Thomas Morgan Thomas, Esgair-ithri. Ymadawodd yr olaf, a dechreuwyd achos y Bedyddwyr ym Mhlwyf Caio [1720]. Mae nifer dda o blwyfolion Llanycrwys yn aelodau yn Salem a Bethel [B.].

1792-3.—Adeiladu y Tŷ Cwrdd cyntaf [yr Hendy] ar ystâd Rhosybedw.

1833.—Adeiladu yr ail Dŷ Cwrdd yr ochr arall i'r heol. Rhoddwyd y tir gan David Davies, Tŷ-cerrig, tadcu David Saunders Davies, Tŷ-cerrig yn awr. Rhoddwyd tir i helaethu y fynwent gan John Jones, Erw-wen. Yn Niwygiad '59 derbyniwyd yn aelodau ar fore Sul 101 gan y Parch. Thomas Thomas, Llanfairclydogau.

1873.—Helaethu ac adnewyddu y Tŷ Cwrdd fel y mae heddiw.
Architect, Mr. Humphreys, Treforris.
Contractors, David Davies, Bryn-eirian, a David Thomas, Maes-isa.
Y gwaith cerrig, William Thomas, a John Thomas, Salem, Llandilo.

1897.—Adeiladwyd Ysgoldy rhyng-enwadol ar dir Esgairlas, yn glos wrth ffin plwyfi Cellan a Llanycrwys. Rhodd y diweddar John Jones, Llwynwermod, oedd y clwt.

Ymhen amser daeth angen am Festri, ond nid oedd lle heb ddod dros y ffin i dir Pant-y-pistyll, a chafwyd darn o dir gan y perchen—Mrs. Thomas, Bryn-manalog, a chodwyd y Festri sydd yn gyfleustra mawr.

Mae'r Ysgoldy ymhlwyf Cellan, Sir Aberteifi, a'r Festri yn Sir Gaerfyrddin.

Cynhelir Ysgol Sul yno yn gyson, a bydd gweinidogion A.E.B.P.U. y cylch yn pregethu yn achlysurol, a chwrdd pregethu blynyddol.

Drwy ymdrech ganmoladwy Daniel Williams, Pantmaen, ceir Cyngerdd Gwyl Ddewi lewyrchus yno oddiar 1921.

RHESTR O'R GWEINIDOGION.

Crofft-y-cyff : 1700—1793 :

James Harries, Capel Isaac.
James Lewis, Pencader.
John Powell, Tredwstan.
Lewis Richards, Trelech.
David Jenkins, Crugymaen.
Christmas Samuel, Panteg.
1743 Urddo Owen Davies, aelod o'r eglwys, yn weinidog, a Thomas Gray yn weinidog i Abermeurig.
1767 John Tibbot.
1786 Howell Powell, Brychgoed.
1789-1810—David Morgan, Dolaugwyrddon.
1793 Adeiladu Tŷ-cwrdd Ffaldybrenin.
Symud o Crofft-y-cyff.
1813-1816—Thomas Jones o Beaumaris.
1818-1858—Rhys Jones [Tad Kilsby].
1859-1899—Henry Jones [o Athrofa Aberhonddu].
1900-1907—James Jones [symud i Gwmdâr].
1908-1912—D. Myddfai Thomas [i Penygroes, Penfro].
1913-1928—D. Williams, B.A. [ymneilltuo gan afiechyd].
1928- Giraldus Jones [o Goleg Aberhonddu].

*Lofft-cŷff ar lafar gwlad.

Addysg.

Gellir dyweyd yn ddibetrus bod y plwyfolion wedi bod yn ymdrechgar iawn i gael addysg i'w plant er yn fore.

Nid rhyfedd hyn. Mae'r hanes am William Davies, Ph.D., Crofft-cyff, James Rhys Kilsby Jones, Erw-ion, a Evan Davies, M.A., Ll.D., Gelli, yn beichio'r gwynt o hyd, ac mae'n amlwg bod eu mentyll wedi gorffwys ar flaenorwyr y plwy' ym myd addysg a chân fyth er hynny.

Tair seren fore y ganrif o'r blaen oedd y "tri wyr hyn," a daeth y tri yn brif athrawon—W. Davies yn Ffaldybrenin a Ffrwd-fâl, Kilsby* yn Ffaldybrenin a Birmingham, a Evan Davies† yng Ngholeg Normal Aber-honddu ac Abertawe. "Gwnaeth Evan Davies fwy dros addysg ymhlith ei genedl na neb yn ei oes, a rhoddodd fywyd newydd yng Nghaniadaeth y Cysegr yn Neheubarth Cymru." [O'r Tabled ynghapel Ffaldybrenin].

Ysgrifennai un o'r hen fyfyrwyr—y diweddar Ddoctor John Williams, Blaen Llynant, Aberystwyth—ataf yn 1916 :

> "I was a boy in the Normal College, Swansea, in which Dr. Evan Davies was Principal, and my debt to him is incalculable. I thought him then and now a giant. He had distinguishing traits as a Principal. I should like to see a good life of him."

Tra bu Dr. Davies mewn gofal o'r Coleg Normal edrychai na byddai bwlch ar restr ysgolfeistri yn ei "hen blwy".

Pan osodwyd carreg sylfaen yr ail Dŷ Cwrdd aeth yr athro—Kilsby—a'r plant i "fod yn dystion o'r seremoni, a chyda gwialen gref, rhoddodd warrod i bob un, [yn ysgafn i'r rhai ieuaf] fel y byddai yn help iddynt gofio".

Gwirfoddol oedd yr ysgol hyd 1864. Dibynnai yr athro ar ewyllys da y rhieni am ei fywioliaeth. Yn y flwyddyn 1864 daeth yn *British School*, gyda chyflog sefydlog i'r athro.

*Kilsby—gwel "Y Geninen." Cyf vii a viii.
†Dr. Evan Davies—"The Educational Record."

Yn 1873 adeiladwyd yr Ysgoldy presennol, ac yn 1880 trosglwyddwyd i'r Bwrdd Ysgol a oedd wedi ei ethol yn 1879, fel y canlyn :—

Lewis Davies, Gelly, Cadeirydd a Thrysorydd.
Parch. Henry Jones, Is-gadeirydd.
Timothy Davies, Esgair-corn.
Thomas Price, Wernfendigaid.
Daniel Davies, Tanyresgair.

Wele restr o'r Ysgrifenyddion o'r cychwyn :—

1.—D. Llewelyn Davies, Pumpsaint, 1880-1881.
2.—J. John Davies, Gelly, 1881-1884.
3.—Ben Lewis Davies, Gelly, 1884-1889.
4.—Thomas Price, Wern'digaid, 1889-1903.

COFIADURON Y PLWYF.

[Mrs.] Mary Davies, Gelly [1834-1928].
Lewis Davies, Gelly, [1832-1905].
Nathan Jones, Esgair Wen, [1831-1921].
Thomas Price, Wernfendigaid, [1827-1910].
David Lewis, Stafell Wen, [1841-1917].
Thomas Davies, Ddol Wen, [1855-1932].
David Davies, Bryneirian, [1854——].

1901—Drwy oruchwyliwr yr ystâd—John M. Davies, Ysw., Froodvale, prynwyd darn o dir, i gael Tŷ'r Ysgol a gardd gan Cyrnal Davies, Rhosybedw. Architect, D. E. Davies, Gelly. Adeiladydd, David Davies, Bryneirian.

Ymgymerodd y Bwrdd, drwy lafur gwirfoddol, a lefelu y chwaraefa, a phlannu coed bythwyrdd o'i gylch, gyda chreigfaon yma ac acw at dyfu blodau. Cafwyd rhai o'r coed o Froodvale, gyda chais oddiyno a Dolaucothy am i mi fynd yno i ymofyn am flodau a chrwnwreiddiau yn ol yr angen.

Cawsom wasanaeth Mr. J. L. Pickard, o Goleg y Brif Ysgol i arolygu'r gwaith.

Ceisiwn wneud y lle mor annhebyg i garchar ag oedd yn bosibl.

Wedi cael gardd rhoddwyd *Gardening* a *Nature Study* ar y *Time Table*. Daeth plannu perllan a chadw gwenyn yn lled gyffredin yn y plwyf.

Mae i bob ysgol a choleg ei beias yn ol gogwydd bryd yr athro. Yn yr ardd, ceisiwn asio'r ddysgeidiaeth wrth fywyd a gwaith yr

ardal. Yn y gwanwyn a'r haf eid a'r plant yn adrannau i'r maes [Field Day] i chwilio blodau a llysiau—dysgu iddynt eu henwau a galw eu sylw at y prydferth yn natur.

Yr wyf yn deall bod Ysgol Llanycrwys, tan yr Athro presennol, yn gwneud yn rhagorol mewn *Cardboard Modelling* a *Metal Work*, ac ers blynyddau yn darpar *Mid-day Meals*. Sicrha hyn well *attendance*, a cheidw heintiau draw.

I gydymffurfio â gofyn Deddf Addysg 1902 aeth dan yr Awdurdod Lleol—y Cyngor Sir, yn 1903.

Rhoddwyd Ysgolion Crugybar, Caio, Cwm Cothi, Cwmtwrch, Farmers a Llanycrwys yn Group 1. Mae dau Lywodraethwr Lleol dros bob ysgol. Cyferfydd y Llywodraethwyr yn fisol yn y Coronation Hall, Pumpsaint. Hyd ei farw, yn 1919, Sir James Hills-Johnes fu y Cadeirydd, a James Morgan, Albert Mount, Caio, yn Ysgrifennydd, hyd ei farw yntau yn 1921—dau swyddog cymwys, ac yn teimlo mawr sêl dros addysg y rhanbarth.

Y Llywodraethwyr Lleol cyntaf dros y Plwyf :—

James Harries, Drovers.
David Evan Davies, Gelli.

Wedi bod yn Ffaldybrenin am ychydig amser, a chael y manylion am yr ymdrechion cynnar hynny ynglŷn âg addysg, cynigiais wobr, ar gyfer Cyfarfod Cystadleuol 1899, am restr gyflawn o'r Ysgolfeistri fu yno o 1800 ymlaen. Un restr ddaeth i fewn, sef eiddo John Morgan, Hafod—Penrhiwcelyn yn awr, a honno wedi ei 'sgrifennu "fel coporplat". Gwelwch y rhestr yn y gyfrol hon.

Hynafiaethau.

Yn y flwyddyn 1899 adeiladwyd y Ficerdy ar Gae'r Felin-cŵn-bleiddiaid. Wrth dorri sylfaen yr ystabl cafwyd carreg a'r ffigyrau 1574 arni. Yr oedd yno hefyd lawer o eisingrug, a darnau o gerrig meini yr hen Felin.

Hirvaen Gwyddog [monolith] y talaf yn y Sir [15 tr.]. Saif ar y ffin rhwng y ddwy sir—Caerfyrddin a Cheredigion. Mae sôn am dani yn Llyfr St. Chad yn y 12fed ganrif. Dywed traddodiad ei bod yn dangos gwyddfa un o'r hen dywysogion. Sut bynnag, mae yn un o gerrig ffin [mere stones] Cellan a Llanycrwys.

Carnedd Pant-teg, ychydig i'r dwyrain o'r ffermdy. Mae cerrig hanes y garnedd wedi mynd yn gerrig cloddiau a thai tywarch, er cyn co'.

"*Byrvaen yr Esceir Bervedd*," hwn eto ar y ffin cyn ei symud, a thua milltir i'r gogledd o'r Hirvaen. Ai nid Esgair-byrfaen oedd enw cyntefig Esgair-Berfedd ?

Clywais gan hynafgwr o Gellan, yntau wedi clywed ei dad yn dweyd, bod y Byrfaen wedi cael ei dorri, gan law dirion, yn byst llidiardau, i'w gosod ar ffyrdd culion y plwyf hwnnw.

Bedd y Milwr : Un o feddrodau'r ucheldir, i'r gogledd-ddwyrain o garnedd Pant-teg, ac iddi gylch-fesur o 30 llathenni.

Wrn [*urn*] : Cafodd Aaron Bach, Pantgwyn, grochan bach ar Gors-y-bedol ar bwys Halfway House.

Cleddyf : Ar dir Pant-y-pistyll, bu'n frwydyr finiog rhwng haearn tywarch Aaron Gwndwn-gwyn ac un o gleddyfau yr hen oes.

Breuan [*quern*] : Daeth un o feini Llaw-felin i'r golwg yn nhwlc Erw-ion ryw ugain mlynedd yn ol. Mae yngofal yr Ysgolfeistr presennol yn awr.

Odyn Faes : Yn ydlan Llwyn-Cwrt mae piben [*kiln-hole*] yr hen odyn faes yn aros yn ddianaf hyd yn awr.

Y Ffald : Erys y Ffald megis yr oedd yn y dechrau, o'r tu allan i glawdd mynwent y Plwyf. [*Gwel y darlun*].

Palmant : "Yr oedd paement [*flags*] ddwy drodfedd o led, bob cam o'r fan lle'r o'dd yr hen Eglwys wiail hyd at Garreg Hirfain. Codes i nhw bob un i godi Esgairgoch—Do'n seriws fach i." [Nathan Jones].

Maen Prenfol Gwallt Gwyn : Wedi dringad Sarn Elen o Lanfairclydogau heibio Sarn Llys,



PENFRO
[*Tudalen 104*]



DEWI MÔN
[*Tudalen 106*]

MELINDDWR
[*Tudalen 44*]

IOAN O'R NANT
[*Tudalen 88*]



DAN ISAAC DAVIES



Y Prifathro J. H. DAVIES
[*Tudalen 105*]



J. M. DAVIES, Froodvale
[*Tudalen 148*]

Y Milwriad H. S. P. DAVIES
RHOSYBEDW

Roman Camp [gynt] a Halfway House ar y chwith, a mynd trwy y Bwlch-maen-Corn, dewch hyd at y Maen Prenfol Gwallt Gwyn ar y dde ar war y Sarn.

Mae yn amlwg taw Cromlech ydyw wedi bod dan oruchwyliaeth ebillion, powdwr a gyrdd rhyw fandaliaid nes ei gwneud yn " Garreg-y-Bwci " ein dyddiau ni. Profodd hon yn " ormod o damaid " i'r fandal i'w dinistrio, ond yn unig ei thaflu oddiar ei phedion.

Sarn Helen neu Sarn y Lleng : Helen, merch Cystenyn Fawr, neu Lleng o Rufeiniaid.

The Report of the Royal Commission on the Ancient Monuments [Carmarthenshire Page 209, 614, reads :

" This is almost certainly not a Roman Road." Had the Commissioners taken the trouble to walk the road from Llanfairclydogau to Llanycrwys, past Sarnllys, and the ruins of the old cottage named Roman Camp, and noted its width and straight course they would have left out the words " almost " and " not " in the above statement.

Dywed Hoare's Giraldus Cyf. I. tud. 99 fel hyn :

" O Llanio yr oedd ffordd arall yn myned i wersyllfa Llanfair-ar-y-bryn, ger Llanymddyfri, yr hwn hefyd yr amcenais ei dilyn.

" Gan deithio drwy ddyffryn Teifi hyd bentref Llanfair, esgynais yno i'r mynydd, lle, oddiwrth anhygyrchedd y llwybr a'i nodweddion ereill, y canfum yn fuan fy nghyfeilles Helen " . . . " Ac yma ar y trum uchel hwn y canfum un o'r crugau hyny ag a osodid mor fynych gan y Rhufeiniaid ar uchelfannau cyffelyb, i nodi cyfeiriad y ffyrdd."

" O'r mynyddoedd hyn ni a ddisgynasom tuag Eglwys Llanycrwys, yr hon a adawsom ychydig i'r deau, gan ymgadw, yr wyf yn meddwl, mor agos ag oedd bosibl at linell yr hen Sarn, yr hon a ganfyddasom ar ôl hynny mewn dau fan gerllaw yr afon fechan Twrch yn y dyffryn, ac yn y man lle yr adnabyddid hi gan y brodorion wrth yr enw Sarn Helen."

Ar y gweundir, godre Llwyn-wermod, byddai yr aradwr yn cael ysgytiadau mynych pan ddeuai yr aradr i gyswllt a'i ' cherrig dala '. Ar hafau sych iawn bydd y glas neu'r âr yn dangos ei chwrs. Mae ei thrac o Gaio ymlaen yn hawdd ei ddilyn.

Maescoy : ydyw yr hen enw ar y rhan uchaf o'r Fforest Hamlet.

Pyllau y Crwynwr [*Tanner*] : Yn Cae-pistyll ar fferm Blaenau Fforest mae nifer o'r pyllau lle yr arferid trin y crwyn.

Ar y Maescoy cawn y lleoedd canlynol—a dechrau ar y gwaelod—Gelli-dyniewaid, Hafod-y-da-blwyddi, Blaenau Fforest, Banc Bachystarn a'r Lluest.

Â yr enwau hyn a ni yn ol ymhell-bell.

dyniewaid—" bustych neu deirw tri gaeaf."
Buch-ystarn—ysgrubliaid y cyfnod.

Dengys yr hen goed praff sy' o gwmpas y tŷ—yn dderi, ynn a sycamorwydd—bod Blaenau Fforest yn lle hynafol—yr Hendref o bosib'.

Llen Gwerin.

GEIRIAU LLANW.

Diâr ariôd.
Dur a nghato ni.
'N enw'r annwl.
Gwr argol mowr.
Marcwch chi.
Myn dyn.
Ond, tewch sôn.
Ychco chi ma chi.
Be chi geisio weyd.
O bragas i.
I chi'n gweld.
I chi'n gwbod.
I chi'n dyall.
Tawn i heb gyffro.
Go jowns i.
Mi aro.
Ie, o brysur.
Myn diawch i.

Dyna fe.
Byth nad elwy.
Yn seriws i.
'N enw'r gallu annwl.
Twt baw.
'N enw'r grym.
Garw byth.
Wel, glanach i chi.
Cato pawb.
Byth na chyffrwy.
O bawo.
'Nenw'r brenin George.
Bobol annw'l.
Bobol fach.
O'r brenin bral-e.
Be chi 'so weyd ?
Diawch ariod.
Mor wired a'r pader.

BRAWDDEGAU.

Abweth—*afraid* : Rodd peth abweth arna i wrth basio'r hen dŷ gwag.
Shoêedig—*a show* : Rodd yno dato shoêedig.
Pointog—*opinionated* : Un go bointog yw'r wraig.
Coprog—*red sunset* : Mae'n edrych yn go goprog dros fynydd y Gelli heno.
Yr oedd y casgliad yn goprog dy' Sul.
Pacar—*tidy* : 'Rodd e'n weddol bacar pan a'th e i Lunden.
Mhelffus—*meddle* : Dodd e ddim yn mhelffus â hi.
Cynhàl—*strife* : Mae rhyw hen gynhàl arno fe o hyd.
Penwan holics—*bitterly cross* : Mi a'th Jo yn *benwan holics* pan clywodd y stori.
Cot—*coat* : Mae *got yn oerach* gyda ni ar y banc nag yw hi gyda chi ar y gwaelod 'ma.
Bwlwg—*bad feeling* : Lle bo nhw'n meddwl fod bwlwg gen i ato fe.
Gwau gwrhyd : Gwelais y morynion ar lawer hirnos gaea' yn gwau gwrhyd [6 troedfedd].
Rhwng y ddouwellt—calan Mai : Mae mor deneu a 'nifail *rhwng y ddouwellt*.
Hoewan—*shaky* : Eitha hoewan yw'r hen wŷr.
Ffâr—*fare* : *Ffâr* go galed a chyflog fach ma Dafydd yn ga'l.
Gafael—*fond of* : Rodd gydag e dipyn o afel arni hi.
Haeru—*insist* : Rodd e'n haeru ei fod yn iawn.
Molben—*good measure* : Mi ges i eitha mesur—yr odd molben ar y pec.
Ar fyr wha-re—*quickly* : Newch chi ddim o'r job yna ar fyr wha-re.
Pibys—*peevish* : Fuodd y plentyn yn bibys iawn trw'r nos.
Blodw—*mealy* : Mae yn llynfi'n flodw heddi.
Lwrd—*dust*: Mae e'n lwrdo wrth ei lynfu [llyfnu].
Rhoglennus—*sweet smelling* : Ma'r Jinny flowers ma'n rhoglennus iawn.
Co-ge ; Twret—*lively* : Rodd hi fel y co-ge.
Cŵn a'r brain : Aeth ei gwbwl, rhwng y cŵn a'r brain.
Y gatsh—*winning post* : Ma fe wedi mynd i ben y gatsh.
Liflod—*livelihood* : Fydd hynna ddim liflod iddo.
Swaps ; Cosfa—*flogging* : Roes i gwpwl o swaps iddo.
Crychu ; Topi : Mae'r gwartheg yn crychu ei gilydd ar y clôs.
Ar ei blat—*in the face* : Fe gath e hynny ar 'i blat, gen i.
Seso—*to face it* : Wn i shwt i chi'n meddwl i seso hi fechgyn bach [Tomos Stephen].
Planedo—*lightning* : Rodd hi'n planedo neithwr trw'r nos.
Colli maglau—*swearing* : Rodd e'n colli magle lawer pan fyddai mas 'i go'.
Bwch i'r odyn : Ddaw e ddim yma mwy na bwch i'r odyn, wedi iddo neud shwd beth.
Hwch trw'r shop—*bankrupt* : Ma'r hwch wedi mynd trw'r shop.
Hans—*hands* : Naiff y lodes ddim hans ag e mwy.
At y gyllell—Ry'n ni wedi gwerthu'r caws hyd at y gyllell. [Hyd at yr un sy ar dorr].
Fwrjus—*friendly* : Y ro nhw yn fwrjus anghyffredin.
Yn y gwlych ; Yn yr halen—*soaked* : Mae Dafydd yn y gwlych gyda hi (Wedi rhoddi benthyg arian iddi, heb obaith eu cael 'nol).
Twlsyn ; Offeryn ; Corff : Twlsyn troednoth yw Deio ; Offeryn doniol yw Shanco ; Rhyw gorff ofnadwy yw Wil.
Handwr—*useful* : Mi fydd yn lot o handwr i ti.
Hymach—*did'nt care* : Dodd naws hymach gydag e.
Bripsyn—*atom* : Bytodd e bob bripsyn.
Gwedwst—*not talkative* : Un gwedwst iawn yw Twmi.
Rhagod—*hinder* or *avoid* : Ellwch chi ddim rhagod anlwc.
Brôs—*candle slipper* : Rodd e'n mynd fel y brôs trw'r caeau.
Hafodi—*for the summer* : Mae'r fuwch wedi ei rhoi mas i hafodi.
Enfys—*skein* : Dim ond yr *enfys* sy'n spâr o'r bellen.
Twt—*to tidy* : Mi ddo i ar ol dybenu'n *nhwt*.
Hur yr ên—Dim ond *hur yr ên* oedd e'n ga'l 'da nhw.
Panso—*taking pains* : Yr oedd e wedi panso gosod yr ardd yn deidi.
Hanswm—*handsome* : Fe gath John stafell hanswm gyda'i rieni pan a'th e i dŷ 'i hunan.
Penddaru—*giddy* : Mae eu sŵn nhw'n ddigon i benddaru dyn.
Donnen—*skin* : Mae e yr un donnen a'r tylwyth.
Ffabls—*fables* : Beth o'dd hi'n gweyd rhyw hen ffabls fel'ny.

Y gopa—*bad temper* : Rodd y gopa arno trw'r dydd.
Tarddyn—*drop to drink* : Chawd dim tarddyn wedi tê.
Partho—*floor* : Mae'r tir sy wedi cael ei 'redig os tro yn cael ei bartho'n enbyd.
Leser—*leisure* : Galwch pan bo leser arno chi.
Ffwrno—*bake* : Rw i wedi bod yn ffwrno heddi'.
Nafu—*spoil* : Mae gneud peth fel'na yn nafu'r cwbwl.
Shinachad—*handle roughly* : Rodd e wedi cael ei shinachad yn ambeudus.
Dan gof—*while I remember* : Dan gof, well i chi ga'l y llyfr 'nôl nawr.
Cwato—*to hide* ; *squat* : Mi a'th i gwato arna i.
Classo ; Clebran ; Cloncan : Dyna lle rodd y menywod yn classo nes odd hi'n hanner nos.
Gwall ganol—*knitting needle* : Mi ddo i, se ni wedi dywad i'r wall ganol. [Pegi'r Efail].
Co'd—*post* : Mi ddaw e *at i go'd* heb fod yn hir.
Crandis—*grand* : Beth yw'r holl grandis 'na sy boutu ti ?
Bilêto—*billet* : Ble buodd e'n bilêto neithwr ?
Glawr—*cover* : Wn i le glawr y ddaear mae e. Mae e siwr o ddod i glawr yto.
Llaw flewog—*pinching* : Mae llaw flewog gyda hwn a hwn.
Brat—*pinner* : Yn ei frat ma Dafydd o hyd.
Bocsers—*old sheep* : Rhoi defaid gwael yn gymysg a'r mamogiaid pan yn eu gwerthu.
Altrath—*change* : Mae llawer o altrath yn y plwy oddiar hynny.
Hyd yr awch—*scythe* : Mae nhw wedi cŵen y gwair hyd yr awch.
Mynegi—*publish* : Mae e wedi mynegi nhw.
Papuro—*advertise* : A odi chi wedi papuro y defaid sy ar goll ?
Dyn y tale—*rate collector* : Mi fuodd dyn y tale heibio ddo.
Cae crin—*wattled* ; Coedgae : Y caead o gylch y clôs [beili] cyn codi cloddiau.
Sgilus—*skilful* : Menyw sgilus iawn oedd Gweno.
Fflyrish—*flourishing* : Roedd y Côr yn go fflyrish byrt hynny. [Thomas Price].
Shwrne—*once* : Dim ond shwrne gweles i Kilsby.
Shwrne—*journey* : Cer i mofyn shwrne o ddŵr o'r pistyll.
Cyfarth y ci—*barking* : Erbyn hyn, waeth gen i pa ochor i'r tŷ y cyfarth y ci. [Un wedi dod yn drech na'r byd].
Rhôd—*swagger* : Yr wyf yn ei gofio pan odd e *yn 'i rôd*.
Lofau—*luggage* : Ddaethoch chi a'ch *lofau* gyda chi ?
Pillpri—*slim* : Rhyw *billpri* bach yw'r crwt o hyd.
Rhwng y clwydi—*rails of a hurdle* : Mae Evan a'i *ben rhwng y clwydi*. [Eisiau dod 'nôl i'r eglwys, fel dafad wedi mynd o'r lloc].
Ysdwetha fach—*recently* : Mi brynais i rhain *ysdwetha* fach.
Whithryn—*every bit* : Mi ath y cig yn ofer bob 'hwithryn.
Barcutana ; Cwnstabla—*spy for prey* : Pws fach, beth wyt ti'n cwnstabla ffor' hyn ! [Neli Lewis].
Eisws a chynt—*now and then* :
Ndopi—*manage* : Rw' i ndopi'n dda iawn ag e.
Rhebeldod—*rebellious* : Dodd yno ddim ond rebeldod.
Randibw—*rowdies* : a randibw fowr.
Perfedd 'i go—*in his senses* : Yr odd John ym mherfedd 'i go' heddi.
Aranera—½ *and* ½ : [o *half and half*] : Ma'r gwenyn gydag e a finne aranera.
Hwilmantan : *doing nothing* : Nath e ddim ond hwilmantan trw'r dydd.
Dylaith—*corpse* : Weles i mo'i ddylith e.
Fenter—*venture* : Dim ond i neud e at y fenter nes i.
Stramante—*bad temper* : Rodd e'n gneud shwd stramante.
Bribwls ; Yfflon ; Jibidêrs—*to bits* : Mi a'th y llestri yn fribwls.
Shi-rew—*saucy* : Un shi-rew iawn oedd Neli.
Plit—*plight* : A'th yn dipyn o blit arna i.
Solit—*continually* : Yr oedd yngafael a fi'n solit.
Sist—*assist* : Well i ni roi peth sist iddo.
Toc—*shortly* : Fe ddaw'n bryd i ni fynd toc.
Sarn ; Sarnau—*causeway* : Rhaid gneud sarn cyn cywen tywerch.
Cawsen—*paved path*. [Gwel yn "Nhalsarn, Ceredigion].
Ringlos—*heartburn* : Mae byta caws yn hela ringlos arna i.
Maesa—*seed time* : Pwy gyfer i chi a maesa ? Pwy gyfer i chi a'r gwanw'n ?

Llwybrus—*expeditious* : Dyw hi ddim towydd llwybrus ar y gwair. [Jane Davies, Trewern].
Cyfatal—*unsettled* : Digon cyfatal yw hi y cynheua hyn.
Lwgen—*pole* : Rho ddwy lwgen yn gro's i'r bwlch.
Dyor—*stop* : I ddyor y da i fynd i'r ddôl.
Mas o'r llyfrau : ma fe wedi mynd mas o'n llyfre i.
Torsyth—*swagger* : Dyna ddyn bach torsyth yw e.
Sudd yr heli—*close-fisted* : Chawsech chi ddim o sudd yr heli gydag e.
Tipyn o Jones ; Com op—*conceited* : Mae tipyn o gom op yn Mari.
Gobeio—*obey* : Os na fydd e'n gobeio, fe gaiff e fynd o 'ma.
Congees—*compliments* : Rodd tipyn o gongees boiti fe.
Bwyd segur : Dyma le buais i'n byta 'mwyd segur. [Cyn dechrau gweitho].
Swchsyber—*serious* : Rodd Jane yn swchsyber iawn heddi.
Pinco—*spring cleaning* : O, rychi wedi bod yn pinco tipyn boiti'r Ysgoldy. [Mrs. Behrens].
Bwyd segur—*brought up* : Dyma lle bues i'n bwyta 'mwyd segur.
Cribe-ffatri—Mae hi wedi mynd a gwlân i'r crib-e.
Copinod—*information* : Gest ti ryw gopinod gydag e ?
Cwrri—*cross* : Ma Nani rwbeth yn gwrri iawn heddi.
Bwmp—*down on* : Mae Siaci a'i bwmp ar bawb.
Cetyn—*term* : Mae Shani Tydraw wedi hela'i chetyn druan. [" wedi marw " ; " wedi darfod " ; " wedi cau ei gyllell " ; " wedi mynd lawr ".].
Conach—*grumble* : Ddylwn i ddim conach, rw i'n cael codi a thendo'n hunan bob dydd. [Mrs. Williams, Maesyderi].
Blewyn ; Pellen—*look sharp* : Rho flewyn yndi, ne ei di ddim adre heno ; Tyn y bellen o dan dy gesail.
Dan ban—*spent* : O'r holl arian oedd gydag e aeth y *cwbwl dan ban* rywle.
Porfeli—*to pasture* : Rown i yn porfeli y gaseg fach ar dalar y ca' tato.
Enfica [Edwica]—*profit* : Rodd e'n meddwl enfica lot ar i gefen e.
Llwybr tarw ; Fel hêd y frân : Fe gymrais i lwybr tarw trw'r caeau.
Gweddeifo—*team work* : Doedd mo John a Mary yn gweddeifo'n dda iawn.
Llwrw, lwyr—*half closed* : Gadewais y llidiad ar 'i lwrw. Aeth D. i'r gors lwyr 'i ben.
Du'r Ddafad ; Brith ; Broc : Rhyw garitor go ddu'r ddafad sy' iddo.
Cwlwm—*frost* : Mae wedi neud cwlwm go sharp neithiwr.
Tynnwch atoch—*help yourself* : Croesaw ar y bwrdd.
Seso—*stare* : 'Roedd y ci yn seso ar y gath.
Tynnu miwn—*pull up* : Rwyt ti Dai yn siarad yn go fras, well iti dynnu miwn.
Tynnu'r cwch i'r ymyl : Rown i mas o ngho ato fe, ond wedais i ddim llawer wrtho, dynnais i nghwch i'r ymyl.
Lwysen—*charity* : 'Naethoch lwysen ag e wrth ddechrau 'i fyd.
Gw-er—*shade* : Mae'r gwartheg yn gw-eru ar y gwres.
Hŵmo—*stale* : Mae'r cig yn hŵmo eisws.
Pregeth—*astonishing* : Mae'n bregeth i weld e, gan mor dene yw e.
Cwtshi—*courtesy* : Yr odd yr hen wraig yn cwtsho i fi bob amser. [Mrs. Harries, Caeradog].

I'R CASGLYDD.

Defion, arferion yfory—i gyd
Aent ar goll,—y rheiny
Yn awr rhwng dau glawr a glŷ
Dan fwyn yn dynn i fyny.

Cledlyn.

* * *

"Cŵdyn y saint." Dra'r Dinah. Tomen deiliwr.

* * *

Shôn Segur. Shoni Lonydd. Dic y Daliwr.

* * *

Common Sense :
"An equal balance of the faculties."
Lady Hills-Johnes.



YR HEN FUDDAI DWMP
[Tudalen 37]



TY-UNOS CYMRU FU
[Tudalen 38]

YR HEN BLOW
[Tudalen 39]

SHON SEGUR
[Tudalen 29]



Y DURYN
[Tudalen 96]

"Y gallu anghyffredin i drin pethau cyffredin bywyd."

Parch. Rhys Morgan [Dewi Brefi].

* * *

CYFOETH.

Yr hyfrydwch mwyaf mewn bywyd ydyw Cariad.
Y trysor mwyaf mewn bywyd ydyw Bodlonrwydd.
Y meddiant mwyaf mewn bywyd ydyw Iechyd.
Yr esmwythder mwyaf mewn bywyd ydyw Cwsg.
Y feddyginiaeth fwyaf mewn bywyd ydyw Cyfaill ffyddlon.

* * *

Y TRI FFISYGWR GORAU.

Doctor Diet; Doctor Merriman; Doctor Quiet.

* * *

Prydferthwch y tŷ—Trefn.
Bendith y tŷ—Bodlonrwydd.
Gogoniant y tŷ—Lletygarwch.
Coron y tŷ—Duwioldeb ynddo.

* * *

Dafad hesbinog.
Buwch ychenog.
Caseg ebolesog.

* * *

"Ni bydd doeth ni ddarlleno."

* * *

Eu Nêr a folant,
Eu hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant,
Ond gwyllt Walia.

* * *

Hâd i wyndwn.
Llyfnu hendir.

TRIOEDD YR HEN SAER.

Cwrbyn blwydd,
Spogen dair blwydd,
A Bŵl o'r berth.

Bryneirian.

* * *

TRI ANHEPGOR TAFARNWR.

Pen cadno,
Cynffon *spaniel*,
Bola hwch fagu.

Bell and Yew.

* * *

"Cysgod gwenyn ei saig."

* * *

"Yn yr ing, gorau yw'r câr."

* * *

Y GENINEN.

"Gwyn a gwyrddlas yw'r Geninen,—
Bonyn gwyn ar wyrddlas ddalen:
Y bonyn gwyn sydd arwydd purdeb,
A'r ddalen werdd o anfarwoldeb:
Y Cymry, o byddant bur i'w gilydd,
A flodeuant yn dragywydd."

Tegid.

YR OESAU.

Oes cae crin —Tair blynedd.
Tair oes cae crin —oes ci.
Tair oes ci —oes ceffyl.
Tair oes ceffyl —oes dyn.
Tair oes dyn —oes carw.
Tair oes carw —oes cigfran.
Tair oes cigfran —oes derwen.
Tair oes derwen —grwn.

CYFRI'R BYSEDD.

Feni, Feni, Feni,
Cender Feni, Feni,
Twm Barbwr,
Dai'r Badwr,
Bys bach druan gŵr
Yn llusgo drain trwy'r dŵr
A chario dŵr i Fari.

* * *

Feni, Feni,
Cender Ifi
Piti grogwr
Feni dabwr
Bys bach druan gŵr
Dorrodd ei ben
Wrth gario dŵr i facsu.

* * *

Bys bwstyn,
Twm swglyn,
Long Harries,
Jac Lewis,
Bys bach. [*Dyffryn Aeron*].

* * *

Hwn yn mynd i'r farchnad,
Hwn yn cario'r fasged,
Hwn yn berwi cawl,
Hwn yn ei yfed i gyd,
Hwn yn pwdu. [*Llanycrwys*].

* * *

Pwtyn nerthol,
Bach y drontol,
Hir ei gyrraedd,
Gewyn ymladd,
Ystiward bach y cwmni.
[*Llanycrwys.*]

* * *

Bowden,
Gwas y Fowden,
Libar, Labar,
Gwas y stabal,
Bys bach druan gŵr,
Dorrodd ei ben wrth gario dŵr
I mam i dylino. [*Cyfres y Fil.*]

* * *

Siencyn,
Licbôt,
Lingman,
Ringman,
Little Tom tidyman boy.

* * *

Twm tagwt,
Siencyn hogwt,
Ben Beni,
Cender Beni Treni,
Bys bach druan gŵr.

* * *

Feni, Feni,
Cender Feni,
Feni dabo,
Wil rhibo,
Bys bach druan ei gŵd,
Daflodd ei ben o dan y dŵr.

* * *

Bys bach,
Bys y fodrwy,
Bys tin,
Bys nesa'g ato,
Bys bawd.

* * *

SAITH RHYFEDDOD CYMRU.

Geneth lân na charo'i moli,
Gwerthwr na fo'n medru gwenu ;
Prynwr onest na fo'n cyfri ;
Crythwr na fo'n arfer meddwi ;
Hwsmon dalo rôt heb grynu ;
Ustus na fo'n caru holi ;
Meddyg ganmol lysiau gerddi ;
Dyna saith Ryfeddod Cymru.
[*Hen Benillion*].

Llen.

Yn y 60's a'r 70's yr oedd Llyfrgell werthfawr yn yr hen Ysgoldy, ag ynddi rai o lyfrau Cymraeg gorau'r cyfnod. Gwelais rai o honynt ar silffoedd yng nghartrefi'r hen aelodau. Cesglais a allwn i'r Ysgoldy presennol gan chwanegu atynt, a gobeithiwn y cymer ieuenctid y plwy' fantais o honynt.

"Na foed i ni golli golwg ar brif hynodrwydd y bywyd Cymreig, sef y diwylliant gwerinol sydd yn ogoniant i'n gwlad. I'r ychydig y mae'r colegau, ond mae'r diwylliant Cymreig yn eiddo'r werin gyfan."
[Llwydfryn].

Bu, ac y mae eto yn y plwy' ambell i draethodydd galluog. Gwelais amryw o gyfansoddiadau Eisteddfodau 1868 a '70.

Cymerai y diweddar Barch. Henry Jones ddiddordeb mawr yn yr hen Fyfyrgell, a bu yn arweinydd diogel i ferched a bechgyn y plwy' ar hyd ei "ddeugain mlynedd hyn".

Yn yr un cyfnod rhifai derbynwyr y "Cronicl Bach" ["S.R." a "J.R."] 56. Thomas Price oedd y Dosbarthwr. Mae ei restr o fy mlaen yr awron.

Ystyrid "Y Faner" [Thos. Gee] yn newyddiadur safonol. Byddai llawer o dderbyn ar "Y Byd Cymreig" [J. Williams], "Y Tyst", "Y Dydd", "Y Seren", "Y Llan", "Y Dywysogaeth", etc. Gwel a ddarlleno, bod cynrychiolaeth o'r pedwar enwad yn y plwy'.

Dim ond yr afon sydd rhwng y plwy' a'r Bedyddwyr yn Salem a Bethel, Caio.

DYSGU'R LLAFARIAID.



Mrs. Davies, Gelly, yn 10 oed, yn yr Ysgol ym Mhumpsaint.

GALAR-GÂN.

Alaw Gwerin.



CÂN O GYDYMDEIMLAD

â Margaret Jones oedd yn forwyn gyda Mrs. Griffiths, Gelliglyd, plwyf Trefilan, wedi colli ei chariad—Daniel James, Felincoed, plwyf Nantcwnlle.

Holl fechgyn mwynion Dyffryn Aeron,
Nesewch yn gyson i wrando'r gân ;
Chwi ferched heini cewch gyngor genny'
I beidio serchu rhy bell ymla'n.

Ar wallgofi mae'r gangen wisgi,
Lliw blodau'r lili sy'n brudd ei bron,
O waith dilyn a'r mab penfelyn,
Sef Dan o'r Felin—lencyn llon.

Fel blodeuyn yn gwywo'r gwanwyn,
Dan eira oerwyn yn y fro,
Felly Daniel a roddodd ffarwel,—
Mae'n huno'n dawel yn y gro.

Naw-ar-hugain oedd oed y bachgen
Yn gado'r impen yn y Plas ;
Ei gorff yn wiwlan rowd yn Nhrefilan,
Gerllaw yr Ywen tan ddae'ren las.

Rwy'n dychmygu y gwelaf Pegi,
A'i llygaid mwynddu ar y man
Lle gorwedda yr un anwyla,
Bob tro tramwya tua'r Llan.

Nawr mae Pegi yn y Gelli
Yn wylo'n heli ddydd a nos,
Wrth weld yr adar yn seinio'n gerddgar,
Pob un a'i gydmar claear clos.

Mae fel mwyalchen ar naill aden
Ar y gangen yn cwyno'n wan ;
*Ond daw i'w harddel fab hwy ei hoedel,
Os nad oedd Daniel ar ei rhan.

Cwyd dy galon ferch hiraethlon,
Cei gariad ffyddlon fel o'r bla'n,
Mae'r oll ddaeth iti er daioni,
Boed iti gredu hyn o gân.

Chwibana'r hedydd pan delo'r hafddydd,
Daw'r gôg a'i chywydd trwy'r glennydd glân,
Mae Llwyn-yr-Eos gerllaw i'r Gelli
I lonni Pegi a llais ei chân.

Os bydd gofyn ymhlith y werin
Pwy luniodd hyn o alar-gân,
Dywedwch yn union mai hen ŵr ffyddlon
Goruwch ymylon Aeron lân.

DEWI O'R BERTH.

Cerdd.

O GYLCH 1820 daeth un David Richard a'i deulu i fyw i Bryn-crach, fferm fechan yn y plwyf. Ganwyd ef yn Llygad-yr-ych ym mhlwyf Llansawel, tua'r flwyddyn 1790.

Yr oedd y gynneddf gerddorol yn gref ynddo. Fel lleisiwr ac arweinydd y rhagorai yn fwy nag fel athro. Cedwai Ysgol Gân—Sol—ym mhob man y gofynnid iddo hyd siroedd Aberteifi, Caerfyrddin a Morgannwg.

Daeth i gysylltiad â Richard Mills, Llanidloes [1809-1844] yr amser y bu hwnnw yn rhoi darlithiau a gwersi mewn cerddoriaeth yn Llanbedr a'r cylch. Tystiolaeth R. Mills oedd, na welodd ef well D.R. i roddi côr i ganu.

Yn gwybod am ei absen parhaus o'i gartref dywedai Dr. W. Davies, Ffrwdfâl : " Mae Dafydd Richard yn canu nes swyno yr eithin hyd at ddrws ei dŷ."

Ymhlith ei ddisgyblion yn Llanycrwys cawn Evan Davies, Gelli ; John James, Hafod ; David Davies, Glanfano ; Thomas Price, Wernfendigaid a William Thomas, Dryslwyn—[gweinidog Bwlchnewydd, Caerfyrddin wedi hynny]. Daeth y pump, wedi hyn, yn amlwg fel athrawon cerddorol, pob un yn ei ardal. Hen Nodiant oedd y gyfundrefn yn amser D.R. ond cafodd fyw i weld y gyfundrefn newydd—
—y Tonic Solffa—yn brigo a blodeuo yn y plwyf. Yr oedd Price Werndiged a Dr. Evan Davies a Thomas, Bwlchnewydd, gyda y rhai cyntaf yng Nghymru i gymryd at y Tonic Solffa, a chael eu pennu yn *Examiners* dan y Tonic Solfa College.

Bu Price yn yr ardal ar hyd ei oes faith, ac yn hyfforddi ieuenctid y cylchoedd yn y gelf dô ar ol tô. Medrai ei gôr ganu, yn y pedwar llais, ddarnau " ar yr olwg gynta'," yn bur gywir. Yr oedd sôn am y " Two Sisters " o Glanfano hyd ymhell fel enillwyr ar ddeuawd i S. ac A. a thôn ddifyfyr.

Yr oedd canu ac arwain côr yn nwyd a greddf yn y ddau—y Dr. yn gantor pereiddlais ac yn feirniad craff a manwl. Bu galw mawr arno i Eisteddfodau'r Deheudir.

Yng nghyngherddau y cylchoedd yr oedd " Price Werndiged " yn anhepgor, a'i ganu " Yr Ond ", " Hen Ffon fy Nain ", " Y Baban diwrnod oed ", " Mi gollais y Trên ", etc. yn anefelych.

Yn 1851 pan ar " Ffordd Loeger " yn *Salesman* dros ei ewythr—Jones Erw-wen, bu'n canu " Glan Meddwdod Mwyn " yn Music Hall, Islington, a chafodd *encore*, a chanodd " Gwŷr Harlech ". " 'Rown i yn y mhreim bryt hynny." Arosai Porthmyn Llancrwys yn

---

* Proffwydodd y bardd yn gywir. Ymhen blynyddau priodod Margaret â Evan Davies, Llundain Fach, yr hwn fu farw yn 92 oed.



LLEWELYN WILLIAMS
[*Tudalen 107*]

JOHN THOMAS, LLANWRTYD
[*Tudalen 105*]



DEWI HEFIN
[*Tudalen 107*]



MYNYDDOG

DAFIS CASTELLHYWEL
[*Tudalen 104*]

JAMES JAMES
(CYD-AWDURON "HEN WLAD FY NHADAU")

EVAN JAMES

[*Tudalen 107*]

y Welsh Room, Lock and Key, Smithfield, gedwid gan un o'r enw Keeble.

Crynhodd Dr. Davies adran o'r De ar gyfer yr Handel Festival, 1862, ac yr oedd Price a John Jones, Bookseller [Jones Bach] Aberaeron yn y cwmni.

Yn y cyfnod 1867-1905 Jones Bach oedd apostol y Tonic Solfa yng nghanolbarth Ceredigion—yn nhai cyrddau, eglwysi ac ysgoldai ar hyd a lled y Sir. Daw ei gysylltiad â Glannau'r Twrch a'r Cothi ag ef i fewn i'r stori.

Bu yn arwain côr Ffaldybrenin yn Eisteddfodau Llanbedr, Cwmdu a Llanddewi Brefi. Efe arweiniai gôr undebol Caio a Cwrtycadno yn Eisteddfod yr Ogofau yn 1864. "Codiad yr Haul" [Pencerdd Gwalia] oedd y darn.

Yr Eisteddfod gyntaf y bu ynddi oedd yn Aberystwyth 1856, gyda chôr Abermeurig, ac yn ennill am ganu, "Llawen floeddiwch i Dduw" [Tanymarian].

Ei unig athro cerddorol oedd Mathew Thomas, Cellan, pan yn ei ddosbarth cân yn Abermeurig [1847-9]. Hunan-addysgedig wedi hynny. Bydd atgof melys am ei ganu soniarus, ei gyfeillgarwch pur, a'i fedr fel Athro Cerdd. Cafodd y fraint, a'r pleser prudd o ddadorchuddio Tabled coffa Thomas Price yng Nghapel Ffaldybrenin. "Yr oedd Price a minnau fel dau frawd" ebr ef. Yr un dydd dadorchuddiwyd ei feddfaen gan Mrs. Davies, Glanfano, yr aelod hynaf o "gôr Ffaldybrenin."

I mi, mae eco ceinciau cerdd corau Cwrtycadno Salem, Llansawel a Llanddewi-Brefi, yn y cymoedd yma oddiar yr Ornest fawr yn Eisteddfod Ffaldybrenin 1870. [Gwel "*Cymru*" Cyf. 39].

Diwydiannau.

1830—Rees Jones, Penrhiw, Rhandirmwyn, yn adeiladu Melin, Pandy a Ffatri yn y Camnant. Dygwyd y peiriannau o Abermangoed, Cwmcothi, lle, gynt oedd "Y Crib-e". Yr oedd y Rees Jones yma yn dad i Rees Jones, Y Foelallt, Llanddewi, ac o wehelyth Joneses yr Ystrad, Llanymddyfri.

1889—Un David Bowen o Fydroilyn oedd y diweddaf i yrru'r Ffatri—nyddu a gwau. Dŵr oedd y pŵer.

1840—"Ty Jac yr Hatwr"—Cefnesgair. "Fe neithe Jac yr hatwr well hat am 'hwechinog na gewch chi nawr am bedwar a 'hwech"—[Nathan Jones].

1850—"Tŷ Deio'r Hatwr" Pant-y-garreg. Adwaenwn ei weddw—Mary, a Marged ei ferch, yn Llanfair, [1879]. Mary yn "un noted am wau 'sanau. [David Davies].

1860—"Tŷ Rhys y Nailer," Pant-un-nos. Gwneud hoelion pedoli "da ffordd Lloegr." [Welsh runts]. [Rees Davies].

1860—"Tŷ Rhys yr Hwper" [Cooper], Pantygwin. Gwaith coed—ystenau, ystyciau, etc. Rees Phillips [1816-1884].

1860—Tŷ Evan Gwe'ydd—Penrhiwfer. Gwneuthurwr clociau ac yn wehydd. Evan Williams.

1845—Y Ddôl—Marged Israel yn cael digon o waith i "hela bara ceirch". "Yr o nhw fel y wâfers gyda hi". "Yr oedd rhaid i *herno* hi ddiwrnodau ymla'n." [Mrs. Davies, Gelly].

1850—Thomas yr Hosier—Y Ddôl. Thomas. Jones.

1840?—Bu gof yn byw a gweithio yn Eithinduon.

1865—1880—A Brickwork was opened at Rhosybedw—Brick, drain pipes, flooring and roofing tiles, flower pots, etc. were made here. The instigator was the Rev. Joshua Cautley of Thorney Abbey, Peterboro' who undertook the management and development of the Estate on behalf of his son-in-law—Sir Robert Henry Davies, K.C.S.I., C.I.E. He introduced modern methods of husbandry. The new farm buildings were all constructed with brick made on the spot. The clay was of too fine a quality to be successfully kilned.

A new road was made joining the Llanwrda to Lampeter turnpike road to the old Ffaldybrenin Lampeter road at Rhosybedw: It is still called "Hewl Cautley".

Lewis Davies, J.P. of Gelly ably supported him in all his undertakings in the district.

The old barn bearing the inscription—"Built by Anne Davies in 1812" was con-

verted to a cottage by the late Col. H. S. P. Davies, and a wing was added to the house. The old mansion was restored by Sir Robert in 1873.

Seiri Coed :

David Jones, Ty'reithin.
John Richards, Ffosgota.
David Thomas, Maesisa a'i feibion—David, Rhys a *William.

Nodiad.—Ar arch Wil Llewellyn, wedi ei fesur ar y ffwrwm waith, gwnaeth D. Thomas arch iddo. Bu Wil byw bum mlynedd ar ol hynny, a chadwai flawd ceirch ynddi at wneud brithdwym, bwdran neu sucan blawd yn ol ei archwaeth ar y pryd.

David Davies, C.D., Bryneirian.
Un saer sydd yn y Plwyf yn awr, a hwnnw yn bensaer. Mae yn hyfedr ym mhob gwaith coed, a chyda'r droell.
Gweler ei waith ar Eglwys y Plwy', capeli Cwrt-y-cadno, Caio, Bethel, Esgair-Dawe a Phlasty Llystroyddin.
Mae yn " sa'r gwlad " heb ei drech hefyd.

1920—Bu, ac y mae, nifer o law-weithwyr medrus yn y plwyf : yn grefftwyr deheulaw.
Does gan neb ddim i ddysgu i James Walters, Llwynfedwen, am wneud cintell.
John Davies, Ty'reithin—am drap gwâdd, cwch gwenyn, etc.
David Evan Davies, Gelli, am glwydi a chwch gwenyn [W.B.C.], etc.
John Morgan, Hafod, am glawdd " carreg a thywaden ".

Cryddion.

David Evans ["Deio'r Lluest"] a'i Feibion.
John Evans, Penrhiwcelyn ac Erŵau.
Thomas Lewis, Hendy.

Wil Llewelyn, Penlan Ucha.—Y fe oedd criwr y plwy. Safai ar yr heol gyferbyn, pan ddeuai y gynulleidfa o'r Capel neu'r Eglwys wedi'r gwasanaeth ar y Sul, i fynegi y lle ac amser ocsiwn, neithior, etc, etc.

*Diweddar weinidog Gibea, Brynaman.

1844—David Davies, Tanyresgair—Stonecutter.

Timothy Richards a'i feibion—David ac Evan fu gofiaid Ffaldybrenin am ddwy genhedlaeth o leiaf. [Un o'r meibion oedd Timothy Richards y Cenhadwr]. " Un da oedd Evan am gwmpo eidon " ac efe oedd yn pedoli. Deio Godrerhos yn helpu yng nghartre'r Porthmyn.

John Davies a'i fab Thomas yn y Coopers. Bu Thomas yn pedoli da, ac yn dilyn ffeiriau yn y tair Sir—Ga'r, Aberteifi a Penfro.

" Un deche am gwmpo eidon oedd Deio Evan Gweydd."

Wedi y Richards bu Evan Evans yn Ffaldybrenin am dymor.

Timothy Andrew Jones, Tynwaun. Yn brentis gof du gyda John Evans, Pontbren-du, Llanarth [tad Morgan Evans, Oakford], wedi hynny yn gweithio gyda David Jenkins, Berthlwydfach, Gartheli ac yn Llwynieir, Llanfair.

Yn gynnar yn y ganrif o'r blaen daeth dyn ifanc o'r enw Daniel Andrew o Swydd Efrog i'r Llwynieir, Llanfair-clydogau. Gof offer awch ydoedd. Rhoddai ei gyfenw—" Andrew " ar bob offeryn o'i eiddo, a chof gennyf nad bodlon medelwyr y cylchoedd heb " gryman Andro " ar eu helw.

Gwerthodd ei stamp i Deio'r Go, Llwyn, un o'i hen weithwyr, a gwerthodd Deio ef i T.A.J. [Yr oedd fy hen gyfaill, y diweddar Evan Andrew Davies, Beilie yn ŵyr i'r Daniel Andrew uchod].

1920—Henry Evans, Drovers, ydyw gof presennol Ffaldybrenin.

Meiswniaid [Seiri Cerrig G.C.].

Thomas Morgan, Trewern.
Tom Griffiths, Ddôl-lâs.
Tom Griffiths, Tyn-llether [mab].
John Griffiiths, " [mab].
Tom Griffiths, Ddôl-lâs [ŵyr].

John Griffiths, Llwyn-Fedwen [ŵyr].
David Edwards, Blaen-nant.
Thomas Edwards, Camnant.
Evan Jones, Harford [Saer coed a cherrig, paentiwr, addurnwr, etc.].

Teilwriaid.

John Jones, Llwyn-ffynnon [Harford wedi hynny].
David Griffiths, Gelli-fach.
John Thomas, Maes-isa'.
T. Thomas, Erwion.

Cronicl y Plwyf.

1726—Y garreg fedd hynaf yn y Plwy'.

1812—Survey and Beating the boundary.
Llanycrwys :
John Powell [70], Ty-Mynydd.
Evan Williams [75], Gwndwngwyn.
Cellan :
Evan Jones [75], Lanlâs.
John Thomas [50], Bryncoch.
John Jones [45], Ffos-ffin.
Pencarreg :
Timothy Davies [50], Velindre.
Timothy Davies [50], Velindre-isa.
Herbert Evans, Highmead, [Steward].

1812—Cymanfa Dair Sirol : ar " Cae Gymanfa" goris yr Ysgoldy.

1820—" Old Survey of Chief Rent in Llanycrwys, Mynachty Hamlet. The sum to be paid by sixteen Copy Holders of the Grange is £4 : 7 : 8."
John Davies, Talley, Oct. 17th, 1820.

1831—Beating the Boundaries on behalf of Llanycrwys :
John Walters [77], Rhosybedw.
Evan Davies [50], Buchystarn.

1834—Y Garreg Fedd hynaf ym Mynwent Ffaldybrenin.

1836—Claddedigaeth David Thomas, Llwynwermod [mab Zechariah Thomas].
Darperid cagen gyrens ac Ebilon [Elderberry Wine] ar gyfer pawb.

1837—Beating the Boundary :
John Walters, Rhos-y-bedw.
Evan Davies, Buchystarn.
John Powell, Ty-Mynydd.

1839—Apportionment of the Rent Charge in lieu of Tithes in the Parish of Llanycrwys. Gross Rent Charge Payable to the Tithe Owner in lieu of Tithes : £90.
Valuer—William Morgan, Tanlan, Llansawel.

1840—Evan Williams, Penrhiw-fer, yn gwneuthur clociau, ac yn wehydd.

1840—Gwestfa Penbanc " 'slawer dydd "—Pryd o sucan lla'th.

1840—Plowo [Gwthio G.C. Gweler " Cwm Eithin ", Hugh Evans] :
wrth y 'stang—15 swllt.
Pledryn, yn fesur 4 llathen
Ystang—80 pl. × 2 pl.=2560 llath ysgwâr.
Ni wyddai Mr. Cautley beth oedd y Plowo.
Cafwyd difyrrwch pan y ceisiodd un o'r gweithwyr egluro beth oedd, a sut i blowo.

1841—" Sefydlu Cymdeithas o Grefftwyr ac eraill o drigolion Plwyf Llanycrwys a'r gymdogaeth, yn gyson â Deddf 10 Geo. A p. 56 a 4 a 5 W. p. 40, a Rheolau Ariandai Cynhilion." Arwyddwyd—John Tid Pratt, y Cyfreithiwr penodedig i gadarnhau Rheolau Ariandai Cynhilion.

1842—Mynachty Hamlet with twenty four occupiers. Highway Rate 6d. in the pound.
David Isaac, Penbanc, *Overseer.*

1842—Cicio'r Bêl-ddu ar Ddôl Bont—
Caio *v.* Llanycrwys.

1842—Chwarae Pêl ar dalcen dwyrain yr Eglwys.

1842—A Return of the Churchwardens and Overseers of men qualified to act upon juries :
Rees Thomas, Blaen-nant—Farmer.
Thomas Harries—Farmer and Drover.
John Walters, Rhosybedw—Farmer and Drover.
Daniel William—Farmer.
David William—Farmer.

1848—John Davies, Gwndwngwyn, yn ail was yn Llwynwermod : Cyflog, 18s. a thalu am wadnu pâr o glocs.

1849—Nathan Jones yn was yn y Derlwyn. Cyflog, £4 15s., swllt o ern a chaniatâd i fynd i saith ffair.
Yn gwerthu y da blwyddi am bymtheg swllt y pen.

1849—Ben Lewis, tad Mrs. Davies, Gelly, yn prynu 95 o dda am £100.

1854—Llanycrwys Common Inclosure Award by David Davies, Esq., Froodvale, *Valuer*.

1860—Darlith—" Yr Arddangosfa Genhadol." Parch. John Williams, Castell-newydd. [Golygydd " Y Byd Cymreig "].

1860—Rhod nyddu mewn arfer yn y Gelli.

1860—Harri Rees a'i lwyth ieir, a Elizabeth Jones, Esgair-Corn a'i llwyth cynnyrch y fferm yn mynd yr un pryd i Ferthyr.

1861—Tysteb Thomas Price—*Harmonium*.

1866—Claddedigaeth y Parch. Watkin Herbert, y Ficer. Gwasanaethai y Parchn. Wm. Edmunds, Rhostie a David Davies, Llanganten yn y tŷ [Tanyresgair], Evan Williams, Silian, [Nantcwnlle wedi hynny], yn pregethu 2 Cor 1.
Gwneid y gagen yr ail nos wedi ei farw. Rhennid y cwrw o'r *jar* i'r cludwyr. Rhoed yr elor i lawr wrth ddrws y Bell and Yew. Peint o ddiod i'r cludwyr.

1869—First Survey of a Railway—from Llandilo to Lampeter.
Craig Dwrch Arms—" Yr Inn Bren " built and kept by Mr. Smith.

1870—Eisteddfod Ffaldybrenin : Mynyddog yn Arweinydd a Beirniad Cerdd. [Gweler y Rhaglen—" Cymru " Cyf. 39. tud. 172].

1871—David Williams, Ysw., Abertawe [brawd William Williams, H.M.I.] yn penderfynu safle yr Ysgoldy].

1871—Darlith—" Canu," gan Tanymarian.

1871—Tonau'r Ysgol : " Annie Lisle " ; " Annie of the Vale " ; " Shall we gather at the river ", etc.

1872—Last Appointment of Parish Constables.

Forest Hamlet :
Jonathan Lewis, Blaenau.
Thomas Thomas, Crofftcyff.

Monachty Hamlet :
David Davies, Penbanc.
John Jones, Troedrhiw.

1872—Plannu Coed, Llarwydd, Perwydd a Ffawydd ar y Gelly, a Rhosybedw Estate.

1873—" Hewl Cautley " taken over as Parish Road.

1873—Adeiladu'r Ysgoldy.

1873—Cyngerdd yn Ffaldybrenin : Eos Morlais yn arwain.

1876—Darlith—" Dr. Livingstone " gan Herber Evans.

1883—Cyngerdd, gan Caradog ; Urddo T. Price fel " Alawydd Myrddin ".

1884—Col. Methuen, Llystroyddyn yn gosod Cafn Dŵr ar ben Rhiw Derlwyn.

1886—Perfformio " Mordaith Bywyd ", Pencerdd Maelor.

1888—Budd Gyngerdd i Llew Llwyfo yn yr Ysgoldy.

1892—Anerchiad i Thomas Price ar ben 50 mlwydd ei wasanaeth i ganiadaeth y cysegr.

1892—Preimin 'Redig Caio a Llanycrwys ar gylch yn Royal Oak, Farmers, Bell and Yew a Ffaldybrenin, wedi hynny yn flynyddol.

1892—Ail Adeiladu Eglwys y Plwyf : Adeiladydd : David Davies, Bryneirian.

1899—Tysteb i'r Parch. Henry Jones ar ei ymneilltuo o'r weinidogaeth—40 ml.

1899—Adeiladu'r Classroom.
Adeiladydd : Joseph Jones, Cellan.

1899—Gosod Carreg Sylfaen y Ficerdy gan yr Arglwyddes Hills-Johnes.

1900—Lladd Tywarch ar Gors Pyllau Llwydion.

1901—Bedyddio John Price Walters, Hendy [Capt. R.F.C.] yn yr afon Twrch gan y Parch. Morgan Griffiths, Ficer.

1901-20—Annual Tea and Sports at Dolau Cothy. Caio and Llanycrwys Council Schools.

1902—Plannu Derwen y Coroni yng ngardd yr Ysgol, gan Lewis Davies, Y.H., Gelly.
Rhodd Ben Lewis, Blaenau Fforest.

1903—Adeiladu Tŷ'r Ysgol.
Arcitect : D. E. Davies, Gelly.
Pensaer : D. Davies, Bryneirian.

1905—Adnewyddu'r Ysgoldy.
D. Davies, Bryneirian.

1905—Tysteb i Thomas Price ar ben 63 ml. o " godi'r dôn ". Col. H. S. P. Davies, yn Llywydd.

1905—An order was made for a Light Railway from Llandilo to Lampeter.

1906—Second Survey.

1906—Cymanfa'r Tair Sir yn Cae Canol Ffaldybrenin Inn.

1911—Tea, Sports and Presents at Rhosybedw. Sept. 24. Mary Patricia's birthday.
Home coming of Col. Davies and Mrs. Davies.

1911—Gorff. 13, Dydd Gwyl Urddwisgiad Iorwerth " Tywysog Cymru " yng Nghastell Caernarfon.

1911—Dr. Timothy Richards y Cenadwr yn annerch y plant yn yr Ysgol.

1911—Cau'r Ysgol : Angladd Mrs. Charlotte Johnes, Dolau Cothy, Chwefror 17eg.

1911—Cau'r Ysgol am yr wythnos. Coroni Sior V. Te a chwarae ar Cae Ffald, Tan-yr-esgair. Cwpanau ac arysgrif i'r plant.

1912-15—Christmas Tree at Rhosybedw. Mrs. and Col. Henry Cautley present in 1912.

1912—Dadorchuddio Tabled y Parch. Henry Jones, gan ei weddw—Rachel Jones.

1912—Electric Light in use at Rhosybedw.

1913—Edward Owen, F.S.A., Sec. Royal Commission on Ancient Monuments in Wales, visited School.

1914—Canhwyllau gwêr yn cael eu gwneud a'u harfer ym Mryneirian.

1915—Col. H. S. P. Davies presented a Roll of Honour to the School Portrait Gallery.

1917—Plannu Llarwydd ar Maescoy—mynyddir 1,100 tr. uwch lefel y môr. Yn goedwig hardd heddiw [1933].

1917—Unveiling the Portrait of Miss Mary Katherine Gwendolen Davies by Sir James Hills-Johnes, V.C., G.C.B., LL.B.

1918—Nov. 18, School closed to commemorate ARMISTICE DAY.

1918—Unveiling the Portrait of Lieut. David Walters, Llwynglas, by Col. Davies.

1919—Nov. 11, Rang School Bell—2 minutes, Silence.

1919—Jan. 10, School closed: Angladd Sir James Hills-Johnes.

1920—Dyrnu a ffustiau [*Flail*] yn Brown Hill a Waunbant.

'SLAWER DYDD:

Ymladd Ceiliogod ar Llety-Coch-Binnau—rhwng Llyn Fach a Cherrig Cedni.
Ymladd â bechgyn Kellan ar Garn Gwar Pwll y Pedyll.
Dŵr ydyw'r pwer i yrru peiriannau [*over shot wheels*].
Y swm mwyaf mewn taith [neithior] gofiai Mrs. Davies, Gelly, oedd £120 : 8 : 0.
Y Briodas ar geffylau ddiwetha gofiai—
John Allen, Pumpsaint
Miss Prichard, Berris.
140 o nifer a 12 seek outs.
Mary Lewis, Cwmcelynin,
(Mrs. Davies, Gelly).
Eleanor Thomas, Penarth,
(Mrs. Williams, Llandre).
oedd y blaenaf o'r cwmni.
Golchfa Ddefaid yn y Gelly ac Esgair-corn.

Tafarndai:

1825—Llidiart tri chwpwl: ar ffin Pencarreg a Llanycrwys; cedwid gan Sali 'Nebwen.
1860—Cross Hands: [Tafarn Nans], macsu gartref. Derlwyn Arms, David Thomas.
1898—Mountain Cottage [Tŷ Jem] Jemimah Davies.
Ffaldybrenin Inn, David Richards.
Bell and Yew, Walter Jones.

Tri ymwelydd cyson â'r Ysgol:

Parch. Henry Jones.
Thomas Price.
Lewis Davies, Y.H.

Tri Diwrnod llythyren goch Plant yr Ysgol:

Dydd Gwyl Ddewi.
Dydd "Tea and Sports" yn Nolau Cothy a Rhosybedw.
Dydd Cwrdd Cŵn Cadno'r Neuadd ar y Gelly Cross Roads.

The Lordship of Talley.

GRANGE OF LLANYCRWYS.

THE Parish is divided into two Hamlets—Monachty Hamlet and Forest Hamlet. The land in the Monachty Hamlet was Copyhold until the Law of Property Act came into operation in 1925.

A Court Leet is held once a year, formerly at Erw-Wen, but now at Ffaldybrenin, presided over by the deputy Steward D. F. Lloyd, Esq., of Lampeter. Twelve Free Tenants are sworn, two Affeerors, two Homagers and twelve Jurors. The Beadle or Bailiff is appointed as collector of estrays.

Stray sheep, etc., collected by the beadle and kept in the fold or Pound, are sold [if not claimed] by the Steward. Half the money to the beadle and the other half to the Lord of the said Lordship.

Mortuary Fines, or Heriots, of seven shillings are paid on the death of every Freeholder.

The King is Lord of the Manor. It probably "escheated" to the Crown from the original Lord of the Manor who possibly had been found guilty of Treason or some such offence, whereby it became forfeited to the Crown.

Beadles—Forest Hamlet: Evan Davies, Buchystarn. [dec.]

Monachty Hamlet: John Davies, Llwyncwrt. [dec.]

A Terrier of all Customs, &c.

A TERRIER of all customs, tithes, oblations, dues and profits of and belonging to the Rectory of Llanycrwys in the County of Carmarthen and Diocese of St. David's made the second day of August in the year of our Lord God one thousand seven hundred and thirty three at the visitation Convent then holden and kept for the said Diocese.

The tithes in kind of all corn and grain arising within the said Parish yearly there is due one sheaf out of every ten [if not agreed for] and the impropriator is to take it out when required by the owner or owners [if not agreed for] as aforesaid according to the ancient custom of the said Parish.

There is due from every occupier of a whole tenement of land or lands one penny in lieu of all sorts of hay. Tithe yearly at the Feast of Easter according to the ancient custom of the said Parish.

The tithes in kind of all lambs reared within the said Parish there is due yearly the second choice out of every ten, the first choice to the owner the second to the impropriator and if there remain even thirteen, there is but one lamb due if there be given lambs, there is one lamb to the impropriator due being the choice aforesaid if there be but six odd lambs there is half a lamb or half the value of the lamb, if there remain five odd lambs there is due to the impropriator five pence being a penny for each lamb without any entering upon Book according to the ancient custom of the said parish.

For every twenty milk ewes summered within the said Parish, there is due yearly the sum of fourpence in lieu of the milk according to the ancient custom of the said Parish payable at the Feast of Easter yearly.

For every milk cow having reared a calf and summered within the said Parish there is due yearly the sum of twopence in lieu of the milk payable at the Feast of Easter according to the ancient custom of the said Parish, And for every reared calf within the said Parish being alive at the Feast of Easter the sum of halfpenny to be paid then.

For every colt reared within the said Parish there is due the sum of halfpenny.

Feth Bees where they be kept * * * * four pence in lieu of feth money. * * * *

Tithe wool are payable twice a year viz.: at May and Michaelmas there is due one pound weight out of every ten pounds weight as shall be sheared within the said parish according to the ancient custom of the said parish.

There is due to the minister of the said Parish for every marriage and publishing of the Banns one shilling and sixpence according to the ancient custom of the said Parish.

For burying the dead the sum of sixpence and if he happens to bury upon Sunday he is due at threepence.

Due to the minister for baptizing of every child in church and churching of the mother the sum of fivepence, and if at home one shilling.

There is due to the sexton yearly for offerings from every marriage within the said Parish the sum of twopence [half marriage one penny], for every marriage as shall happen to be within the said parish in that joins in copulation to pay the sexton twopence then according to the custom and also due to the sexton from every baptism the sum of twopence.

For digging of every grave to bury the dead in a Coffin the sum of sixpence, and without a coffin twopence according to the custom of the said Parish.

We the churchwardens and chiefest Inhabitants of the said Parish who have hereunto subscribed our names do certify and affirm that all things within this Terrier be the usefullest way of paying all tithes and offerings according to the best of our memory and do here subscribe as followeth

WILLIAM DAVIES
THOMAS RUD
EVAN PRICE
JOHN EDWARDS
DAVID MORGAN
DAVID MORGAN
} *A true Presentment of the Customs of Llanycrwys Parish by us.*

JOHN WALTERS
DAVID THOMAS
} *Churchwardens.*

EVAN DAVIES, *Curate.*

Ysgolfeistri Llanycrwys—1800—1920.

Lle	*Cyfnod*	*Enw*
Eglwys y Plwyf	1800—1830	Lloyd Jones, Cwmtofawr, Llanwrda. David Davies, Llwynfeilig, Llangybi. Price Edwards, o'r Gogledd. Priododd ferch i William Bowen, y Banc-coty ar dir Blaenau Fforest, a bu fyw yno ac yn cadw ysgol am rai blynyddau. Mab iddo oedd David Price, Aberdâr, Cwmcothi. David Williams, o Gaio. Yr oedd "Kilsby" yn yr Ysgol bryd hyn. Gwel. "Y Geninen" Cyf. iii. Tud. i, Cyf. xxiii, Tud. 268. Ysgrifennai uwch yr enwau: "J. R. Kilsby Jones"; "Cofnodydd"; "Jeri Gelliwhimpen"; "Tal-a-Hen," etc. Eto, Cyf. xvi. Tud. 172, "Sôn am Ysgolion Cymru" gan Proffeswr Syr John Rhys, M.A., Ll.D. "Y Traethodydd" 1848, Tud. 373, "Adgofion am Ysgol Neuaddlwyd".
Yr Hên Dŷ Cwrdd ["Hendy" yn awr]	1830—1838	William Davies, Crofftycyff. Benjamin Evans, o Landdewi Brefi. David Evans, College, Llanwenog [1813—1902] Prof. D. L. Evans, Caerfyrddin, 1864—74. James Jones [Kilsby], Erw-ion. Evan Jones, Cwmtwrch, Caio. David Davies, Danyresgair. Trwsiwr a cherfiwr beddfeini. Cedwai Ysgol i lanw bwlch.
	1838—1846	Thomas Davies, Gât Fach, Pumpsaint. David Richard Bowen ["Yr Hen Scŵl"].
Llawr yr ail Dŷ Cwrdd		David Davies, Drovers [Danyresgair]. Evan Lewis, Y Gof, Longwood, Llangybi.
Llofft Tŷ Capel	1846—1856	John Lewis, y Bragwr, o Llanddyfri. David Davies, Drovers. Thomas Williams, Factory, Llansawel. David Williams, Farmers [Ficer Llandyrnog]. Gwel "The Red Dragon" Vol. ii. April, 1883. "Reminiscences of Cwmtwrch." —. Williams, Trewyddel. Evan Thomas, Pendderi, Llanllwni [1840—1917]: Ficer Llanegwad, 1882—1917.
	1864	William Thomas, Pendderi, Llanllwni. [Brawd Evan Thomas uchod]. Bu farw yn ieuanc. William Davies, Pencwm.
Pantyresgair	1844	William Evans [am dri gaeaf yn ei dŷ ei hun].
Penybont, Aberdauddwr	1847	Thomas Davies, Rhosgoch.
Codi Ysgoldy Brynyreithin	1857—	Daniel Williams, Pantyrhew [Ficer, Llantrisant; Rheithor Llantrithyd. Mrs. Rolle, Llundain. Benjamin Williams, Caegwyn. William Evans, Pantyresgair. Evan Jones, Penbryn. T. L. Richards, Ffaldybrenin. David Lloyd, Llanbedr.

Lle	*Cyfnod*	*Enw*
Codi Ysgoldy Brynyreithin	1857—	Mary Jones, Lluest, Pencarreg. Thomas Williams, Bryngoleu. David Evans, Cribin Clotas.
Tŷ bychan wrth dalcen y "Bell and Yew," nesaf i'r Eglwys.	1862	Elizabeth James, Brown Hill.
Llofft Tŷ Capel	1856—1864	Thomas Lloyd Davies, Gilfachwen. Vaughan Williams, o Sir Fôn. — Wilks, Sketty, Abertawe. Taliesin Jones, Taliesin, Ceredigion. David Davies, Llwyn, Llanycrwys [Offeiriad Llanganten, Brycheiniog. David Davies, Godrerhos, Llanycrwys. Thomas Davies, Glanvano, Farmers. Daniel Davies, eto William Harries, Llwyncwrt, Llanycrwys.
	1864—1866	David Edwards, Pembroke Dock: symud i Glanaman.
	1867—1870	Sarah Anne Davies, Castellnedd.
	1870—1871	Evan Evans, Bron Aeron, Llangeitho: yma o Llanddewi, wedyn i Pontlotyn a Chaerdydd.
	Ebrill—Mai 1871	Evan Evans, Felinfach, Pumpsaint.
	1871—1878	William Harries, Llwyncwrt.
Ysgoldy Presennol	1879—1883 *Pupil Teachers*	John Price, Hafod, Is Athro yn Ynyshir, Morgannwg.
	1888—1890	Margaret Richards
	1891—1892	Mary Jane Davies.
	1894	Ellen Davies.
	1896—1898	W. Walter Jones, Bell and Yew: Ficer Deiniolen, Caernarvon.
	1898—1899	William Davies, Dryslwyn.
Ysgoldy Presennol	1878—3 mis	Thomas Evans, Troedrhiw-rwysgen.
	1878—1879	J. T. Savage, Liverpool: symud i Cilcennin a Buxton.
	1879—1880	J. William Troy Hollis, Billingsgate.
	1880—1881	William Davies, Ystalyfera: symud i'r Farmers; yno am 36 ml.; marw yn 1918.
	1881—1894	Samuel Williams, Machynlleth: symud i Lanboidy; neilltuo, a marw yn Llanbedr.
	Mehefin—Gorff.	Johnny Williams, o Ystalyfera.
	1894—1895	James Mildenhall, o Kent.
	Mai—Mehefin	Thomas Evans, Esgair-iffri.
	1895—1898	Thomas James, Blaenau Gwent: symud i Longhope, Gloucestershire.
	1898—1920	Daniel Jenkins, Pentrefelin, Felinfach.
	1920—	Jos. Davies, Mydroilyn.
Ysgoldy Presennol		ATHRAWESAU CYNORTHWYOL.
	1898—1901	M. A. Davies, Llanddewi-Aberarth.
	1902—3	Sarah Lewis, Gwynfe.
	1903—5	Elizabeth Jane Richards, Myddfai.
	1903—1909	Elsie Anne Davies, Llangybi.
	1909[un wythnos]	Hannah Mary Morris.
	1909—10—11—12	Elizabeth Rees, Pencarreg.
	1913—1914	Nansi Davies, Pencarreg.
	1915—1919	Elizabeth Jane Richards, Myddfai.
	1920	E. L. Rees, Ram.

AROLYGWYR YSGOLION.

J. Bowstead, 1864—
A. Milman, 1865.
D. R. Fearon, 1866—1867.
William Williams, 1868—1896.
J. Bancroft, 1880—1881—1903.
E. H. Short, 1879—1898, 1901—1902.
David Thomas ["D.T."] 1894— . . 1908.
Thomas Jones, 1888—1889, 1890—1891.
L. J. Roberts, 1894—1895.
J. B. Williams, 1905—1906.
Daniel James, 1903—1906—1909.
G. Prys Jones.
Thomas Darlington, 1896—1898—1903.

Mewn Lluniau—

Capt. Ball, 1892—1893.
Major Glasscott, 1895.
Capt. Park, 1896.
B. B. Skirrow, 1897—1898.
A. Taylor, 1906 : [*Inspection Visit*][Ymweliad Ymchwil].

Sewing Mistresses :

Eleanor Lewis, 1864—1898.
Margaret Harries, 1882—1883—1884.

Rhestr o'r Beirdd.

* *Dynoda wedi marw.*

Enw Llŵn	*Enw Bedydd*	*Cartref*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
*Alfa	William Richards	Heolygraig	Rhwng-ddwy-glydach	Morgannwg	1875—1930	Gweinidog, Bardd	Hermon, Bryn-aman
Anellydd	Arthur Simon Thomas	Corner House	Caio	Caerfyrddin		Offeiriad,Bardd,Llenor	
Anthropos	Robert David Rowlands	Pentregwyn	Corwen	Meirionydd		Gweinidog, Bardd, Golygydd	
Ap Ceredigion	David Lewis	Tynygwndwn	Cilcennin	Ceredigion		Offeiriad, Bardd, Gol.	
Ap Lewis	David Evan Davies	Gelli-dyniewaid	Llanycrwys	Caerfyrddin		Ffermwr, Prydydd	
*Barlwydon	Robert John Davies	Tynant	Llanycil	Meirionydd	1858—1930	Bardd	Eglwys Llanrug
Bedwyn	Tom Harries Williams	Dolau Aeron	Betws Lleucu	Ceredigion		Offeiriad, Bardd	
Ben Davies	Ben Davies	Dol Gam	Cwarter Bach	Caerfyrddin		Gweinidog [A], Bardd	
*Bethel	Thomas Davies	Pont-y-swil		Meirionydd	1854—1922	Gweinidog [B], Bardd	Carrog, Glyndyfrdwy
*Berw	Robert Arthur Williams	Segontium Ter. Caernarfon	Llanbeblig	Caernarfon	1855—1926	Offeiriad, Bardd	Betws Garmon
*Bowen	William Bowen	Waunddwfn	Bettws	Caerfyrddin	1857—1922	Gweinidog, Bardd	
Bryfdir	Humphrey Jones	Tynewydd	Llanfrothen	Meirionydd	1867—	Arweinydd, Bardd	
*Brynach	John Davies	Sunny Hill	Llanfynach	Penfro	1873—1916	Bardd	Llwynyrhwrdd
*Brynfab	Thomas Williams	Ty'r Bugail	Aberdâr	Morgannwg	1848—1928	Ffermwr, Bardd	Eglwysilan
Brynog	John Rees	Y Fron	Cilcennin	Ceredigion		Crefftwr, Prydydd	
Bwlchfab	Thomas Davies	Brynarcuon	Caio	Caerfyrddin	1861—	Ffermwr, Prydydd	
*Cadwgan	John Morgan Howell	Portland House	Henfynyw	Ceredigion	1856—1927	Haearnwerthwr,Llenor	Henfynyw
Caeron	Isaac Harries Williams	Dolau Aeron	Betws Lleucu	Ceredigion		Offeiriad, Bardd	
*Carolan	Benjamin Carolan Davies	Llanerch Deg	Penbryn	Ceredigion	1860—1917	Gweinidog [A] Bardd,	Tynygwndwn
Cenech	Tom Davies	Heol yr Orsaf	Llangenech	Caerfyrddin		Gweinidog [A], Bardd	

Enw Llén	*Enw Bedydd*	*Cartrefi*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
*Ceredig	Evan Ceredig Jones	Tannerdy	Ciliau	Ceredigion	1850—1915	Gweinidog [U],Llenor	Cilie [U].
Cledlyn	David Rees Davies	Glanyrhyd	Llanwenog	Ceredigion		Ysgolfeistr, Bardd	
*Cranogwen	Sarah Jane Rees	Dolgoy Fach	Llangranog	Ceredigion	1839—1916	Darlithydd,Awenyddes	Llangranog
Crwys	W. Crwys Williams	Llwynybrwyd-rau	Llangyfelach	Morgannwg	1875—	Gweinidog [A], Bardd	
*Crymlyn	Abraham Hezekiah Thomas	Llwynybrwyd-rau	Llansamlet	Morgannwg	1851—1928	Cyfieithydd Brawd-lysoedd	
*Cerngoch	John Jenkins	Blaenplwyf	Llanfihangel-Ystrad	Ceredigion	1820—1894	Ffermwr : Bardd yr Awen barod	Rhydygwin
	*David Hughes James	Clynmelyn	Llanfihangel-ar-arth	Caerfyrddin	1845—1913	Ffermwr, Traethodwr, Bardd	
	David Hughes	Tynygwndwn	Llanfihangel-Ystrad	Ceredigion	1850—	Saer, Ffermwr, Prydydd	
D.E.	David Evans	Felin Blaenau	Llanwenog	Ceredigion	1867—	Llafurwr, Prydydd	
Dewi Emrys	David Emrys James	Majorca House	Cei Newydd	Ceredigion		Gweinidog, Bardd	
Dewi o'r Berth	David Davies	Berthneuadd	Nantcwnlle	Ceredigion	1818—1903	Ffermwr, Prydydd	Nantcwnlle
*Dewi Hefin	David Thomas	Cnapsych	Llanwenog	Ceredigion	1828—1909	Ysgolfeistr, Bardd	Cribin [U].
*Dewi Medi	David Lewis	Ton Mawr	Baglan	Morgannwg	1844—1917	Gweinidog, [A], Bardd	
*Dewi Mon	David Rowlands	Geufron	Rhosybol	Môn	1836—1907	Gweinidog, Athro	Claddfa Aberhon-ddu
*Dyfed	Evan Rees	Bwlch Wil [Fagwyr Fran]	Casmael	Penfro	1850—1923	Pregethwr, Archdder-wydd [1905—1923]	Y Gladdfa New-ydd Caerdydd
Dyfnallt	John Owen	Coedffalde	Llangiwc	Morgannwg	1873—	Gweinidog, [A], Dra-modydd, Bardd	
*Eifion Wyn	Eliseus Williams	Garth Terrace Porthmadoc	Ynyscynhaearn	Caernarfon	1867—1926	Ysgolfeistr, Bardd	Chwilog
*Eilir	William Evans	Garreglwyd	Cenarth	Caerfyrddin	1858—1910	Offeiriad, Bardd	
Elfed	H. Elfet Lewis	Y Gangell	Cynwil Elfed	Caerfyrddin	1860—	Gweinidog [A], Bardd, Emynydd, Arch-dder-wydd 1924—1927	

Enw Llén	*Enw Bedydd*	*Cartrefi*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
E.O.	Evan Owen James	Pantscirifach	Betws Ifan	Ceredigion	1882—	Athro, Bardd	
*Eirwyn	Rhys Rees	Ffynnon Fair	Llanfihangel-ar-arth	Caerfyrddin	1875—	Athro, Bardd	
*Ehedydd	D. Ehedydd Jones	Tirbach, Rhyd-cymerau	Llanybyther	Caerfyrddin	1854—1915	Gweinidog, Bardd	Rhydcymerau
Fred	Frederick Jones	Blaencelyn	Llangranog	Ceredigion	1877—	Gweinidog, Bardd	
*Ffynon Forgan	John Jenkins	Pentrefelin	Nantcwnlle	Ceredigion	1854—1933	Ffermwr, Prydydd	Nantcwnlle
*Glanarthog	Thomas Thomas	Lletyrhydycynig	Llandysul	Ceredigion	1850—1917	Prydydd	Brynrhiwgaled
Glantegwen	Sarah Davies	Royal Oak	Llanarth	Ceredigion		Awenyddes	
*Granellian	Isaac Evans	Felin Blaenau	Llanwenog	Ceredigion	1852—1926	Ysgolfeistr, Bardd	Mydroilyn
	Griffith John Williams	Cellan Court	Cellan	Ceredigion		Athro, Bardd, Llenor	
*Gwarnant	Thomas Williams	Gwarnant	Llanwenog	Ceredigion	1848—1914	Ffermwr, Bardd	Capel y Bryn
Gwernogle	Thomas Evans	Penlon, Crug-maen	Llanwenog	Ceredigion	1853—	Gweinidog [P], Bardd	
Gwili	John Jenkins	Hendy, Pontar-dulais	Llanedi	Caerfyrddin		Athro, Bardd, Arch-Dderwydd 1932—	
Gwilym Aeron	William Harries Williams	Dolau Aeron	Betws Lleucu	Ceredigion		Masnachydd, Bardd	
Gwil'mMyrddin	William Jones	Penybanc	Cilycwm	Caerfyrddin	1863—	Gweithiwr, Bardd	
*Gwydderig	Richard Williams	Hen Ben-Graig	Manorafon	Caerfyrddin	1842—1917	Englynwr, Bardd	Gibea, Brynaman
Gwylfa	R. Roberts	Tai Gwynion	Dwygyfylchi	Caernarfon	1871—	Gweinidog [A], Bardd	
*Gwynedd	Thomas Edwards	Glasinfryn	Pentir	Caernarfon	1844—1925	Canon o Fangor, Trys-orydd yr Orsedd 40 ml.	
*Gwyrosydd	Daniel James	Mynydd Bach, Treforis		Morgannwg	1847—1920	Glowr, Bardd	Y Mynydd Bach
*Hawen	David Adams	Hafod Adda	Llanfihangel-gen-eu'r-glyn	Ceredigion	1845—1923	Gweinidog, Awdur, Bardd	Talybont
H.T.J.	Henry Thomas Jacob	Treorci	Ystradyfodwg	Morgannwg	1864—	Gweinidog [A], Llenor, Darlithiwr	

Enw Llên	*Enw Bedydd*	*Cartrefi*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
Ifan Afan	Evan Jenkins	Craigytewgoed [Cwmavon]	Miangel	Morgannwg		Gweinidog [A], Bardd	
Ifano	James Evans Jones	Trecynon	Aberdâr	Morgannwg		Llyfrgellydd, Bardd	
	Isaac Jones	Goitre	Nantcwnlle	Ceredigion	1822—1915	Garddwr, Cerbydwr	Abermeurig
*Ioan o'r Nant	John Evans	Tynycwm	Conwil Gaio	Caerfyrddin	—1932	Masnachydd, Prydydd	Calfaria, [B], Abertawe
Isfoel	David Jones	Blaencelyn	Llangranog	Ceredigion		Ffermwr, Prydydd, Llenor	
Isfryn	John Davies	Gerddigleision	Lledrod	Ceredigion	1861—	Offeiriad, Golygydd, Bardd	
	Jenkin Lloyd	Blaentwrchisa	Caio	Caerfyrddin	1856—	Ffermwr, Hynafieithydd	
	John David Jones	Arfryn	Llangiwc	Morgannwg	1862—	Gweinidog, Llenor	
	J. Humphreys Griffiths	Caemelyn	Llanfihangel-Ystrad	Ceredigion		Masnachydd, Llenor	
	John Idwal Jones	Rhoslwyn	Llanbedr P.S.	Ceredigion		Ysgolfeistr,Dramodydd	
*Illtyd	John Lewis	Penlan	Llanfair-ar-garreg	Caerfyrddin	1867—1923	Gweinidog [A], Bardd	Blaenycoed
J.J.	J. J. Williams	Tai Gwynion	Cyfoeth-y-Brenin	Ceredigion		Gweinidog [A], Bardd	
	John Thomas Job	Brynheulyn	Llandybie	Caerfyrddin		Gweinidog [P], Bardd	
	James Evans	Penllain	Betws Ifan	Ceredigion	1872—	Gweinidog [A], Bardd	
	*Lewis Roderick	Cwmllafrod	Cilycwm	Caerfyrddin	1869—1918	Goruchwyliwr,Bardd	Cilycwm
*Llew Tegid	L. D. Jones	Ffriddgymen	Llangower	Meirionydd	1851—1928	Llenor, Bardd, Ysgolfeistr, Arweinydd Eisteddfod	Glan Adda
*Llwydfryn	Llewelyn Williams	Brown Hill	Llansadwrn	Caerfyrddin	1867—1922	Hanesydd, Llenor, Gwladgarwr	Llansadwrn
*LlwydLlunden	William Lloyd	Gelligarneddau	Llangybi	Ceredigion	1852—1913	Ffermwr, Prydydd	Gartheli
*Mafonwy	Thos. Mafonwy Davies	Godre'r Bryn Coedgaemawr Y Cotia	Cwarter Bach	Caerfyrddin	1867—1931	Gweinidog [A], Bardd	Cwmllynfell

Enw Llên	*Enw Bedydd*	*Cartrefi*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
*Mair Llambed	Mary Jones	Temple Bar	Llanfihangel-Ystrad	Ceredigion	1857—1922	Awenyddes	Soar, Llanbedr
*Marged	Margaret Jones	Bryn-aerau	Llanycrwys	Caerfyrddin	1840—1918	Awenyddes	Bethel, Caio
*Marlais	Nathaniel Thomas	Blaen-Marlais	Llansadwrn	Caerfyrddin	1845—1931	Offeiriad, Bardd, Llenor	Dinbych y Pysgod
*Melinddwr	Thomas Davies	Pelican	Llansawel	Caerfyrddin	1849—1912	Gwehydd, Bardd	Llansawel
*Michael	Michael Thomas	Penygraig	Llangiwc	Morgannwg	1861—1928	Bardd	Merthyr Vale
*Myfyr Teifi	Benjamin Morris	Glanrhyd	Llanfair-clydogau	Ceredigion	1880—1913	Llenor, Hynafieithydd	Llanddewi-Brefi
Nantlais	William Williams	Llawrcwrt	Llanfihangel-ar-arth	Caerfyrddin	1874—	Gweinidog, Bardd	
Neco	Enoch Evans	Tynewydd	Llanfihangel Ystrad	Ceredigion	1874—	Llafurwr, Llenor	
Neddfryn	John Jones Davies	Clifton	Castell Nedd	Morgannwg		Offeiriad, Bardd	
Oslwyn	Evan Jenkins	Glannant	Llanwnen	Ceredigion	1869—	Llafurwr, Bardd	
*Pedrog	John Owen Williams	Gatws Madryn	Llanfihangel, Lleyn	Caernarfon	1853—1932	Gweinidog, Bardd, Arch Dderwydd [1928—1931]	West Kirby, Lerpwl
*Penar	Griffith Griffiths	Y Lodge, Trecynon	Aberdâr	Morgannwg	1860—1918	Gweinidog, Bardd	Y Mynydd Bach
*Penfro	William Morgan	Ty Capel	Nevern	Penfro	1846—1918	Offeiriad, Bardd	Manafon
Prysgoed	David Jones	Pant-y-Ffynnon	Llanddewi-Brefi	Ceredigion	1853—	Ffermwr, Prydydd	
Rheinallt	Jonah Reynolds	Blaencelli	Llanwinio	Caerfyrddin		Trafaeliwr, Bardd	
*Rhuddwawr	John Evan Davies	Maesyradwy [Abergorlech]	Llanfynydd	Caerfyrddin	1850—1929	Gweinidog [M.C.], Bardd, Awdur	Bethel [M.C.], Llandilo
	Samuel Morris Powell	Dolgelynen	Blaenporth	Ceredigion	1878—	Athro, Dramodydd	
Sarnicol	Thomas Jacob Thomas	Sarnicol	Capel Cynon	Ceredigion		Athro, Bardd	
Sioronwy	Evan George Jones	Cilie	Llangranog	Ceredigion	1892—	Ffermwr, Prydydd	
Symlog	John Morgan	Tynewydd	Trefeirig	Ceredigion	1859—1931	Gweinidog [B], Bardd	Hengoed

Enw Llên	*Enw Bedydd*	*Cartrefi*	*Plwyf*	*Sir*	*Cyfnod*	*Disgrifiad*	*Mynwent*
*T.C.E.	Thomas Charles Evans	Heol Dŵr	Cydweli	Caerfyrddin	1868—1893	Offeiriad, Bardd	Eglwys Kidwelly
	T. Gwynn Jones	Gwyndy Uchaf	Betws yn Rhos	Dinbych	1872—	Bardd, Llenor	
*Watcyn Wyn	Watcyn Hezekiah Williams	Cwm Garw [Bryn Aman]	Cwarter Bach	Caerfyrddin	1844—1905	Bardd, Athro	Gellimanwydd, Rhydaman
Wil Ifan	William Evans	Vale View	Llanwinio	Caerfyrddin	1883—	Gweinidog [A], Bardd	Bardd
	T. H. Parry Williams	Rhyd Ddu		Caernarfon		Athro, Bardd	
Horeb	Tom Davies	Y Foel	Manoravon	Caerfyrddin	1874—	Gweinidog [A], Bardd	
S.G.	Sam Griffiths	Tynrhos	Llangeitho	Ceredigion		Ffermwr, Llenor, Bardd	
	J. E. Williams	Tanygraig, Cwmyglo	Llanrug	Caernarfon		Gweinidog [P], Bardd	
J.W., Brynawen	John Williams	Ty Capel, Rhostryfan	Llanwnda	Caernarfon		Masnachydd, Llenor, Bardd	
Lewys Dafydd	Lewis Davies	Hirwaun	Aberdar	Morganwg		Ysgolfeistr, Llenor, Nofelydd	
Eirug	Tom Davies	Troedyrhiw	Llanfihangel-Rhos-y-Corn	Caerfyrddin		Gweinidog [A], Bardd	

Enwogion Lleol.

Cartrefi	*Plwyf*	*Enw Bedydd*	*Enw Llên*	*Cyfnod*	*Nodiad*	*Claddfa*
Pantysgyfarnog	Llanycrwys	Thomas Morgan		1800—1887	Saer Maen	Ffaldybrenin
Crofft-y-cyff	Llanycrwys	William Davies		1804—1859	Prif Athro Ffrwdfâl	Elim, Ffynnon-Ddrain
		Joshua Cautley		1811—1893	Rector of Thorney Abbey, Peterborough	Broughton, Bucks.
Erw-Ion	Llanycrwys	James Jones	Tal-a-hen	1813—1889	Gweinidog, Darlithydd	Eglwys Llanwrtyd
Rhos-y-Bedw	Llanycrwys	Robert Henry Davies		1824—1902	Lieut. Governor, Punjab	Thorney Abbey
Gellidyniewaid	Llanycrwys	Evan Davies		1826—1872	Prif Athro Coleg Normal Aberhonddu ac Abertawe	Sceti
Gellidyniewaid	Llanycrwys	Lewis Davies		1832—1905	Ffermwr Anturus, Y.H.	Bethel Caio
Rhos-y-Bedw	Llanycrwys	Thomas Price	"Alawydd Myrddin"	1827—1910	Ffermwr, Arweinydd Cân	Ffaldybrenin
Troedrhiw, Merthyr	Merthyr	Henry Jones		1833—1901	Gweinidog [A] 40 ml. Llenor	Ffaldybrenin
Tafarn Farmers	Caio	David Williams		1835—1904	Offeiriad, Llenor	Llandyrnog
Llwyn-wermod	Llanycrwys	David Davies		1835—1902	Offeiriad	Llanganten
Y Gody	Llanycrwys	Timothy Richards [Li-tim-o-tai]		1845—1919	Y Cenadwr yn China	Corff-losgfa Golders Green
Gwndwn-Gwyn	Llanycrwys	William Davies		1845—1929	Offeiriad	Llanfihangel Abercowin
Wernfendigaid	Llanycrwys	David Thomas		1846—1928	Gweinidog [A], Llenor	Cheshunt
Tyn-waun	Llanycrwys	Daniel Evans		1850—1929	Ysgolfeistr, Gweinidog [A] Llenor	Bryn-Gwenith
Tyn-waun	Llanycrwys	John Evans		1856—1932	Ysgolfeistr	Cilycwm
Ffaldybrenin Inn	Llanycrwys	Timothy Lewis Richards		1851—1918	Ysgolfeistr, Offeiriad	St. Matthews, Abertawe
Llwyn Cwrt	Llanycrwys	Thomas Harries		1848—1903	Offeiriad	Aberhavesp
Llwyn Cwrt	Llanycrwys	William Harries			Ysgolfeistr 1871—1878	

Cartref	*Plwyf*	*Enw Bedyddiol*	*Enw Llên*	*Cyfnod*	*Nodiadau*	*Cladfa*
Rhosybedw	Llanycrwys	Henry Samuel Price Davies		1856—1928	Lt. Col. Indian Service	Marseilles Crematorium
Rhosybedw	Llanycrwys	Mary Katherine Gwendolen Davies		1871—1927	Heroine of the Great War	Marseilles Crematorium
Maescanol	Llanycrwys	William D. Thomas		1860—1919	Gweinidog [A], Llenor	Gibea, Brynaman
Penrhiw-celyn	Llanycrwys	John Price		1864—1927	Ysgolfeistr	Hen-Fynyw
Esgair-goch	Llanycrwys	Evan Jones			Cyn Brif Athro Ysgol Ganol Tŷ Gwyn ar Dâf	
Pant-y-gwin	Llanycrwys	D. M. Phillips			Gweinidog [P], Eboniwr, [Tylorstown]	
Penrhiw-celyn	Llanycrwys	D. Harford Evans			Gweinidog [A],Burry Port	
Bell and Yew	Llanycrwys	W. Walter Jones			Offeiriad, Cerddor Deiniolen	
Drovers	Llanycrwys	David Williams	[Brodyr]		Offeiriad : Glasgwm	
Llwyn-Fedwen	Llanycrwys	John Williams			Offeiriad : Gelligaer	
Llwyn-Fedwen	Llanycrwys	William Williams			Offeiriad : Rhoscolyn	
Stafell-Wen	Llanycrwys	Herbert Lewis			Myfyriwr : Coleg Caerfyrddin	Salonica
Rhos-y-bedw	Llanycrwys	D. Emrys Williams			Gweinidog [A], Llanwrtyd	
Bryn Crach	Llanycrwys	David Richards		1790—1872	Ffermwr : Solwr Teithiol	Ffaldybrenin

Cyfres Enwogion Lleol.

KILSBY.

1813—1889.

Llûn cawr o hên Blwyf Llancrwys—ydyw hwn
Kilsby dal a chytbwys :
Gwagle i fyd ac eglwys
Oedd dwyn ei gorff hardd dan gwys.

O Erw-ion yn arweinydd—cododd,
Cadarn efengylydd ;
Athraw gwlad a'i chenadydd
Cywir doeth ar bynciau'r dydd.

GWYDDERIG.

* * *

WILLIAM DAVIES, PH.D.

1804—1859

FRWD y Fâl !—ddeffroad fu—i addysg,
Ddyddiau gynt yn Nghymru :
Cai'r to ifanc, er tyfu,
Gysgod teg y coleg cu.

Athraw da, gweithiwr diwyd,—ni lecha
Ei glod dan lwch gweryd ;
A Dafis gaiff glod hefyd
Ymhlith heuwyr bendith byd.

ELFED.

* * *

EVAN DAVIES, M.A., LL.D.

1826—1872.

RHAGOROL ŵr garai'i wlad,—gynneuodd
Egnion yr henwlad ;
Angel fu yng Ngwalia fad.
Nawdd gwerin oedd ei gariad.

Llwybrau'i phlant a balmantodd—a'i goleg
I'w Walia estynodd ;
Fe roes ei ferr oes o'i fodd,
A gwawr addysg hyrwyddodd.

J. J. WILLIAMS.

LEWIS DAVIES, Y.H.

[1832—1905].

ER dan y gwys yn gorffwyso—o'i waith,
Yn nhir Bethel, Caio.
Y dyn call nid â o'n co',—
Ei ddylanwad ddeil heno.

Y gŵr hardd mewn gwir urddas—fu ein llyw,
Fu'n llond serch cymdeithas ;
Blaenor prin gwerin, di-gas,
A manwl ddyn cymwynas.

Addysg a fynnai noddi—yn o hir
Yn nos ei thylodi ;
A'i frwd Ryddfrydiaeth gai fri
O gannoedd o glogwyni.

Dyn ei wlad, dyn ei haelwydydd,—ustus
Gwastad, oedd ef beunydd :
Gwan llawn ffwdan mewn ffydd—i'r Gelli ai,—
Y dyn a wyddai am dŷ ei noddydd !

GRANELLIAN.

* * *

THOMAS PRICE [ALAW MYRDDIN].

1827—1910.

ARWEINYDD Ffaldybrenin !—hwn a'i gôr
Daniai gerdd gwlad Myrddin ;
Oes a fu ei ganu gwin
Gliriai aur gwyliau'r werin.

Mae ei ail am arwain moliant—y Tŷ ?
Ond tawodd yr eurdant :
Heno a'i ceisio fe'i cant
A'i gân yng Ngŵyl Gogoniant.

GRANELLIAN.

Y Diweddar Barch. D. WILLIAMS, Rheithor Llandyrnog a Deon Gwladol Dinbych.

1835—1904.

Areithiwr o fri Athen—oedd Williams,
Dwfn feddyliwr trylen ;
Cawr a llyw ym mysg gwŷr llên,
A noddwr ein hiaith addien.

Bri ei goethwych bregethau—a erys,
A'i eirian ysgrifau,
Ei rin a gair ei enau,
A gaiff o hyd ei goffhâu.

Penfro.

* * *

PARCH. JOSHUA CAUTLEY.

Daioni—ei nôd a'i anian,—a'r wlad
Arw lom wnaeth yn Ganan,
Y mae ei ôl ym mhob man,
A'i gofio wna gwlad gyfan.

Boneddwr : a bu yn nodded—y gwan
A'i gur a'i fyd caled,
Ni fô gŵr fwy agored,
A chywir oedd, foes a chred.

Ap Ceredigion.

* * *

Y Parch. HENRY JONES.

1833—1901.

Pregethwr a chenadwri—i'w oes,
Urddasol ei deithi :
O'r Ffydd, efrydydd o fri,
A'i fanwl i'w sylfeini.

Deheulaw i'r duwiolion,—a chadarn
Warcheidwad ar Seion :
Aruchel ei ymdrechion
I leshau eglwysi Iôn.

Dewi Medi.

Parch. TIMOTHY RICHARD, D.D., Litt.D.

Dyma Frawd mwyaf ei rin,—o euraidd
Oror Ffaldybrenin,
Yn hau gras yn China grin,
A olyga hael egin.

Llawn o addurn Llenyddiaeth—ydyw ef,
A dwyfol ysbrydiaeth ;
Gwynna ei hudol genhadaeth
Forwynion y cyffion caeth.

T. Davies [*Bethel*].

* * *

TIMOTHY LEWIS RICHARD

[1851—1918].

Periglor pur i'w Eglwys—drwy ei oes
Y caed Risiart orddwys :
Rhoi ceimion wnai'n rhai cymwys
Llyna yw cred Llan-y-crwys.

Mawr oedd ei lwydd, mawrhaodd ei le—'n hir
Yn nhwrf Abertawe ;
A disyflyd ei safle,
Nes ei nôl i deyrnas ne'.

[Parch. T. C. Evans]

Ficerdy, St. Matthews, Aber-Tawe.

* * *

Y Parch. WILLIAM DAVIES.

[1845—1929].

Hwn welwyd yn anwylyn,—yn y crud
Yn Llancrwys yn blentyn :
Duw iddo'n rhwydd bob blwyddyn,
Y nawn a ddaeth—mae'n hên ddyn.

Pur i'w eglwys fel periglor,—swynol
Ei seiniau fel cerddor,
Hedd gyhoedda'i egwyddor,
Ganwyd ef yn gennad Iôr.

Marlais.

Tenby.

TREM YN OL.

Ers tro yn ôl bellach, gofynnai yr Athro "Arthen" o'r Barri y ddau gwestiwn a ganlyn :—

1. Pryd y dechreuaist gadw Cyngerdd Gwyl Dewi, ac o ble daeth yr ysbrydiaeth ?

2. Pryd teimlaist ti'r brwdfrydedd dros y Gymraeg yn yr Ysgol ?

Wedi mynd i Lanfairclydogau ym mis Hydref 1878 yr oedd yn llawer o gysur fy mod ar hanner y ffordd wyth filltir sydd yn rhedeg yn gyfochrog a'r Deifi a Sarn Helen o Lanbedr-pont-Steffan i Landdewi Brefi—taith awr ar draed i bob un o'r ddeufan.

Yr oedd Llanddewi yn lle annwyl i fi ers blynyddau. Arferwn dreulio rhan o wyliau Ysgol a Choleg gyda fy ewythr a modryb a'r teulu yn y Pant, a oedd dri lled ca' o'r pentre, ac yr oedd yn rhaid i mi fynd trwy Llanddewi ar fy ffordd o Lanfair.

Yn 1875 bum yno dri mis yn gynorthwy-ydd yn yr Ysgol pan fu Rhystid Davies yr Ysgolfeistr yn wael.

Wedyn, am yr ugain mlynedd y bum yn Llanfair, bu fy nghyswllt â Llanddewi yn gyson a diollwng.

1. Man cwrdd y pentre oedd gweithdy'r cryddion. Dyma ganolfan bywyd gwledig y cylch. Yr oedd y gymdeithas yn creu awyrgylch iach ac yn cadw'n fyw yr hen draddodiadau. Yr oedd yn fagwrfa i ddiwylliant y werin.

Dyma "Senedd Brefi" y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhennid hi yn ddau Dŷ—yr Arglwyddi a'r Cyffredin. Staff y gwaith oedd y Lords ac yn ffurfio'r Cabinet i drefnu, yn ystod y dydd, y mesurau a fyddai i'w gosod gerbron yn yr eisteddiad dilynol.

Ymwelwyr—bechgyn o'r wlad a'r pentref oedd y Commons. Ar ôl y cwrdd agored ymffurfiai y ddau dŷ yn bwyllgor gweinyddol.

D. Francis Davies oedd y cadeirydd, ac yn sefydlog. Byddai aelodau arbennig yn gofalu am y materion y byddent yn awdurdod arnynt.

Symudiadau y Teulu Brenhinol ac uchelwyr y wlad—Dafydd Sa'r Lleder.

Symudiadau Crefyddol—John y Gwe'ydd.

Achyddiaeth Leol—Tom Clochydd.

Y Bêl Droed—John [mab y Cadeirydd].

Newyddion o Tregaron—Dafydd Stone.

Newyddion Llanbedr—Evan y Van.

Newyddion Llangybi—Tomos Masiwn.

Holwr Cwestiynau—Yr un.

Sylwadau ymyl y ddalen—Capten Rees.

*Newyddion Politicaidd—Jim Price.

Y Gohebydd—Dan y Morfa [diweddar Esgob Bangor].

*Yr oedd Jim Price yn derbyn Papurau Dyddiol, ond rhybuddiai y Cadeirydd—gan godi ei spectol ar war ei aeliau—nad oeddynt yn derbyn dim fel gwirionedd os na byddai yn cael ei gadarnhau yn y Faner Fawr ddydd Mercher.

Bu'r "Offis" [fel y'i gelwid] o werth a gwasanaeth mawr i'r pentref a'r wlad o gwmpas.

Yr oedd yn Llyfrfa, Darllenfa a Dadleufa. D.F.D. oedd yn dosbarthu Newyddiaduron, Cylchgronau a misolion y cyfnod—

Y Faner, y Goleuad, Y Genedl, Llais y Wlad, Y Dywysogaeth, Y Traethodydd, Y Drysorfa, Y Geninen, Y Cymru a'r Haul.

Drwyddi hi yn bennaf y caed—

Eisteddfod y Groglith ddeil yn ei bri hyd heddiw.

Dwfr glân i'r pentref, 40 mlynedd yn ôl.

Pont ar afon Brefi.

Claddfa Gyhoeddus, etc., etc.

Cofiaf am ddau o'r aelodau ddaeth yn Esgobion—T. Lloyd, Esgob Maenan a Dan Davies, [diweddar] Esgob Bangor. Ac mae eraill yn weinidogion ac offeiriaid ; a gawsant hyfforddiant manteisiol mewn areithyddiaeth oddiar lwyfan St. Crispin.

Cofiaf yn dda un eisteddiad pan oedd tŷ llawn. Daeth hen draddodiadau yr ardal dan sylw, ac yn eu plith yr hen hanes am Dewi Sant. Ceidwad y ffydd honno oedd Capten Rees—hen *wdwart* ar stât y Dderi. Ynglŷn â neges Dewi bu dadleu brwd. Mynnai rhai!taw dod i Landdewi wnaeth i geisio dymchwel athrawiaeth gyfeiliornus Morgan [Pelagius]. Hawliai eraill mai dod yno i ffurfio deddfau a rheolau disgyblaeth Eglwysig oedd yr amcan.

Wfftiai rhai stori'r g'lomen, yr angel a'r gwyrthiau, etc. I gloi y mater, cododd yr hen Gapten Rees a gwaeddai—" Mr. Cadeirydd a chithe fechgyn, alla i ddim a'ch godde chi—ma'r pethe yn efengyl i gyd—pob gair sy wedi scrifennu am yr hen Sant, am y pregethu a'r gweddio a'r gwyrthie a'r ddaear. Glywsoch chi fel gwedodd rhyw hen fardd, w i ddim yn cofio'i enw fe nawr

' Codes, nid ydoedd resyn
Dan draed Dewi, Frefi fryn.'

" Do, do, a se'r hen Ddewi yn dala ati i bregethu am spel wedin wn i pwy mor uchel fydde yr hen eglws ma. Weda i chi beth arall hefyd, yn Llanddewi dyle y Coletsh fod ag nid yn Llambed. Rw i'n cofio clwed nhw'n gweyd fod report y Commissioners o blaid i godi e yn Llanddewi, ag yr o'n nhw wedi ficso'r fan ar dir y Noyadd fanna, y man gore yn y sir, ag yr odd yr hen Sant wedi cysegru'r ddaear, ond fe ath yn dir eglws wedin, ag yn bart o stât y Dderi ar ôl hynny.

" Fe agorwd y cwar a dechreuwd codi cerrig ato fe, a ' Cwar y Coletsh ' yw i enw fe hyd heddi, a ble ceir gwell cerrig na cherrig Llanddewi, dos dim i ga'l, boys bach.

" Ie, ie, yn Llanddewi dyle'r Coletsh fod."

2. Yr oeddwn yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr 1885 ac yn lletya gyda'r diweddar William Hughes a'i briod yn y dref,—Rose Cottage wedi hynny

Ar un o ddyddiau'r Wyl bu cyfarfod o'r " Welsh Utilization Society ". Ces wahoddiad i fynd yno. Mae'n werth rhoddi enwau y Swyddogion. Cadeirydd, yr Hybarch Archiagon John Griffiths, Castell-Nedd ; Trysorydd, Dr. Isambard Owen ; Ysgrifennydd, Beriah Gwynfe Evans. Yr oedd yno un arall ar y llwyfan. Yr Archiagon oeddwn yn ei adnabod fel Griffiths " Dolau Gwartheg ". Cofiwn am ei hyotledd yn gwefreiddio y cynnull yn Eisteddfodau Aberaeron yn y 70's a'r 80's. Beriah a adwaenwn fel ysgolfeistr Llangadog a Golygydd " Cyfaill yr Aelwyd ". Eithr pwy yw hwnco meddwn wrth y sawl oedd wrth fy ochr, ac eb efe " Dyco Dan Isaac Davies achan ". Cofiais wedyn am dano fel Prifathro Ysgol y Comin, Aber-Dâr ac olynydd Dr. Evan Davies fel Prifathro y Coleg Normal yn Aber-Tawe [1867]. Awdurdodwyd pedwar ysgolfeistr profiadol i baratoi cyfres o werslyfrau i ddysgu y Gymraeg yn yr Ysgolion Elfennol—David Hopkins, Gelligaer ; T. C. Thomas, Bedlinog ; Matthew Owen, Pontlotyn a Thomas Jones, Bargod. O. M. Edwards gasglodd y Storiau. Fel y deellais wedyn, D.I.D. oedd y prif ysgogydd yn y mudiad, ac wedi llwyddo i gael gan Beriah i roddi yr ysgol heibio a bod yn Ysgrifennydd i'r Gymdeithas, ac yn Newyddiadurwr.

Gŵyr Cymru gyfan am lwyredd y gwaith wnai Beriah ymgymryd.

Er 1871 yr oedd D.I.D. yn Arolygwr Ysgolion ac ni oddefid iddo gymryd rhan amlwg, ond chwaraeodd ei ran yn egniol yn yr o'r-golwg. Chwap ar ôl hyn daeth " Welsh as a Specific Subject " i fewn i'r *Code*.

Mae tân a brwdianwch Cymreig y cwrdd hynny yn Aber Dâr heb ei enhuddo hyd yn hyn.

Brodor o Llanddewi oedd David Edwards [Y Deryn Du]. Ganed ef 1845. Aeth Canu a'i fryd yn gynnar. Ei athrawon cyntaf oedd D. Davies, Pannwr a Thomas Davies, Saer. Pan y daeth y Tonic Solffa, cymhwysodd ei hun yn fuan i hyfforddi eraill. Cedwai Sol yn " Soar y Mynydd ", Llanfair, Bwlchllan, Llangeitho, etc. Yr oedd i Landdewi a'r cylch yr hyn fu Thomas Price a Jones Bach i'w cylchoedd hwy. Symudodd i'r Mardy a bu yno yn flaenllaw iawn gyda chanu cysegredig a chorawl.

Wedi marw ei fab a'i briod dychwelodd i'w henfro a bu farw 1910. Gorwedd ei lwch yn y Gladdfa Gyhoeddus.

AMRYW.

DEWI SANT.

Alaw—" *Y Bardd yn ei Awen.*"

Tra bo Awen gan y bardd,
A goleu haul ar Walia hardd,
A thelyn fwyn a'i thant,
Megys seiniau swynol gân
Y Gwanwyn mwyn gan adar mân
Daw sôn am Dewi Sant.

Dyma ŵyl hen Walia wen
I ganu mewn gwladgarol fri :
Dewi bur a gwyd ei ben
Yn nawdd i'n huno ni.

Oesau'n ôl fel gwas y nef
Yn wawl dibaid i'w wlad bu ef,
Ac annwyl gan ei phlant :
Nawdd diffael ym mhlaid y ffydd,
A swynol deil tra haul y dydd
Y sôn am Dewi Sant.

Dyma ŵyl hen Walia wen, etc.

Dewr a fu a phur ei foes,
Yn urdd i'w wlad trwy dduwiol oes ;
Ac wedi oesau gant
Ennyn bri o fewn ein bron,
A swynion clau i'n lleisiau llon,
Wna'r sôn am enw'r Sant.

Dyma ŵyl hen Walia wen, etc.

Penfro.

Coffa.

" RHUDDWAWR."

A'r Wawr ar ei Rudd.

A'r gwawr ar ei rudd, yn fachgennyn,
Breuddwydiodd am dreulio oes
Yn fugail ar bennau'r mynyddoedd
Heb wybod am awel groes.

Ond arall fu trefn y Penbugail,
Cadd braidd ym mhrifddinas byd,
A threuliodd ei fywyd i gadw'r
Ddiadell mewn corlan glyd.

Ac yna yn ôl i'r mynyddoedd
I orffwys 'rôl lludded y dydd,
Gan rodio drwy gysgod y cyfnos
Ar wawr o hyd ar ei rudd.

Wil Ifan.

" FFYNNON FORGAN."

Ar ben Rhiw yr Hafod y safem,
Safem yn dyrfa syn,
Ac anodd i dri o geffylau
Oedd dringo drwy'r eira gwyn.

Nid pwysau y llwyth oedd a'i llethai,
'Roedd hynny yn ddigon clir,
Dim ond gweddillion gwerinwr
Yn myned i'w orffwys hir.

Nid hardd elorgerbyd a'i cludai,
Dim ond y gambo wael,
I'w olaf daith i Nantcwnlle.
Dyna ddymunai gael.

*Ddoe oedd y dydd a drefnwyd
I'w gludo i fynwent y plwy,
Ond trodd yr eira'n annhirion—
Be waeth os ym ddiwrnod yn hwy.

Diwrnod yn hwy yn y bwthyn,
Cartre'r gwerinwr gwan,
Diwrnod yn llai i orffwys
Ym mynwent dawel y Llan.

Yr eira'n wyn gylch ei feddrod
Ger Eglwys hynafol y Plwy,
Darfu ei lafur a'i ludded
Ca huno yn dawel mwy.

**Chwefror 24, 1933.* Gwilym Aeron.

"LLWYD Y PANT."

Y Gainc—"Dafydd y Garreg Wen."

Wylo mae'n telyn gwynfannus ei thant
Mewn hiraeth a galar am brydydd y Pant,
[Llanddewi Brefi].
Llywydd ein llysoedd a phroffwyd y Nef,
A tharian pob gwan yn ei frwydrau oedd ef.

Cadarn Dywysog, a Blaenor ei oes,
Diysgog ei ffydd yn egwyddor y groes,
Barnwr y gweddwon a chysgod i'w plant,
A'u porth ym mhob cyni oedd prydydd y Pant.

Carodd ei wlad, ei thraddodiad a'i hiaith,
Ei llwyfan, a'i hallor, hyd derfyn ei daith;
Mwyn hynafiaethydd hen fro Dewi Sant,
A brenin ei ardal oedd prydydd y Pant.

Er rhoi ei weddillion ym medd tan yr Yw,
Ni chleddir ei ysbryd, mae hwnnw yn fyw,
Iesu, gwaredwr hen brydydd y Pant
Fo'n nawdd a diddanwch i'w weddw a'i blant.

J. E. Williams.

JOHN MORGAN DAVIES, FROODVALE.

Siriol a phen Mesurydd—y Goron,
Dyngarwr ysblennydd;
Gŵr o ddawn hawddgara'i ddydd
Manwl, bu'n rhannu'r Mynydd.

Annwyl a pharchus Ynad—a hwylus
Oruchwyliwr difrad;
Carai hedd yn wledd i'r wlad
Tan estyn ati'n wastad.

Y bonedd hardda'i bennod—a roddwyd
A'i ruddiau tan dywod;
Ond ein glyn a daena'i glod
Yn ddirfawr a diddarfod.

Oslwyn.

GWEDDI YR ORSEDD.

Yn wyneb Haul—Llygad goleuni.

Dyro, Dduw, Dy nawdd:
Ac yn nawdd, nerth:
Ac yn nerth, deall;
Ac yn neall, gwybod;
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn;
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu;
Ac o garu, caru pob hanfod;
Ac ym mhob hanfod, caru Duw;
Duw a phob daioni.

Arwyddeiriau yr Eisteddfod.

"Y Gwir yn erbyn y byd."
"Duw a phob daioni."
"Iesu n'âd gamwaith."
"Calon wrth galon."
"A laddo a leddir."
"Môr o gân yw Cymru i gyd."
"Oes y byd i'r Iaith Gymraeg."

Arwyddeiriau.

Gorau awen gwirionedd—Prifysgol Cymru.
Nid byd, byd heb wybodaeth—Coleg Prifysgol Cymru.
Nerth gwlad ei gwybodau—Coleg Prifysgol y De.
Gorau dawn deall—Coleg Prifysgol y Gogledd.
Gair Duw gorau dysg—Coleg Dewi Sant.
Yr Urdd—Gobaith Ieuenctid Cymru.
Arwyddair—"Er mwyn Cymru a Chymru er mwyn y byd."

"Y Sawl a fynno f'yta
Dau enllyn gyta bara,
Fe ddyla hwnnw fod yn glawd
Am nuthir gwawd o'i fola."

Morgannwg.

"Mae llygaid gan berthi,
A chlustiau gan gôd,
Ynghanol tir golau
Mae orau i fod."

Brethin eddi Brith ei aden
Hawdd ei godi Hir ei geden,
Hir ei geden Hawdd ei godi
Brith ei aden Brethyn eddi.
(I'w adrodd ar anadliad).

RHESTR O'R TANYSGRIFWYR.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
Llyfrgell Gyhoedd Abertawe.
Llyfrgell Pwyllgor Addysg Abertawe.
Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
Llyfrgell Gyhoedd Aberystwyth.
Llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor.
Llyfrgell Gyhoedd Caerdydd.
Llyfrgell Pwyllgor Addysg Caerfyrddin.
Llyfrgell Sir Gaernarfon.
Llyfrgell Sir Geredigion.
Llyfrgell Wledig Ceredigion.
Llyfrgell Sir Ddinbych.
Llyfrgell Sir Fôn.
Llyfrgell Gyhoedd Penarth.
Llyfrgell Sir Benfro.
Llyfrgell Pwyllgor Addysg Pontypridd.
Llyfrgell Cyngor Dinesig Pontypridd.
Llyfrgell Cyngor Dinesig Rhondda.
Llyfrgell Cymdeithas Dafydd ap Gwilym, Rhydychen.
Llyfrgell Sir Drefaldwyn.

Y Gwir Barchedig Charles Alfred Howell Green, Arglwydd Esgob Bangor.
Y Gwir Barchedig David Lewis Prosser, Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi.
Y Gwir Barchedig Timothy Rees, Arglwydd Esgob Llandâf.

Ablett, T. G., 176, Aberhondda Road, Porth, Rhondda.
Adams, Mrs. David, Tynewydd, Llanfihangel-ar-arth.

Baker, Parch. W. E., 19, Station Terrace, Llanbedr-pont-Steffan.
Bebb, W. A., Coleg y Brifysgol, Bangor.
Behrens, Mrs. G. B., Vron Yw, Denbigh.
Bowen, Miss G., Tŷ'r Ysgol, Llanuwchllyn.
Bowen, D. J., Eurfaen Hall, Llanbedr-pont-Steffan.
Bowen, Edward J., Ellis Cottage, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Bowen, Parch. W. Rhys, Y Manse, Glais, Abertawe.
Bowen, Hannah, Tŷ Paris, Mydroilyn, Felinfach.
Bradney, Y Milwriad Syr Joseph A., M.A., F.S.A., Tal-y-coed Court, Mynwy.

Casburn, Mrs., Llansawel, Llandeilo.
Crawshay, Capt. G. [Sieffre o Gyfarthfa], Llanfair Court, Abergavenny.

Dafis, Glanmor, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.
Davies, D. M., Police Station, Merthyr.
Davies, W. C., Ysgol y Cyngor, Farmers, Llanbedr-pont-Steffan.
Daniel, David, Bryn Hirfon, Y Cymer, Port Talbot.
Davies, Arthian, 11, Alleyn Road, Dulwich, S.E. 21.
Davies, Miss, Ysgol y Merched, Burry Port.
Davies, Mrs., Henbant Hall, Llandysul.
Davies, Arnold, Cyfreithiwr, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. J. Alban, Ficerdy Llanddewi, Aberaeron.
Davies, A. H., Tailor's Hall, Aberaeron.
Davies, Alys J., [Alys Egryn], Tegryn, Llanfyrnach.
Davies, Anne Elin, 28, Lady Margaret Road, Southall.
Davies, Parch. Ben, 257, Caledonian Road, Islington, N.1.
Davies, B., Hafod, Llanycrwys, Llandeilo.
Davies, Mrs. Ben, Wernellyn, Llangadog.
Davies, Cassie, Y Coleg, Barri.
Davies, Parch. Cenech, Solva, Penfro.

Davies, C. Ewart, Gwynfynydd, Oswestry.
Davies, C., Froodvale, Hafdre, Llanwrtyd.
Davies, David, Pantycrug, Farmers, Llandeilo.
Davies, Mrs. Col. Hartwell, St. Gregory's Road, Stratford.
Davies, Alfred, Royal Oak, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, D., Erw-wen, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, D., 22, Elizabeth Street, Aberdâr.
Davies, Dan, Trewern, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Daniel, Y Pant, New Street, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Daniel, 3, Maple Street, Tottenham Court Road, W.1.
Davies, Daniel, Maesyrawel, Aberteifi.
Davies, Parch. Dalis, Beulah, Castellnewydd Emlyn.
Davies, Daniel Benjamin, Louvaine, 28, Lady Margaret Street, Southall.
Davies, Daniel, Tryal Bach, Llannon, Ceredigion.
Davies, Dr. David, Birch-Hill, Llangeitho, Tregaron.
Davies, Parch. D. Cadfwlch, Picton Place, St. Clears.
Davies, D. Saunders, Dolwern, Felinfach, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Dan Saunders, N. P. Bank, Crickhowell.
Davies, Arglwydd, Llandinam, Trefaldwyn.
Davies, David, 92, Guildford Street, Lozells, Birmingham .
Davies, David, Maesty, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, David, Bryneirian, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, David, Manor Farm, Plumpton, Towcester, Northampton.
Davies, Parch. David, Ficerdy Nevern, Crymych, Penfro.
Davies, D. Edwardes, 221, Archway Road, Highgate, N.6.
Davies, Ernest, Velindre House, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, D. E., Maesycoed, Felinfach.
Davies, D. Caxton, [Wm. Lewis, Cyf.], Queen Street, Caerdydd.
Davies, Parch. D. Cunllo, M.A., Bryn Elwydd, Machynlleth.
Davies, D. Evan, Minffordd, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Denis H., Pontfaen, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. D. Eden, Rheithordy Penderyn, Aberdâr.
Davies, D. J., Rhiwgoch, Aberaeron.
Davies, D. J., Meinciau Road, Caerdydd.
Davies, D. J., Arlunfa, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Mrs. D. M., The Lindens, Trinity Road, Aberystwyth.
Davies, Mrs. M., Y Fedw, Llangeitho.
Davies, Parch. D. T., Ficerdy Bangor, Gogledd Cymru.
Davies, D. Worthington, Brunswick House, Capel Dewi, Llandysul.
Davies, Parch. D. W., Rheithordy Llangynyw, Trallwm.
Davies, Elizabeth, Hazeldene, Llangybi.
Davies, E. J., Fronllwyn, Tanygroes, Aberteifi.
Davies, E. J., Forest Lane, Llangybi.
Davies, Parch. Edward Jenkins, Ficerdy St. Thomas, Abertawe.
Davies, Evan, Tanrallt, Nantcwnlle, Felinfach.
Davies, David, 6, King Street, Cwmdâr, Aberdâr.
Davies, Griffith, Sychbant, Felinfach.
Davies, David, Llety-panwr, Llwyngroes, Tregaron.
Davies, Stephen, Frithwen, Llwyngroes, Tregaron.
Davies, John, London House, Llanybydder.
Davies, John, London House, Llangeitho.
Davies, Lewis, Wernellyn, Llangadog.
Davies, Mrs. S., Loisweden, Towcester, Northampton.
Davies, Tom, 84, Primrose Street, Tonypandy, Morgannwg.
Davies, Parch. E. J., Rheithordy Bangor Teifi, Llandysul.
Davies, J. A., Lôn Isa, Rhiwbina, Caerdydd.
Davies, Elizabeth Aeronwy, 28, Lady Margaret Road, Southall.
Davies, Miss E., Ysgol Gyngor, Gartheli, Felinfach.
Davies, Mrs. J., Llwynifan, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Enoch, Treherbert, Morgannwg.
Davies, Evan William, Crofft-y-cyff, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Evan, Fanog, Abergwesin, Garth, Aberhonddu.
Davies, Evan, 33, St. Ann's Road, Burdett Road.

Davies, Evan, Dolbwba, Felinfach.
Davies, G. Ifor, Glanceri, 265, Albany Road, Caerdydd.
Davies, Dr. W. Llewelyn Gwyn, Gurrey Manor, Llandeilo.
Davies, Isaac, Royal Oak, Pumpsaint, Llandeilo.
Davies, Capt. H. B., M.C., 4th Wilds, 13th F.F.R., Jhelum, Punjab, India.
Davies, Idris, Tŷ'r Ysgol, Brynna, Pontyclun.
Davies, Parch. J. [Isfryn], Ficerdy Llanelltyd, Dolgellau.
Davies, Jos., Ysgol Gyngor, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, J. Idwal, N.P. Bank, Hwlffordd, Penfro.
Davies, Jenkin S., Berthlwyd, 21, Alban Road, Llanelli.
Davies, Parch. J., Rheithordy Tintern, Chepstow, Mynwy.
Davies, J. Ffos, Ty'r Ysgol, Felinfach.
Davies, J. Prosser, Dowlais.
Davies, Jonathan, Y Fro, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. J. H., Gelli Aur, Bryn Road, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, John, Cambrian Shoe Factory, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. J. J., Ficerdy Llandefeilog, Kidwelly.
Davies, John, 69, Albert Road, Llundain, E.
Davies, Parch. J. J., Llysteg, Caradoc Road, Aberystwyth.
Davies, J. J., Y Garth, Ffostrasol, Llandysul.
Davies, Mrs. J. Morfudd, Pantysgawen, Llansawel.
Davies, Dr. J. Lloyd, Granville, St. James' Crescent, Abertawe.
Davies, J. O., Greybrook, Neuaddlwyd.
Davies, John, Glynteg, Aberystwyth.
Davies, John B., 110, Beaconsfield Road, Southall.
Davies, J. W., Gwynfryn, Llangybi.
Davies, Nelly, Glan'rafon, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Lizzie, Llwyncwrt, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. Lewis, Ficerdy Cefncoed, Merthyr Tydfil.
Davies, Lewis, Maesyreithin, Y Cymer, Port Talbot.
Davies, Parch. Ll., Rheithordy Narberth, Penfro.
Davies, Llewelyn, Llwyn Onn, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Llewelyn O., Talsarn, Felinfach.
Davies, L. Terwyn, The Beeches, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, M., Penbrynbach, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Davies, Mrs. M., Tyngraig, Lledrod.
Davies, Mrs. Martha, New Inn, Llanddewi Brefi.
Davies, Miss M., Berthfa, Felinfach.
Davies, Miles, Fferyllydd, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Peter, Llanio, Tregaron.
Davies, R. Cledlyn, Cwrtnewydd.
Davies, Dr. Rhys, 6, Belgrave Terrace, Abertawe.
Davies, Rhys, [A.S.], Maendy, 17, Alan Road, Withington, Manceinion.
Davies, Rhys, Police Station, Aberaeron.
Davies, Parch. R. R., Glanyrafon, Castell Nedd.
Davies, Rees Iona, 16, Dungarvan Avenue, Putney, S.W. 15.
Davies, Rees, 29, Heol-y-bont, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, S. Gwilly, Neuadd-Lwyd, Llanymddyfri.
Davies, Samuel, Brynglas, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Davies, Mrs. S. M., Garthe, St. Clears, Caerfyrddin.
Davies, Simon, Greengrove, Felinfach.
Davies, Parch. Stephen, Church House, Barmouth.
Davies, Tom, Penarth-isaf, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, T., Tycanol, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. T. Alban, 7, Maendy Crescent, Ton, Ystrad Rhondda.
Davies, T. C., Brynffrwd, Trehafod, Pontypridd.
Davies, Parch. T. C., Usk View, Crickhowell, Brycheiniog.
Davies, Parch. T. Eynon, 195, East Dulwich, Llundain, S.E. 22.
Davies, Parch. T. E. Meurig, The Vicarage, Winchcombe, Glos.
Davies, Thomas, Tycornel, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Davies, Tom, Tyllwyd, Crosshands, Llanelli.
Davies, T. Huws, 79, Mortlake Road, Kew Gardens, Surrey.
Davies, Tim, Arnant, Felinfach.

Davies, Parch. T. Mafonwy, Brynbrain, Cwmllynfell, Abertawe.
Davies, Tom, Dremddu, Silian, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Tommy, 6, Station Terrace, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, T. Gwyn, Dolwen Fach, Llanwenog.
Davies, T. Price, Ryecroft, Gloddaeth Avenue, Llandudno.
Davies, Parch. T. R., Y Ficerdy, Llanddewi Brefi.
Davies, Trefor, "Lasael," 86, Well Hall Road, Eltham, S.E. 9.
Davies, T., 125, Clarton Avenue West, North Wembley, Llundain.
Davies, W., Swiss Cottage, Llangybi.
Davies, Walter, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Dr. Walter Ll., Aberynant, Llanidloes.
Davies, Parch. W. D., Crug-Glas, 24, The Promenade, Abertawe.
Davies, W. D., Bronfa, Llangybi.
Davies, W. Protheroe, London Wholesale Dairies, Vauxhall.
Davies, Parch. W. R., Compton, Y Ficerdy, Mochdre, Newtown.
Davies, W., 157, St. James Road, Bermondsey, S.E. 16.
Davies, Dr. T. L., 3, Glamorgan Street, Brecon.
Davies, D. Benbow, Cae'r-gog, Aberystwyth.
Davies, Ben, Dulais Villa, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Parch. E. M., Rheithordy Llanedi, Pontardulais.
Davies, Evan, Tanlan, Farmers, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Neli, Henllys, Henllan, Ceredigion.
Davies, E. Glyn, 18, Wightman Road, Harringay, N.4.
Davies, David, Talfan, Felinfach, Ceredigion.
Davies, D. Nun, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, Peter, Caerllugest, Tregaron.
Davies, E. J., Ardwyn, Felinfach, Ceredigion.
Davies, William, 15, Bath Road, Bradford-on-Avon, Wiltshire.
Davies, Evan Andrew, Dairyman, East Acton.
Davies, J. W., Ironmonger, Llanbedr-pont-Steffan.
Davies, David, Factory, Pontrhydygroes.
Davies, Tom, Tyncwm, Llansawel, Llandeilo.
Davies, W., M.R.C.V.S., Vaerdre, Llandysul.
Davies, John, Crugywhil, Llanybydder.
Davies, Evan, Brynawel, Senny Bridge, Brecon.
Davies, David, Ffynnone, Maesycrugiau.
"Deiniol Fychan," Ty Deiniol, Bangor.
Devonald, J., [Eos Ynys Owen], Melysfa, 5, Cottrel Street, Merthyr Vale.
Donne, Miss, Prif athrawes, Pennal Green, Llansamlet.

Edwardes, Miss Cissie, Glanrhyd, Penuwch.
Edwardes, Mrs., Beirnfels, Montpellier, Park Road, Llandrindod Wells.
Edwardes, J. Lloyd, Crynfryn, Penuwch, Tregaron.
Edwards, Capt. Arthur E., Cefn Coed, Crosshands, Llanelli.
Edwards, Llew, Lloyds Bank, Trefdraeth, Penfro.
Edwards, David, Croeswinter, Llannon, Aberystwyth.
Edwards, David, 27, Abergarw Road, Brynmenyn.
Edwards, David, 4, Caxton Road, Wood Green, Llundain, N. 22.
Edwards, Evan, P.O. Masoma, Tanganiyka Terr., Africa.
Evans, Evan, 11, Downham Road, Kingsland, Dalston, W.
Edwards, David, Boro' Engineer, Town Hall, Brighton.
Edwards, David, Tanffynnon, Penuwch, Tregaron.
Edwards, E., 69, Touthill Road, Finsbury Park, N.4.
Edwards, Edward, Is-Brifathro, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.
Edwards, Ifan ab Owen, Hafodwen, Aberystwyth.
Edwards, John, National Liberal Club, S.W. 1.
Edwards, M. S., 15, St. Marks Street, Aldgate, E.
Edwards, Polly, Talwrn, Bethania, Llannon, Aberystwyth.
Edwards, T., Talwrn, Bethania, Llannon, Aberystwyth.
Edwards, Thomas, 209, Pontardawe Road, Cwmgors, Gwauncaegurwen.
Edwards, William, 83, Carlisle St., St. John's Wood, N.W. 8.
Edwards, Parch. W., Rheithordy Clydey, Llanfyrnach, Penfro.
Ellis-Griffith, Lady, 32, Essex St., New Court, Middle Temple.

Ellis, T. I., Cynlas, Rhyl, Sir Fflint.
Enoch, J. Aeronydd, 3, Brigstock Terrace, Ferryside.
Evans a Stewart, Misses, Ysgol Silian, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Miss A., Maesymeillion, Llanybydder.
Evans, Ben, Bryn Road, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Ben, Brithdir, Caerfyrddin.
Evans, Miss C., Prif athrawes, Ysgol y Merched, Mardy.
Evans, Clifford, 32, Creswick Road, Acton, Llundain, W. 3.
Evans, C. J., 1, Westward Rise, Barri.
Evans, Dan, 77, Rouel Road, Bermondsey, S.E. 16.
Evans, Parch. D. Cellan, St. Padarn's Parsonage, 102, Stapleton Hall Road, N. 4.
Evans, David, 3, Bank Terrace, Llandeilo.
Evans, David E., Bryn Celyn, 35, Roath Court Place, Caerdydd.
Evans, David, Surveyor, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, David, Penlanlas, Felinfach.
Evans, David, Pengelli, Castellnewydd Emlyn.
Evans, David, Frongelli, Pontardulais.
Evans, David Cledlyn, Ardwyn, St. Clears.
Evans, David, [Dewi Brefi], 13, Southend Road, Hampstead, N.W. 3.
Evans, Parch. D. Harford, 5, Pemberton Avenue, Burry Port.
Evans, D., 8, Forest Lane, Llangybi.
Evans, D. H., Ysgol y Bechgyn, Burry Port.
Evans, D. Lewis, 2, Jebb Street, Bow, E.3.
Evans, D. Lodwick, Home Farm, Crosswood, Aberystwyth.
Evans, Delme Davies-, Penylan, Caerfyrddin.
Evans, D. Andrew, 6, Princes Street, Caerdydd.
Evans, D. Arthen, Glyn Geraint, Barri.
Evans, D. O., A.S., Rhydcolomennod, Llangrannog, Ceredigion.
Evans, D. D., Llaniofawr, Tregaron.
Evans, E. Derry, Ysgol Sir, Caergybi.
Evans, Enoc, [Neco], Coty Ddraenen Wen, Talsarn.
Evans, Evan, 4, Guildford Street, W.C. 1.
Evans, Edward, Towyn, Meirionydd.
Evans, Evan Edward, Felincoed, Felinfach.
Evans, Evan, 63, Dante Road, Newington, S.E.
Evans, Evan, Blaencamel, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Evans, Evan, 3, Gwydr Crescent, Uplands, Abertawe.
Evans, Dr. Evan, Aeron Villa, Felinfach.
Evans, Parch. Evan Moses, Blaengarw.
Evans, Dr. Evan, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Evan, Red Lion, Talsarn, Felinfach.
Evans, Evan, Fferyllydd, Rhydaman.
Evans, Parch. Evan, Gorwydd, Llangammarch.
Evans, E. B., Cyfreithiwr, Aberteifi.
Evans, Evan Gurnos, 28, Cromwell Street, Abertawe.
Evans, Evan, Blaenplwyf-Ystrad, Felinfach.
Evans, Parch. Emrys, Arwel, Felinfach.
Evans, Miss G., Westbourne House, Merthyr Vale.
Evans, Emrys, Arfryn, Aberhonddu.
Evans, Parch. E. Keri, Caerfyrddin.
Evans, Miss Eilir, Llwyn Eilir, Clare Gardens, Caerdydd.
Evans, Parch. T. Gwilym, Aberaeron.
Evans, Parch. Heber Alun, Llangeitho.
Evans, Ezer, Cefnbanadl, Tregaron.
Evans, H., Blaenparc, Cribin, Llanybydder.
Evans, Howell T., Ysgol Sir, Aberaeron.
Evans, Hugh, Brython Office, Stanley Road, Lerpwl.
Evans, H. H., Glyncornel, Llwynpia, Rhondda.
Evans, Parch. Isaac, Ficerdy Silian, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Parch. J. Rheithordy Llanglydwen, Hebron, S. O., Caerfyrddin.
Evans, Janet, 82, Addington Mansions, Highbury Grange, N.5.
Evans, J. S., Soar, Felinfach, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, J. Saunders, Bwlchymynydd, Rhydcymerau, Llandeilo.

Evans, Jenkin, Delfryn, Felinfach.
Evans, J., Brynteg, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Evans, Joseph, Llanfairfawr, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, J. Rhys, N. P. Bank, Llandeilo.
Evans, John, Aelybryn, Dryslwyn, Llandeilo.
Evans, John, Cyn-Arolygwr Ysgolion, 11, Parade, Merthyr Tydfil.
Evans, Mrs. Joseph, Gwelfor, Dinas Terrace, Aberystwyth.
Evans, J. B. Sackville, 185, Maida Vale, Llundain, W. 9.
Evans, John, [Analyst], Sheffield.
Evans, Mrs. J. E. Hope, Gwynfa, Tregaron.
Evans, Parch. J. N., Rheithordy Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, John [Ioan o'r Nant], Bryn Villa, Cockett Road, Sketty.
Evans, Parch. J. H. Onllwyn, Pantyffordd, Seven Sisters. Morgannwg.
Evans, J. James, Ysgol Sir, Abergwaun.
Evans, Parch. J. D., Talley, Llandeilo.
Evans, John, Ysgol Gyngor Carway, Kidwelly.
Evans, John, Y Bont, Cilycwm, Llanymddyfri.
Evans, John, Court Henry School, Dryslwyn, Caerfyrddin.
Evans, M. J., 11, Downham Road, Kingsland Road, N. 1.
Evans, Mrs. Mary, Gelligwefrwch, Felinfach.
Evans, Mary, Cilgwyn-isa, Llangybi.
Evans, Margaret, Soar, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Evans, M., Tanerdy, Ciliau Aeron.
Evans, Rhys [Alltfab], Ysgol Cwmgors, Gwauncaegurwen.
Evans, Richard, 16, Coronation, Aberfan.
Evans, Richard, Causton Street, Westminster.
Evans, Octavius, Prifathro Ysgol Ganol, Rhymney.
Evans, Owen, Brongest, Castellnewydd Emlyn.
Evans, Owen, Cnapsych, Llanwnen, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, S. J., Ysgol Sir, Llangefni, Môn.
Evans, Timothy, Dolcoed, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Tom, Glyn Villa, Ynyshir.
Evans, Tom, Pont-Twrch, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Parch. T. Eli, Pentretygwyn, Llanymddyfri.
Evans, Tom, Ysgol Gyngor, Llanilar, Aberystwyth.
Evans, Parch. T. C., Ficerdy Gorslas, Llanelli.
Evans, T., Pantycelyn, Blaencwrt, Llanbedr-pont-Steffan.
Evans, Thomas, 9, Northampton Place, Abertawe.
Evans, T., Wern Mackwith, Llanfihangel-ar-arth.
Evans, T. W., 155, Usk Road, Battersea, S.W. 11.
Evans, Samuel D., Y Deri, Llandrindod Wells.
Evans, Thomas, Ty'n Llwyn, Llanddewi Brefi.
Evans, Stephen, Cardigan Cafe, Aberfan, Merthyr Vale.
Evans, Parch. T. [Gwernogle], The Poet's Corner, Castell Nedd.
Evans, Parch. E. Gwilym, Awelon, Llandysul.
Evans, Walter, Tugela, Drefach, Llanybydder.
Evans, Parch. William [Wil Ifan], Ietygarn, Park Street, Bridgend.
Evans, Margaret, Courtland Terrace, Merthyr Tydfil.
Evans, W. D. Lewis, Tileri, Cockett Road, Sketty.
Evans, Syr Vincent, " Y Vinsent," 64, Chancery Lane, Llundain.

Felix, David, 174, Monument Road, Birmingham.
Felix, Evan, Henfaes, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Felix, Rees, 48, Frederick Road, Edgbaston, Birmingham, 15.
Francis, B., Bryncelyn, Bolgoed Street, Pontardulais.
Francis David, Troedrhiw, Merthyr.

Games, Mrs. Annie Bowen, The Hollies, Abercarn, Mynwy.
George, Y Gwir Anrhydeddus David Lloyd, A.S., Brynawelon, Cricieth.
George, William, Garthcelyn, Cricieth.
Griffiths, Parch. Daniel, Ffynnonfair, Llangrannog.
Griffiths, David, 62E, Brook Street, Aberamman, Aberdâr.
Griffiths, Gower, Bryn Derw, Bangor, Gogledd Cymru.

Griffiths, Parch. John, Ficerdy Llangwm, Usk, Mynwy.
Griffiths, J. Humphreys, Taliesin House, Rhymney, Mynwy.
Griffiths, John, Bronwylfa, Cross Hands, Llanelli.
Griffiths, John, Bryn Gwalia, Gorsgoch, Llanybydder.
Griffiths, Samuel, Tynrhos, Llangeitho.
Griffiths, Thomas, Brynberian, Aberfan, Merthyr Vale.
Griffiths, W., Ysgol y Bechgyn, Burry Port.
Griffiths, W. Glyn, Allt Menai, Bangor, Gogledd Cymru.
Griffiths, Mrs., 67, Marlborough Road, Abertawe.
Griffiths, Mrs. E., 74, King Edward Road, Abertawe.
Griffiths, Mrs., Carmarthen Dairy, Porthcawl.
Griffiths, Mrs. Peter Hughes, 42, West Heath Drive, Golders Green, N.W. 11.
Griffiths, Parch. W., Penparcau, Aberystwyth.
Gruffydd, Ceridwen, Ysgol Babanod, Ponciau, Wrexham.

Harford, Syr J. C., Falcondale, Llanbedr-pont-Steffan.
Harries, Mrs., Tanyresgair, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Harries, Dan, Llanbedr-pont-Steffan.
Harries, Rees, Rhymney.
Herbert, Parch. John, Claremont, Wellfield Road, Caerfyrddin.
Herbert, D. L., Clunderwen, Llangeitho.
Howell, Geraint M., 28, Rue de Richelieu, Paris.
Howells, Michael, Tregaron.
Hughes, Dan, Highmead Arms, Llanybydder.
Hughes, David, Maesffynnon-oer, Felinfach.
Hughes, Evan, Y Llwyn, Ciliau Aeron.
Hughes, D. Lloyd, 37, Yew Street, Troedrhiw, Merthyr.
Hughes, Proff. Ernest, Llythrid Avenue, Abertawe.
Hughes, Hannah Mary, Dyffryn, Silian, Llanbedr-pont-Steffan.
Hughes, Henry, Gellifaharen, Llandysul [gynt].
Hughes, Hugh, Aberystwyth.
Hughes, Hugh, 82, Bangor Street, Port Dinorwic, Gogledd Cymru.
Hughes, Parch. J. Evans, Ficerdy Llanwddyn, Oswestry.
Hughes, Proff. John, Rhodes University College, Grahamstown, Cape Province, South Africa.
Hughes, Rhys, Y Cwm, Llanbedr-pont-Stephan.
Hughes, Timothy, Plasnewydd, Pencader.
Hughes, Mrs. T. H. R., Neuaddfawr, Llanbedr-pont-Steffan.
Hughes, Parch. W. J., Ficerdy Brynamman.
Hughes, W., 56, York Road, Battersea, S.W.
Humphreys, E. Morgan, Maeshendre, Caernarfon.
Hywel Myrddin, Peniel, Caerfyrddin.

Isaac, D. M., Derlwyn, Ynyshir, Morgannwg.
Isaac, Evan, Gernant, Ciliau Aeron.
Isaac, T. D., 3, Mill Street, Llanbedr-pont-Steffan.

Jacob, Parch. H. T., Minyceunant, Abergwaun.
James, E. O., Burleigh, Treharris.
James, J. Gwendraeth, Ysgol Gyngor, Aberporth, Aberteifi.
James, Hugh, Ysg. N.F.U., Aberystwyth.
James, Trefor, Ysgol Gyngor, Cymer.
James, M. E., Ty'r Ysgol, Eglwys Fach, Glandyfi.
James, Parch. Lewis, Craig Avon, Builth Wells.
Jenkins, Mrs., Glyn, Cribyn, Llanybydder.
Jenkins, Anne, Trecefel, Tregaron.
Jenkins, Anna M., Arosfa, Bangor, Wisconsin, U.S.A.
Jenkins, David, Dairyman, Castle Street, Battersea.
Jenkins, D., Ysgol Gyngor, Aberaeron.
Jenkins, D., Llwyn Gwern, Upper Tumble.
Jenkins, Dan, 29, King Street, Cwmdâr.
Jenkins, D. W., Prengwyn, Llandysul.
Jenkins, David, Tirbach, Nantcwnlle, Felinfach.

Jenkins, Parch. David, Ficerdy Portmadoc.
Jenkins, E. H., 41, Teviot Street, Poplar, E.
Jenkins, Parch. E. O., Llwynmarles, Llandysul.
Jenkins, Evan, Llwynrhos, Pumpsaint, Llandeilo.
Jenkins, J. Ewart, Higher Green, Ainsworth, Bolton, Lancs.
Jenkins, Griffith, Blaenwaunganol, Llanwnen, Llanbedr-pont-Steffan.
Jenkins, G. T. [G.T.], Pontardawe, Morgannwg.
Jenkins, J. D., Bryngoleu, Penrhys Road, Ystrad Rhondda.
Jenkins, J. M., 16A, Torrington Place, W.C. 1.
Jenkins, Jenkyn, Glasgoed, Felinfach.
Jenkins, Griffith, Pencoed, Bettws Bledrws, Llangybi.
Jenkins, John [Gwili], 38, College Road, Bangor.
Jenkins, John Llethian, Brynaeron, Abermeurig.
Jenkins, John, Llandeilo.
Jenkins, John, Ffynnon-Forgan, Nantcwnlle.
Jenkins, Jonathan, Pentrefelin, Felinfach.
Jenkins, Miss M., 16, Tydfil Place, Caerdydd.
Jenkins, Rees, Three Horse Shoe, Cribyn, Llanybydder.
Jenkins, T. W., Perivale, 10, Cornwall Avenue, Finchley, N. 3.
Jenkins, T. D., Uchel Sirydd Ceredigion, Aberystwyth.
Jenkins, Syr William, A.S., Mount Pleasant, Cymer.
Jenkins, Mrs. R. J., Rhydtir Uchaf, Bow Street, Aberystwyth.
Jenkins, Parch. Sidney, Cartref, Llanpumpsaint, Caerfyrddin.
Jenkins, Tom, Teglan, Ciliau Aeron.
Jenkins, William, Temple Bar House, Felinfach.
Jones, A. G. Prys, H.M.I., Hillside, 2, Llwyn-y-grant Road, Penylan, Caerdydd.
Jones, Mrs. Tom Lloyd, 17A, Alexandra Drive, Lerpwl.
Jones, Misses, Llyfrwerthwyr, Aberaeron.
Jones, Y Brodyr, Compton, Aberaeron.
Jones, Avan ac Emrys, Tynypant, Llanwrtyd.
Jones, Mrs. A., Maesybedw, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, C. Bryner, Laura Place, Aberystwyth.
Jones, Ben, Tanyfron, Edgehill Road, Aberystwyth.
Jones, B. C., 16, Alban Square, Aberaeron.
Jones, B. T., Ysgol Sir, Ystalyfera, Abertawe.
Jones, Parch. D., Maesffynnon, Llangybi.
Jones, D., 62, Burleigh Road Sub Post Office, Enfield, Middlesex.
Jones, D., Gwastad Gwrda, Abermeurig.
Jones, D., Tanrallt, Ciliau Aeron.
Jones, D., Lloyd Jack, Felinfach.
Jones, Dan, Ysgol Gyngor, Mydroilyn.
Jones, Dan, Puma Court, Spitalfields.
Jones, Parch. Dan, Tregaron.
Jones, David, Hendre, Bwlchllan, Felinfach.
Jones, David, Brynbedw, Lônlas, Skewen, Castell Nedd.
Jones, David, Cambrian Stores, Creuddyn Bridge.
Jones, David, Cefncoedmawr, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, David, 74, Arabella Street, Roath, Caerdydd.
Jones, Parch. David, 19, Queen's Road, Aberystwyth.
Jones, David, Ysgol Gyngor, Llandrindod Wells.
Jones, Parch. D. Lester, Ficerdy Prestatyn, Fflint.
Jones, David, Bronhuan, Pumpsaint, Llandeilo.
Jones, Parch. D. Eiddig, Brynawel, St. Clears.
Jones, D. W., Welwyn, New Street, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, D. Osborne, Bryn Awelon, Ystrad-Meurig.
Jones, D. D., Shop Lôn, Ciliau Aeron.
Jones, David [Dewi Carno], Rhymney.
Jones, D. Milton, Education Offices, Pontypridd.
Jones, D. [Isfoel], Felin Huw, Cross Inn, Llandysul.
Jones, Parch. D. Meurig, Penyrheol-lâs, Holly Bush, Newport.
Jones, Dan P., Coedperthi, Beulah, Castellnewydd Emlyn.
Jones, Mrs. Dan, Wayside, Heathwood Road, Caerdydd.
Jones, D. J., Umgeni, Park Grove, Henleaze, Bristol.

Jones, Parch. D. J., Ficerdy Llanbadarn Fawr, Aberystwyth.
Jones, D. Phillip, Dolaeron, Aberaeron.
Jones, David, Prifathro Ysgol Bechgyn, Ystradmynach.
Jones, Parch. D. Jenkins, Brodawel, Ciliau Aeron.
Jones, Parch. D. C., 119, Burton Road, Brixton, S.W. 9.
Jones, E. O., 25, Bloomsbury Square, W.C. 1.
Jones, E. D., Ysgol Gyngor, Cross Inn, Llannon, Aberystwyth.
Jones, Edward, Tynfron-isa, Abermeurig, Felinfach.
Jones, Emrys, Cyfreithiwr, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Mrs., Elen, Llwyncelyn, Ffostrasol, Llandysul.
Jones, E. G., Tyn'rhelig, Llanarth, Ceredigion.
Jones, Mrs. E., Penybont, Tregaron.
Jones, Evan M., Berth-ddu, Swyddffynnon.
Jones, Evan, Rhydlâs, Gorsgoch, Llanybydder.
Jones, Syr Evan, Pentower, Abergwaun.
Jones, Mrs., Elizabeth, Moreton Street, Westminster.
Jones, E. L., Y Bwthyn, Ffosyffin, Aberaeron.
Jones, Evan, Arfryn, Llangeitho, Tregaron.
Jones, Evan D., 89, Coldershaw Road, West Ealing, W. 13.
Jones, Evan, Hendref, Aberaeron.
Jones, Edward, Tymelyn, Llangeitho, Tregaron.
Jones, Evan, 81, Whitlock Road, Chiswick, W.4.
Jones, Evan, Gludwair, Gorsgoch, Llanybydder.
Jones, Parch. Evan, [Rhyd-y-defaid], Y Ficerdy, Llanfynydd.
Jones, Parch. E. P., Glan-y-môr, Trefdraeth, Penfro.
Jones, Parch. Enoch, Ficerdy St. Bennet's, Llundain.
Jones, Evan, 41, Moy Road, Aberfan, Merthyr Vale.
Jones, Emrys Hirael, Iorwerth Avenue, Aberystwyth.
Jones, Garfield, Fferyllydd, Aberfan, Merthyr Vale.
Jones, Geraint, 32, Grazebrook Road, Dudley, Worcester.
Jones, Parch. Griffith, Ficerdy Llandebie.
Jones, J., Ysgol Gyngor, Nantgaredig.
Jones, Parch. G. Ceri, Llanwrtyd.
Jones, H. [Bryfdir], Blaenau Ffestiniog, Gogledd Cymru.
Jones, Miss H., Gwarcwm, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Mrs. Henry, Maesybedw, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Idwal, Rhoslwyn, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Parch. James, 26, Bryn Terrace, Cwmdâr, Aberdâr.
Jones, Ifano, Y Weirlod, Penarth.
Jones, James, 2, Cilgwyn Row, Llandysul.
Jones, J. M., Pumheol, Llanelli.
Jones, Miss J. [Eos Meurig], Cottage, Abermeurig.
Jones, [J. Aitsh], 6, Primrose Road, Birkenhead.
Jones, John, Pencefn, Tregaron.
Jones, J., 53, St. George's Square, Llundain, S.W. 1.
Jones, J., Gelli-hen, Talgarreg, Llandysul.
Jones, Parch. Islan, The Parsonage, Hindley, Wigan.
Jones, J. E., Ysgol Pennal, Machynlleth.
Jones, J., 36, St. Vincent Road, Southend-on-Sea, Essex.
Jones, J. Stanley, Tŷ'r Ysgol, Felinfach.
Jones, Parch. J. Tywi, Pantybugail, Glais, Abertawe.
Jones, J. Lloyd, Ysgol Ganol, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Parch. J. D., Glynogwy, Alan Road, Llandeilo.
Jones, Parch. Jenkin T., St. George's Vicarage, Enfield Wash, Middlesex.
Jones, Mrs. Jane, Llystroyddyn, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, J. W., Banc-y-Ffynnon, Cross Hands.
Jones, John, Chicago, Illinois, U.S.A.
Jones, J., Stationmaster's Office, Chepstow, G.W. 14.
Jones, J., Ysgol Gyngor, Llandysul.
Jones, J. R., Postmaster, Crickhowell.
Jones, Parch. J. T., The Manse, Wivenhoe, Essex.
Jones, J. W., Ynys-llyn-lladd, Cadoxton, Castell Nedd.
Jones, John, Cwmere, Felinfach.

Jones, John, Glyniscoed, Ffostrasol, Llandysul.
Jones, Parch. J. J., 24, Ferrer's Road, Oswestry.
Jones, John, Tyncelyn, Felinfach, Ceredigion.
Jones, Parch. Joshua, Ficerdy, Llanpumpsaint.
Jones, Josiah, Garthowen, Llandysul.
Jones, J. D., 438, Staines Road, Hounslow, Middlesex.
Jones, J. Marles, Ysgol Gyngor, Cwmgwili, Cross Hands, Llanelli.
Jones, Miss Katie, Gellifaharen, Llandysul.
Jones, Mrs., L. D., 3, Edge Hill, Garth, Bangor, Gogledd Cymru.
Jones, Mostyn, Ysgol Gyngor, Pembre.
Jones, Morgan, 44, Edward Street, Hampstead, Road, N.W.
Jones, M., 148, Shirland Road, Paddington.
Jones, Morgan, Penrhiw, Cwmann, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Morgan, Ysgol Sir, Abergwaun.
Jones, Owen, 2, Sea View Terrace, Aberdyfi.
Jones, P. H., Ysgol Gyngor, Llanarth, Ceredigion.
Jones, R. L., Penwenallt, Castellnewydd Emlyn.
Jones, R. W. [Erfyl Fychan], Tŷ'r Ysgol, Llanerfyl, Welshpool.
Jones, R. N., Bryncelyn, Aberystwyth.
Jones, Richard, Bodlondeb, Dolgellau.
Jones, Sam, 39, Park Place, Caerdydd.
Jones, Robert Prys, Glan Tegid, Bala, Gogledd Cymru.
Jones, Sarah, Glanyrafon, Llanfair, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Stanley, Midaeron, Talsarn, Felinfach.
Jones, Stephen, Delfryn, 17, Gavenny Road, Bridgend.
Jones, Stephen, 121, Turnpike Lane, Hornsey, N. 8.
Jones, Tom, Gilwern, Tregaron.
Jones, T. Bronant, 4, West Heath Avenue, Golders Green, N.W. 11.
Jones, T. H., 106, Elthorne Avenue, Hanwell, W.
Jones, Parch. T. Ehedydd, Y Manse, Pumsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Tom, 2, Harriet Street, Trecynon, Aberdâr.
Jones, Tom, Aelybryn, Towyn, Meirion.
Jones, Tom, Post Office, Parkyrhos, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Mrs. Tom, Clyde House, Queens Road, Aberystwyth.
Jones, Tom, Rochester Row, Westminster.
Jones, Tom, Y Vaenor, Felinfach, Ceredigion.
Jones, T. Gwynn, Hafan, Bow Street, Ceredigion.
Jones, Parch. T. J., Ysgwyn, Vicarage Road, Morriston.
Jones, Tom, Deffrobani, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Tim, N. P. Bank, Aberaeron.
Jones, Tim, Pentre Shôn, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Timothy, 352, King's Road, Chelsea, S.W. 3.
Jones, Tom, 10, York Buildings, Adelphi, W.C. 2.
Jones, Walter, Experimental Farm, Saanichton, Victoria, British Columbia.
Jones, W. S., Fronheulog, Penparcau, Aberystwyth.
Jones, W. J., Red Lion, Pontrhydfendigaid, Ystradmeurig.
Jones, William, Esgair Wen, Cwmann, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, Walter, Brown Hill, Brynteg, Gorseinon.
Jones, W. Teifi, 76, Regent Street, Treorci.
Jones, William, Twyngwyn Farm, Bedwellty.
Jones, Watkin, Gelligwenin, Silian, Llanbedr-pont-Steffan.
Jones, William [Gwilym Myrddin], Iscoed, Betws, Rhydaman.
Jones, Parch. W. J., Clapham Junction.
Jones, Walter, 82, Newfoundland Road, Caerdydd.
Jones, Parch. W. Walter, Ficerdy Llandinorwic, Deiniolen, Caernarfon.
Jones, Wilmot Inglis, Derry Ormond, Llangybi.
Jones, John, Penwern, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Jones, John Tysul, Spring Croft, Llandysul.

Knapp, Mrs., 14, Gwendoline Street, Merthyr.

Lewes, Miss Evelyn, Eithinfa, Cliff Terrace, Aberystwyth.
Lewis, W., Coolree, Llandysul.

Lewis, J. Penry, Fair View, Llandysul.
Lewis, Parch. H. Elvet, 37, Highbury New Park, N.5.
Lewis, D. J., Llwynderw, Farmers, Llanbedr-pont-Steffan.
Lewis, Parch. David [Ap Ceredigion], Llansadwrn, Menai Bridge, Môn.
Lewis, David, Llandre, Llanybydder.
Lewis, Ben T., Oranmore, Llanbedr-pont-Steffan.
Lewis, Mrs. Rogers-, Abermeurig, Felinfach.
Lewis, D. Lloyd, Talfan, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Lewis, D. Oliver, Hill Brow, 14, Albert Crescent, Penarth.
Lewis, G. T., Ysgol Sir, Tregaron.
Lewis, John, 3, Ceridwen Street, Mardy, Rhondda.
Lewis, John T., 9, Dawson Place, Llundain, W.2.
Lewis, Timothy, Gwylfa, Bryn Road, Aberystwyth.
Lewis, Tom, Blodfa, Mydroilyn, Felinfach.
Lewis, S. a L., Llwynbrain, Gwynfe, Llangadog.
Lewis, W. H., Y Gwynfryn, Llanarth, Ceredigion.
Lewis, Richard, Llanrhystyd.
Lewis, Parch. D. R., Y Ficerdy, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Lewis, W. G., School House, Trecastell, Aberhonddu.
Lewis, Samuel, Gwili House, Cross Hands, Llanelli.
Lewis, W. A., 87, Shiel Road, Lerpwl.
Lewis, Thomas, Brynderi, Neath Road, Resolven.

Llewelyn, G. F., St. Clears.
Llewelyn, Parch. J., 4, The Terrace, Borth, Ceredigion.
Llewellyn, W., Morgan Street, Tredegar.
Llewellyn, Mrs., Fair Holm, Nantgaredig.
Lloyd, Mrs. Dan, 72, Church Road, Homerton, Llundain.
Lloyd, D. Frank, Crown Manor's Office, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, D. G., Prifathro Ysgol Ucha, Rhymney.
Lloyd, Mrs. Esther, Blue Bell, Felinfach.
Lloyd, Parch. E. J., Penymarian, Aberteifi.
Lloyd, Evan, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, E. R., Corlan, Aberystwyth.
Lloyd, E. Roscoe, 215, Acton Lane, Chiswick, W. 4.
Lloyd, Hugh, 8, Kingsmell Street, Wrexham.
Lloyd, H. [Ap Hefin], 11, Seymour Street, Aberdâr.
Lloyd, Jenkin, Y Pant, Tregaron.
Lloyd-Johnes, Parch. Herbert, Dolau Cothy, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, J. D., Llysawel, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, John, Coedygof, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, J. Ernest, Langwm, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, Lewis, Glynderwen, Ciliau Aeron.
Lloyd, Canon John, Rheithordy, Dyffryn, Meirion.
Lloyd, Lloyd, 54, Amwell Street, Roath, Caerdydd.
Lloyd, Powell, 43, Kingrig Street, Roath, Caerdydd.
Lloyd, Rachel, 15, St. Mark's Street, Aldgate, E.
Lloyd, Roderick, Penybont, Tregaron.
Lloyd, W. Reginald, Trewern, Llanbedr-pont-Steffan.
Lloyd, Canon T., Aberview, Aberystwyth.
Lloyd, Syr Marteine, Bronwydd, Ceredigion.
Lloyd, William, 94, Glyn Road, Clapton Park, Llundain.
Lloyd, W., Abbey Bridge Farm, Chertsey, Surrey.
Lloyd, William, Maesllan, Swyddffynnon, Ystradmeurig.
Lloyd, Mrs., Llwyncadfor, Aberystwyth.

Mainwaring, Daniel, Glan-Gwili, Cross Hands.
Matthews, David, Prifathro Ysgol Rhanisa, Rhymney.
Morgan, Alban, Lôn Cilcennin, Ciliau Aeron.
Morgan, Dan, Snow Hill, Pennant, Llannon.
Morgan, D. J., Swyddfa Amaeth, Llanbedr-pont-Steffan.
Morgan, D. J., Ysgol Gyngor Glasfryn, St. Clears.
Morgan, Parch. D. Lloyd, Gobeithfa, Pontardulais.

Morgan, E. Daniel, 400, Gwyahaga Buildings, Cleveland, Ohio, U.S.A.
Morgan, Evan, Rhiwlasisa, Ciliau Aeron.
Morgan, Evan, 279, Walworth Road, Llundain.
Morgan, Henry, Barclays Bank, Aberystwyth.
Morgan, Isaac, Rhiwlas-isa, Ciliau Aeron.
Morgan, John Bunce, Afallon, Bow Street, Ceredigion.
Morgan, John, Penlan, Abermeurig, Felinfach.
Morgan, John, Tynywaun, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Morgan, John, Tanyresgair, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Morgan, John, Penrhiwcelyn, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Morgans, M., Ysgol Gyngor, Talley, Llandeilo.
Morgan, Magdalen, Training College, Abertawe.
Morgan, Margaret, Ynysycoed, Crynant, Castell Nedd.
Morgan, R. Emrys, Awelon, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Morgan, Tom, Tymawr, Pontrhydygroes.
Morgan, Parch. T. R., Bronhefin, Ystradmeurig.
Morgan, Parch. W. H., Ficerdy Ystrad Aeron, Felinfach.
Morgan, William, Hendraws, Cilcennin, Ciliau Aeron.
Morgan, Mrs. W. R., Talbot Hotel, Towcester, Northants.
Morris, Abraham, Gwynfa, Llantarnam, Newport.
Morris, Alban, Swyddfeydd y Cyngor, Caerffili.
Morris, Griff, 30, Palace Avenue, Llanelli.
Morris, Haydn, 2, College Hill, Llanelli.
Morris, Rhys Hopcyn, 116, Greenfield, Llundain, N.W. 2.
Morris, John, Coedygof, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Morris, Rhys, Llangeitho, Tregaron.

Nicholas, Rhys, School House, Wembury, Plymouth.

Owen, Mrs., South Side, Clapham Junction.
Owen, David, 54, Crawford Street, Marylebone, W.
Owen, J. T., Ysgol Sir, Aberaeron.

Parry, Edith, Glasgoed, Penparcau, Aberystwyth.
Parry, S. K., Llanelli.
Parry, Parch. T., Colwyn Bay, Gogledd Cymru.
Peate, Iorwerth, Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd.
Peregrine, Parch. T. J., Llanuwchllyn, Meirion.
Phillips, Parch. D. M., Tylorstown, Morgannwg.
Phillips, J., Pencraig, Cwmbach, Caerfyrddin.
Pierce, W. Lloyd, Bryn Llewelyn, Llanfair, Welshpool.
Poulgrain, Mrs., Portland House, Aberaeron.
Powell, Dewi, Blaenwern, Rhydlewis, Llandysul.
Powell, Lemuel, Maesteg, Llanbedr-pont-Steffan.
Powell, S. M., Y Gernos, Tregaron.
Price, Aeron, Rhoslyn, Aclan Road, Bridgend.
Price, Mrs. B., 5, North Road, Aberaeron.
Price, David, Penybanc, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Price, Evan, Aeronfa, New Street, Llanbedr-pont-Steffan.
Price, Fred S., Rock House, Heathfield, Abertawe.
Price, Parch. J., Talley House, Llandeilo.
Protheroe, Dan, 5021, Dorchester Avenue, Chicago, U.S.A.
Protheroe, Gwilym, Keeper's Lodge, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Prydderch, J. E., Towy Dairy, Rhymney.
Prys, Owen, Lluest, North Road, Aberystwyth.
Pugh, Edgar, Ysgol Gyngor, Cwmduad, Caerfyrddin.
Pugh, H. L., Rampayne Street, Westminster.
Pugh, Robert, Penrhyn House, Aberfan Road, Aberfan.

Rees, D. Ll., Glynwern, Llanilar.
Rees, David, Glennydd, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Rees, David, Prifathro Hafod-yr-Ynys, Pontypŵl.
Rees, Parch. D. Caron, Ficerdy All Saints, Abertawe.

Rees, Parch. D. Gwilym, Ficerdy Gwyddelwern, Corwen.
Rees, D. Miles, Gelli-deg, Boncath.
Rees, Parch. D. Saunders, Ficerdy Buckley, Caer.
Rees, E. Walter, [Gwallter Dyfi], Barclays Bank, Caerfyrddin.
Rees, George, "Welsh Gazette," Aberystwyth.
Rees, Canon J. Lambert, Rheithordy Llanddowror.
Rees, J. T., Bow Street, Ceredigion.
Rees, Mrs. J., Minafon, Llanilar.
Rees, Miss Mary L., Ty'nllidiart, Penllwyn, Aberystwyth.
Rees, Parch. Phillip, Ficerdy Bredbury, Cheshire.
Rees, Miss S. E., Ysgol Bechgyn, Burry Port.
Rees, Parch. W., Ficerdy Penmaen, Argoed, Mynwy.
Reynolds, Jonah [Rheinallt], Llaindelyn, St. Clears.
Rhydderch, Parch. D., Y Manse, Llandysul.
Richards, J. R., Gemydd, Aberfan, Merthyr Vale.
Richards, Parch. D., Ficerdy Llangynwyd, Morgannwg.
Richards, Evan, Mount Royal, Londonderry.
Richards, Jenkin, 42, Edward Street, Dowlais.
Richards, Lizzie, Myrtle Hill, Myddfai, Llanymddyfri.
Richards, Raymond, 14, Cliff Terrace, Aberystwyth.
Roberts, Aeronwy, Llys Aeron, Aberaeron.
Roberts, David, Ysgol Gyngor, Bwlchllan, Felinfach.
Roberts, D. C., Aberystwyth.
Roberts, D. O., 14, Park Lane, Aberdâr.
Roberts, Ray R., High School, Gosport, Hants.
Roberts, Parch. W. D., Rheithordy Llanfair, Harlech, Meirion.
Roberts, G. J., Cartref, Abercanaid, Merthyr.
Robinson, Lady, Hill Side, Penylan, Caerdydd.
Rogers, Parch. R. S., Abertawe.
Rowlands, J. Wilfred, 25, Cholmeley, Park, Highgate, N. 6.

Sturdy, Parch. A., Ficerdy Ton, Pentre, Rhondda.

Thomas, Parch. A. S. [Anellydd], Rheithordy Henry's Moat, Penfro.
Thomas, B. B., Coleg Harlech, Meirion.
Thomas, Syr D. Lleufer, Derlwyn, Whitchurch, Morgannwg.
Thomas, Parch. Daniel, Ficerdy Caio, Llandeilo.
Thomas, David, Eirianfa, Aberystwyth.
Thomas, David, 193, Mount View Road, Crouch Hill, N. 4.
Thomas-Jones, Canon D., Ficerdy Caernarfon.
Thomas, D. I., Derwen, Heol-y-bont, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, Miss G., Brynffynnon, Aberfan Road, Merthyr Vale.
Thomas, Parch. D. Arafnah, Christ Church, Oswestry.
Thomas, Parch. D. Rhys, [Llwyncelyn], Arfryn, Aberaeron.
Thomas, Parch. E. D., St. Mary's Church, Clifford, Hereford.
Thomas, Edward [Ap Tydfil], Cwmdu House, Cwmdu, Abertawe.
Thomas, E. T., Bodeifion, Aberteifi.
Thomas, Mrs., Rhosybedw, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, Griffith, Llysteify, Gwauncaegurwen.
Thomas, J. Aeron, Dolgoy, West Cross, Abertawe.
Thomas, J. Hefin, Tŷ'r Ysgol, Penrhyndeudraeth, Gogledd Cymru.
Thomas, Parch. J. Ishmael, Stamford Rivers Rectory, Ongar, Essex.
Thomas, J. J., St. Hilary, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, John, 46, Richard Street, Maerdy, Rhondda.
Thomas, John, Park Crest, Park View, Pontypŵl.
Thomas, John, Blaenpant House, Felinfach.
Thomas, J., Tynffordd, Llanwnen, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, J. Lloyd, Ysgol Sir, Llanfyllin.
Thomas, J. R., Glyn, Talgarreg.
Thomas, Parch. Keinion, Trevôn, Beaumaris.
Thomas, M. A., Glaslwyn, Cribin, Llanybydder.
Thomas, M. [Mati'r Ddôl], Ysgol Caerwedros, Cross Inn, Llandysul.
Thomas, Parch. Nathaniel [Marlais], Hazelwell, Tenby.

Thomas, N. H., 58, Bryn Road, Abertawe.
Thomas, Philip, Glynivor, Castell Nedd.
Thomas, R. A., Ysgol Sir, Abergwaun.
Thomas, Sarah, Gwynnant, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, T. G., Ysgol Bechgyn, Burry Port.
Thomas, T. M., Bancffosfelen, Pontyberem.
Thomas, Thomas, Spring Gardens, Llandysul.
Thomas, Parch. Thomas, Y Manse, Gwernogle.
Thomas, Parch. W., Y Bryn, Amlwch, Môn.
Thomas, W., Llwynwermod, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Thomas, W., Tynewydd, Conwil Elfed, Caerfyrddin.
Timothy David, Llanfair, Llanbedr-pont-Steffan.
Tucker, Mrs., 1, Godwyn Gardens, Folkstone.

Walters, Parch. D. Eurof, 12, Hampstead Road, Lerpwl.
Walters, James, Llwynfedwen, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Walters, Capt. John, Ceylon and General Trading Co., 47, Victoria St., S.W. 1.
Walters, W., Ysgol Bechgyn, Burry Port.
Walters, Parch. D. W., Trem-y-môr, Rose Hill Road, Abertawe.
Williams, Alfred L., Blaentwrch, Farmers, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, Dan, Bryneglwysfach, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, Daniel, Pantmaen, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, David, Danygroes, Tonyrefail, Morgannwg.
Williams, D., Rhosybedw, Llanycrwys, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, D. D., Argoed Hall, Tregaron.
Williams, Parch. D., Ficerdy Glascwm, Builth Wells.
Williams, D. Emrys, Bronllwyn, Caradog Road, Aberystwyth.
Williams, Parch. D., Ficerdy Bryneglwys, Corwen.
Williams, Parch. D. E., Y Manse, Pontyberem.
Williams, D. J., Ysgol Sir, Abergwaun.
Williams, D. T., Tŷ'r Ysgol, Brook, Laugharne.
Williams, D. T., Tŷ'r Ysgol, Cribin, Llanybydder.
Williams, Evan, Froodvale Lodge, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, Miss E. G., Peterwell School, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, E. G., Stanley House, Tregaron.
Williams, G. J., Bryntaf, Gwaelod-y-Garth, Caerdydd.
Williams, Hugh, Waunfawr, Tregaron.
Williams, Hugh, Treuddyn, Bryngwyn, Gaiman, Territorio del Chubut, via Buenos Aires, South America.
Williams, Isaac, Llandre, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, Parch. Isaac Harries, [Caeron], Ficerdy Llanrhystyd, Aberystwyth.
Williams, Hybarch Archiagon J. E., Bryneglwys, Chirk.
Williams, J., Ysgol Gyngor, Llanddewi Velfrey, Narberth.
Williams, Parch. J. E., Y Manse, Llanddewi Brefi, Tregaron.
Williams, J. Lloyd, Bronawel, Bangor, Gogledd Cymru.
Williams, Parch. J. O., Rheithordy Gelligaer, Caerdydd.
Williams, Parch. J. R., Ficerdy Rhymney, Mynwy.
Williams, J. R., 26, Edmund Street, Bangor, Gogledd Cymru.
Williams, John, Dolgwmisa, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, John, 66, Okehampton, Llundain, N. W. 10.
Williams, Joseph, 40, High Street, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, Parch. Lewis, Y Manse, Rhydygwin, Felinfach.
Williams, Mathew, Rhyd-y-deri, Cellan, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, M. H., Bancylan, Llansadwrn, .
Williams, Owen, Isallt, Nevin, Caernarfon.
Williams, Phillip, Earl's Court, Llundain.
Williams, Hybarch Archiagon R., Parc Henri, Dryslwyn.
Williams, R. R., Bryngoleu, Llannon, Llanelli.
Williams, Parch. T. Elwy, Trefriw, Caernarfon.
Williams, Tom, Glanrhydypysgod, Maesycrugiau.
Williams, Tom, Elmtree Avenue, Aberystwyth.
Williams, Tom, Hyfrydle, Glyn Nedd, Morgannwg.
Williams, Parch. T. Harries-, [Bedwyn], Ficerdy St. Barnabas, Abertawe.

Williams, W. Harries-, [Gwilym Aeron], 123, Burdett Road, Llundain, E. 3.
Williams, Parch. W. Meurig, Rose Villa, Caergeiliog, Valley, Môn.
Williams, W. Price, Penybryn, Towyn, Meirion.
Williams, W. Gilbert, Talybont, Rhostryfan, Caernarfon.
Williams, W. [Crwys], 15, Wingfield Road, Caerdydd.
Williams, W. E. [Gwilym Rhug], 15, Penbryn Road, Colwyn Bay.
Williams, Parch. W. [Glynfab], Rheithordy Dinas Cross, Penfro.
Williams, William, Ddyfadfa, Pumpsaint, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, William, Bryncelyn, Senny Bridge, Aberhonddu.
Williams, Miss, Tivy Castle, Llanbedr-pont-Steffan.
Williams, William, Penbwlch, Llwyngroes, Llangeitho.
Worthington, Mrs. D., Pantybeudy Hall, Llangeitho.
Worthington, Dr. Alun T., Pantybeudy Hall, Llangeitho.